# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) 2025 i 2026

## Am y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

HC 333

CMA

Competition & Markets Authority

# Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2025 i 2026

### (Am y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026)

Cyflwynir yr adroddiad i Senedd y DU yn unol â pharagraff 14(3)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(4) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

Cyflwynir y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynir y cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2026–27 a'r ddogfen 'Public Expenditure: Statistical Analyses 2025', yn cyflwyno alldro'r llywodraeth ar gyfer 2025 i 2026 a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2026 i 2027

Gorchmynnwyd argraffu'r ddogfen gan Dŷ'r Cyffredin ar 9 Gorffennaf 2026.

HC 333

CMA/2026/07

© Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn adran Strategaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 25 Cabot Square, Llundain, E14 4QZ neu drwy ebost i general.enquiries@cma.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-6468-4

E03595059 07/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

Designed contents page

# Adroddiad Perfformiad

Designed front page

# Trosolwg Perfformiad: Cipolwg ar ein perfformiad eleni

## Rhagair y Cadeirydd

Mae gwaith yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn bwysig oherwydd bod marchnadoedd cystadleuol a diogelu defnyddwyr yn cael dylanwad er gwell ar fywydau bob dydd pobl. O bris gwers yrru, i gost gofalu am anifail anwes, gallu cael cartref fforddiadwy, neu wybodaeth glir i brynu tocyn ar gyfer digwyddiad byw, mae'r CMA wedi rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl a gwella dewis, ymddiriedaeth a hyder eleni.

Ar yr un pryd, mae gennym rôl unigryw o ran helpu i wneud tirwedd reoleiddio'r DU yn ased cenedlaethol er mwyn cefnogi twf a buddsoddiad. Mae hynny'n bwysicach nag erioed yn yr amgylchedd economaidd a geowleidyddol heriol sydd ohoni. Mae rheoleiddio rhagweladwy a chymesur yn ysbrydoli busnesau a buddsoddwyr i sefydlu yn y DU, i greu swyddi, ac i gyfrannu at fwy o ffyniant i bawb.

Am y rhesymau hyn, roeddwn yn falch iawn o gael fy mhenodi'n Gadeirydd parhaol y CMA eleni, gan ymuno â thîm ymroddedig iawn sydd ag ymdeimlad cryf o bwrpas. Dechreuais drwy nodi 3 ymrwymiad: pwyslais cadarn ar y pethau sydd bwysicaf i ddinasyddion a busnesau'r DU; lleihau'r baich ar fusnesau mewn ffordd ystyrlon drwy drawsnewid sut rydym yn gweithio; a gwelliant amlwg yn y ffordd rydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

Dechreuodd proses newid y CMA ddiwedd 2024, gan gyflymu drwy gydol 2025 i 2026. Aethom ati i ailgyfeirio ein portffolio i adlewyrchu meddylfryd penodol o blaid twf, ond gan beidio byth â cholli ffocws ar ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a chefnogi gwydnwch aelwydydd yn y DU mewn cyfnod anodd. Fe wnaethom wrando ar adborth gan randdeiliaid a herio ein hunain i weithredu'n gyflym lle'r oedd angen newid. Drwy ein rhaglen pedair elfen, 4P, fe wnaethom ddefnyddio egwyddorion synnwyr cyffredin i symleiddio prosesau, lleihau beichiau a chyfrannu at apêl y DU fel cyrchfan i wneud busnes a buddsoddi.

Fe wnaethom lansio Strategaeth newydd ar gyfer 2026–2029, sy'n nodi sut byddwn yn defnyddio ein pwerau i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol – yn benodol, **sbarduno twf economaidd a gwella ffyniant aelwydydd**. Mae hon wedi bod yn flwyddyn o gyflawni mewn ffordd ystyrlon tuag at gyrraedd yr uchelgais honno.

**Defnydd pendant o'n pwerau cryfach i ddiogelu defnyddwyr** – cwblhau cyfres o achosion ar brisio ar-lein, sicrhau dirwyon ac, am y tro cyntaf, gorchymyn gwneud ad-daliadau uniongyrchol o dan y drefn. Ochr yn ochr â hyn, canllawiau clir i sbarduno newidiadau mewn ymddygiad busnesau a chefnogi hyder mewn meysydd datblygol, fel deallusrwydd artiffisial asiantaidd. A phan gafwyd risg o brisiau'n cael

eu gwthio i fyny mewn marchnadoedd hanfodol yn sgil siociau allanol – yn enwedig yr argyfwng yn y Dwyrain Canol – fe wnaethom ymateb yn gyflym ac yn gadarn. **Camau mawr i sbarduno twf, arloesedd a dewis i ddefnyddwyr o dan y drefn marchnadoedd digidol** – gyda 3 dynodiad Statws Marchnad Strategol (SMS) a chyfres barhaus o ymyriadau llawn effaith, wedi'u targedu, yng ngwasanaethau chwilio Google ac ecosystemau symudol Google ac Apple. Ac yn awr, ymchwiliad newydd i ecosystem meddalwedd busnes Microsoft. Mae miliynau o bobl a channoedd o filoedd o fusnesau yn y DU eisoes yn elwa o'r canlyniadau rydym wedi'u sicrhau. Ac mae mwy ar y gweill.

**Rhaglen ehangach o waith dwys sy'n canolbwyntio ar dwf i gefnogi strategaeth ddiwydiannol y llywodraeth** – o'n hastudiaeth o'r farchnad seilwaith peirianneg sifil, i gyngor polisi ac ymchwil economaidd ar yr her ehangu'n gymesur (*scaleup*) a'r potensial i gaffael cyhoeddus ddod yn gyfrwng pwysig ar gyfer siapio'r farchnad. **Ac, ochr yn ochr â hyn, gweithredu i gefnogi gwerth i drethdalwyr** – gan gynnwys sicrhau taliadau sylweddol yn ôl i'r GIG yn ein hachosion fferyllol, a chamau parhaus i ganfod ac atal rigio cynigion ym maes caffael cyhoeddus.

Mae Cyfeiriad Strategol 2025 y llywodraeth i'r CMA yn cydnabod yn glir werth cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr i sicrhau canlyniadau fel y rhain. Roeddem yn croesawu eglurder y fframwaith hwnnw, yn ogystal â chynigion mwy diweddar i ddiweddaru a chryfhau atebolrwydd yn y drefn gystadleuaeth a fydd, yn ein barn ni, yn gwella ein gallu i gyflawni, gan gynnal annibyniaeth y CMA wrth wneud penderfyniadau ar yr un pryd.

Yn weithredol, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau mwy o effeithlonrwydd, gan gadw islaw'r gyllideb a ddyrannwyd i ni gan Senedd y DU a'n rhoi mewn sefyllfa gref i gyflawni rhaglen uchelgeisiol i drawsnewid y sefydliad er mwyn cefnogi ein gallu i gyflawni ein Strategaeth. Ein nod yw darparu'r gwerth uchaf posibl gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni, gyda phwyslais clir ar wella ystwythder a chynhyrchiant ym mhopeth a wnawn. Mae trawsnewid digidol, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol, yn rhan ganolog o'n hymdrechion.

Yn olaf, ac yn sail i bopeth, rydym wedi cadw at ein gair ac wedi gwneud cynnydd ystyrlon wrth wella ein dull o olrhain a monitro perfformiad. Nid gwyddor fanwl gywir mo hon, ond rwy'n hyderus ein bod wedi datblygu ein methodoleg a'n dulliau casglu data, gan gynnwys yr arolygon cyntaf i randdeiliaid sydd wedi'u hysgogi gan y CMA – ac sy'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. Mae'r rhain yn adlewyrchu effaith ein trawsnewidiad pedair elfen, 4P, hyd yma, gyda phwyntiau defnyddiol i'w dysgu o ran beth i'w wneud nesaf.

Rydym ni wedi cael blwyddyn dda – gyda diolch i Sarah, y Bwrdd, y tîm gweithredol a chydweithwyr ar draws y CMA am y gwaith caled sy'n ei gwneud hi'n bosibl inni gyflawni o ddydd i ddydd.

## Cipolwg ar 2025 i 2026: yr ystadegau allweddol

**Effaith uniongyrchol: buddion mesuradwy i ddefnyddwyr a gwerth i drethdalwyr**

**£3.3bn** o fanteision uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel prisiau gwell ac osgoi niwed i ddefnyddwyr, ar gyfartaledd bob blwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf

Bron **£25** mewn arbedion wedi cael eu dychwelyd i ddefnyddwyr am bob £1 mae trethdalwyr y DU wedi'i gwario ar ein gwaith dros y 3 blynedd diwethaf

**Effaith anuniongyrchol: hybu cydymffurfiaeth busnesau â'r gyfraith**

| | |
|---|---|
| **£78.2m** o ddirwyon wedi'u rhoi... *gan atal ymddygiad anghyfreithlon sy'n niweidio defnyddwyr ac yn amharu ar allu busnesau i gystadlu'n deg* | **209** o lythyrau rhybuddio a chynghori... *yn rhoi rhybudd i fusnesau gydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr neu wynebu canlyniadau* |

**Cyflymder ac effeithlonrwydd**

| | | |
|---|---|---|
| **100%** o'n swyddogaethau rheng flaen wedi'u cyflawni o fewn y **terfynau amser statudol** | **63%** o'n rhanddeiliaid yn ymateb yn gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt am eu **profiad o Gyflymder** mewn gwaith achos... *llinell sylfaen gref ar gyfer rhagor o welliant* | **100%** o'r **targedau newydd ar gyfer uno cwmnïau** wedi'u cyflawni... *gan helpu i leihau'r baich ar fusnesau sy'n uno* |

**Bodlonrwydd rhanddeiliaid**


Cafodd dros **8 o bob 10** rhanddeiliad brofiad cadarnhaol o ryngweithio â'r CMA:

- **84%** mewn gwaith achos
- **80%** y tu hwnt i waith achos

### Y tueddiadau yn y blynyddoedd diwethaf

| | |
|---|---|
| **MANTEISION UNIONGYRCHOL I DDEFNYDDWYR** | **DIRWYON A RODDWYD A THALIADAU EX GRATIA** |




## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

| | |
|---|---|
| **4** cyfarfod o'r Cyngor Twf a Buddsoddi – dealltwriaeth newydd a her adeiladol gan arweinwyr 11 o grwpiau mawr o fusnesau a buddsoddwyr | **Cyfarfod cyntaf** y Fforwm Defnyddwyr newydd, i ddod â lleisiau grwpiau defnyddwyr allweddol yn rhan o'n gwaith |
| **37** o ddigwyddiadau fel siaradwyr allanol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r drefn newydd i ddefnyddwyr, wedi'u targedu'n bennaf at fusnesau | **10** digwyddiad i fusnesau a buddsoddwyr ar y newid yn null y CMA o ymwneud â rheoli uno cwmnïau yn y DU |
| Ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn gyfranogol drwy gydol achosion, gan gyfarfod dros **170** o randdeiliaid yn y 3 ymchwiliad SMS cyntaf | Cymryd rhan mewn **169** o ddigwyddiadau – gan gynnwys deallusrwydd artiffisial a'r ffordd orau i'r CMA gefnogi twf |

# Y gwaith achos mwyaf arwyddocaol: Cipolwg ar 2025 i 2026

## Diogelu defnyddwyr

- **14 ymchwiliad o dan y drefn newydd** wedi'u lansio ar brisio diferol ('drip pricing'), adolygiadau ffug a saernïaeth dewis ar-lein. £4.2m o ddirwyon ac iawn i 80,000 o ddefnyddwyr wedi'u sicrhau drwy'r ymchwiliad cyntaf

- Newidiadau cyflym ac effeithiol gan **Ticketmaster** i wneud gwahaniaeth go iawn i gefnogwyr ffyddlon

- Canllawiau i fusnesau i gefnogi **defnyddio deallusrwydd artiffisial asiantaidd mewn ffordd ddiogel a dibynadwy**

## Marchnadoedd

- Diwygiadau eang i **wasanaethau milfeddygon** i helpu miliynau o berchnogion anifeiliaid anwes i gael bargen well
- Argymhellion clir i'r llywodraeth i ddiwygio **caffael ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd** i gefnogi twf a buddsoddiad
- Ymateb hyblyg a phendant i'r argyfwng yn **y Dwyrain Canol**, gan gefnogi fforddiadwyedd i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU

## Eiriolaeth

- Dod â meddwl am gystadleuaeth yn rhan ganolog o ddatblygu polisïau drwy gyfrwng gwaith ar y **Strategaeth Ddiwydiannol**, gan gynnwys **ehangu'n gymesur**, **caffael cyhoeddus** a **rheoleiddio arferion gwrth-gystadleuol**

## Rheoli uno cwmnïau


- Sicrhau mesurau unioni i helpu i **gadw costau cyn ised â phosibl** mewn meysydd fel nwyddau groser a gwelliannau i'r cartref
- Diweddariad ehangach o'r **mesurau unioni wrth uno cwmnïau**, gan gefnogi eglurder a sicrwydd i fusnesau

## Gorfodi cystadleuaeth

- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gystadleuol wrth **adeiladu tai**, gyda thaliad gwerth £100m ar gyfer rhaglenni tai fforddiadwy
- Blwyddyn arwyddocaol ar gyfer dirwyon, gan gynnwys £99m wedi'i gadarnhau gan y llysoedd ar gyfer **prisiau gormodol cyffuriau thyroid y GIG**

## Y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol

- Y 3 dynodiad SMS cyntaf ar gyfer gwasanaethau **Chwilio ac Ecosystemau Symudol**, gan alluogi ymyriadau wedi'u targedu i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer twf, arloesi a buddsoddi ym maes technoleg yn y DU
- Ymchwiliad SMS newydd i **ecosystem meddalwedd busnes Microsoft**, gan gynnwys trwyddedu cwmwl



## Amdanom Ni

Mae’r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o lywodraeth y DU a dyma brif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Fel yr amlinellir yn ein Strategaeth (gweler y crynodeb isod), ein diben yw hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, a hynny â nod clir yn y pen draw, sef sbarduno twf economaidd a gwella ffyniant aelwydydd.

Mae’r CMA yn gweithredu ledled y DU gyda swyddfeydd yn Belfast, Caerdydd, Darlington, Caeredin, Llundain a Manceinion. Ar ddiwedd blwyddyn 2025 i 2026, roeddem yn cyflogi tua 1000 o bobl.

[Placeholder for graphic laying out functions.]

Mae’r CMA yn cael ei ariannu gan Drysorlys EF a’i noddi gan yr Adran Fusnes a Masnach (DBT), ac mae’n atebol i Senedd y DU. Rydym yn gosod ein Cynllun Blynyddol a’n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol gerbron Senedd y DU, yn ogystal ag ym mhob un o’r deddfwrfeydd datganoledig.

Mae ein strwythur llywodraethiant yn sicrhau tegwch, annibyniaeth, uniondeb, dadansoddiad trylwyr, trin gwybodaeth sensitif yn ofalus, defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol, a rheoli risgiau – gan gynnwys y risgiau a’r heriau a nodir ar t. 35.

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd, sy’n cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Anweithredol (y mae 2 ohonynt hefyd yn aelodau o Banel Cystadleuaeth y CMA, ac un ohonynt yn Gadeirydd Swyddfa’r Farchnad Fewnol), a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Y Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu’r CMA, sy’n gyfrifol am ddarbodaeth ac effeithlonrwydd y ffordd y mae’r CMA yn trin arian cyhoeddus. Rhaid i rai o swyddogaethau’r CMA gael eu cyflawni gan aelodau Panel y CMA. Mae gweithwyr y CMA yn weision sifil.

# Dadansoddiad o Berfformiad: Ein perfformiad eleni mewn mwy o fanylder

## Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Mae'r DU yn parhau i wynebu pwysau economaidd difrifol. Mae'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, ansefydlogrwydd geowleidyddol a newid technolegol cyflym yn dwysáu'r ansicrwydd i aelwydydd a chwmnïau fel ei gilydd. Mae hyder busnesau a'r ymddiriedaeth mewn sefydliadau yn parhau i fod yn fregus. Ar yr un pryd, mae pryderon cynyddol am ddiogelwch a sofraniaeth yn sbarduno pwyslais o'r newydd ar gryfhau gwydnwch economi'r DU – yn enwedig mewn sectorau sy'n strategol bwysig neu sydd â dibyniaethau critigol, fel technoleg a seilwaith.

Yn y cyd-destun hwn, nid dewisiadau polisi haniaethol yw cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr. Mae sut mae marchnadoedd yn gweithredu, fforddiadwyedd a lefelau hyder defnyddwyr i gyd yn cael dylanwad uniongyrchol ar benderfyniadau buddsoddi, cynhyrchiant, gwydnwch aelwydydd, a gallu'r economi i addasu a thyfu mewn byd ansicr.

Rhwng 2025 a 2026, ymrwymodd y CMA i her y realiti hwn. Er na allwn reoli ein hamgylchedd allanol, mae gennym reolaeth lwyr ar ein model gweithredu, ein diwylliant, gosod cyfeiriad strategol a theilwra ein hadnoddau i gyd-fynd â'r canlyniadau y mae taer eu hangen ar y DU. Rydym yn credu yng ngrym cystadleuaeth, ac mae ffyniant a sefydlogrwydd hirdymor y DU yn bwysig i ni. Felly, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle, gan gyflawni blwyddyn o weithgarwch llawn effaith, a pharhau i fod yn ystwyth wrth ymateb i gyfleoedd i ychwanegu gwerth wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Fe wnaethom lansio Strategaeth newydd feiddgar sy'n rhoi'r canlyniadau sydd eu hangen ar y DU – **twf economaidd a ffyniant aelwydydd** – wrth galon ein holl waith. Bydd y canlyniadau hyn, sy'n cyd-fynd â Chyfeiriad Strategol y llywodraeth, yn llywio ein gwaith dros y 3 blynedd nesaf.

Mae ein Strategaeth yn adlewyrchu'r dull gweithredu pwrpasol a phragmatig y mae'r CMA wedi'i arddel yn fwy eglur dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n golygu sicrhau effaith cyn gyflymed â phosibl a defnyddio'r ystod lawn o adnoddau'r CMA yn y ffordd fwyaf cymesur bosibl; a helpu i sicrhau bod grym cystadleuaeth yn cael ei ddefnyddio, ochr yn ochr ag ysgogiadau polisi eraill, i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r Dadansoddiad hwn o Berfformiad yn dangos sut y gwnaethom gyflawni ar sail ein cynllun, gan gynnwys drwy gyfrwng:

- **Gorfodaeth gadarn i ddefnyddwyr**, gan ddefnyddio ein pwerau gorfodi cryfach yn strategol – helpu busnesau i gydymffurfio â rheolau newydd, agor ymchwiliadau i 14 o fusnesau a sicrhau ad-daliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr am y tro cyntaf;

- Gweithredu ar draws y farchnad mewn **marchnadoedd i ddefnyddwyr**, yn enwedig gwasanaethau milfeddygon, tanwydd ffyrdd, deintyddiaeth breifat ac olew gwresogi;
- **Gwaith marchnadoedd digidol cymesur, wedi'i dargedu** i sbarduno arloesedd a thwf economaidd ar draws gwasanaethau Chwilio ac Ecosystemau Symudol;
- **Ailddychmygu ein rôl, nid yn unig yn gorfodi cystadleuaeth ond yn ei *galluogi*** – defnyddio cyfuniad o wybodaeth am bolisïau, micro-economeg ac arbenigedd mewn marchnadoedd i gynghori'r llywodraeth ynghylch lle gall cystadleuaeth helpu i gyflawni nodau economaidd cenedlaethol (gan gynnwys mewn perthynas â chwmnïau yn y DU sy'n ehangu'n gymesur, caffael cyhoeddus a gwell rheoleiddio) gan gynnwys drwy ein hastudiaeth o'r farchnad peirianneg sifil.

Yn fwy nag erioed o'r blaen, rydym wedi gwneud dewisiadau ymwybodol ac ystwyth am y ffordd orau o sicrhau effaith ystyrlon yn gyflym, gan feddwl yn greadigol ar draws ein pecyn cymorth a gwneud penderfyniadau bwriadol am gost cyfle. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu dilyn y broses gyfreithiol lawn; mewn achosion eraill, roedd yn golygu sicrhau canlyniadau cyflymach drwy gyfrwng canllawiau, llythyrau rhybuddio, ymrwymiadau neu setliadau.

Fe wnaethom hefyd ddal ati â'n newid sylweddol yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, mewn gwaith achos a thu hwnt i hynny. Fe wnaethom gryfhau'r berthynas â busnesau a buddsoddwyr drwy'r Cyngor Twf a Buddsoddi; ac rydym yn awr yn dyfnhau ymgysylltiad amlochrog â chyrff defnyddwyr drwy'r Fforwm Defnyddwyr newydd. Fe wnaethom hefyd gomisiynu arolygon adborth rheolaidd cyntaf y CMA, sy'n sail i ragor o newidiadau i wella sut rydym yn gweithio a sut rydym yn asesu ein perfformiad.

Yn sail i hyn i gyd, fe wnaethom barhau i wreiddio ein pedair elfen 4P ar draws y sefydliad. Mae'r trawsnewid hwn yn cefnogi mwy o gyflymder, rhagweladwyedd, cymesuredd ac ymgysylltu uniongyrchol â rhanddeiliaid drwy ein prosesau. Mae'n gyfraniad craidd at amgylchedd rheoleiddio yn y DU sy'n meithrin hyder busnesau ac yn cefnogi buddsoddiad – ac yn un sydd wedi helpu i lywio newid cadarnhaol nid yn unig i'r CMA, ond ar draws y dirwedd reoleiddio ehangach.

Rwy'n falch o sut mae'r CMA wedi ymateb i flwyddyn eithriadol o heriol i aelwydydd a busnesau, ac o ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein pobl. Mae ymrwymo i sicrhau newid go iawn yn ein sefydliad, ac effaith barhaus ar economi, dinasyddion a busnesau'r DU, wedi golygu bod yn rhaid i'r sefydliad cyfan ddod at ei gilydd wrth i ni esblygu ein diwylliant a'n prosesau. Rydym yn symud i gyfeiriad cadarnhaol iawn wrth i ni fwrw ymlaen â hyn i'r flwyddyn newydd, ac rwy'n hyderus yn ein gallu i barhau â'r trywydd hwn wrth i ni edrych tua'r dyfodol.

## Atebolrwydd ac Annibyniaeth

**Atebolrwydd seneddol:** Mae'r CMA yn atebol i Senedd y DU am y modd rydym yn cyflawni ein mandad. Ochr yn ochr ag adrodd yn rheolaidd i Senedd y DU (gan gynnwys drwy'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn), rydym yn sicrhau lefelau uchel o gyfathrebu ac allgymorth gyda Seneddwyr ledled y DU ar faterion amrywiol sy'n ymwneud â'n gwaith. Eleni, fe wnaethom roi tystiolaeth ffurfiol i 6 Phwyllgor Seneddol ar lefel y DU a'r seneddau datganoledig, a chwrdd â 6 Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn San Steffan (a grwpiau Seneddol) i egluro ein gwaith.

**Annibyniaeth:** Mae mandad y CMA i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr wedi'i ymgorffori mewn statud. Mae ein hannibyniaeth weithredol yn rhan sylfaenol o uniondeb y drefn. Ar yr un pryd, rydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar bolisi, gan gyflawni ein mandad er budd gorau'r DU a chydnabod bod cyd-destun y byd go iawn, a blaenoriaethau polisi'r llywodraeth, yn bwysig. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cystadleuaeth yn cael yr effaith fwyaf bosibl, ond hefyd yn ein galluogi i gynnwys meddwl am gystadleuaeth mewn ffordd hyderus a thryloyw mewn trafodaethau polisi ehangach – hyd yn oed os nad dyma'r nod polisi amlycaf, er enghraifft mewn meysydd fel strategaeth ddiwydiannol a fforddiadwyedd.

**Rhyngweithio â'r llywodraeth**:

- Mae Cyfeiriad Strategol y llywodraeth i'r CMA yn rhoi tryloywder pwysig am y blaenoriaethau polisi y gallwn helpu i'w datblygu, gan gydnabod ein hannibyniaeth yn glir ar yr un pryd. Mae ein Strategaeth a'n Cynllun Blynyddol newydd yn cyd-fynd â'r Cyfeiriad hwn, ac rydym yn rhoi crynodeb o sut rydym yn rhoi'r Cyfeiriad ar waith isod. Mae'r berthynas rhwng y CMA a'r llywodraeth hefyd yn seiliedig ar Gytundeb Fframwaith.
- Yn yr un modd â chyrff eraill, mae'r CMA yn dod o dan gylch gwaith y Cynllun Gweithredu ar Reoleiddio. Rydym wedi bod yn rhagweithiol o ran ymateb i ddisgwyliadau: gweithio'n rhagweithiol i leihau beichiau a gwella sicrwydd i fusnesau drwy ein rhaglen pedair elfen, 4P; a gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy ein metrigau perfformiad newydd.
- Rydym yn gwneud argymhellion, yn rhoi cyngor, ac yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn rhagweithiol â llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn gweithredu fel cynghorydd arbenigol uchel ei barch ar draws meysydd polisi allweddol, ac yn helpu'r llywodraeth i feddwl am gystadleuaeth wrth ddatblygu polisïau. Mae rhagor o wybodaeth am ein hargymhellion a'n heiriolaeth ar gael yn t. 24 isod.

### Sut rydym yn rhoi Cyfeiriad Strategol y llywodraeth ar waith

Mae Cyfeiriad Strategol y llywodraeth i'r CMA yn rhoi fframwaith pwysig i arwain y CMA wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau statudol. Mae ein gwaith eleni wedi adlewyrchu sawl thema bwysig o'r Cyfeiriad.

**1: Blaenoriaethu ymyriadau o blaid twf a buddsoddi, lle bynnag y mae gennym y disgresiwn i wneud hynny**

- Gweledigaeth gref o blaid twf wedi'i defnyddio ar draws ein portffolio 2025 i 2026 ac yn rhan sylfaenol o'r Strategaeth newydd
- Cymryd camau i wella'r ffordd mae'r farchnad peirianneg sifil yn gweithredu a helpu'r llywodraeth i ailddiffinio gwaith caffael ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd fel ysgogiad ar gyfer twf ac arloesedd
- Gwreiddio'r rhaglen pedair elfen, 4P, fel bod y drefn cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr yn cyfrannu at enw da'r DU fel lle gwych i wneud busnes a buddsoddi. Canolbwyntio ar gynyddu Cyflymder, Rhagweladwyedd, Cymesuredd ac ymgysylltu (Proses) yn gyffredinol
- Gwaith wedi'i dargedu o dan y rhaglen pedair elfen, 4P, i adnewyddu'r dull gweithredu ar gyfer mesurau unioni wrth uno cwmnïau i helpu i sicrhau bod y CMA yn gallu clirio achosion uno cwmnïau y gellir eu clirio; ac adolygiad strategol o fesurau unioni ar gyfer marchnadoedd i sicrhau mai dim ond y rhai sy'n cael effaith wirioneddol sy'n dal ar waith

**2: Blaenoriaethu camau gweithredu sy'n cael effaith glir ac uniongyrchol yn y DU, a meddwl yn ofalus am pryd a sut rydym yn ymwneud â materion byd-eang**

- Blaenoriaethu buddiannau'r DU wedi'i ymgorffori yn y Strategaeth newydd. Pwyslais cryf ar draws ein holl waith ar sicrhau manteision pendant i economi'r DU, ac i ddinasyddion a busnesau'r DU.
- Mewn marchnadoedd digidol a rheoli uno, dim ond pan mae'r CMA yn y sefyllfa orau, gan gynnwys mewn perthynas ag ymyriadau asiantaethau eraill ledled y byd, y byddwn yn gweithredu.

**3: Gweithio gyda rheoleiddwyr perthnasol eraill i sicrhau bod camau rheoleiddio yn gydlynol ac yn amserol a'u bod yn cefnogi marchnadoedd, twf a buddsoddi dynamig yn y DU**

- Agwedd gydweithredol at weithio gyda phartneriaid rheoleiddio. Ym maes diogelu defnyddwyr, er enghraifft, gweithredu ochr yn ochr â nifer o gyrff eraill ledled y DU sydd â chyfrifoldebau gorfodi, gan gynnwys safonau masnach ac aelodau eraill o'r Bartneriaeth Diogelu Defnyddwyr (CPP).
- Gweithio i gyfuno rheoleiddio mewn marchnadoedd digidol drwy'r Fforwm Cydweithio ar Reoleiddio Digidol (DRCF), gan gynnwys rhaglen helaeth ar ddeallusrwydd artiffisial.
- Cyd-fynd â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar ddatganiad blaenoriaethu sydd â'r bwriad o wella hyder busnesau i gydweithio'n gyfreithlon.

**4: Defnyddio'r Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol newydd yn annibynnol, yn hyblyg, yn gymesur ac ar y cyd i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer twf**

- 3 dynodiad SMS wedi'u gwneud mewn marchnadoedd digidol craidd (chwilio, ecosystemau symudol) eleni, gyda dull gweithredu hyblyg a pharhaus wedi'i dargedu er mwyn sicrhau gwelliannau drwy amrywiaeth o ffyrdd
- Ymchwiliad i ecosystem meddalwedd busnes Microsoft wedi'i lansio erbyn hyn; gwelliannau ystyrlon i wasanaethau cwmwl Microsoft ac Amazon wedi'u sicrhau

**5: Defnyddio ein hystod o adnoddau i helpu i dyfu'r economi drwy hybu ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr, gan atal arferion corfforaethol gwael ar yr un pryd**

- Dull strategol o ddiogelu defnyddwyr, sy'n cynnwys gorfodaeth a chanllawiau i gefnogi busnesau i gydymffurfio. 14 ymchwiliad wedi'u lansio eleni mewn meysydd blaenoriaeth ac 20 o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi neu eu diweddaru
- Rhaglen eang o waith ar farchnadoedd i ddefnyddwyr. Diwygiadau helaeth yn deillio o ymchwilio i'r farchnad gwasanaethau milfeddygol; lansio gwaith ym maes deintyddiaeth breifat ac olew gwresogi

**6: Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gystadleuol sy'n niweidio busnesau a defnyddwyr cyn gynted â phosibl, yn unol â'r ddyletswydd newydd i weithredu'n gyflym**

- Gorfodi cystadleuaeth mewn nifer o sectorau, gydag amrywiaeth o adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau effaith ystyrlon cyn gynted â phosibl. Rhoddwyd dirwyon o dros £77m yn y diwydiant ceir, gan helpu i atal ymddygiad gwrth-gystadleuol mewn ffordd gadarn. Taliad o £100m ar gyfer rhaglenni tai fforddiadwy wedi'i sicrhau gan adeiladwyr tai drwy gyfrwng ymrwymiadau

**7: Blaenoriaethu meysydd lle gall cystadleuaeth chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau effeithlonrwydd a phrofiad gwell i ddefnyddwyr wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol**

- Gwaith helaeth i fynd i'r afael â rigio cynigion ym maes caffael cyhoeddus drwy ddulliau canfod gwell a symud tuag at sgrinio systematig
- Gwaith gorfodi lle ceir amheuaeth o ymddygiad gwrth-gystadleuol yn y sector cynhyrchion fferyllol, gyda thaliad gwerth £23m i'r GIG wedi'i sicrhau

**8: Parhau i roi tystiolaeth a chyngor i'r llywodraeth ar faterion polisi allweddol, gan gynnwys ar ddatblygu a gweithredu Strategaeth Ddiwydiannol**

- Mae cyfuniad o arbenigedd ym meysydd polisi, micro-economeg a marchnadoedd yn helpu'r llywodraeth i alluogi cystadleuaeth er mwyn cyflawni nodau polisi cenedlaethol. Pwyslais ar ehangu'n gymesur, caffael cyhoeddus, a rheoleiddio arferion gwrth-gystadleuol
- Wedi bwrw ymlaen â Rhaglen Twf yr Uned Micro-economeg (MU), gan ddyfnhau'r sylfaen dystiolaeth ar ffactorau hanfodol sy'n ysgogi ac yn rhwystro twf
- Gwaith cynghori ac adrodd sylweddol wedi'i wneud drwy gyfrwng cyngor arbenigol ar gymorthdaliadau a swyddogaethau'r farchnad fewnol, gan gynnwys 36 o adroddiadau annibynnol ar gymorthdaliadau ac adroddiad blynyddol ar ddatblygiadau ym marchnad fewnol y DU

**9: Parhau i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyfoes i ddangos ein heffaith ar economi'r DU**

- Asesiad Effaith ehangach y CMA wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn, a gwybodaeth gan randdeiliaid wedi'i chasglu yn yr arolwg cyntaf o blith cyfres o arolygon newydd rheolaidd

Cyflwynodd **Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024** ddwy drefn newydd nodedig y mae'r CMA wedi'u defnyddio'n llawn eleni.

O ran **Diogelu Defnyddwyr**, mae gan y CMA becyn cymorth gwell erbyn hyn sy'n cynnwys gallu penderfynu a dorrwyd cyfreithiau diogelu defnyddwyr, mynnu iawn i ddefnyddwyr yr effeithiwyd arnynt, a rhoi sancsiynau ar fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio heb fynd drwy'r llysoedd. Mae ein hagwedd at ddiogelu defnyddwyr yn strategol iawn, gan gyfuno gorfodaeth mewn meysydd blaenoriaeth â helpu busnesau i gydymffurfio â'r rheolau newydd (drwy ganllawiau ac ymgysylltu rhagweithiol).

Mae'r **Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol** (DCMR) yn galluogi'r CMA i hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol sy'n symud yn gyflym, gan ddiogelu defnyddwyr a busnesau yn y DU rhag arferion annheg neu niweidiol gan y cwmnïau technoleg mwyaf oll (y mae'r drefn yn berthnasol iddynt). Os bodlonir amodau penodol, gellir dynodi'r cwmnïau hyn â statws marchnad strategol (SMS) mewn perthynas â gweithgaredd digidol penodol. Gall y CMA geisio sicrhau gwelliannau o ran ymddygiad cwmnïau a chreu cyfleoedd ar gyfer arloesi a thwf ar draws y sector technoleg, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.

## Diogelu Defnyddwyr

### Trosolwg

**Uchelgais y CMA** ar gyfer diogelu defnyddwyr yw hybu ymddiriedaeth a hyder, er mwyn i bobl allu cymryd rhan weithredol yn yr economi ac er mwyn i fusnesau allu cystadlu'n deg. Mae ein gweithgareddau'n cefnogi gwell ffyniant i aelwydydd a gwell twf economaidd, gan atal arferion corfforaethol gwael ar yr un pryd.

Ein **blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** oedd canolbwyntio ar yr achosion mwyaf niweidiol a chlir o dorri'r gyfraith, gan flaenoriaethu meysydd gwariant hanfodol i gefnogi aelwydydd sydd dan bwysau. Fe wnaethom roi pwyslais penodol ar ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau, gan ddatblygu canllawiau hygyrch i gefnogi ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth.

### Astudiaeth Achos 1: Gwneud gwahaniaeth i gefnogwyr drwy gyfrwng ein hymchwiliad i Ticketmaster

Mae digwyddiadau byw yn rhoi profiadau bythgofiadwy i filiynau o bobl yn y DU. Mae bron £7bn yn cael ei wario bob blwyddyn ar gerddoriaeth fyw yn unig. Mae cefnogwyr yn haeddu gweld gwybodaeth glir a chywir ymlaen llaw.

Daeth arferion Ticketmaster dan y chwyddwydr yn dilyn taith Oasis Live '25. Roedd gan y CMA nifer o bryderon, a buom yn ymchwilio i'r rhain drwy ddefnyddio pwerau o dan ein pecyn cymorth blaenorol o adnoddau ym maes defnyddwyr. Ym mis Medi 2025, sicrhaodd y CMA ymrwymiadau ffurfiol gan Ticketmaster i roi rhagor o wybodaeth i gefnogwyr am brisiau a disgrifiadau clir o'r hyn yn union maent yn ei gael am eu harian. Gyda chefnogaeth adroddiadau rheolaidd i'r CMA, mae hyn wedi creu newidiadau cyflym ac effeithiol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i gefnogwyr ffyddlon.

### Astudiaeth Achos 2: Datrys ein hymchwiliadau cyntaf dan y drefn newydd – prisio diferol ('drip pricing') mewn ysgolion gyrru

Dylai fod yn wir mai'r pris cyntaf mae cwsmeriaid yn ei weld yw'r pris y maent yn ei dalu. Gyda sefyllfa ariannol aelwydydd dan bwysau, rhaid i bobl allu siopa'n hyderus ar-lein. Dyna pam ein bod wedi blaenoriaethu gorfodaeth yn erbyn arferion prisio anghyfreithlon ar-lein, gan ddefnyddio ein pecyn cymorth cryfach yn sgil y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys ffioedd cudd neu ddiferol sy'n gallu golygu bod defnyddwyr yn gwario hyd at £3.5bn yn fwy ar-lein bob blwyddyn nag yr oeddent wedi'i fwriadu.

Ym mis Ebrill 2026, 5 mis ar ôl lansio'r drefn newydd, cwblhaodd y CMA ein hymchwiliadau cyntaf o dan drefn newydd y Ddeddf. Fe wnaethom ddarganfod nad oedd gyrwyr oedd yn archebu gwersi ar-lein gydag Ysgol Yrru'r AA ac Ysgol Yrru BSM (y ddwy'n eiddo i'r AA) yn cael gweld cyfanswm y prisiau ymlaen llaw, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Yn hytrach, roedd ffi archebu orfodol o £3 yn cael ei hychwanegu yn ddiweddarach yn y broses. Yn ogystal â rhoi dirwy o £4.2m,

defnyddiodd y CMA bwerau newydd i wneud iawn yn uniongyrchol am y tro cyntaf, gan orchymyn i'r AA ad-dalu tua £9 yr un ar gyfartaledd i dros 80,000 o unigolion oedd yn cael gwersi gyrru.

**Gwaith arwyddocaol arall a gyflawnwyd yn 2025 i 2026**

2025 i 2026 oedd 12 mis cyntaf y drefn newydd dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Dyma'r hyn a wnaethom eleni:

- Agor **ymchwiliadau** i 14 o fusnesau a setlo gyda 2
- Anfon 159 o **lythyrau cynghori a rhybuddio**, gydag effaith gyflym: newidiodd 90% o fusnesau eu hymddygiad ar adolygiadau ffug, er enghraifft, yn dilyn llythyrau cynghori
- Cyhoeddi neu ddiweddaru **20 o ddogfennau canllaw**
- Darparu **37 o ddigwyddiadau fel siaradwyr allanol**, gan gyrraedd tua **2,000 o bobl** drwy ddigwyddiadau, seminarau a sesiynau briffio

Buom yn targedu 3 maes gyda'n camau gorfodi cyhoeddus:

- **Prisio diferol**, gydag ymchwiliadau yn ymwneud â thocynnu eilaidd ac aelodaeth o gampfa, yn ogystal â chwblhau gwaith ar ffioedd ysgolion gyrru.
- **Adolygiadau ffug**, gan agor ymchwiliadau i 5 cwmni i ganfod a yw cyfreithiau defnyddwyr ar adolygiadau camarweiniol wedi cael eu torri, i adeiladu ar ymrwymiadau a sicrhawyd gan Amazon ym mis Mehefin 2025 i gwtogi ar adolygiadau ffug, gan gynnwys systemau canfod gwell a sancsiynau ar fusnesau.
- **Saernïaeth dewis ar-lein**, gan ymchwilio i ffioedd dewisol diofyn a chynigion ffug 'am gyfnod penodol' yn y sector nwyddau cartref.

Y tu hwnt i hyn, rydym yn parhau i lansio achosion annibynnol sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad busnesau penodol, lle mae gennym wybodaeth am dor-cyfraith posibl – er enghraifft, mae ein hymchwiliad i Adobe yn archwilio a yw ei ffioedd canslo cynnar yn annheg ac yn gamarweiniol.

**Gwreiddio pedair elfen y 4P wrth Ddiogelu Defnyddwyr**

- **Cyflymder**: cynnal ein hymchwiliadau diogelu defnyddwyr mor effeithlon ac mor gyflym â phosibl, fel yn achos ysgolion gyrru; symleiddio achosion fel eu bod yn canolbwyntio ar feysydd allweddol sy'n peri pryder; a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fusnesau sy'n destun ymchwiliad am amserlenni disgwyliedig a statws a chynnydd yr achos.
- **Rhagweladwyedd**: helpu busnesau i ddeall sut i gydymffurfio â chyfraith defnyddwyr, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau clir mewn fformatau sy'n helpu busnesau ym mhob sector o'r economi ac o bob maint i ddeall eu rhwymedigaethau; a chefnogi hyn gyda rhaglen ymgysylltu uchelgeisiol.

- **Cymesuredd**: canolbwyntio'r camau gweithredu cynnar ar ymddygiad mwy eithafol mewn meysydd lle dylai busnesau eisoes fod yn glir am y gyfraith, gan ymgysylltu'n adeiladol a rhoi gwybodaeth os nad ydynt yn siŵr sut i gydymffurfio. Mae ein dull o gasglu gwybodaeth yn ystod ymchwiliadau wedi cael ei dargedu'n fanwl iawn. Rydym hefyd yn datrys achosion drwy gonsensws lle gallwn wneud hynny, heb danseilio mesurau atal (ffioedd ysgolion gyrru, er enghraifft).
- **Proses**: gall rheolau newydd greu rhywfaint o ansicrwydd, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig, ac felly rydym yn ymgysylltu'n eang ac yn rhagweithiol â busnesau ac yn cyhoeddi canllawiau clir a hygyrch ar amrywiaeth o bynciau

**Dan sylw: Cefnogi busnesau i gydymffurfio drwy gyfrwng canllawiau ac allgymorth**
Pan fydd busnesau'n cydymffurfio â'r gyfraith, mae hynny'n arwain at ganlyniadau da i ddefnyddwyr. Mae'r CMA wedi croesawu ein rôl yn cefnogi hyn.

**Canllawiau.** Fe wnaethom gyhoeddi neu ddiweddaru 20 o ddogfennau canllaw, gan gynnwys deunyddiau allweddol ar sut y byddwn yn defnyddio'r drefn newydd, ochr yn ochr â chanllawiau trawsbynciol pwysig ar feysydd fel arferion masnachol annheg. Fe wnaethom hefyd baratoi cynnyrch sydd wedi'i dargedu fwy manwl, ar dryloywder prisiau er enghraifft, wedi'i ategu gan restr wirio 3 cham syml a hyrwyddwyd drwy'r 'Ymgyrch Prisio Clir' gydag Alexander Armstrong. Mae hyn yn adlewyrchu pwyslais ehangach ar ganllawiau cliriach, mwy ymarferol a mwy hygyrch i fusnesau. Mae'r ffordd hon o weithio yn gwneud gwahaniaeth mawr. Er enghraifft, ar ôl i ni adnewyddu ein tudalen adnoddau ar adolygiadau a chymeradwyaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, cynyddodd nifer yr ymweliadau â'r dudalen 660%.

**Allgymorth.** Mae ein rhaglen ymgysylltu uniongyrchol â busnesau wedi bod yn uchelgeisiol, gyda 37 o ddigwyddiadau fel siaradwyr allanol eleni, gan gyrraedd cyfanswm o 2000 o bobl. Er enghraifft, aethom i Bŵtcamp Busnes y Ffederasiwn Busnesau Bach yn Coventry (gan ein helpu i gyrraedd busnesau bach a chanolig) a dechrau rhaglen ddigwyddiadau gyda chwmnïau cyfreithiol rhanbarthol i rannu cyngor ar gydymffurfio.

## Marchnadoedd

### Trosolwg
Drwy ein swyddogaeth marchnadoedd, rydym yn canfod cyfleoedd i farchnadoedd sicrhau canlyniadau gwell i'r DU, ac yn gweithredu ar y cyfleoedd hynny. Mae'r canlyniadau yn cynnwys mwy o ddewis, prisiau is a chanlyniadau tecach i

ddefnyddwyr. Ochr yn ochr â hyn, mwy o gynhyrchiant, arloesedd a datgloi rhwystrau rhag mynediad neu rwystrau rhag ehangu'n gymesur i gwmnïau sy'n herio a busnesau bach. Ein huchelgais yw gwireddu'r cyfleoedd hyn mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision cyffredinol gorau posibl, gan leihau cymaint â phosibl ar unrhyw gostau ac ansicrwydd posibl i fusnesau, buddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill.

**Ein blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** oedd bwrw ymlaen â'n rhaglen waith mewn marchnadoedd i ddefnyddwyr, gan roi blaenoriaeth fwy pendant i waith ym maes marchnadoedd a allai gael effaith luosogi ar dwf.

**Astudiaeth Achos 3: Diwygiadau mawr i wasanaethau milfeddygol**
Mae dros hanner aelwydydd y DU yn berchen ar anifail anwes, ac maent yn gwario bron £400 y flwyddyn ar gyfartaledd ar wasanaethau milfeddygol. Ym mis Mawrth 2026, fe wnaethom gwblhau'r adolygiad mwyaf helaeth o wasanaethau milfeddygol mewn cenhedlaeth, ar ôl clywed yn uniongyrchol gan 56,000 o bobl – sy'n nifer digynsail – yn ystod ein hymchwiliad i'r farchnad. Roedd dyfnder y pryder am sut roedd y farchnad yn gweithio yn amlwg, gan gynnwys pryderon am gynnydd uwch na chwyddiant mewn prisiau dro ar ôl tro. Rydym wedi amlinellu diwygiadau eang, a bydd y mesurau hyn sy'n gyfreithiol rwymol yn dechrau dod i rym erbyn diwedd 2026. Maent yn cynnwys capiau ar ffioedd presgripsiynau; darparu rhestrau cynhwysfawr o brisiau, amcangyfrifon ysgrifenedig a biliau manwl; a chreu gwefan cymharu prisiau.

Bydd y mesurau hyn yn rhoi hwb i gystadleuaeth ac yn gostwng prisiau. Fodd bynnag, rydym wedi datgan yn glir nad yw cystadleuaeth ar ei phen ei hun yn ddigon i ddiogelu defnyddwyr. Bu hir aros am ddeddfwriaeth fodern, felly mae'r CMA yn cefnogi diwygiadau arfaethedig y llywodraeth i'r Ddeddf Milfeddygon. Byddai'r diwygiadau hyn, am y tro cyntaf, yn golygu bod busnesau milfeddygol, yn ogystal ag unigolion, yn atebol i reoleiddiwr annibynnol.

**Gwaith arwyddocaol arall a gyflawnwyd yn 2025 i 2026**

Ar ôl 11 mis o waith dadansoddi ac ymgysylltu manwl, cyhoeddodd y CMA ganfyddiadau ein hastudiaeth o'r farchnad peirianneg sifil ym mis Mai 2026, gan argymell camau gweithredu pendant i leihau costau a chynyddu arloesedd a chynhyrchiant mewn marchnad sy'n rhan ganolog o'r ymdrechion i sbarduno twf economaidd drwy fuddsoddi mewn seilwaith. Rydym yn pwyso ar y llywodraeth bod hwn yn gyfle am newid systemig, ac mae ein hargymhellion yn adlewyrchu'r angen am gydlynu canolog cryf, ac ailgyflwyno caffael ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd fel ysgogwr ar gyfer twf ac arloesi.

Mae gwaith y CMA ar farchnadoedd i ddefnyddwyr yn cefnogi fforddiadwyedd a chanlyniadau tecach i aelwydydd, sy'n arbennig o bwysig ar adeg pan fo ansefydlogrwydd geowleidyddol yn parhau i ddwysáu'r pwysau ar gostau byw. Ochr yn ochr â'n gwaith ar wasanaethau milfeddygol, fe wnaethom lansio astudiaeth o'r farchnad deintyddiaeth breifat, gan adlewyrchu'r ffaith bod mwy a mwy o bobl yn troi

at ddarpariaeth breifat oherwydd bod rhaid iddynt. Mae ein gwaith ar farchnadoedd hefyd wedi bod yn rhan ganolog o ymateb y CMA i'r argyfwng yn y Dwyrain Canol.

**Dan sylw: Sut mae'r CMA yn ymateb i'r argyfwng yn y Dwyrain Canol**

Mae'r argyfwng yn y Dwyrain Canol wedi cael effeithiau eang o ran codi prisiau cyfanwerthu nwyddau allweddol, a rhoi pwysau cynyddol i godi prisiau ar draws amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y mae defnyddwyr yn y DU yn dibynnu arnynt.

Er ein bod yn gwybod bod y rhan fwyaf o fanwerthwyr yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn deg, symudodd y CMA yn gyflym i rybuddio rhag camfanteisio, gan gynnwys drwy godi prisiau mewn modd nad yw'n adlewyrchu'r pwysau gwirioneddol ar gostau. Fe wnaethom weithredu ar unwaith yn y meysydd y mae'r gwrthdaro wedi effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt, gan lansio astudiaeth gyflym o'r farchnad olew gwresogi a thanwydd ffyrdd, cynyddu ein swyddogaeth fonitro statudol a rhoi rhybudd i gwmnïau roi gwybodaeth gywir am brisiau drwy'r cynllun Canfodydd Tanwydd, neu wynebu'r risg o ddirwy. Rydym yn parhau i fonitro sectorau y mae cynnydd mewn prisiau ac amhariadau yn debygol o effeithio arnynt.

Fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026 i 2027, rydym yn ymwybodol iawn o'r posibilrwydd o wrthdaro ac ansefydlogrwydd parhaus yn y Dwyrain Canol a byddwn yn blaenoriaethu effeithiau fforddiadwyedd tymor canolig a thymor hwy yn ein gwaith.

**Gwreiddio pedair elfen y 4P mewn Marchnadoedd**

- **Cyflymder**: dewis yr adnodd marchnadoedd priodol yn ofalus ar y dechrau, gan ddefnyddio'r adnodd cyflymaf a'r un sydd â'r cyffyrddiad ysgafnaf i fynd i'r afael yn effeithiol â'r materion sy'n ein harwain i edrych ar farchnad. Mewn prosiectau marchnadoedd newydd, ystyried y ffordd orau o ymgysylltu ag arbenigedd i gefnogi ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r sector yn gweithredu a'r realiti masnachol. Er enghraifft, ym maes peirianneg sifil, penodi panel sector
- **Rhagweladwyedd**: cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y drefn. Mewn achosion, cyhoeddi mapiau ffordd ar gyfer prosiectau a chyflwyno cyfleoedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon am gynnydd a'r ffyrdd o feddwl sy'n datblygu
- **Cymesuredd**: lansio adolygiad strategol o 33 o fesurau unioni'r CMA ar gyfer marchnadoedd i sicrhau mai dim ond y mesurau unioni hynny sy'n cael effaith wirioneddol sy'n dal ar waith. O ran casglu gwybodaeth, cyflwyno dull gweithredu wedi'i dargedu'n well yn ein hastudiaeth o'r farchnad deintyddiaeth breifat
- **Proses**: ategu ein gwaith achos drwy ymgysylltu'n fwy gweithredol â busnesau a rhanddeiliaid (sesiynau addysgu, cyfarfodydd misol, adroddiadau

cynnydd) er mwyn deall yr effeithiau tebygol yn well ar adeg penderfyniadau allweddol

## Eiriolaeth

### Trosolwg

**Mae gan y CMA rôl statudol o ran rhoi cyngor ac argymhellion arbenigol i lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus ar draws y DU**. Mae hyn yn cael ei ategu fwyfwy gan gyfuniad pwerus o arbenigedd polisi, micro-economeg a marchnadoedd. Rydym yn defnyddio'r swyddogaeth hon mewn ffordd sy'n ein herio ni, a'r llywodraeth, i *alluogi* cystadleuaeth er mwyn cyflawni nodau polisi cenedlaethol. Yn fwyaf nodedig, mae'r rhain yn cynnwys fforddiadwyedd i aelwydydd a busnesau, a'r angen brys am dwf economaidd, diogelwch a gwydnwch mewn byd ansicr.

Ein **blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** oedd gweithredu fel cynghorydd arbenigol uchel ei barch ar draws meysydd polisi allweddol sy'n ymwneud â thwf a ffyniant aelwydydd; a helpu'r llywodraeth i feddwl am gystadleuaeth wrth ddatblygu polisïau yn ehangach.

**Astudiaeth Achos 4: Cefnogi twf drwy feddwl am gystadleuaeth**
Mae cystadleuaeth yn ysgogwr grymus sy'n gallu hybu'r gwaith o gyflawni nodau economaidd cenedlaethol. Wrth i'r llywodraeth roi ei Strategaeth Ddiwydiannol Fodern ar waith, mae rôl fwy gweithredol i'r wladwriaeth yn creu cyfleoedd newydd i siapio marchnadoedd i gefnogi amcanion eang – yn enwedig lefelau uwch o dwf a ffyniant. Efallai nad cystadleuaeth fydd y prif nod bob amser yn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, gall dynameg marchnad gystadleuol ac ymyriadau ystyrlon o blaid cystadleuaeth helpu i sicrhau canlyniadau gwell, mewn ffordd fwy effeithiol, i'r DU gyfan.

*Ehangu'n gymesur*
Mae busnesau sydd wedi ehangu'n gymesur yn creu swyddi uchel eu gwerth, yn denu buddsoddiad byd-eang, ac yn cryfhau safle byd-eang y DU mewn sectorau hanfodol, felly mae'n holl bwysig eu bod yn aros yma. Drwy gyfrwng papur trafod a gafodd ei gydnabod yn rhyngwladol, wedi'i ategu gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, mae'r CMA wedi creu darlun o sut gall ymyriadau sydd o blaid cystadleuaeth helpu cwmnïau sy'n ceisio ehangu'n gymesur. Rydym yn parhau i gywain gwybodaeth er mwyn dyfnhau dealltwriaeth ddadansoddol y llywodraeth fel y gellir targedu ymyriadau'n well.

*Caffael cyhoeddus*
Caffael cyhoeddus yn y DU, sy'n werth bron £400bn, yw adnodd unigol mwyaf y wladwriaeth i siapio marchnadoedd. Mae'r CMA yn credu y gallai diwygio caffael cyhoeddus (gan gynnwys ehangu fframweithiau y tu hwnt i gyfaddawdau gwerth am

arian traddodiadol) fod yn gyfle sylweddol i sbarduno twf, arloesedd a gwydnwch strategol. Yn ddiweddar, fe wnaethom argymhellion i'r llywodraeth drwy gyfrwng ein hastudiaeth o'r farchnad peirianneg sifil. Nod y rhain yw cynyddu effeithiolrwydd prosesau caffael fel rhan o becyn ehangach i wella'r modd mae prosiectau ffyrdd a rheilffyrdd yn cael eu cwmpasu, eu cynllunio, eu caffael a'u rheoleiddio.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r llywodraeth mewn perthynas â chaffael ym maes amddiffyn, strategaethau caffael cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cwmwl, ac i fynd i'r afael â rigio cynigion drwy systemau canfod gwell a sgrinio mwy systematig, gan gynnwys drwy gyfrwng cynlluniau peilot fesul adran.

*Rheoleiddio*
Mae gan y CMA fandad i helpu'r llywodraeth, a'r gymuned reoleiddio ehangach, i wella dyluniad a darpariaeth mesurau rheoleiddio sydd o blaid cystadleuaeth er mwyn helpu i leihau beichiau. Eleni, fe wnaethom argymhellion drwy ein hastudiaeth o'r farchnad peirianneg sifil i gysoni achrediadau dyblyg sy'n gorgyffwrdd a symleiddio safonau sy'n gorfodi costau diangen ac yn atal busnesau bach a chanolig a chwmnïau sy'n herio. Rydym hefyd yn cydweithio â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar reoleiddio a chaffael sydd o blaid cystadleuaeth yn y sector gwyddorau bywyd.

**Gwaith arwyddocaol arall a gyflawnwyd yn 2025 i 2026**

Roedd allbynnau eiriolaeth ehangach y CMA eleni yn cynnwys:

- Ymatebion ffurfiol i 9 ymgynghoriad gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, gan gynnwys ymgynghoriad ar gaffael cyhoeddus, lle gwnaethom nodi dulliau ymarferol o helpu'r llywodraeth i gyflawni amcanion economaidd ehangach drwy siapio'r farchnad.

- Ymatebion preifat i 30 o geisiadau am gyngor gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, gan helpu i ddod ag ystyriaethau am gystadleuaeth a diogelu defnyddwyr i galon y gwaith datblygu polisïau.

- Cyngor i lywodraeth y DU ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn ein hymchwiliad i'r farchnad filfeddygol, ac rydym yn falch o weld gweithredu ar y cyngor hwn. Mae Atodiad 2 y Dadansoddiad o Berfformiad hwn yn nodi cynnydd yr argymhellion a wnaed i'r llywodraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, bu cynnydd nodedig eleni, yn enwedig gan lywodraeth y DU, mewn perthynas ag argymhellion mwy hirsefydlog y CMA ar danwydd ffyrdd, gofal cymdeithasol plant ac adeiladu tai. Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar fformiwla babanod (y gwnaed argymhellion amdano yn 2024 i 2025) wedi bod yn fwy cyfyngedig.

Drwy gyfrwng gwaith ymchwil a dadansoddi, rydym wedi cyfoethogi'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i lunwyr polisïau drwy:

- Ymchwilio'n ddwfn i ddata clyfar a chynlluniau tryloywder prisiau, a allai sicrhau manteision mawr eu hangen i ddefnyddwyr drwy wella eu gallu i chwilio am brisiau a'u cymharu, gan gryfhau cystadleuaeth prisiau ar yr un pryd.
- Bwrw ymlaen â Rhaglen Twf yr Uned Micro-economeg, sy'n canolbwyntio ar ffactorau hanfodol sy'n ysgogi ac yn rhwystro twf. Fe wnaethom gyhoeddi dadansoddiad newydd ar bolisïau diwydiannol y gorffennol i helpu i lywio'r gwaith o gwblhau Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y llywodraeth, ac adolygiad o'r berthynas rhwng cystadleuaeth a buddsoddiad yn ystod cylch bywyd cwmni (gan gyfrannu at ein gwaith ar ehangu'n gymesur uchod). Fe wnaethom hefyd archwilio'r berthynas rhwng technoleg a chynhyrchiant, gan gynnwys rôl cystadleuaeth wrth gefnogi lledaenu technoleg ar draws yr economi. Mae ein cyhoeddiad diweddaraf yn cynnig gwybodaeth empirig newydd am gadwyni cyflenwi yn y DU, sy'n cyd-fynd â galwadau'r llywodraeth am dystiolaeth gryfach am wydnwch economaidd.

## Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (SAU)

### Trosolwg

Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn atgyfnerthu galluoedd cynghori'r CMA. Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cyngor a dadansoddiadau economaidd sy'n cefnogi masnach o fewn y DU – sy'n werth dros 5% o gynnyrch domestig gros y DU. Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn rhoi cyngor clir i awdurdodau cyhoeddus y gallant weithredu arno er mwyn galluogi ymyriadau wedi'u targedu'n dda mewn amrywiaeth o feysydd sy'n effeithio ar fywydau dinasyddion ac sy'n galluogi twf, gan gynnwys ynni a sero net, trafnidiaeth, tai, gwyddorau bywyd, a datblygiad economaidd rhanbarthol. Mae'r ddwy swyddogaeth yn adrodd ar weithrediad y fframweithiau polisi perthnasol.

Ein blaenoriaethau **yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** oedd i'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol gyflawni eu swyddogaethau statudol, gan gynnwys wrth i'r Uned weithio tuag at ei hadroddiad cyfnodol cyntaf ar weithrediad ac effaith y drefn rheoli cymorthdaliadau.

### Gwaith arwyddocaol a gyflawnwyd yn 2025 i 2026

Parhaodd yr **Uned Cymorth ar Gymorthdaliadau** i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o weithredu trefn rheoli cymorthdaliadau'r DU, gan gyhoeddi 36 o

adroddiadau cynghori annibynnol yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. (Pob un ar gyfer cymorthdaliadau gwerth uwch a chynlluniau oedd o ddiddordeb arbennig.) Roedd yr adroddiadau'n rhychwantu amrywiaeth o sectorau ac awdurdodau cyhoeddus ar draws pedair gwlad y DU. Roeddent hefyd yn ddylanwadol iawn, gyda dros 80% o awdurdodau cyhoeddus oedd yn atgyfeirio cymorthdaliadau eleni yn dweud wrthym eu bod wedi newid eu cymhorthdal neu eu cynllun o ganlyniad i ymgysylltu â'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Ynghyd â llawer iawn o waith achos ar atgyfeiriadau, bu'r Uned hefyd yn bwrw ymlaen â'i rôl fonitro statudol ac mae bellach wedi cyhoeddi ei hadroddiad monitro cyntaf ar effeithiolrwydd y drefn rheoli cymorthdaliadau.

Yn ei Hadroddiad Blynyddol diweddaraf, canfu **Swyddfa'r Farchnad Fewnol** fod marchnad fewnol y DU yn dal yn weddol sefydlog, ond bod gwahaniaethau rheoleiddio parhaus a newydd ar draws y pedair gwlad yn golygu bod parhau i gydlynu rhwng llywodraethau yn hanfodol er mwyn atal rhwystrau newydd rhag masnachu o fewn y DU. Gwnaeth y Swyddfa waith mewn sector penodol eleni mewn perthynas â ffermio ac iechyd anifeiliaid, gan wneud argymhellion i lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i liniaru costau busnes sy'n deillio o wahaniaethau arfaethedig mewn rheolau cenedlaethol sy'n ymwneud â thagiau electronig buchol (BEI). Ategwyd y gwaith monitro ac adrodd hwn gan ymdrechion y Swyddfa i gasglu data o ansawdd uchel, a chafodd strategaeth ddata wedi'i diweddaru ar gyfer y Swyddfa ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2025.

**Gwreiddio pedair elfen y 4P yn Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau**

- **Cyflymder**: modelau gwaith achos mwy darbodus a hyblyg yn yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, gyda thimau llai a gwaith dadansoddi ar gam cynnar yn y broses; Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cyngor mwy amserol i lywodraethau drwy waith ar BEI.
- **Rhagweladwyedd**: Yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn hwyluso ac yn annog trafodaethau cyn atgyfeirio gydag awdurdodau cyhoeddus, gan gefnogi gwell dealltwriaeth o'i disgwyliadau. Ymgysylltiad gweithredol parhaus Swyddfa'r Farchnad Fewnol â busnesau y mae gwahaniaethau rheoleiddio yn effeithio arnynt, yn ogystal â mwy o gyfranogiad mewn gweithgorau rhynglywodraethol drwy'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin.
- **Cymesuredd:** diweddaru cylch gorchwyl yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau i wneud gweithdrefnau llywodraethiant yn fwy ystwyth; drwy ei gwaith BEI, model newydd gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol i roi cyngor cymesur ac amserol i lywodraethau â'r nod o osgoi gwahaniaethau rheoleiddio diangen.
- **Proses**: rhaglen allgymorth ehangach ar gyfer yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, gan gwrdd â dros 600 o gynrychiolwyr awdurdodau

cyhoeddus. Cyfarfodydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol gyda dros 100 o fusnesau a grwpiau masnach.

## Gorfodi Cystadleuaeth

### Trosolwg

Mae ein gwaith gorfodi cystadleuaeth yn atal ymddygiad gwrth-gystadleuol sy'n rhwystro canlyniadau teg i ddefnyddwyr a threthdalwyr, ac yn llesteirio dynameg y farchnad ac arloesedd. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i ni ac nid ydym yn ymddiheuro am ddilyn y llwybr mwyaf effeithiol i gael effaith ystyrlon cyn gynted â phosibl. Gall hyn olygu dilyn y broses gyfreithiol lawn, gan gynnwys rhoi dirwyon. Mewn achosion eraill, gall fod yn fwy priodol defnyddio canllawiau, llythyrau rhybuddio, ymrwymiadau neu setliadau i ddod ag ymchwiliadau i ben drwy gytundeb cydsyniol (heb gyfaddawdu ar fesurau atal).

Ein **blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** oedd atal arferion gwrth-gystadleuol yn gadarn, gan roi canllawiau i helpu busnesau i gydweithio'n gyfreithlon er mwyn sbarduno mwy o gynhyrchiant

**Astudiaeth achos 5: Sicrhau arbedion i'r GIG drwy orfodi cystadleuaeth**

Mae gan y CMA enw da am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gystadleuol sy'n niweidio trethdalwyr yn y DU. Mae ein camau gweithredu mewn perthynas â chyffuriau'r GIG yn dangos sut y gall cyfuniad o ymyriadau helpu i sicrhau effaith sylweddol.

**Yn gyntaf, drwy amddiffyn ein penderfyniadau yn y llys.** Ar ôl ymgyfreitha estynedig, ym mis Mai 2025 cafodd canfyddiad y CMA fod Advanz wedi torri'r gyfraith drwy godi gormod ar y GIG am y cyffur thyroid hanfodol liothyronin ei gadarnhau'n unfrydol gan y Llys Apêl. Canfu ein hymchwiliad gwreiddiol fod gwariant blynyddol y GIG wedi neidio o dros £2.3m i dros £30m mewn 7 mlynedd. Mae'r dyfarniad yn anfon neges ataliol gref i gwmnïau sy'n camddefnyddio eu pŵer yn y farchnad ar draul trethdalwyr a'r economi ehangach.

**Yn ail, drwy ddod ag ymchwiliad i ben yn gydsyniol lle'r oedd yr amgylchiadau'n briodol.** Ym mis Mai 2025, derbyniodd y CMA ymrwymiadau gan Vifor Pharma oedd yn mynd i'r afael â phryderon bod meddygon wedi cael gwybodaeth a allai fod yn gamarweiniol am ddiogelwch triniaeth gan gystadleuydd ar gyfer anemia diffyg haearn. Ynghyd ag ymrwymiadau i gywiro'r cyfathrebiadau hynny a chyflwyno mesurau cydymffurfio yn y dyfodol, yr ymgynghorwyd arnynt o fewn 12 mis i agor yr ymchwiliad, gwnaeth Vifor daliad gwirfoddol o £23 miliwn i'r GIG.

**Astudiaeth Achos 6: Ymchwiliad i Adeiladu Tai**

Ym mis Gorffennaf 2025, sicrhaodd y CMA becyn o ymrwymiadau gan 7 o adeiladwyr tai mwyaf y DU gan ddarparu manteision cyflym a phendant i'r sector. Cytunodd yr adeiladwyr tai ar daliad cyfun o £100 miliwn – y taliad mwyaf a sicrhawyd erioed gan y CMA drwy ymrwymiadau. Mae hwn wedi cael ei rannu rhwng rhaglenni tai fforddiadwy ar draws y 4 gwlad, gan helpu i ariannu cannoedd o gartrefi newydd ar gyfer aelwydydd incwm isel, pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf a phobl agored i niwed. Hefyd, ymrwymodd yr adeiladwyr tai i fesurau cadarn i atal ymddygiad gwrth-gystadleuol a hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws y diwydiant.

Roedd y canlyniadau hyn yn dilyn ymchwiliad gan y CMA i bryderon bod adeiladwyr tai wedi rhannu gwybodaeth gystadleuol sensitif am werthiannau a allai wanhau cystadleuaeth ac effeithio ar bris ac argaeledd cartrefi newydd. Drwy ddatrys yr achos drwy ymrwymiadau, llwyddodd y CMA i atal ymddygiad a allai fod yn niweidiol yn gyflym, cryfhau cydymffurfiaeth ar draws y sector, a darparu manteision cyflym i'r cyhoedd i gefnogi mynediad at dai.

**Gwaith arwyddocaol arall a gyflawnwyd yn 2025 i 2026**

**Fe wnaethom fwrw ymlaen ag ymchwiliadau** mewn amrywiaeth o sectorau sy'n cyffwrdd â bywydau dinasyddion a busnesau ledled y DU, gan gynnwys adeiladu ysgolion, rheoli gwastraff, ac archebu ystafelloedd mewn gwestai ar-lein. O ran teithio – ym mis Ebrill 2025, daeth gweithgynhyrchwyr ceir a chyrff y diwydiant i setliad â'r CMA ar ôl cyfaddef eu bod wedi torri cyfraith cystadleuaeth sy'n ymwneud ag ailgylchu cerbydau a honiadau hysbysebu cysylltiedig. Arweiniodd hyn at ddirwyon gwerth cyfanswm o dros £77m. Yna, ym mis Awst 2025, fe wnaethom benderfyniad terfynol i dderbyn ymrwymiadau i gynnal cystadleuaeth ar gyfer llwybrau teithwyr rhwng y DU ac UDA. Cafodd effaith ataliol gyffredinol y CMA eleni ei dwysáu drwy gyfrwng 50 o lythyrau rhybuddio a chynghori ar ymddygiad a allai fod yn anghyfreithlon mewn amrywiaeth o sectorau.

**Mae'r CMA hefyd yn *galluogi* cystadleuaeth drwy gefnogi cydweithio dilys rhwng busnesau.** Fe wnaethom gynnal 'polisi drws agored' i fusnesau gyflwyno tystiolaeth gadarn y gallai pryderon am gyfraith cystadleuaeth fod yn atal cydweithio buddiol. Roeddem yn rhagweithiol iawn, gan gyhoeddi canllaw hygyrch ar sut i gydweithio heb dorri cyfraith cystadleuaeth, yn ogystal â chanllawiau penodol ar addysg uwch, cystadlu am dalent, a chynaliadwyedd amgylcheddol. Gall datganiadau cyhoeddus ar flaenoriaethu gorfodaeth hefyd hybu hyder busnesau o ran cydweithio – er enghraifft, ein datganiad ar Daliadau Rheolaidd Newidiol masnachol ar gyfer bancio agored, lle gwnaethom nodi (gan gyd-fynd â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol) nad ydym yn bwriadu blaenoriaethu gorfodaeth ar hyn o bryd.

**Gwreiddio pedair elfen y 4P wrth Orfodi Cystadleuaeth**

- **Cyflymder**: ceisio sicrhau effaith yn y modd cyflymaf posibl, gyda dyletswydd statudol i weithredu'n gyflym o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr bellach yn berthnasol i'n holl ymchwiliadau gorfodi cystadleuaeth. O fewn achosion, defnyddio buddsoddiad mewn technoleg i gyflymu'r broses o adolygu tystiolaeth, ochr yn ochr ag adnoddau e-gyfrinachedd.
- **Rhagweladwyedd**: gweithio i hwyluso cydweithio dilys rhwng busnesau, sy'n gallu cefnogi buddsoddiad, arloesedd a thwf.
- **Cymesuredd**: sicrhau'r gyfres gywir o ymyriadau ar draws y drefn, gan ddefnyddio'r ystod lawn o adnoddau i esgor ar ganlyniadau da.
- **Proses**: gyda chanllawiau newydd ar waith eleni, cyflwyno gweithdrefnau symlach i'w gwneud yn haws i gwmnïau sy'n rhan o gartel wneud cais am ystyriaeth drugarog; ac annog cwynion gan fusnesau y mae ymddygiad gwrth-gystadleuol posibl yn effeithio arnynt

## Y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol

### Trosolwg

Wrth i dechnoleg newydd dreiddio drwy bob agwedd ar ein bywyd, mae cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol yn allweddol. Mae'r CMA wedi ymrwymo i bleidio cystadleuaeth er mwyn datgloi cyfleoedd ar gyfer mwy o ddewis i ddefnyddwyr, yn ogystal â buddsoddiad, arloesedd a thwf ar draws economi ddigidol y DU. Mae ein dull o weithredu yn manteisio ar ddyluniad unigryw trefn y DU – sy'n hyblyg, yn gyfranogol ac yn flaengar – i gefnogi amgylchedd lle gall pob cwmni, bach a mawr, ffynnu.

Ein **blaenoriaethau** ar gyfer y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol **yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** oedd cynnal ein hymchwiliadau SMS cyntaf o dan y drefn newydd, gyda'r bwriad o sicrhau bod y manteision i ddefnyddwyr a busnesau'r DU ar draws yr economi yn cael eu darparu mewn ffordd gymesur, a chyn gynted â phosibl.

### Astudiaeth Achos 7: Gwella'r ffordd mae Google yn darparu gwasanaethau chwilio yn y DU

Google sy'n ymdrin â dros 90% o'r ymholiadau chwilio cyffredinol yn y DU, ac mae miliynau o bobl yn dibynnu arno fel porth i'r rhyngrwyd, a dros 200,000 o gwmnïau yn y DU yn gwario dros £10 biliwn bob blwyddyn ar hysbysebion yng ngwasanaethau chwilio Google.

Ym mis Hydref 2025, cafodd Google ddynodiad SMS mewn gwasanaethau chwilio cyffredinol gan y CMA, a hynny'n cynnwys ei weithgareddau chwilio cyffredinol a'i weithgareddau hysbysebu mewn gwasanaethau chwilio. Nid yw dynodiad o reidrwydd yn golygu y bydd y CMA yn gosod gofynion. Mewn perthynas â Chwilio, fodd bynnag, ein barn ni yw bod 'gofynion ymddygiad' wedi'u teilwra yn

angenrheidiol ac yn gymesur i gefnogi arloesedd a thwf, gan sicrhau ar yr un pryd bod defnyddwyr a busnesau'n cael eu trin yn deg. Mae ein gofynion ymddygiad yn canolbwyntio ar fargen decach i gyhoeddwyr cynnwys, gan gynnwys ffordd i gyhoeddwyr allu optio allan o'r hawl i ddefnyddio eu cynnwys i bweru nodweddion deallusrwydd artiffisial yng ngwasanaethau chwilio Google – sef y tro cyntaf erioed i hynny ddigwydd yn unrhyw le yn y byd – yn ogystal â systemau sgorio cliriach, mwy rhagweladwy a mwy tryloyw a allai roi mwy o gyfle i fusnesau ehangu a buddsoddi.

Bydd pob gofyniad ymddygiad yn cael ei gefnogi gan fonitro cadarn. Bydd y CMA yn casglu metrigau ac yn adrodd ar eu sail yn y dyfodol i ddangos effeithiolrwydd a dylanwad ein hymyriadau.

**Astudiaeth Achos 8: Canlyniadau gwell ar lwyfannau symudol**

Mae bron bob oedolyn yn y DU yn defnyddio dyfais symudol. Mae gan bron bob un o'r dyfeisiau hyn 'lwyfan symudol' a ddarperir gan naill ai Apple (yn seiliedig ar iOS) neu Google (yn seiliedig ar Android). Mae llwyfannau symudol yn rhan annatod o economi apiau'r DU, yr amcangyfrifir ei bod yn cynhyrchu 1.5% o gynnyrch domestig gros y DU ac sy'n cefnogi tua 400,000 o swyddi.

Ym mis Hydref 2025, cafodd Apple a Google ddynodiad SMS gan y CMA mewn perthynas â'u llwyfannau symudol. Un o gryfderau unigryw trefn y DU yw'r gallu i sicrhau gwelliannau mewn ffordd hyblyg wedi'i thargedu, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau a blaenoriaethu cael effaith cyn gynted â phosibl yn y DU. Yn yr achos hwn, fe wnaethom sicrhau ymrwymiadau gan y ddau gwmni, sydd i gyd ar waith erbyn hyn, i roi mwy o sicrwydd, ymarferoldeb a thryloywder i ddatblygwyr yn y DU – gan gefnogi eu hyder i ddod â chynigion newydd ac arloesol i'r farchnad. Er na fydd ymrwymiadau'n briodol ym mhob sefyllfa, yn y cyd-destun hwn maent wedi sicrhau gwelliannau cyflym a diwrthwynebiad yn y farchnad, ac mae mesurau tryloywder a goruchwylio cadarn yn sail iddynt.

**Gwreiddio pedair elfen y 4P yn y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol**

- **Cyflymder**: yn ein 3 ymchwiliad SMS cyntaf, blaenoriaethu a rhoi'r gorau i olrhain llwybrau ymchwilio er mwyn cael dull gweithredu symlach
- **Rhagweladwyedd**: ymgorffori mapiau ffordd mewn ymchwiliadau SMS, er mwyn cynyddu'r gallu i ragweld ein blaenoriaethau ar gyfer ymyriadau posibl drwy gydol y flwyddyn.
- **Cymesuredd**: ar bob cam (gan gynnwys wrth strwythuro lansio ymchwiliadau ac ymgyngoriadau), sicrhau bod gan randdeiliaid ddigon o amser i ymgysylltu. Hefyd, parhau i ganolbwyntio ar ofyn ai'r CMA sydd yn y sefyllfa orau i weithredu, gan ystyried unrhyw ryngweithio â gweithredoedd rheoleiddwyr eraill a chyrff eraill y llywodraeth, yn y DU ac yn rhyngwladol.

- **Proses**: cynnal dull cyfranogol iawn drwy ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid mewn ymchwiliadau SMS (cyfarfuwyd â dros 170 o randdeiliaid i gyd).

**Dan sylw: Ymchwiliad SMS i ecosystem meddalwedd busnes Microsoft**

Ym mis Mai 2026, fe wnaethom lansio ein pedwerydd ymchwiliad SMS i ecosystem meddalwedd busnes Microsoft, gan gydnabod ei rôl ganolog yn economi'r DU. Daw'r ymchwiliad wrth i ddeallusrwydd artiffisial gael ei integreiddio'n gyflym mewn offer busnes craidd a ddefnyddir ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus. Bydd ymchwiliad y CMA yn ystyried a oes gan Microsoft SMS mewn meddalwedd busnes ac a all ddefnyddio'r safle hwnnw i gyfyngu ar ddewis cwsmeriaid. Bydd yn asesu a yw bwndelu cynnyrch, cyfyngiadau o ran y gallu i ryngweithredu neu osodiadau diofyn yn gallu atal cwsmeriaid rhag newid a gwanhau'r cyfyngiadau cystadleuol y mae Microsoft yn eu hwynebu gan gystadleuwyr. Mae hyn yn cynnwys edrych ar sut mae cystadleuwyr ym maes deallusrwydd artiffisial yn gallu integreiddio â meddalwedd busnes Microsoft, gan roi mynediad i gwsmeriaid at feddalwedd deallusrwydd artiffisial ar draws cyflenwyr er mwyn diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau.
Byddai dynodiad SMS yn galluogi i'r CMA weithredu ar bryder mawr o'n hymchwiliad i'r farchnad gwasanaethau cwmwl, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2025, sef bod defnydd Microsoft o drwyddedau meddalwedd yn lleihau cystadleuaeth o ran gwasanaethau cwmwl. Byddai hefyd yn darparu llwybr i sicrhau bod darparwyr yn gallu cystadlu'n deg ar adeg dyngedfennol, wrth i arloesedd sy'n cael ei yrru gan ddeallusrwydd artiffisial ail-lunio cystadleuaeth ym maes meddalwedd cynhyrchiant.

**Dan sylw: Sut mae'r CMA yn galluogi arloesedd diogel sy'n cael ei yrru gan ddeallusrwydd artiffisial i gefnogi twf**

Gall deallusrwydd artiffisial fod yn sbardun pwerus ar gyfer twf a chynhyrchiant yn y DU – ond dim ond os oes gan fusnesau'r eglurder i'w ddefnyddio, a bod y cyhoedd yn hyderus ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn deg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio ein harbenigedd ym maes cystadleuaeth, diogelu defnyddwyr a dadansoddi'r farchnad i gefnogi defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd ddibynadwy sydd o blaid arloesi.

Ynghyd â chynnig cymorth ymarferol i'r llywodraeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Gyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial, fe wnaethom gyhoeddi:

- canllawiau newydd i fusnesau ar gymhwyso cyfraith diogelu defnyddwyr i ddeallusrwydd artiffisial asiantaidd, gan roi'r hyder iddynt arloesi mewn ffordd sy'n diogelu defnyddwyr
- dadansoddiad cyffredinol newydd o sut mae deallusrwydd artiffisial asiantaidd yn cael ei ddefnyddio heddiw, beth allai ddigwydd yn y dyfodol a sut bydd hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr
- blog a ddarllenwyd yn eang ar ddeallusrwydd artiffisial a chydgynllwynio, gan gynnwys awgrymiadau ymarferol i fusnesau sy'n defnyddio algorithmau prisio

Rydym yn parhau i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn fewnol i gryfhau'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau:

- mae ein gallu gwyddor data mewnol yn cefnogi gwaith achos, dadansoddi marchnadoedd a gwylio'r gorwel
- mae offer asiantaidd newydd yn ein helpu i ganfod niwed i ddefnyddwyr ar raddfa fawr
- mae dadansoddeg uwch yn gwella'r broses o ganfod risgiau rigio cynigion ym maes caffael cyhoeddus.

Drwy ein partneriaeth â rheoleiddwyr eraill yn y Fforwm Cydweithio ar Reoleiddio Digidol (DRCF), fe wnaethom y pethau canlynol:

- cymryd rhan yn lansiad Canolfan Arloesi Thematig ar gyfer arloeswyr, gan gynnig ymgysylltiad wedi'i deilwra a chyngor rheoleiddio cydgysylltiedig ar ddeallusrwydd artiffisial asiantaidd
- cyfrannu at archwiliad blaengar o sut gall fframweithiau rheoleiddio'r DU helpu i wireddu cyfleoedd deallusrwydd artiffisial asiantaidd cyfrifol a diogel
- helpu i greu dealltwriaeth o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ledled y DU

## Rheoli Uno Cwmnïau

### Trosolwg

Mae rheoli uno cwmnïau yn diogelu buddiannau defnyddwyr ac yn sicrhau bod marchnadoedd y DU yn parhau i fod yn ddynamig ac yn gystadleuol, gan sbarduno arloesedd a thwf. Nid yw'r rhan fwyaf o achosion uno cwmnïau yn codi pryderon am gystadleuaeth, ond gall y rheini sy'n gwneud hynny effeithio'n negyddol ar ddefnyddwyr (er enghraifft, drwy brisiau uwch) a busnesau (er enghraifft, drwy leihau'r cymhellion ar gyfer buddsoddi). Mae'r CMA yn glir ei farn y dylid clirio pob cytundeb yn ddiamod, neu gyda mesurau unioni effeithiol, os oes modd gwneud hynny.

Roedd ein **blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2025 i 2026** yn canolbwyntio ar weithredu'r drefn mewn ffordd sy'n parhau i ddiogelu defnyddwyr y DU ar yr un pryd â meithrin hyder busnesau a buddsoddwyr. Yn unol â'n siarter uno cwmnïau, ein nod yw gwneud y penderfyniadau cywir cyn gynted â phosibl, gan leihau'r baich ar fusnesau ar yr un pryd.

### Gwaith arwyddocaol a gyflawnwyd yn 2025 i 2026

Fe wnaeth y CMA ddefnyddio ein pwerau rheoli uno cwmnïau mewn ffordd gymesur wedi'i thargedu, gan ganolbwyntio ein sylw ar y nifer fach o gytundebau oedd yn creu pryderon i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU. O'r 40,000 a mwy o gytundebau a gyhoeddwyd yn fyd-eang, fe wnaethom:

- ystyried **902** o achosion uno cwmnïau
- cwblhau **32** adolygiad cam 1
- cwblhau **4** adolygiad cam 2

O ran canlyniadau adolygiadau a gwblhawyd eleni:

- cafodd **24** eu clirio'n ddiamod (naill ai yng ngham 1 neu gam 2)
- cafodd **5** eu clirio gyda mesurau unioni (naill ai yng ngham 1 neu gam 2)
- ni roddwyd y gorau i **unrhyw** broses uno cwmnïau yn ystod ymchwiliad
- roedd **2** achos uno cwmnïau yn destun penderfyniad gwahardd

Roedd llawer o'r achosion uno cwmnïau y buom yn ymchwilio iddynt mewn marchnadoedd sy'n uniongyrchol bwysig i aelwydydd y DU – o gartrefi gofal, i wasanaethau danfon a gwelliannau i gartrefi. Roedd nifer ohonynt yn ymwneud â nwyddau groser, a dyma'r hyn a wnaethom yng nghyswllt hynny:

- Diogelu cystadleuaeth mewn cadwyni cyflenwi archfarchnadoedd, gan sicrhau mesurau unioni cam 1 ar gyfer y ffordd roedd Greencore yn caffael Bakkavor er mwyn helpu i gadw prisiau mor isel â phosibl ar gyfer sawsiau oer â label y manwerthwr arnynt.
- Ymchwilio i'r effeithiau posibl ar gost ac ansawdd nwyddau wedi'u pobi a'u rhewi a gyflenwir i archfarchnadoedd, gan gyfeirio'r modd roedd Vandemoortele yn caffael Délifrance at gam 2.
- Helpu i gadw cost warysau archfarchnadoedd yn isel, yn ogystal â'r prisiau mae siopwyr yn eu talu, drwy fesurau unioni cam 2 wrth i GXO gaffael Wincanton.

Hefyd, fe wnaeth ein hymchwiliadau uno cwmnïau helpu i gadw prisiau'n gystadleuol mewn marchnadoedd y mae busnesau yn y DU yn dibynnu arnynt, gan ddiogelu'r cymhellion ar gyfer arloesi a buddsoddi ar yr un pryd. Fe wnaethom ni:

- Helpu i sicrhau cadwyn gyflenwi gystadleuol i gwmnïau sy'n awyddus i brynu cydrannau awyrennau, gan sicrhau mesurau unioni cam 1 wrth i Safran gaffael Collins.
- Bwrw ymlaen ag ymchwiliadau cam 1 a cham 2 i bryniant arfaethedig Getty o Shutterstock, sydd bellach wedi cael ei glirio'n amodol gyda mesurau unioni.
- Darparu manteision mewn sectorau sy'n ymwneud ag olew a nwy ar y môr, gan sicrhau mesurau unioni cam 1 wrth i Schlumberger gaffael ChampionX. Yn dilyn ymchwiliad cam 2, penderfynodd panel annibynnol fod yn rhaid i

Aramark roi'r gorau i brynu Entier, gan adfer cystadleuaeth am wasanaethau arlwyo ar y môr.

## Gwreiddio pedair elfen y 4P wrth Reoli Uno Cwmnïau

- **Cyflymder**: cyflwyno newid sylweddol drwy dargedau newydd ar gyfer rhaghysbysu ac achosion cam 1 syml, sydd bellach yn gonglfaen i'n metrigau perfformiad sefydliadol newydd.
- **Rhagweladwyedd**: cwblhau canllawiau newydd ar awdurdodaeth a gweithdrefnau i gynyddu hyder busnesau i hunanasesu a fydd trafodion o fewn awdurdodaeth y CMA. Cyflwyno galwadau diweddaru rheolaidd yn ystod ymchwiliadau i roi adborth ar gynnydd i fusnesau sy'n uno a chynghorwyr.
- **Cymesuredd**: pan fydd awdurdod cystadleuaeth arall yn ymchwilio i achos uno cwmnïau, ystyried a allwn 'aros i weld' a yw'r trafodion hynny'n datrys unrhyw bryderon sydd gan y DU cyn agor ein hymchwiliad ein hunain. O fewn ymchwiliadau, symleiddio materion ac anfon ceisiadau gwybodaeth wedi'u targedu – mae busnesau sy'n uno wedi croesawu hyn.
- **Proses**: dan arweiniad ein siarter uno cwmnïau o fewn achosion, myfyrio'n barhaus ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol – gan y CMA a chan bartïon a'u cynghorwyr. Bwrw ymlaen â rhaglenni allgymorth wedi'u targedu ar gyfer busnesau a buddsoddwyr, gan gynnal 10 digwyddiad a chymryd rhan mewn 17 digwyddiad arall fel siaradwyr allanol.

## Dan sylw: Diweddaru ein dull gweithredu ar gyfer mesurau unioni wrth i gwmnïau uno

Ar yr amod eu bod yn cael eu cyflwyno ar yr adeg iawn, mae mesurau unioni wrth uno cwmnïau yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi'r CMA i glirio achosion uno cwmnïau y gellir eu clirio. Mae adnewyddu ein canllawiau ar fesurau unioni wedi bod yn rhan greiddiol o bedair elfen y 4P wrth reoli uno cwmnïau, gan roi mwy o eglurder a sicrwydd i bartïon am ein dull gweithredu – a chadw'r pwyslais yn gadarn ar ganlyniadau effeithiol ar yr un pryd.

Mae'r canllawiau newydd mewn perthynas â mesurau unioni ymddygiadol, a gafodd eu cwblhau'n derfynol ym mis Rhagfyr 2025, yn nodi'r ffactorau rydym yn eu hystyried, a sut gellir rheoli risgiau. Er mai mesurau unioni strwythurol fydd fwyaf effeithiol fel arfer, rydym yn cydnabod mai mesurau unioni ymddygiadol yw'r ateb cywir mewn rhai achosion – hyd yn oed yng ngham 1. Er mwyn helpu i sicrhau bod cytundebau o blaid twf nad ydynt yn niweidio defnyddwyr yn gallu mynd yn eu blaenau lle bo hynny'n bosibl, fe wnaethom hefyd ychwanegu eglurder ar feysydd sylweddol, fel sut rydym yn asesu 'Buddion Perthnasol i Gwsmeriaid'. Gall y rhain helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gwsmeriaid, gan gynnwys prisiau is neu ansawdd gwell.

**Dan sylw: Diwygiadau'r Llywodraeth i'r drefn cystadleuaeth**

Ym mis Mai 2026, cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i gyflwyno Bil Diwygio Cystadleuaeth yn Araith y Brenin, gan ganolbwyntio'n benodol ar gryfhau effeithiolrwydd, atebolrwydd a thryloywder y drefn uno cwmnïau a'r drefn marchnadoedd. Mae'r CMA yn croesawu cynigion y llywodraeth, sydd yn ein barn ni yn ategu trawsnewidiad gweithredol y CMA ac yn gwreiddio rhaglen pedair elfen y 4P ymhellach.

Dyma rai o'r gwelliannau pwysig rydym yn deall y bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â hwy:

- Gwella atebolrwydd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau drwy roi mwy o rôl i Fwrdd y CMA mewn achosion uno cwmnïau a marchnadoedd.
- Gwneud adolygiadau o'r farchnad yn gyflymach ac yn fwy penodol, gan sicrhau buddion sylweddol i ddefnyddwyr ac i fusnesau yn gyflymach.
- Rhoi mwy o sicrwydd am awdurdodaeth uno cwmnïau a galluogi adolygiad mwy hyblyg a chymesur o fesurau unioni'r farchnad.

Mae'r CMA yn barod i gynorthwyo'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu deddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau pellach y gallai'r llywodraeth eu cyflwyno o ran y drefn optio allan ar gyfer iawndal preifat, ac apeliadau rheoleiddio (lle rydym wedi gwneud gwaith arwyddocaol mewn perthynas â dŵr ac ynni eleni yn unol â'n dyletswyddau statudol presennol ac mor effeithlon â phosibl).

## Datblygu ein ffordd o weithio: metrigau perfformiad

Dan arweiniad ein Strategaeth newydd, ac yn gyson â disgwyliadau'r llywodraeth, mae'r CMA yn cyflawni newid sylweddol o ran perfformiad y sefydliad. Rydym eisiau bod yn dryloyw am ein cynnydd, yn agored i adborth, ac yn rhagweithiol wrth ganfod cyfleoedd i wella rhagor. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024 i 2025, rydym wedi ailwampio ein dull o fesur ein perfformiad ac adrodd arno. Mae hyn yn cynnwys, am y tro cyntaf, asesiad perfformiad sy'n seiliedig ar ddata, sy'n ategu gwybodaeth ansoddol fanylach a nodir yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. Rydym yn disgwyl esblygu'r asesiad hwn yn y dyfodol ac rydym yn croesawu adborth ar ein dull gweithredu.

Mae 3 agwedd bwysig ar ein perfformiad y gall data helpu i ddatgelu mwy amdanynt:

- **Effaith** ein gwaith: Yn y bôn, dyma'r arwydd pwysicaf o'n llwyddiant – mae'n adlewyrchu ein cyfraniad i'r DU, gan gynnwys nodau clir ein strategaeth yn y pen draw: twf economaidd a ffyniant aelwydydd
- Ein **cyflymder a'n heffeithlonrwydd:** Mae'r galluogwyr hyn yn ein galluogi i gael yr effaith fwyaf bosibl drwy gyfrwng ymyriadau cyflym ac effeithiol
- **Profiad rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy:** Mae hyn yn ein helpu i ddeall lle gall ein gwaith ychwanegu gwerth; sut gallwn barhau i wella; ac a ydym yn cyfrannu at amgylchedd rheoleiddio yn y DU sy'n ennyn hyder

Ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, rydym yn nodi amrywiaeth o fetrigau perfformiad perthnasol yn Atodiad 1 y Dadansoddiad o Berfformiad yn t. 36.

Mae'r metrigau hyn yn cynnwys:

- Metrigau **canlyniadau** – sy'n ymwneud yn glir ag effaith ein gwaith, fel y buddion ariannol uniongyrchol rydym yn eu mesur drwy ein Hasesiad Effaith, a phrofiadau rhanddeiliaid perthnasol
- Metrigau **mewnbwn** – y gweithgareddau sy'n cyfrannu at ein heffaith, yn enwedig lle mae'n dal yn anodd cofnodi'r effaith honno'n llawn. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ein heffaith ataliol, lle mae metrigau fel dirwyon a llythyrau rhybuddio a chynghori yn helpu i feithrin ymdeimlad o'n heffaith

Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu hwn, mae'r data ar gyfer 2025 i 2026 yn llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol. Rydym yn disgwyl esblygu'r asesiad hwn sy'n seiliedig ar ddata yn y dyfodol, ochr yn ochr â gwneud rhagor o newidiadau sylweddol i'r fethodoleg sy'n sail i'n Hasesiad Effaith, sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn.

## Datblygu ein ffordd o weithio: trawsnewid sefydliadol

Mewn amgylchedd cyfnewidiol ac ansicr, sy’n rhoi pwysau parhaus ar economi’r DU a chostau byw, mae angen gwaith y CMA yn fwy nag erioed.

Rydym yn bwrw ymlaen â rhaglen drawsnewid sefydliadol sy’n canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gallu diwallu’r angen hwnnw – yn awr ac yn y dyfodol – gyda’r hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb wrth i farchnadoedd a risgiau esblygu.

Mae llawer o’r hyn sydd y tu ôl i’r trawsnewidiad hwn eisoes ar y gweill, fel y nodir yn ein Strategaeth ar gyfer 2026 i 2029. O welliannau ystyrlon drwy raglen pedair elfen y 4P, i well defnydd o wybodaeth reoli a chyflwyno deallusrwydd artiffisial. Rydym yn awr yn rhoi’r galluogwyr gallu critigol ar waith i’n helpu i gyflawni ein Strategaeth newydd – yn enwedig i gynyddu ein gallu i gael effaith cyn gynted â phosibl, ac i flaenoriaethu ymyriadau amserol sydd wedi’u cwmpasu’n dda.

Mae’r gwaith hwn yn seiliedig ar 3 colofn:

- **Trawsnewid digidol**: gwneud ein hamgylchedd digidol craidd yn fwy diogel, modern ac integredig, â’r gallu i’w ehangu’n gymesur. Rydym yn uwchraddio’r systemau sydd wrth galon ein gwaith achos, gan barhau i gyflwyno rheolaeth ddigidol ar achosion a diweddaru ein llwyfan adolygu tystiolaeth. Gan adeiladu ar sail cyflwyno offer deallusrwydd artiffisial bob dydd yn llwyddiannus ar draws y CMA, rydym yn cyflymu’r defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial lle gall ychwanegu gwerth gwirioneddol. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau mwy arbenigol i gefnogi gwaith achos byw, dadansoddi tystiolaeth a drafftio. Yn sail i’r gwaith hwn, rydym yn meithrin y sgiliau, yr hyder a’r diwylliant sy’n cefnogi trawsnewid digidol llwyddiannus ar draws ein gweithlu.
- **Pobl:** sicrhau bod pob aelod o staff wedi’i arfogi i chwarae ei ran lawn yn y gwaith o gyflawni ein Strategaeth. Rydym yn canolbwyntio ar feithrin y gallu i arwain, llwybrau gyrfa, a’n cynnig gwobrwyo.
- **Cynhyrchiant:** defnyddio ein pobl, ein hadnoddau a’n hoffer yn y ffordd fwyaf effeithlon, er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau diweddar i brosesau blaenoriaethu, ac i’r ffordd rydym yn dadansoddi effaith ar draws ein portffolio. Mae hefyd yn golygu symleiddio’r gwaith o gyflawni prosiectau’r CMA ac adeiladu mecanweithiau i hwyluso’r gwaith o ddefnyddio pobl ac adnoddau’n ystwyth mewn meysydd blaenoriaeth.

## Risgiau a Heriau

Bydd y ffordd rydym yn mynd i'r afael â nifer o risgiau a heriau sylweddol yn effeithio ar y gwaith o gyflawni Strategaeth newydd y CMA a'r trawsnewid sefydliadol.

1. **Gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol**, lle gallai ansefydlogrwydd parhaus ddwysáu rhagor ar anwadalrwydd prisiau mewn marchnadoedd hanfodol a chynyddu'r risg o ymddygiad anghyfreithlon. Mae'r CMA wedi ymateb yn gyflym i bwysau yn y dyfodol agos (gweler yr adran 'Sylw ar', t 23 uchod), ond nid yw'r goblygiadau i'n portffolio gwaith yn y dyfodol yn glir. Serch hynny, rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu effeithiau fforddiadwyedd tymor canolig a thymor hwy a byddwn yn ymateb yn gadarn i dystiolaeth o arferion niweidiol ar draws yr economi.
2. Mewn byd o gyfalaf a thalent symudol, rhaid i'r DU weithio'n galed i ddenu'r buddsoddiad sydd ei angen i bweru twf. Drwy **barhau i wreiddio pedair elfen y 4P ar draws ein swyddogaethau craidd**, byddwn yn cryfhau ein cyfraniad at greu tirwedd reoleiddio yn y DU sy'n gweithredu fel magnet ar gyfer buddsoddiadau. Fodd bynnag, nid yw trawsnewid gwirioneddol, parhaol yn digwydd dros nos – yn enwedig lle mae angen newid y diwylliant i'r un graddau â newid y prosesau. Rydym yn dal yn benderfynol o ddatblygu a gwreiddio pedair elfen y 4P, gan wrando ar adborth rhanddeiliaid wrth i ni fynd rhagom, a dysgu ar sail yr adborth hwnnw.
3. **Mae angen ystyriaeth barhaus ac ymwybodol er mwyn cyflawni ein dull esblygol o sicrhau effaith.** Mewn llawer o achosion, byddwn yn blaenoriaethu'r llwybr mwyaf effeithiol i sicrhau effaith ystyrlon cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn golygu defnyddio'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael i ni – nid ymchwiliadau ffurfiol ac ymgyfreitha yn unig, ond hefyd ymgysylltu cynnar a chanllawiau i gefnogi cydymffurfiaeth; llythyrau rhybuddio neu gynghori; ymrwymiadau, setliadau neu fathau eraill o ddatrys. Pan fydd y niwed yn ddifrifol a'r gyfraith yn glir, ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol pan fydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol. Yn yr un modd ag y gall gorddibyniaeth ar lwybrau ffurfiol arafu'r ddarpariaeth, ni ddylai mwy o ddefnydd o offer anffurfiol ddigwydd ar draul mesurau atal effeithiol. Byddwn yn parhau i adolygu'r cydbwysedd hwn.
4. Mae **datblygiadau cyflym mewn deallusrwydd artiffisial** (gan gynnwys systemau asiantaidd) yn cynnig cyfleoedd i ddatgloi arloesedd a chynhyrchiant, ond mae risg hefyd y gallent arwain at niwed newydd neu fwy o niwed i ddefnyddwyr a phryderon newydd neu fwy o bryderon o ran cystadleuaeth. Fel y nodir yn yr adran 'Sylw ar' berthnasol ar t 30 uchod, bydd y CMA yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi defnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac mewn modd dibynadwy mewn marchnadoedd cystadleuol, a bydd yn helpu'r llywodraeth i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Gyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial.

5. Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i **sicrhau'r gwerth gorau posibl gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni.** Yn yr un modd â chyrff eraill, gallai cyllid cyhoeddus cyfyngedig, a phortffolio cymhleth sy'n esblygu, effeithio ar gyflawni a chreu cyfaddawdau anodd. Mae ein rhaglen trawsnewid sefydliadol (gweler t. 34 uchod) wedi'i chynllunio i liniaru'r risgiau hyn.

## Atodiad i'r Dadansoddiad o Berfformiad (1): Metrigau Perfformiad

### EFFAITH EIN GWAITH

Rydym wedi rhannu hyn yn **effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol**; **i ba raddau mae rhanddeiliaid yn credu ein bod yn cyfrannu at ein canlyniadau diffiniedig**; a **sut gallwn fapio ein portffolio o brosiectau i gyd-fynd â'r canlyniadau hynny**. Yn 2025 i 2026 fe wnaethom ragori'n sylweddol ar **darged y llywodraeth** o ddarparu £10 mewn **buddion uniongyrchol i ddefnyddwyr** am bob £1 a wariwyd ar ein gweithrediadau. Mae ein gwaith yn cael effeithiau llai uniongyrchol (ond pwysig serch hynny) – fel **effaith ataliol gyffredinol** y CMA, sy'n cael ei sbarduno gan fewnbynnau fel dirwyon a llythyrau rhybuddio a chynghori.

Mae **barn rhanddeiliaid** yn ein helpu i ddeall i ba raddau mae rhanddeiliaid yn credu ein bod yn cyfrannu at y canlyniadau strategol rydym yn ceisio eu cefnogi yn ein Strategaeth 2026 i 2029, ac mae mapio ein portffolio yn ddangosydd perthnasol arall. Mae'r hyn rydym yn ei **gyflawni** yn gyffredinol yn rhoi syniad o ehangder ein heffaith.

| EFFAITH | | |
|---|---|---|
| **Effaith uniongyrchol** | | **Nodiadau esboniadol** |
| Cymhareb gyfartalog y **buddion uniongyrchol i ddefnyddwyr** a ddarparwyd gan y CMA i'r gwariant gweithredu dros y 3 blynedd diwethaf | 24.7:1 | Metrig canlyniadau<br>Yn 2025 i 2026 fe wnaethom ragori'n sylweddol ar **darged y llywodraeth** o ddarparu £10 mewn **buddion uniongyrchol i ddefnyddwyr** am bob £1 a wariwyd ar ein gweithrediadau.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Asesiad Effaith y CMA ar gyfer 2025 i 2026, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfartaledd blynyddol y **buddion uniongyrchol i ddefnyddwyr** a ddarparwyd gan y CMA dros y 3 blynedd diwethaf | £3.3bn | Metrig canlyniadau<br><br>Cyfanswm yr effaith uniongyrchol<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Asesiad Effaith y CMA ar gyfer 2025 i 2026, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. |
| **Effaith anuniongyrchol** | | **Nodiadau esboniadol** |
| **Llythyrau rhybuddio a chynghori** (cyfraith cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr) a anfonwyd | 209 | Mae ein gwaith yn cael effeithiau llai uniongyrchol (ond pwysig serch hynny) – fel **effaith ataliol gyffredinol** y CMA, sy'n cael ei sbarduno gan fewnbynnau fel dirwyon a llythyrau rhybuddio a chynghori.<br><br>Mae'r metrig dirwyon yn cynnwys cosbau a roddwyd gan y CMA drwy fesurau gorfodi cystadleuaeth a defnyddwyr eleni. Nid yw'n cynnwys incwm o ddirwyon a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Fel y nodir ar t. 181 y Datganiad Ymddiriedolaeth, cyfanswm ein hincwm dirwyo eleni oedd £170.5m. |
| **Dirwyon** a roddwyd | £78.2m | |

| | | |
|---|---|---|
| Canran y rhanddeiliaid sy’n credu bod y CMA yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ein 6 **chanlyniad strategol**: | | Metrig canlyniadau<br><br>Mae **barn rhanddeiliaid** yn ein helpu i ddeall i ba raddau mae rhanddeiliaid yn credu ein bod yn cyfrannu at ganlyniadau ein Strategaeth.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad llawn Arolwg profiad rhanddeiliaid y CMA, a gyhoeddir ochr yn ochr â’r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. |
| • Mae marchnadoedd dynamig a chystadleuol yn sbarduno buddsoddiad, arloesedd a thwf | 47% | |
| • Gall marchnadoedd strategol bwysig a busnesau sy’n ehangu’n gymesur ffynnu | 50% | |
| • Mae prisiau is a chanlyniadau tecach, yn enwedig mewn marchnadoedd hanfodol, yn ysgafnhau’r baich ar gyllidebau aelwydydd | 52% | |
| • Gall defnyddwyr ymgysylltu’n hyderus â marchnadoedd, heb ofni cael eu hecsbloetio | 60% | |
| • Gall busnesau sy’n delio’n deg gystadlu’n deg | 60% | |
| • Mae ein cyngor arbenigol a’n hargymhellion i’r llywodraeth yn llywio polisïau sydd o blaid cystadleuaeth ac sy’n sbarduno twf, yn cefnogi defnyddwyr, ac yn sicrhau gwerth am arian mewn gwasanaethau cyhoeddus | 53% | |
| **Cyflawni yn ôl swyddogaeth** | | **Nodiadau esboniadol** |
| **Uno cwmnïau:** | | |
| • Achosion uno cwmnïau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwybodaeth am Uno Cwmnïau | 902 | |
| • Ymchwiliadau uno cwmnïau Cam 1 a gwblhawyd | 32 | |
| • Ymchwiliadau uno cwmnïau Cam 2 a gwblhawyd | 4 | |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol:**<br>• Ymchwiliadau Statws Marchnad Strategol (SMS) a gynhaliwyd<br>• Gofynion Ymddygiad (CR) a gyflwynwyd<br>• Ymrwymiadau y cytunwyd arnynt<br>• Ymyriadau o blaid Cystadleuaeth (PCI) a gyflwynwyd | 3<br>Ddim yn berthnasol eleni (gweler y nodiadau esboniadol)<br>Ddim yn berthnasol eleni (gweler y nodiadau esboniadol)<br>Ddim yn berthnasol eleni | Er na chyflwynwyd unrhyw Ofynion Ymddygiad yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026, ymgynghorodd y CMA ar 4 Gofyniad Ymddygiad arfaethedig yn ymwneud â gwasanaethau chwilio cyffredinol Google.<br>Daeth pecyn o ymrwymiadau sy'n ymwneud ag ecosystemau symudol Apple a Google i rym ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026 i 2027. |
| **Marchnadoedd:**<br>• Prosiectau marchnadoedd (adolygiadau, astudiaethau, ymchwiliadau) oedd ar agor ar ddechrau'r flwyddyn (1 Ebrill 2025)<br>• Prosiectau marchnadoedd (adolygiadau, astudiaethau, ymchwiliadau) a gwblhawyd<br>• Prosiectau marchnadoedd (adolygiadau, astudiaethau, ymchwiliadau) oedd ar agor ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2026) | 2<br>2<br>3 | Roedd ymchwiliadau marchnad Gwasanaethau Milfeddygol a Gwasanaethau Cwmwl ar agor ar ddechrau'r flwyddyn a chawsant eu cwblhau yn ystod 2025 i 2026.<br>Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 3 astudiaeth farchnad ar agor: Peirianneg Sifil, Deintyddiaeth Breifat, ac Olew Gwresogi. |
| **Gorfodi cystadleuaeth:**<br>• Ymchwiliadau oedd ar agor ar ddechrau'r flwyddyn (1 Ebrill 2025)<br>• Ymchwiliadau oedd ar agor ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2026)<br>• Ymchwiliadau a gwblhawyd | 7<br>5<br>4 | Arweiniodd ymchwiliadau gorfodi cystadleuaeth a gwblhawyd eleni at 1 penderfyniad tor rheolau a 3 phenderfyniad ymrwymiad |

| | | |
|---|---|---|
| **Diogelu defnyddwyr:**<br>• Ymchwiliadau oedd ar agor ar ddechrau'r flwyddyn (1 Ebrill 2025)<br>• Ymchwiliadau oedd ar agor ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2026)<br>• Ymchwiliadau a gwblhawyd | 2<br>14<br>2 | Yn y ddau ymchwiliad diogelu defnyddwyr a gwblhawyd eleni, derbyniwyd ymrwymiadau gan y partïon oedd yn destun ymchwiliad |
| **Yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (SAU):**<br>• Adolygiadau cymorthdaliadau a gwblhawyd | 36 | |
| **Ein prosiectau wedi'u mapio i'n canlyniadau strategol** | | **Nodiadau esboniadol** |
| Mae marchnadoedd dynamig a chystadleuol yn sbarduno buddsoddiad, arloesedd a thwf | • Ystyriwyd bod 6 phrosiect (12%) yn **cyd-fynd i'r graddau mwyaf posibl** â'r canlyniad hwn<br>• Ystyriwyd bod 41 o brosiectau (84%) yn **cyd-fynd yn sylweddol** â'r canlyniad hwn (ynghyd â chanlyniadau eraill o bosibl) | Mae'r mapio hwn yn ymwneud â'r 49 prosiect mwyaf arwyddocaol a dwys o ran adnoddau a gyflawnodd y CMA yn ystod 2025 i 2026. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o'n prosiectau eiriolaeth ac ymchwil, ond nid ydynt yn cynnwys ein hymchwiliadau uno cwmnïau cam 1 na'n hadolygiadau cymorthdaliadau. |
| Gall marchnadoedd strategol bwysig a busnesau sy'n ehangu'n gymesur ffynnu | • Ystyriwyd bod 6 phrosiect (12%) yn **cyd-fynd i'r graddau mwyaf posibl** â'r canlyniad hwn<br>• Ystyriwyd bod 20 o brosiectau (41%) yn **cyd-fynd yn sylweddol** â'r canlyniad hwn (ynghyd â chanlyniadau eraill o bosibl) | |
| | • Ystyriwyd bod 9 prosiect (18%) yn **cyd-fynd i'r graddau mwyaf posibl** â'r canlyniad hwn | |

| | | |
|---|---|---|
| Mae prisiau is a chanlyniadau tecach, yn enwedig mewn marchnadoedd hanfodol, yn ysgafnhau'r baich ar gyllidebau aelwydydd | • Ystyriwyd bod 31 o brosiectau (63%) yn **cyd-fynd yn sylweddol** â'r canlyniad hwn (ynghyd â chanlyniadau eraill o bosibl) | |
| Gall defnyddwyr ymgysylltu'n hyderus â marchnadoedd, heb ofni cael eu hecsbloetio | • Ystyriwyd bod 17 o brosiectau (35%) yn **cyd-fynd i'r graddau mwyaf posibl** â'r canlyniad hwn<br>• Ystyriwyd bod 31 o brosiectau (63%) yn **cyd-fynd yn sylweddol** â'r canlyniad hwn (ynghyd â chanlyniadau eraill o bosibl) | |
| Gall busnesau sy'n delio'n deg gystadlu'n deg | • Ystyriwyd bod 6 phrosiect (12%) yn **cyd-fynd i'r graddau mwyaf posibl** â'r canlyniad hwn<br>• Ystyriwyd bod 40 o brosiectau (83%) yn **cyd-fynd yn sylweddol** â'r canlyniad hwn (ynghyd â chanlyniadau eraill o bosibl) | |
| Mae ein cyngor arbenigol a'n hargymhellion i'r llywodraeth yn llywio polisïau sydd o blaid cystadleuaeth ac sy'n sbarduno twf, yn cefnogi defnyddwyr, ac yn sicrhau gwerth am arian mewn gwasanaethau cyhoeddus | • Ystyriwyd bod 5 prosiect (10%) yn **cyd-fynd i'r graddau mwyaf posibl** â'r canlyniad hwn<br>• Ystyriwyd bod 13 o brosiectau (27%) yn **cyd-fynd yn sylweddol** â'r canlyniad hwn (ynghyd â chanlyniadau eraill o bosibl) | |

## EIN CYFLYMDER A'N HEFFEITHLONRWYDD

Gall ansicrwydd ac oedi gael effaith ataliol ar wneud penderfyniadau a buddsoddi, felly mae cyflymder ac effeithlonrwydd yn hanfodol i **leihau beichiau rheoleiddio ar fusnesau**. Felly, mae'r targedau newydd o dan ein **rhaglen pedair elfen y 4P** yn ddangosyddion pwysig o'n perfformiad – yn enwedig gan eu bod yn mynd y tu hwnt i'r **terfynau amser statudol** perthnasol. Mae **profiad uniongyrchol rhanddeiliaid** o ran a yw'r CMA yn cyflawni ein hymrwymiad i wneud penderfyniadau da cyn gynted â phosibl yr un mor bwysig.

| EIN CYFLYMDER A'N HEFFEITHLONRWYDD | | |
|---|---|---|
| **Cyflawni o fewn y terfynau amser statudol (rheoli uno cwmnïau, y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol, marchnadoedd, cyngor ar gymorthdaliadau)** | | **Nodiadau esboniadol** |
| **Uno cwmnïau:**<br>• Canran yr ymchwiliadau **uno cwmnïau cam 1** a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 40 diwrnod gwaith (gan gynnwys lle cafwyd estyniad)<br>• Canran yr ymchwiliadau **uno cwmnïau cam 2** a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 24 wythnos (gan gynnwys lle cafwyd estyniad) | 100%<br>100% | |
| **Y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol:**<br>• Canran yr **ymchwiliadau SMS** a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 9 mis (gan gynnwys lle cafwyd estyniad)<br>• Canran yr **ymchwiliadau ymyriad o blaid cystadleuaeth (PCI)** a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 9 mis | 100%<br>Ddim yn berthnasol eleni | |
| **Marchnadoedd:** | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Canran yr **astudiaethau marchnad** a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 12 mis (gan gynnwys lle cafwyd estyniad)<br><br>• Canran yr **ymchwiliadau marchnad** a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 18 mis (gan gynnwys lle cafwyd estyniad) | Ddim yn berthnasol eleni<br><br>100% | |
| **Cyngor ar gymorthdaliadau:**<br><br>• Canran yr adolygiadau o gymorthdaliadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 30 diwrnod gwaith | 100% | |
| **Hyd ymchwiliadau ar gyfartaledd (gorfodi cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr)** | | **Nodiadau esboniadol** |
| **Gorfodi cystadleuaeth:**<br><br>• Hyd ymchwiliadau gorfodi cystadleuaeth ar gyfartaledd, dros y 3 blynedd diwethaf | 37 mis | |
| **Diogelu defnyddwyr:**<br><br>• Hyd ymchwiliadau gorfodi cystadleuaeth ar gyfartaledd, dros y 3 blynedd diwethaf | Adroddir ar hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r drefn newydd ymwreiddio | |
| **Cyflawni targedau sy'n gysylltiedig â phedair elfen y 4P (rheoli uno cwmnïau a marchnadoedd)** | | **Nodiadau esboniadol** |
| **Uno cwmnïau:**<br><br>• Canran y **rhaghysbysiadau uno cwmnïau** a gwblhawyd o fewn y targed o 40 diwrnod gwaith (ac eithrio achosion lle cytunodd y partïon ar amserlen wahanol gyda'r CMA)<br><br>• Canran yr **ymchwiliadau uno cwmnïau cam 1 syml** a gwblhawyd o fewn y targed o 25 diwrnod gwaith | 100%<br><br>100% | |

| | | |
|---|---|---|
| **Marchnadoedd:**<br><br>• Canran y **prosiectau marchnadoedd** (adolygiadau, astudiaethau ac ymchwiliadau) a gyrhaeddodd y targedau a nodir yn y mapiau ffordd | Ddim yn berthnasol eleni | |
| **Profiad rhanddeiliaid o gyflymder yng ngwaith achos y CMA** | | **Nodiadau esboniadol** |
| Canran gyfartalog y rhanddeiliaid a ymatebodd yn gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt am eu profiad o Gyflymder yng ngwaith achos y CMA | 63% | Metrig canlyniadau<br>Nifer cyfartalog y rhanddeiliaid a ddywedodd, mewn ymateb i'n harolwg rhanddeiliaid, eu bod:<br>• Yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'tueddu i gytuno' bod y CMA wedi ceisio datrys yr achos mewn ffordd oedd yn mynd i'r afael â phryderon y CMA ar y cam cynharaf<br>• Yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'tueddu i gytuno' bod y CMA wedi chwilio am gyfleoedd i symleiddio prosesau'r achos lle bo hynny'n bosibl<br>• Yn meddwl bod y CMA wedi ymateb yn brydlon i geisiadau 'bob amser' neu 'yn aml'.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad llawn Arolwg |

| | | |
|---|---|---|
| | | profiad rhanddeiliaid y CMA, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. |

## PROFIAD AC YMGYSYLLTIAD EHANGACH RHANDDEILIAID

Eleni, fe wnaethom gyflwyno'r **don gyntaf o arolygon rhanddeiliaid rheolaidd newydd**, gan gasglu adborth am ryngweithio â'r CMA – **o fewn gwaith achos a'r tu hwnt iddo**. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am ein perfformiad a'n diwylliant, yn ogystal â llywio ein gwaith i wella'r canlyniadau y gallwn eu cyflawni. Mae gwreiddio elfen 'Proses' rhaglen pedair elfen y 4P yn gweddnewid yr ymgysylltu hwn mewn gwaith achos. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol y tu hwnt i'n gwaith achos ar lefelau uwch nag erioed o'r blaen

| PROFIAD AC YMGYSYLLTIAD EHANGACH RHANDDEILIAID | | |
|---|---|---|
| **Profiad rhanddeiliaid** | | **Nodiadau esboniadol** |
| Canran y rhanddeiliaid a gafodd **brofiad cadarnhaol** o ryngweithio â'r CMA **yn ein gwaith achos** | 84% | Metrig canlyniadau<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad llawn Arolwg profiad rhanddeiliaid y CMA, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. |
| Canran y rhanddeiliaid a gafodd **brofiad cadarnhaol** o ryngweithio â'r CMA **y tu hwnt i waith achos** | 80% | Metrig canlyniadau<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad llawn Arolwg profiad rhanddeiliaid y CMA, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hwn. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** | | **Nodiadau esboniadol** |
| Ymgysylltu â'r **gymuned fusnes a buddsoddi** y tu hwnt i waith achos | Roedd hyn yn cynnwys:<br><br>• **4** cyfarfod o **Gyngor Twf a Buddsoddi**'r CMA | Metrig canlyniadau |

| | | |
|---|---|---|
| | • **56** o **gyfarfodydd dwyochrog** gyda Chadeiryddion, Prif Swyddogion Gweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol<br>• **21 o ddigwyddiadau** a gyrhaeddodd dros 300 o bobl fusnes a fu'n bresennol | |
| Ymgysylltu â **chyrff defnyddwyr** y tu hwnt i waith achos | Roedd hyn yn cynnwys:<br>• **1** cyfarfod o'n **Fforwm Defnyddwyr newydd**, a lansiwyd ym mis Chwefror 2026 i sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr wrth galon ein gwaith<br>• **14** o **gyfarfodydd dwyochrog** gyda Chadeiryddion, Prif Swyddogion Gweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol | Metrig canlyniadau |
| Ymgysylltu â **Seneddwyr** | Mae'r CMA yn atebol i Senedd y DU, ac rydym wrthi'n ymgysylltu â Seneddwyr yn San Steffan ac yn y gwledydd datganoledig. Dyma'r hyn a wnaethom eleni:<br>• Rhoi tystiolaeth ffurfiol **6** gwaith i **Bwyllgorau Seneddol**<br>• Cwrdd â **6 Grŵp Seneddol Hollbleidiol** (a rhai cyfatebol yn y deddfwrfeydd datganoledig) | Metrig canlyniadau |
| Nifer y **digwyddiadau allanol** y cyfrannodd y CMA siaradwyr arbenigol atynt | 169 | Metrig canlyniadau |

**Atodiad i'r Dadansoddiad o Berfformiad (2): Argymhellion i lywodraethau**

Mae'r CMA yn gwneud argymhellion i lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig lle gallai newidiadau i gyfraith neu bolisi helpu i wella'r modd y mae marchnadoedd y DU yn gweithredu. Mae'r argymhellion hyn fel arfer yn cael eu gwneud ar ôl gwaith casglu a dadansoddi gwybodaeth helaeth a wnaed o dan ein hadnodd marchnadoedd, a'u bwriad yw galluogi defnyddio cystadleuaeth i gyflawni nodau economaidd pwysig.

Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymateb i argymhellion a wneir o dan adnoddau marchnadoedd y CMA o fewn 90 diwrnod, ac i'w derbyn oni bai bod rhesymau polisi cryf dros beidio â gwneud hynny. Er ein bod yn cydnabod y gall dulliau gweithredu fod yn wahanol mewn gwledydd eraill, rydym yn galw ar bob llywodraeth i weithredu ar argymhellion y CMA lle bynnag y gallant wneud hynny.

Er mwyn helpu i asesu effaith ein hargymhellion o ran arwain at newid, mae'r tabl isod yn rhoi syniad o'r pethau canlynol ar raddfa coch-oren-gwyrdd, ar gyfer pob derbynnydd:

- I ba raddau mae eu hymateb yn bwriadu gweithredu ar ein canfyddiadau a bwrw ymlaen â'n pecyn o argymhellion
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y derbynnydd tuag at weithredu'r argymhellion y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â hwy

Yn gyffredinol, bu cynnydd nodedig yn 2025 i 2026, yn enwedig gan lywodraeth y DU, mewn perthynas ag argymhellion y CMA ar danwydd ffyrdd, gofal cymdeithasol plant ac adeiladu tai. Mae'r cynnydd ar fformiwla babanod wedi bod yn gyfyngedig. Rydym yn deall bod llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn disgwyl bwrw ymlaen â mesurau yn ystod 2026 i 2027 a fyddai'n gweithredu nifer o argymhellion y CMA i helpu rhieni i wneud dewisiadau effeithiol ac arbed arian ar y cynnyrch hanfodol hwn.

Bydd y CMA yn parhau i ymgysylltu'n agos â llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar ein holl argymhellion i gefnogi eu derbyn a'u rhoi ar waith.

**<u>Gwasanaethau milfeddygol (2025 i 2026):</u>** argymhelliad i ddiweddaru a disodli'r drefn statudol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau milfeddygol, gan gynnwys rheoleiddio busnesau, rheoleiddio proffesiynol, monitro a gorfodi, a chynlluniau ar gyfer cwynion ac unioni; ystyried diogelu teitlau nyrsys a newidiadau i'r modd y mae meddyginiaethau milfeddygol yn cael eu rheoleiddio.

| Derbynnydd | Prif statws | Ymateb | Gweithredu | Diweddariadau eleni (25/26) |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU (1) | Argymhelliad wedi'i wneud, y llywodraeth yn gwneud cynnydd cryf cyn ymateb. | Ddim yn berthnasol | | Argymhelliad wedi'i gyhoeddi gan y CMA.<br><br>Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i Ddeddf Milfeddygon 1966. |

**<u>Fformiwla Babanod (2024 i 2025):</u>** argymhellion ar gyfyngu ar ddylanwad brandio mewn lleoliadau gofal iechyd; tynhau'r rheolau am arddangos digonolrwydd maethol; cryfhau rheolau labelu a hysbysebu; tynhau'r orfodaeth ar reolau labelu.

44 o argymhellion (11 yr un i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)

| Derbynnydd | Prif statws | Ymateb | Gweithredu | Diweddariadau eleni (2025 i 2026) |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU (11)<br>Llywodraeth Cymru (11)<br>Llywodraeth yr Alban (11)<br>Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (11) | Ymateb ar y cyd i'r argymhellion, gweithio tuag at eu rhoi ar waith | | | Ymateb ar y cyd gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, gan dderbyn 6 o'n 11 argymhelliad mewn egwyddor<br><br>Rydym yn deall bod llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi gwneud cynnydd tuag at weithredu rhai o'r argymhellion hyn a'u bod yn disgwyl cyflwyno mesurau yn ystod 2026 i 2027 |

**<u>Adeiladu tai (2023 i 2024)</u>:** argymhellion ac opsiynau i wella'r rheolaeth breifat ar amwynderau cyhoeddus (a elwir weithiau'n "fleecehold" yn Saesneg) i fynd i'r afael â diffyg dewis i ddefnyddwyr; argymhellion i warantu ansawdd cartrefi newydd ac ansawdd gwasanaeth adeiladwyr tai drwy wella tryloywder ac atebolrwydd; ac opsiynau ar gyfer diwygio cynllunio i leihau'r rhwystrau rhag adeiladu.

33 o argymhellion a 33 o opsiynau (11 o argymhellion ac 11 o opsiynau yr un i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban).

| Derbynnydd | Prif statws | Ymateb | Gweithredu | Diweddariadau eleni (2025 i 2026) |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU (11 + 11 opsiwn) | Symud ymlaen tuag at weithredu'r rhan fwyaf o argymhellion ac opsiynau | | | Llywodraeth y DU wedi pasio'r Ddeddf Cynllunio a Seilwaith, gan fwrw ymlaen ag argymhellion y CMA |
| Llywodraeth Cymru (11 + 11 opsiwn) | Wrthi'n rhoi argymhellion ac opsiynau ar waith neu'n eu cefnogi'n gyffredinol | | | Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i ymgyngoreion statudol, cyfraddau adeiladu ar ôl cael caniatâd, a rheolaeth breifat ar ystadau cyhoeddus, ymysg eraill. |
| Llywodraeth yr Alban (11 + 11 opsiwn) | Yn bwriadu cyflwyno rhai diwygiadau cynllunio yn unol â'n hopsiynau, ond nid yw'r dull ehangach o ymdrin ag argymhellion ac opsiynau'r CMA wedi'i gadarnhau eto | | | Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori ar fesurau i wella cyfraddau adeiladu ar ôl cael caniatâd |

**Tanwydd Ffyrdd (2022 i 2023):** argymhellion i Lywodraeth y DU i greu, ar sail statudol, gynllun canfod tanwydd data agored a swyddogaeth monitro tanwydd mewn corff cyhoeddus priodol

2 argymhelliad i Lywodraeth y DU.

| Derbynnydd | Prif statws | Ymateb | Gweithredu | Diweddariadau eleni (2025 i 2026) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Llywodraeth y DU (2) | Mae’r argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith | | | Mae’r Llywodraeth wedi gweithredu argymhellion y CMA<br><br>Cafodd cynllun canfod tanwydd ei lansio ddechrau 2026<br><br>Mae gan y CMA rôl statudol ffurfiol yn monitro’r farchnad danwydd. Dechreuodd y CMA hefyd orfodi gofynion adrodd y Canfodydd Tanwydd o fis Mai 2026 ymlaen |

**Gofal Cymdeithasol i Blant (2021 i 2022):** argymhellion i wella comisiynu gwasanaethau gan wella gwerth am arian ym maes caffael; argymhellion i greu mwy o gapasiti yn y farchnad i leddfu cyfyngiadau ar y cyflenwad yn y farchnad; ac argymhellion i gynyddu gwydnwch yn y farchnad i sicrhau nad yw unrhyw ymadawiad o'r farchnad yn achosi niwed i blant mewn gofal.

23 o argymhellion (8 yr un i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a 7 i Lywodraeth yr Alban).

| Derbynnydd | Prif statws | Ymateb | Gweithredu | Diweddariadau eleni (2025 i 2026) |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU (8) | Symud ymlaen tuag at weithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion. | | | Deddf Lles Plant ac Ysgolion wedi cael ei phasio, gan ddarparu deddfwriaeth ar gyfer gweithredu argymhellion y CMA yn llawn yn Lloegr. |
| Llywodraeth Cymru (8) | Ddim yn bwrw ymlaen â'r argymhellion ond yn mynd ar drywydd mesurau eraill i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. | | Ddim yn berthnasol | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y datganiad polisi ar fentrau gofal cydweithredol rhanbarthol, sy'n nodi sut gallant fod fwyaf effeithiol ar sail gwerthuso rhanbarthau braenaru. |
| Llywodraeth yr Alban (7) | Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth alluogi, ond mae'r pwyslais ar ddiwygio'r farchnad wedi bod yn gyfyngedig hyd yma. | | | Pasiodd Llywodraeth yr Alban y Bil Plant (Gofal, Profiad o Ofal a Chynllunio Gwasanaethau) (Yr Alban), a allai alluogi diwygiadau yn y dyfodol. |

**Atodiad i'r Dadansoddiad o Berfformiad (3): Monitro a gwerthuso'r Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol**

Mae'r Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol yn cynnwys gofyniad adrodd drwy Gynllun Monitro a Gwerthuso pwrpasol y cytunwyd arno gyda'r llywodraeth. Mae'r Atodiad hwn yn dwyn ynghyd fetrigau perthnasol o'r Cynllun hwnnw, gyda rhagor o wybodaeth am gyfanswm y gwariant gros blynyddol yn Nodyn 2 y Datganiadau Ariannol ar t. 152 a'r ardoll yn y Datganiad Ymddiriedolaeth ar t. 174.

**Proses – gwaith y drefn yn 2025 i 2026**

*Metrigau gweithgarwch cyffredinol – yn seiliedig ar fetrigau perfformiad sefydliadol y CMA (gweler Atodiad 1 uchod)*

| | |
|---|---|
| **Ymchwiliadau Statws Marchnad Strategol (SMS) a gynhaliwyd** | 3 |
| **Gofynion Ymddygiad (CR) a gyflwynwyd** | Ddim yn berthnasol eleni<br>(Ymgynghorwyd ar 4 Gofyniad Ymddygiad mewn perthynas â Chwilio yn 2025 i 2026) |
| **Ymrwymiadau y cytunwyd arnynt** | Ddim yn berthnasol eleni<br>(Daeth 4 Ymrwymiad mewn perthynas ag Ecosystemau Symudol i rym ar 1 Ebrill 2026) |
| **Ymyriadau o blaid Cystadleuaeth (PCI) a gyflwynwyd** | Ddim yn berthnasol eleni |

*Metrigau gweithgarwch ac effeithlonrwydd – yn seiliedig ar fetrigau perfformiad sefydliadol y CMA (gweler Atodiad 1 uchod)*

| | |
|---|---|
| **Canran yr ymchwiliadau SMS a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 9 mis (gan gynnwys lle cawsant eu hymestyn)** | 100% |
| **Canran yr ymchwiliadau PCI a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol o 9 mis** | Ddim yn berthnasol eleni |

*Ymgysylltu â rhanddeiliaid*

| Metrig | Chwilio | Ecosystemau symudol |
|---|---|---|
| **Ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Cyfanswm o 121, yn cynnwys:**<br>• 42 o ymatebion i ymgyngoriadau penderfyniad arfaethedig/map ffordd, | **Cyfanswm o 141, yn cynnwys:**<br>• 57 o ymatebion i ymgyngoriadau penderfyniad arfaethedig/map ffordd<br>• 53 o ymatebion i ymgyngoriadau ymrwymiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | • 79 o ymatebion i ymgyngoriadau Gofynion Ymddygiad | • 31 o ymatebion i'r alwad am dystiolaeth am lywio |
| **Ceisiadau am Wybodaeth (RFI) a ddaeth i law** | **Cyfanswm o 30** | **Cyfanswm o 171** |
| **Rhanddeiliaid y cyfarfuwyd â hwy** | **Cyfanswm o 99, yn cynnwys:**<br>• 33 o ddiwydiant<br>• 20 cyhoeddwr<br>• 4 hysbysebwr<br>• 20 o gymdeithasau masnach/cyrff diwydiant<br>• 8 corff llywodraeth/rheoleiddiwr<br>• 14 arall | **Cyfanswm o 79, yn cynnwys:**<br>• 55 o ddiwydiant<br>• 11 o gymdeithasau masnach/cyrff diwydiant<br>• 7 corff llywodraeth/rheoleiddiwr<br>• 6 arall |

*Effaith: Datblygiadau ehangach ym marchnadoedd digidol y DU*

Mae gwaith marchnadoedd digidol y CMA yn digwydd mewn cyd-destun dynamig iawn. Mae marchnadoedd digidol yn fyd-eang, ac yn y DU, wedi parhau i ehangu dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma rai o'r datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Gwerth ecosystem technoleg y DU yn codi uwchlaw 1tn USD, gan gynnal ei safle fel y fwyaf yn Ewrop,[1] a hynny wedi'i gefnogi gan gyfalaf deallusol cryf, cryfderau sectoraidd, a pholisi gweithredol y llywodraeth.

- Buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith deallusrwydd artiffisial a thrawsnewid digidol, gyda £68bn o fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial wedi'i addo ers mis Ionawr 2025.[2]

- Defnyddio deallusrwydd artiffisial yn eang ar draws busnesau, gyda dros hanner busnesau'r DU yn defnyddio deallusrwydd artiffisial,[3] gan gynnwys drwy ei integreiddio mewn cynnyrch, gwasanaethau a llifoedd gwaith.

---

[1] Ffynhonnell: The Tech Nation Report 2025 a'r UK Sovereign AI Fund
[2] Ffynhonnell: DSIT - AI Opportunities Action Plan - 2026 Progress
[3] Ffynhonnell: Adroddiad AWS

Amcangyfrifir bod busnesau'r DU yn gwario £16m ar gyfartaledd ar ddeallusrwydd artiffisial yn 2025.[4]

- Argaeledd cyllid ar gyfer ehangu'n gymesur yn y DU ac arweinwyr posibl yn y farchnad, Nscale a Wayve yn benodol, gydag Nscale (darparwr seilwaith deallusrwydd artiffisial yn y DU) wedi cyhoeddi cylch cyllido gwerth 2bn USD yn ddiweddar.[5]

- Rhagor o gymorth gan y sector cyhoeddus ar gyfer arloesi ac asedau deallusrwydd artiffisial strategol, gan gynnwys cyhoeddiad y llywodraeth am Gronfa Sovereign AI gwerth £500m.[6]

Er bod y datblygiadau hyn yn cefnogi twf ac arloesedd, mae cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol yn dal yn holl bwysig er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i'r DU. Yn benodol, gall y cyfuniad o faint, rheolaeth dros fewnbynnau allweddol, a'r gallu i siapio llwybrau i'r farchnad alluogi i gwmnïau sydd â grym sylweddol yn y farchnad ddylanwadu ar sut mae technolegau datblygol yn symud yn eu blaenau ac yn cael eu defnyddio. Mae gan hyn oblygiadau i gwmnïau arloesol yn y DU a allai wynebu rhwystrau o ran cael gafael ar gwsmeriaid, mewnbynnau hanfodol, a chyfleoedd i greu refeniw.

Yn y cyd-destun hwn, ac yn unol â Chyfeiriad Strategol y llywodraeth i hyrwyddo twf ac arloesedd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, mae'r CMA wedi canolbwyntio ar sicrhau bod marchnadoedd digidol yn aros yn agored, yn cynnwys elfen o gystadleuaeth, ac yn creu cyfleoedd i fusnesau o bob maint fuddsoddi ac arloesi. Mae hyn wedi cynnwys canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol, trawsbynciol:

- Mynediad cyfyngedig at fewnbynnau: Sicrhau bod cwmnïau yn y DU yn gallu cael gafael ar y mewnbynnau sydd eu hangen i gystadlu'n effeithiol, gan gynnwys data, technoleg, a nodweddion llwyfannau. Mewn marchnadoedd digidol, mae mewnbynnau o'r fath yn aml yn cael eu rheoli gan nifer cyfyngedig o gwmnïau. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2026, sicrhaodd y CMA ymrwymiadau gan Apple i wella tryloywder a'r gallu i ragweld mynediad at nodweddion, sy'n bwysig i ddatblygwyr yn y DU sy'n ceisio adeiladu ac ehangu cynnyrch arloesol ar y dyfeisiau hyn.

- Rhwystrau rhag newid a chloi defnyddwyr: Lleihau'r ffrithiant sy'n ei gwneud yn anoddach i fusnesau a defnyddwyr newid rhwng darparwyr, gan gefnogi'r gallu i gystadlu'n deg a galluogi i gwmnïau arloesol yn y DU ennill busnes newydd. Er enghraifft, mae ymchwiliad parhaus y CMA i

---

[4] Ffynhonnell: Oxford Economics Research Survey Commissioned by SAP
[5] Ffynhonnell: Cyhoeddiad Nscale 9 Mawrth 2026
[6] Ffynhonnell: Cronfa Sovereign AI y DU

ecosystem meddalwedd busnes Microsoft yn ystyried a yw bwndelu cynnyrch, cyfyngiadau o ran y gallu i ryngweithredu neu osodiadau diofyn yn gallu atal cwsmeriaid rhag newid ac yn gwanhau'r cyfyngiadau cystadleuol y mae Microsoft yn eu hwynebu gan gystadleuwyr.

- Cyfyngiadau ar y gallu i greu refeniw a llwybrau i'r farchnad: Cefnogi gallu cwmnïau i greu refeniw o arloesedd a chyrraedd cwsmeriaid, gan gynnwys yng nghyd-destun gwasanaethau sy'n cael eu galluogi gan ddeallusrwydd artiffisial. Er enghraifft, mae'r CMA wedi cyflwyno gofynion ymddygiad mewn perthynas â gwasanaethau chwilio Google â'r nod o roi mwy o dryloywder a rheolaeth i gyhoeddwyr yn y DU dros sut mae eu cynnwys yn cael ei ddefnyddio mewn allbynnau a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial.

# Crynodeb o Berfformiad ac Adolygiad Ariannol

## Crynodeb o Berfformiad: Ble gwnaethom wario ein harian yn 2025 i 2026

Cafodd ein gwariant eleni ei gyfeirio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2025 i 2026. Roedd y rhain yn cynnwys dull strategol iawn o ddiogelu defnyddwyr, gan gyfuno gorfodaeth a chanllawiau, gweithgarwch llawn effaith mewn marchnadoedd digidol craidd, a rhaglen eiriolaeth ac ymchwil oedd yn ceisio dod â meddwl am gystadleuaeth at galon y broses o lunio polisïau. Mae ein perfformiad gweithredol yn erbyn y canlyniadau hyn wedi'i nodi yn y Dadansoddiad o Berfformiad uchod. Fe wnaethom roi pwerau newydd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr ar waith, yn ogystal â chwblhau'r gwaith o ad-drefnu ein gweithlu drwy Gynllun Ymadael Gwirfoddol. Wrth gyflawni'r holl waith hwn, fe wnaethom weithredu o fewn rheolaethau gwariant Seneddol a dychwelyd tanwariant i'r Trysorlys, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad gweithredol i sbarduno arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad

| | | |
|---|---|---|
| **£136.1m**<br>cyfanswm y gwariant adnoddau<br>*2024-25: £137.5 miliwn* | **£199.0m**<br>wedi'i gasglu ar gyfer Trysorlys EF<br>*drwy'r Datganiad Ymddiriedolaeth*<br>*2024-25: £134.4 miliwn* | **£12.3m**<br>wedi'i ddychwelyd o dan y gyllideb<br>*Pleidleisiodd Senedd y DU dros £148.4m o DEL Adnoddau* |

### *Ein gwariant ar adnoddau*

Roedd cyfanswm ein gwariant DEL adnoddau o £136.1 miliwn (2024 i 2025: £137.5 miliwn) yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| **Ein pobl 77%**<br>**£105.0 miliwn** | **Gweithrediadau 14%**<br>**£19.6 miliwn** | **Ddim yn arian parod 9%**<br>**£11.5 miliwn** |

*Sut gwnaethom wario £136.1 miliwn o'n cyllideb adnoddau yn 2025 i 2026*

Ein pobl yw sylfaen ein darpariaeth o hyd. Roedd costau staff o £105.0 miliwn yn 77% o gyfanswm y gwariant adnoddau. Mae hyn yn adlewyrchu'r gweithlu arbenigol sydd ei angen i gyflawni ein swyddogaethau statudol. Mae'r gostyngiad mewn costau staff yn adlewyrchu cwblhau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, wrth i ni addasu maint y sefydliad i fod yn briodol a sbarduno mwy o effeithlonrwydd o ran ffyrdd o weithio. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adolygiad Ariannol y Cyfarwyddwyr o

dudalen 73 ymlaen. Roedd y costau gweithredol nad oeddent yn gostau staff yn £19.6 miliwn, sy'n adlewyrchu mwy o weithgarwch apeliadau rheoleiddio a chostau ystad blwyddyn lawn, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan arbedion mewn teithio, recriwtio a meysydd dewisol eraill. Roedd y costau nad oeddent yn arian parod yn £11.5 miliwn, a thaliadau dibrisiant ydynt yn bennaf. Taliadau cyfrifyddu yw'r rhain, nad ydynt yn arian parod a wariwyd yn ystod y flwyddyn.

***Ein cyllideb adnoddau: arfaethedig a gwirioneddol***

| | **DEL Adnoddau** | |
|---|---|---|
| **Cyllideb** | £148.4 miliwn (Awdurdod Seneddol) | 100% o'r awdurdod |
| **Alldro** | **£136.1 miliwn** | **92% o'r awdurdod** |
| **Arbediad** | £12.3 miliwn wedi'i ddychwelyd fel tanwariant cyhoeddus | **8% o danwariant** |

Fe wnaethom gyflawni tanwariant o £12.3 miliwn yn erbyn ein cyllideb adnoddau, sy'n dangos nifer o ymgyrchoedd effeithlonrwydd ar draws gwariant staffio a gwariant nad yw'n ymwneud â staffio (fel teithio a chynhaliaeth) yn unol â'n Cynllun Cyflawni Effeithlonrwydd yn sgil Adolygiad Gwariant 2025 (SR25). Er bod y CMA wedi parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol i gefnogi blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol, cafodd rhywfaint o'n gweithgarwch a'n buddsoddiad arfaethedig ei ohirio tan 2026 i 2027, yn enwedig rhaglenni cyfalaf a gweithgarwch trawsnewid. Ceir esboniadau manwl o'r amrywiadau yn y gyllideb yn Adolygiad Ariannol y Cyfarwyddwyr o dudalen 73 ymlaen.

***Sut gwnaethom ddefnyddio ein hadnoddau***

Cafodd ein hadnoddau eu cyfeirio'n bennaf tuag at gyflawni'r ddarpariaeth statudol, gan gynnwys gorfodi cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, rheoli uno cwmnïau, gwaith marchnadoedd, a chyflawni ein rôl yn y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol. Y newid mwyaf sylweddol yn ystod y flwyddyn oedd gostyngiad mewn costau cyfreithiol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, a hynny ar ôl cwblhau ymgyfreitha mawr yn 2024 i 2025, gostyngiad mewn costau gwasanaethau corfforaethol, ochr yn ochr â chynnydd mewn gweithgarwch gorfodi, diogelu defnyddwyr a marchnadoedd a buddsoddiad parhaus mewn marchnadoedd digidol a gallu digidol a thechnolegol ehangach. Darperir dadansoddiad llawn o'r gwariant fesul segment gweithredu, ynghyd â chymhariaeth yn erbyn y flwyddyn flaenorol, yn Nodyn 2 y Datganiadau Ariannol.

### *Gwariant cyfalaf*

Roedd y buddsoddiad cyfalaf yn £5.6 miliwn yn erbyn cyllideb o £8.9 miliwn. Mae'r tanwariant wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan faterion sydd y tu hwnt i reolaeth y CMA ac sy'n ymwneud ag amseriad trefniadau contract ar gyfer ymestyn ac ailnegodi lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS16. Bydd y costau hyn, ynghyd ag oedi cymedrol o ran amseriad prosiectau cyfalaf, yn cael eu gohirio tan 2026 i 2027 yn hytrach na'u canslo. Roedd y buddsoddi yn canolbwyntio ar allu digidol ac optimeiddio'r ystad eiddo, gan gynnwys rhaglen addasu maint Cabot Square. Mae'r alldro'n net o incwm DEL Cyfalaf o £0.1 miliwn, a gydnabuwyd ar ôl gwaredu asedau sydd â gwerth net ar y llyfrau o hyd.

### *Darpariaethau a Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae gan y CMA ddarpariaethau ar gyfer achosion cyfreithiol, rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lesoedd a thaliadau dadfeiliad. Cofnodir symudiadau yn y darpariaethau hyn fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Mae'r darpariaethau ar gyfer achosion cyfreithiol a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lesoedd yn cael eu trin fel AME Adnoddau, ac mae AME Cyfalaf fel arfer yn cael ei ddefnyddio i gydnabod triniaeth gyfrifyddu nad yw'n arian parod sy'n ymwneud â chostau dadfeiliad wedi'u cyfalafu fel sy'n ofynnol gan IFRS16 ar Lesoedd. Roedd cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol oddeutu -£7.5 miliwn (2024 i 2025: -£15.5 miliwn). Mae cyfanswm negyddol yn adlewyrchu'r ffaith bod y darpariaethau a ddefnyddiwyd neu a ryddhawyd yn uwch na'r darpariaethau newydd a gydnabuwyd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cwblhau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol ac ailasesu atebolrwydd eiddo.

### *Dirwyon, cosbau ac incwm o ardollau*

Mae'r CMA yn casglu dirwyon a ffioedd ar ran Trysorlys EF. Adroddir ar y rhain drwy'r Datganiad Ymddiriedolaeth o dudalen 174 ymlaen ac nid ydynt yn rhan o gyllideb weithredu'r CMA.

Yn 2025 i 2026, cyfanswm incwm y Datganiad Ymddiriedolaeth oedd £199.0 miliwn (2024 i 2025: £134.4 miliwn), sy'n adlewyrchu mwy o weithgarwch gorfodi a setlo achosion mawr. Ildiodd y CMA £309.6 miliwn (2024 i 2025: £23.01 miliwn) i'r Gronfa Gyfunol yn ystod y flwyddyn, oedd yn cynnwys incwm y flwyddyn gyfredol a chasgliadau'r flwyddyn flaenorol. Mae maint y symiau hyn yn dangos y gwerth economaidd ac ariannol ehangach a gynhyrchir gan weithgarwch gorfodi'r CMA.

### *Incwm a gadwyd gan y CMA*

Cadwodd y CMA incwm o £6.1 miliwn (2024 i 2025: £2.8 miliwn), a hynny wedi'i sbarduno'n bennaf gan y £5.6 miliwn a gafodd ei adennill ar gyfer costau Ailbenderfyniad Prisiau Ofwat 2024, oedd yn un o'r atgyfeiriadau rheoleiddio mwyaf cymhleth y mae'r CMA wedi delio ag ef. Mae'r cynnydd ers y flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu maint achos Ofwat; mae incwm apeliadau rheoleiddio yn ei hanfod yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

### *Tueddiadau gwariant 5 mlynedd*

| £ miliwn | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **DEL Adnoddau (cyfanswm)** | 97.9 | 115.3 | 123.0 | 137.5 | **136.1** |
| *yn cynnwys: costau staff* | 73.9 | 80.2 | 94.7 | 106.8 | **105.0** |
| *yn cynnwys: arian parod arall* | 18.8 | 24.5 | 17.2 | 19.6 | **19.6** |
| *yn cynnwys: ddim yn arian parod* | 5.2 | 10.6 | 11.1 | 11.1 | **11.5** |
| DEL Cyfalaf | 2.7 | 6.5 | 6.3 | 6.5 | **5.6** |
| **Cyfanswm DEL** | **100.6** | **121.9** | **129.3** | **144.0** | **141.7** |
| AME Adnoddau | 7.9 | (9.0) | 18.1 | (15.7) | **(8.3)** |
| AME Cyfalaf | - | (0.2) | (0.3) | 0.3 | **0.8** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **108.5** | **112.7** | **147.1** | **128.6** | **134.2** |
| **Incwm gros y Datganiad Ymddiriedolaeth** | **75.7** | **48.1** | **13.8** | **134.4** | **199.0** |

| Metrigau allweddol | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff oedd yn gyflogedig ar 31 Mawrth | 875 | 928 | ~1,080 | ~1,130 | ~1,001 |
| Cymhareb budd i ddefnyddwyr (£ am bob £1 sy'n cael ei gwario, cyfartaledd 3 blynedd) | £22.50 | £26 | £23 | £24 | Heb ei gyhoeddi eto |

Dros y 5 mlynedd rhwng 2021 a 2026, tyfodd y CMA yn sylweddol i gyflawni cyfrifoldebau statudol oedd wedi cael eu hehangu – tyfodd y gyllideb adnoddau o £97.9 miliwn yn 2021 i 2022 i £137.5 miliwn yn 2024 i 2025 – wrth i swyddogaethau newydd gan gynnwys yr Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gael eu sefydlu. Tyfodd gweithlu'r CMA o 875 i tua 1,130 o bobl dros yr un cyfnod. Yn 2025 i 2026, gostyngodd cyfanswm y gwariant adnoddau i £136.1 miliwn wrth i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol gael ei gwblhau, gyda budd llawn gweithlu llai, wedi'i addasu i faint priodol, yn llifo drwodd i 2026 i 2027. Dyma un o'r ffyrdd mae'r CMA wedi ymateb i'r agenda effeithlonrwydd.

Cynyddodd incwm y Datganiad Ymddiriedolaeth – dirwyon, cosbau, ffioedd uno cwmnïau ac incwm ardollau a gesglir ar gyfer Trysorlys EF – o £75.7 miliwn yn 2021 i 2022 i £199.0 miliwn, sef y swm uchaf erioed, yn 2025 i 2026, a hynny wedi'i sbarduno gan benderfyniadau gorfodi mawr mewn marchnadoedd prisio fferyllol, adeiladu a thechnoleg, ochr yn ochr â'r ardoll Statws Marchnad Strategol gyntaf o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Yn 2025 i 2026 yn unig, ildiodd y CMA £309.6 miliwn i'r Gronfa Gyfunol – mwy na chyfanswm cost gweithredu'r sefydliad dros y 2 flwyddyn ariannol ddiwethaf.

### *Ardoll Statws Marchnad Strategol (SMS) Marchnadoedd Digidol*

Mae'r CMA yn defnyddio'r Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol newydd yn hyblyg, yn gymesur ac ar y cyd i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer twf ar draws sector technoleg y DU ac i sicrhau manteision amlwg i economi'r DU, yn ogystal ag i ddefnyddwyr yn y DU.

Ym mis Ionawr 2025, lansiodd y CMA ein hymchwiliadau dynodiad statws marchnad strategol (SMS) cyntaf i safle Google o ran gwasanaethau chwilio a hysbysebu wrth chwilio, a safle Apple a Google yn eu 'hecosystemau symudol' perthnasol sy'n cynnwys y systemau gweithredu, y siopau apiau a'r porwyr sy'n gweithredu ar ddyfeisiau symudol.

O dan adran 110 y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, mae gan y CMA bwerau i godi ardoll ar gwmnïau sydd wedi'u dynodi ag SMS fel y nodir yn y Rheolau Ardoll SMS, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2025. Mae'r llywodraeth yn credu y dylai'r cyllid ar gyfer y drefn fod yn deg ac yn dryloyw ac y dylai roi gwerth am arian i drethdalwyr y DU, ac o'r herwydd fe wnaethom lansio ymgynghoriad ar reolau'r ardoll i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid, a gafodd eu hystyried wrth gyhoeddi'r rheolau terfynol.

Fel y nodir yn y rheolau, blwyddyn ariannol 2025 i 2026 yw'r Flwyddyn Daladwy gyntaf ar gyfer yr ardoll. Fodd bynnag, dim ond am y cyfnod yr oeddent wedi'u dynodi y mae'r cwmnïau dynodedig yn gorfod talu taliadau ardoll. Rhoddwyd

dynodiad SMS i Google (Chwilio a Symudol) ac Apple (Symudol) ym mis Hydref 2025 ac ar gyfer y flwyddyn 2025 i 2026 gall y CMA adennill costau gweithredu trefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol rhwng mis Hydref 2025 a mis Mawrth 2026. Bydd £6.8 miliwn o daliadau ardoll yn ddyledus gan y cwmnïau dynodedig. Mae'r taliadau hyn yn cael eu casglu yn ein Cyfrifon Ymddiriedolaeth (gweler tudalen 166) a'u trosglwyddo'n llawn i Drysorlys EF.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

## Trosolwg

### *Ymrwymiad*

Mae’r CMA wedi ymrwymo i gefnogi targed statudol llywodraeth y DU o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050 ac i gyflawni Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth. Mae Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth yn nodi’r camau mae’n rhaid i adrannau llywodraeth y DU eu cymryd i leihau effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a’r defnydd o ddŵr, lleihau gwastraff, sicrhau caffael cynaliadwy, a lleihau’r effeithiau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwasanaethau digidol. Mae fframwaith presennol Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth yn cwmpasu’r cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2030, gyda’r perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn llinell sylfaen 2025 i 2026.

### *Datgeliadau Cynaliadwyedd a Chyfraniadau at Nodau Byd-eang*

Paratowyd yr Adroddiad Cynaliadwyedd hwn yn unol ag argymhellion Camau 1, 2 a 3 y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd (TCFD). Yn ystod 2025 i 2026, diweddarodd y CMA ei ddull o ymwneud ag addasu i’r newid yn yr hinsawdd i adlewyrchu gofynion Cam 3 y Tasglu ac i gefnogi asesiad cymesur o risgiau ac effeithiau sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd sy’n deillio o weithrediadau’r CMA.

Mae gweithgareddau cynaliadwyedd y CMA yn cefnogi’r gwaith o gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig, fel y’u gweithredir gan Lywodraeth y DU drwy’r fframweithiau cynllunio a pherfformiad presennol. Yn benodol, mae’r perfformiad yn erbyn Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth yn cyfrannu at Nod Datblygu Cynaliadwy 7 (Ynni Fforddiadwy a Glân), Nod Datblygu Cynaliadwy 12 (Defnyddio a Chynhyrchu’n Gyfrifol), a Nod Datblygu Cynaliadwy 13 (Gweithredu ar Newid Hinsawdd), drwy weithredu ar effeithlonrwydd ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr, caffael cynaliadwy, lleihau gwastraff, ac addasu i’r newid yn yr hinsawdd.

Mae rhagor o fanylion am ddata cynaliadwyedd, gan gynnwys ffiniau adrodd, tybiaethau, methodolegau a chyfyngiadau, ar gael yn Atodiad A (Nodiadau ar Ddata Cynaliadwyedd), ac mae tablau perfformiad manwl ar gael yn Atodiad B (Data Cynaliadwyedd).

### *Ystad y CMA*

Mae gan y CMA swyddfeydd yn Llundain, Belfast, Caerdydd, Darlington, Caeredin a Manceinion. Mae pob swyddfa ar les fasnachol, ac eithrio Caerdydd a Chaeredin, lle

mae gan y CMA ofod mewn adeiladau sy'n ganolfannau ar gyfer y llywodraeth ac sy'n cael eu cynnal gan adrannau eraill y llywodraeth. Yn 2025 i 2026, dechreuodd y CMA raglen i leihau ei ôl troed cyffredinol o ran eiddo, ac mae disgwyl i hyn gefnogi gostyngiad mewn allyriadau yn y dyfodol.

***Parodrwydd ar gyfer archwiliad a sail paratoi'r adroddiad***

Mae'r Adroddiad Cynaliadwyedd hwn wedi cael ei baratoi i'w gynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y CMA a'i fwriad yw cefnogi adolygiadau archwilio allanol. Mae wedi cael ei baratoi'n gyson â Chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd Trysorlys EF a gofynion adrodd Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth. Darperir datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn adran ar wahân sy'n cyd-fynd â cholofnau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD), gan ddefnyddio dull gweithredu cymesur sy'n cael ei arwain gan berthnasedd.

**Ffin adrodd (sefydliadol a gweithredol):** Mae'r data perfformiad cynaliadwyedd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys swyddfeydd ar les y CMA yn Llundain, Belfast, Darlington a Manceinion. Ar gyfer eiddo sydd wedi'i leoli o fewn adeiladau sy'n ganolfannau ar gyfer y llywodraeth (Caerdydd a Chaeredin), mae'r sefydliadau sy'n lletya yn adrodd ar ddata cynaliadwyedd gweithredol sy'n ymwneud â gweithrediadau'r adeilad ac nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Felly, mae'r ffin adrodd ar gynaliadwyedd yn wahanol i ffin adrodd ariannol y CMA.

**Cyflawnrwydd y data, torbwynt ac amcangyfrif:** Lle nad oedd data defnydd gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn lawn ar gael adeg drafftio'r adroddiad (oherwydd amseriad adroddiadau landlordiaid, er enghraifft), mae'r CMA wedi defnyddio dull amcangyfrif cyson i gynhyrchu set ddata flynyddol gyflawn. Mae'r ffigurau sydd wedi'u hamcangyfrif yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael am ddefnydd yn ystod y flwyddyn a methodoleg wedi'i dogfennu sydd wedi'i nodi yn Atodiad A. Bydd y CMA yn diweddaru datgeliadau'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol pan dderbynnir ffigurau gwirioneddol sy'n sylweddol wahanol cyn cyhoeddi'r ddogfen.

**Rheolaethau, adolygu a thystiolaeth:** Daw'r data cynaliadwyedd yn bennaf o adroddiadau landlordiaid/gwasanaethau a reolir, anfonebau cyflenwyr, a systemau teithio mewnol. Mae'r data'n destun adolygiad rheoli, gan gynnwys gwiriadau ar gyfer cyflawnrwydd, cymaroldeb o un flwyddyn i'r llall, a chysondeb rhwng defnydd a chyfrifiadau allyriadau (gan ddefnyddio Ffactorau Trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd gan Defra). Mae'r tybiaethau allweddol, yr ailddatganiadau a'r eithriadau wedi'u cofnodi yn Atodiad A i gefnogi adolygiadau archwilio.

## Gwrthbwyso carbon a sicrwydd allanol

Ni wnaeth y CMA brynu na defnyddio dulliau gwrthbwyso carbon yn 2025 i 2026. Ni chafwyd sicrwydd allanol am y metrigau cynaliadwyedd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn y tu hwnt i'r gweithdrefnau archwilio statudol a ddefnyddir gyda'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

## Ymrwymiadau Gwrdd y Llywodraeth

Mae Defra, yr Adran sy'n gyfrifol am bolisi addasu i'r hinsawdd, wedi cadarnhau nad yw gofynion Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth ar gyfer 2025 i 2030 wedi cael eu ffurfioli na'u cyhoeddi eto. Rydym yn parhau i ddilyn methodoleg ar gyfer rheoli ac adrodd ar gynaliadwyedd sy'n cyd-fynd yn agos â'r hyn rydym yn rhagweld y bydd y gofynion newydd yn ei gynnwys. Bydd y dull hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref naill ai i fod yn cydymffurfio'n barod neu i sicrhau cydymffurfiaeth â thargedau'r dyfodol o fewn yr amserlenni disgwyliedig.

Nid oes gofynion adrodd ar Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth ar gyfer 2025 i 2026. Y flwyddyn benodol hon yw'r llinell sylfaen ar gyfer targedau 2025 i 2030 sydd i ddod ar ôl iddynt gael eu ffurfioli.

## Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)

Mae'r adran hon yn darparu datgeliadau ariannol y CMA sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar sail sy'n cyd-fynd â'r Tasglu. Mae'r CMA yn cydymffurfio â Chamau gweithredu 1, 2 a 3 TCFD Trysorlys EF, ac mae'r datgeliadau hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd Trysorlys EF a chanllawiau cymhwyso TCFD sector cyhoeddus y DU, gan ddefnyddio dull cymesur sy'n cael ei arwain gan berthnasedd.

### *Datganiad Cydymffurfio*

Mae datgeliad y CMA yn cwmpasu 4 colofn TCFD (Llywodraethiant, Strategaeth, Rheoli Risg, a Metrigau a Thargedau). Gan ddefnyddio asesiad cymesur sy'n cael ei arwain gan berthnasedd dros y gorwelion perthnasol, daeth y CMA i'r casgliad nad yw risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn berthnasol i'w weithrediadau nac i'w sefyllfa a'i berfformiad ariannol yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod adrodd.

Felly, nid yw'r CMA wedi cynnal dadansoddiad meintiol o'r senario hinsawdd nac wedi gosod targedau hinsawdd sy'n benodol i'r sefydliad ac mae'n adrodd ar fetrigau gweithredol perthnasol drwy Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth.

### *Llywodraethiant a Rheoli Risg*

Mae'r cyfrifoldeb dros risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn rhan o drefniadau sefydledig y CMA ar gyfer llywodraethiant a rheoli risg corfforaethol. Darperir goruchwyliaeth gan y Prif Swyddog Gweithredu (fel Prif Swyddog Cynaliadwyedd) a'r Bwrdd Gweithredol drwy strwythurau presennol y Bwrdd a'r pwyllgorau.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hasesu drwy fframwaith rheoli risg corfforaethol y CMA. Aseswyd nad oedd y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer y CMA fel y nodir isod yn berthnasol ac nad oeddent yn cyrraedd trothwy'r CMA ar gyfer eu dynodi fel prif risg:

- Tonnau gwres
- Glaw trwm
- Stormydd a gwyntoedd cryfion
- Cyflenwad ynni annibynadwy a chostau ynni uwch.

Yn unol ag asesiad perthnasedd y CMA, nid yw ystyriaethau hinsawdd wedi'u gwreiddio ar draws yr holl adolygiadau o raglenni a phrosiectau. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n gyson wrth i amlygiad i risg ac argaeledd data esblygu.

### *Strategaeth*

Cynhaliodd y CMA asesiad perthnasedd ansoddol o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a daeth i'r casgliad nad ydynt yn berthnasol dros y gorwelion amser perthnasol, ar sail y ffactorau isod:

- Mae'r holl weithrediadau'n cael eu cynnal o swyddfeydd sydd ar les mewn lleoliadau lle nad oes risg amlwg o lifogydd na risg ffisegol ddifrifol o ran yr hinsawdd wedi'i nodi
- Nid yw'r CMA yn gweithredu nac yn berchen ar seilwaith nac asedau ffisegol sy'n agored i risgiau trawsnewid neu risgiau ffisegol o ran yr hinsawdd
- Nid yw'r CMA yn gweithredu mewn sectorau sy'n sensitif i'r hinsawdd fel ynni, trafnidiaeth, amaethyddiaeth na'r amgylchedd adeiledig
- Mae trefniadau sefydledig ar gyfer gweithio'n hybrid ac o bell yn creu gwydnwch o ran digwyddiadau tywydd lleol, gan gefnogi parhad busnes.

O'r herwydd, ni wnaeth newid yn yr hinsawdd ddylanwadu ar benderfyniadau strategol na chynllunio ariannol y CMA ar gyfer y cyfnod adrodd.

### *Metrigau a Thargedau*

Mae'r CMA yn monitro ac yn adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol yn unol â gofynion Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth. Mae data allyriadau manwl a chyfrifiadau ategol ar gael yn Atodiad A (Nodiadau ar Ddata Cynaliadwyedd) ac Atodiad B – Data Cynaliadwyedd.

### Crynodeb o gydymffurfiaeth y CMA â meysydd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)

| Maes TCFD | Statws datgelu (2025-26) | Sail / eglurhad |
|---|---|---|
| **Llywodraethiant** | Datgelwyd | Mae goruchwyliaeth y Bwrdd a'r oruchwyliaeth weithredol o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u gwreiddio yn nhrefniadau llywodraethiant presennol y CMA. |
| **Strategaeth** | Datgelwyd (ar sail perthnasedd) | Cynhaliodd y CMA asesiad perthnasedd ansoddol, a daeth i'r casgliad nad yw risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod adrodd. |
| **Rheoli Risg** | Datgelwyd | Disgrifir y prosesau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn fframwaith rheoli risg presennol y CMA. |
| **Metrigau a Thargedau** | Datgelwyd (metrigau gweithredol) | Adroddir ar fetrigau allyriadau gweithredol at ddibenion Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth. Nid oes targedau hinsawdd sy'n benodol i'r sefydliad wedi cael eu gosod y tu hwnt i ofynion trawslywodraethol. |
| **Dadansoddi senarios** | Heb ei wneud (egluro) | O ystyried bod y CMA wedi asesu nad oedd amlygiad perthnasol i risgiau a bod y sylfaen asedau ffisegol yn gyfyngedig, nid ystyriwyd bod dadansoddi meintiol ar senarios yn gymesur ar gyfer 2025 i 2026. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol. |

# Atodiad A – Nodiadau ar Ddata Cynaliadwyedd

### *Nodiadau Cyffredinol*

Casglwyd data cynaliadwyedd o amrywiaeth o ffynonellau ac fe'i ceir yn bennaf gan landlordiaid ac asiantiaid rheoli. Felly, mae cywirdeb a chyflawnder y data a adroddir yn dibynnu ar yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan y trydydd partïon hyn ac mae'n ddibynnol ar ddarparwr gwasanaeth y CMA yn casglu'r data.

Darparwyd data am ddefnydd dŵr gan landlordiaid a chafodd ei gasglu ar sail gyfunol at ddibenion yr adroddiad hwn. Nid yw gwybodaeth am ddefnydd dŵr anuniongyrchol na ffynonellau dŵr ar gael i'r CMA oherwydd ein bod yn defnyddio adeiladau amlfeddiannaeth.

Oherwydd y ddibyniaeth ar wybodaeth a ddarperir gan landlordiaid, nid oes data ariannol cywir a chyflawn y gellir ei briodoli'n benodol i ddefnydd dŵr ar gael ac felly mae wedi'i eithrio o'r cyfnod adrodd hwn.

Caiff cyfleustodau a'r rhan fwyaf o wasanaethau adeiladau eu darparu gan landlordiaid a'u hadennill drwy daliadau gwasanaeth. Lle nad oes dadansoddiadau manwl ar gael, defnyddiwyd gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall oedd ar gael i helpu i gyfrifo data cynaliadwyedd gan ddefnyddio'r wybodaeth gyfyngedig a ddarperir fel arfer i denantiaid mewn adeiladau amlfeddiannaeth.

Nid yw'r CMA yn cael incwm o ffrydiau gwastraff ac felly nid oes ganddo incwm i'w osod yn erbyn costau rheoli gwastraff. Nid oes ganddo ychwaith ddulliau gwrthbwyso carbon ac nid yw'n eu defnyddio.

Ar gyfer eiddo sydd wedi'i leoli o fewn adeiladau sy'n ganolfannau ar gyfer y llywodraeth, y sefydliadau sy'n lletya sy'n adrodd ar ddata cynaliadwyedd sy'n ymwneud â gweithrediadau'r adeilad ac nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Er bod gwariant sy'n gysylltiedig â'r adeiladau hyn wedi'i gynnwys o fewn ffin adrodd ariannol y CMA, nid yw'r ffin adrodd ar gynaliadwyedd yn cynnwys data gweithredol adeiladau sy'n ganolfannau. Felly, mae'r ffin adrodd ar gynaliadwyedd yn wahanol i'r ffin adrodd ariannol.

Lle mae swyddfeydd yn cael eu defnyddio o dan drefniadau trwydded, ni fu'n bosibl rhannu costau cyfleustodau oddi wrth gostau eraill. Felly, mae'r wybodaeth ariannol hon wedi cael ei heithrio.

Yn amodol ar asesiad perthnasedd, mae'r CMA wedi ystyried a yw unrhyw ddefnydd o adnoddau naturiol cyfyngedig y tu hwnt i ddŵr yn berthnasol i ddefnyddwyr yr

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ac nid yw wedi nodi unrhyw feysydd o'r fath ar gyfer y cyfnod adrodd.

Mae'r CMA wedi penderfynu drwy asesiad perthnasedd nad oes angen rhagor o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ac mae'n cadarnhau mai dim ond drwy Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth mae perfformiad cynaliadwyedd yn cael ei adrodd.

Mae'r CMA wedi ystyried a oes unrhyw drefniadau cadwyn gwerth perthnasol y tu hwnt i'w ffin gyfrifyddu a fyddai'n golygu bod allyriadau'n cael eu symud oddi ar y fantolen heb ostyngiadau gwirioneddol ac nid yw wedi nodi unrhyw drefniadau o'r fath ar gyfer y cyfnod adrodd.

Ni chafwyd unrhyw wariant perthnasol ar brosiectau lleihau allyriadau nac atebion allyriadau isel.

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol adroddadwy, fel y'u diffinnir o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae Ffactorau Trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU, fel y'u cyhoeddwyd gan Defra, wedi cael eu defnyddio wrth gyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr yr adroddir yn eu cylch yn y ddogfen hon, ac eithrio lle mae darparwyr cwmwl cyhoeddus allanol yn darparu allyriadau. Yn yr achosion hyn, mae'r CMA yn dibynnu ar eu cyfrifiadau.

Mae'r adroddiad wedi'i lenwi â data gwirioneddol ar gyfer ynni (trydan a nwy), dŵr a gwastraff lle mae hynny ar gael. Lle nad oedd data gwirioneddol blwyddyn lawn ar gael adeg drafftio, defnyddiwyd amcangyfrifon i gefnogi set ddata flynyddol gyflawn.

Mae'r fethodoleg ar gyfer casglu a sicrhau data perfformiad cynaliadwyedd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac mae'r gwaith archwilio mewnol yn parhau. Y data perfformiad sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yw'r wybodaeth fwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi'r adroddiad, ond mae'n bosibl y bydd yn newid yn y dyfodol.

***Ailddatgan Data Perfformiad Cynaliadwyedd***

Canfu adolygiad dilynol o ddata cynaliadwyedd bod y defnydd o gyfleustodau yn uwch na'r hyn a adroddwyd mewn cyfnodau adrodd cynharach[7], a hynny'n deillio o

[7] Nid yw hyn yn effeithio ar y perfformiad yr adroddwyd yn ei gylch ar gyfer holl Ymrwymiadau Gwyrdd eraill y Llywodraeth, nac ychwaith ar ddatgeliadau a wnaed yn unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Oherwydd data cyfleustodau anghyflawn mewn cyfnodau cynharach nad oes modd ei gywiro'n ddibynadwy, mae'r CMA wedi cyfyngu'r adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r ddwy flynedd ddiweddaraf er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau ar sail gwybodaeth gywir a chymaradwy.

wybodaeth anghyflawn a ddarparwyd gan drydydd partïon. Ar sail yr wybodaeth oedd ar gael ar y pryd, adroddodd y CMA ei fod yn cydymffurfio â'r targed yr effeithiwyd arno (Maes A – Lliniaru Newid Hinsawdd 2020 i 2025). Ers hynny, mae data wedi'i ddiweddaru wedi cadarnhau na chyrhaeddwyd y targed, ac mae'r sefyllfa ddiwygiedig wedi'i nodi yn y tabl isod.

| Targed A (erbyn mis Mawrth 2025) | Perfformiad a Adroddwyd | Perfformiad wedi'i Gywiro | Statws |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Allyriadau (Cwmpas 1, 2, 3) | 51% o Ostyngiad | 21% o Gynnydd | Heb ei gyflawni |
| Allyriadau Uniongyrchol (Cwmpas 1) | 68% o Ostyngiad | 227% o Gynnydd | Heb ei gyflawni |

***Gwybodaeth Gyd-destunol***

Cafodd targedau blaenorol Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth eu mesur yn erbyn llinell sylfaen allyriadau absoliwt a osodwyd yn 2017 i 2018, nad yw'n addasu ar gyfer newidiadau ym maint y sefydliad dros amser.

Ers blwyddyn y llinell sylfaen, mae'r CMA wedi ehangu'n sylweddol, gyda maint y cyfleusterau sydd o fewn y cwmpas wedi cynyddu 126%. Pan ystyrir allyriadau o'u cymharu â'r twf hwn, byddai cyfanswm yr allyriadau yn ostyngiad amcangyfrifedig o 46%, o'i gymharu â tharged o 48%.

Er nad yw'r sefyllfa hon fel y cafodd ei haddasu yn cydymffurfio'n llwyr o hyd, mae'n rhoi cyd-destun ychwanegol ar gyfer y perfformiad sylfaenol ac effaith twf y sefydliad ers sefydlu'r llinell sylfaen.

# Atodiad B – Data Cynaliadwyedd

Mae allyriadau'r CMA ar gyfer 2024 i 2025 a 2025 i 2026 wedi'u nodi yn y tabl isod:

| Dangosyddion heb fod yn ariannol | Cyfanswm BA 24-25 | Cyfanswm BA 25-26 | Newid Canrannol (%) |
|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | | | |
| Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (tCO2e) | 1033.62 | 1054.87 | 2.06% |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol (tCO2e) | 482.16 | 511.59 | 6.10% |
| **Dŵr** | | | |
| Defnydd dŵr ($m^3$) | 6,128 | 10.987 | 79.29% |
| **Cyfleustodau** | | | |
| Trydan (000 kWh) | 2,106 | 2.483 | 17.90% |
| Allyriadau Trydanol ($tCO_2e$) | 436.12 | 439.58 | 0.79% |
| Nwy (000 kWh) | 2,636 | 2,796 | 6.07% |
| Allyriadau Nwy ($tCO_2e$) | 482.16 | 511.59 | 6.10% |
| Colledion Trawsyrru a Dosbarthu - Cwmpas 3 Categori 3 ($tCO_2e$) | 38.54 | 46.01 | 19.38% |
| **Allyriadau TGCh** | | | |
| Allyriadau TGCh ($tCO_2e$) | Ddim yn berthnasol | 232.29 | Ddim yn berthnasol |
| **Teithiau Hedfan yn y DU** | | | |
| Pellter (000 km) | 254.80 | 208.73 | -18.08% |
| Allyriadau ($tCO_2e$) | 41.02 | 28.28 | -31.06% |
| Nifer y Teithiau Hedfan | 686 | 371 | -45.92% |
| **Mathau Eraill o Deithio** | | | |
| Pellter (000 km) | 61.22 | 48.83 | -20.24% |
| Allyriadau ($tCO_2e$) | 8.76 | 7.44 | -15.07% |
| Nifer y Teithiau | 1,642 | 1,175 | -28.44% |
| **Teithiau Trên** | | | |
| Pellter (000 km) | 761.91 | 619.17 | -18.73% |
| Allyriadau ($tCO_2e$) | 27.02 | 21.95 | -18.76% |
| Nifer y Teithiau | 2,428 | 2,018 | -16.89% |
| **Lleihau Gwastraff** | | | |
| Gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi (%) | 0 | 0 | 0% |
| Cyfran y gwastraff a ailgylchwyd (%) | 30% | 46% | 53.33% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwastraff (tunelli) | 31.24 | 23.73 | -24.04% |
| Gwastraff Bwyd (tunelli) | 4.68 | 3.59 | -23.29% |
| Gwastraff TGCh (tunelli) | 1.30 | 0.87 | -33.08% |
| Gwastraff peryglus | 0 | 0 | 0% |

Nodiadau am y tabl

1. Mae ffigurau 2024 i 2025 wedi'u cynnwys er mwyn gallu cymharu, wedi'u diweddaru o'u cymharu ag adroddiad 2024 i 2025 lle mae gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law yn ddiweddarach. Gan nad yw Ymrwymiadau Gwyrdd drafft newydd y Llywodraeth bellach yn gofyn am adrodd ar deithiau hedfan rhyngwladol na theithio ar drenau yn rhyngwladol, mae'r elfennau hyn wedi cael eu heithrio o ffigurau 2024 i 2025 a 2025 i 2026 a ddangosir yn y tabl; mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yng nghyfanswm yr allyriadau.
2. Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r newidiadau perthnasol rhwng data cynaliadwyedd 2024 i 2025 a 2025 i 2026 fel a ganlyn:
    - Y cynnydd yn y defnydd o ddŵr – mae hwn yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y defnydd a adroddwyd ym Mhrif Swyddfa'r CMA yn y Cabot. Darparwyd yr wybodaeth hon gan landlord y CMA ac mae'n seiliedig ar ddosraniad ar draws yr holl denantiaid. Mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.
    - Llai o deithiau hedfan domestig – mae nifer y teithiau hedfan domestig wedi gostwng yn sylweddol, a hynny'n bennaf oherwydd bod polisïau teithio'r CMA wedi cael eu tynhau.
    - Llai o deithio yn gyffredinol – bu gostyngiad cyffredinol mewn teithio o un flwyddyn i'r llall gan fod y CMA wedi lleihau o ran maint ac wedi tynhau ei bolisïau teithio.
    - Llai o wastraff a mwy o ailgylchu – un o flaenoriaethau cynaliadwyedd allweddol y CMA yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu. Cyflawnwyd hyn drwy gynnal sioeau teithiol, gwella arwyddion, a chydweithio â landlordiaid a chyflenwyr.
3. Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gwmpasau a chategorïau'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, dyma'r diffiniadau mae'r CMA yn eu defnyddio:
    a. **Cwmpas 1** – allyriadau uniongyrchol o ffynonellau (er enghraifft, hylosgi tanwydd mewn boeleri).
    b. **Cwmpas 2** – allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu'r ynni a brynwyd ac a ddefnyddiwyd gan y sefydliad (er enghraifft, trydan a brynwyd).
    c. **Cwmpas 3** – allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol o'r gadwyn werth sy'n deillio o ganlyniad i weithgareddau'r CMA ond nad ydynt yn dod o ffynonellau sy'n eiddo i'r sefydliad nac yn cael eu rheoli'n uniongyrchol ganddo. Ar gyfer y cyfnod adrodd presennol, mae datgeliad Cwmpas 3 y CMA yn cynnwys teithiau busnes yn ogystal â cholledion trawsyrru a dosbarthu yn unig.
4. Mae'r mathau eraill o deithio yn cynnwys teithiau ar drenau tanddaearol Llundain, gwasanaethau tramiau a rheilffyrdd ysgafn, teithio ar fysiau a choetsys, llogi ceir, a defnydd aelodau staff y CMA o'u cerbydau personol ar gyfer teithiau busnes.
5. Mae pwysau'r gwastraff TGCh yn cael ei adrodd fel cyfanswm blynyddol a ddarperir gan y cyflenwr ac ni ellir ei rannu'n gategorïau adnoddau unigol. Er bod data maint a gwerth ar gael ar lefel fanylach, mae'r ffigur pwysau yn adlewyrchu'r cyfanswm cyfanredol yn unig.

Mae gwariant y CMA ar gyfleustodau a theithio busnes ar gyfer 2024 i 2025 a 2025 i 2026 wedi'i nodi yn y tabl isod:

| Dangosyddion ariannol | Cyfanswm 24-25 | Cyfanswm 25-26 | Newid Canrannol |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | (%) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Ynni | £788,982.47 | £744,383.31 | -5.65% |
| Gwariant ar Deithio | £376,120.08 | £346,588.99 | -7.85% |

**Nodiadau am y tabl**

1. Mae'r Gwariant ar Ynni yn cynnwys Trydan a Nwy fel y mae landlordiaid y CMA yn anfonebu ar ei gyfer.
2. Mae'r Gwariant ar Deithio yn cynnwys yr holl deithio ar Awyrennau a Threnau, Llogi Ceir a hawliadau milltiroedd, gan gynnwys teithio rhyngwladol ac Eurostar, gan nad yw'n ymarferol gwahanu'r wybodaeth hon.

Mae ystadegau'r CMA ar gyfer Gwastraff TGCh wedi'u nodi yn y tabl isod:

### Gwastraff TGCh ar gyfer 2025 i 2026 – Ymrwymiad 4.9

| Categori | Cyrchfan | Nifer yr Unedau | Gwerth a Ddychwelwyd (£) |
|---|---|---|---|
| Dyfeisiau Defnyddwyr (monitorau) | Ailddefnyddio | 170 | £7,949 |
| Dyfeisiau Defnyddwyr (monitorau) | Ailgylchu | 731 | Ddim yn berthnasol |
| Perifferolion | Ailddefnyddio | 100 | Ddim yn berthnasol |
| Perifferolion | Ailgylchu | 134 | Ddim yn berthnasol |
| Dyfeisiau Rhwydwaith | Ailddefnyddio | 0 | Ddim yn berthnasol |
| Dyfeisiau Rhwydwaith | Ailgylchu | 47 | Ddim yn berthnasol |
| Ffonau (ac eithrio ffonau clyfar) | Ailddefnyddio | 0 | Ddim yn berthnasol |
| Ffonau (ac eithrio ffonau clyfar) | Ailgylchu | 7 | Ddim yn berthnasol |
| Offer Delweddu a Chyfarpar Clyweledol | Ailddefnyddio | 79 | £45,935 |
| Offer Delweddu a Chyfarpar Clyweledol | Ailgylchu | 61 | Ddim yn berthnasol |
| Arall (Argraffwyr bwrdd gwaith, Argraffwyr MFD a pheiriannau rhwygo) | Ailddefnyddio | 0 | Ddim yn berthnasol |
| Arall (Argraffwyr bwrdd gwaith, Argraffwyr MFD a pheiriannau rhwygo) | Ailgylchu | 19 | Ddim yn berthnasol |

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y CMA

Sarah Cardell Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2026

# Adroddiad Atebolrwydd

Designed front page

# Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### *Pwerau statudol*

Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o lywodraeth y DU a dyma brif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Rydym yn cael ein goruchwylio gan Fwrdd, sy'n cynnwys ein Cadeirydd, Doug Gurr a'n Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac Uwch Dîm Gweithredol sydd â chyfuniad cryf o arbenigedd ym maes cystadleuaeth, defnyddwyr a materion corfforaethol (gweler tudalen 81 am ragor o fanylion am aelodau ein bwrdd a thudalen 80 am fanylion am sut rydym yn rheoli eu buddiannau).

Mae ein Strategaeth newydd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025, yn nodi ein diben, sef hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, a hynny â nod clir yn y pen draw, sef sbarduno twf economaidd a gwella ffyniant aelwydydd.

Dyma ein prif swyddogaethau:

- **Diogelu Defnyddwyr** – maes lle mae gennym fwy o bwerau erbyn hyn yn sgil y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Ein huchelgais yma yw hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder, er mwyn i bobl allu cymryd rhan weithredol yn yr economi ac er mwyn i fusnesau allu cystadlu'n deg. Mae ein gweithgareddau'n cefnogi gwell ffyniant i aelwydydd a gwell twf economaidd, gan atal arferion corfforaethol gwael ar yr un pryd.

- **Marchnadoedd**, lle rydym yn gweithio i ganfod a gweithredu ar gyfleoedd i farchnadoedd sicrhau canlyniadau gwell i'r DU. Mae'r canlyniadau yn cynnwys mwy o ddewis, prisiau is a chanlyniadau tecach i ddefnyddwyr. Ochr yn ochr â hyn, mwy o gynhyrchiant, arloesedd a datgloi rhwystrau rhag mynediad neu rwystrau rhag ehangu'n gymesur i gwmnïau sy'n herio a busnesau bach.

- **Eiriolaeth**, lle mae gennym rôl statudol o ran rhoi cyngor ac argymhellion arbenigol i lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus ar draws y DU. Rydym yn defnyddio'r swyddogaeth hon mewn ffordd sy'n ein herio ni, a'r llywodraeth, i alluogi cystadleuaeth er mwyn cyflawni nodau polisi cenedlaethol.

- **Gorfodi cystadleuaeth**, sy'n atal ymddygiad gwrth-gystadleuol sy'n rhwystro canlyniadau teg i ddefnyddwyr a threthdalwyr, ac yn llesteirio arloesedd a pha mor ddynamig yw'r farchnad.

- **Y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol**, a sefydlwyd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, lle rydym yn pleidio

cystadleuaeth er mwyn datgloi cyfleoedd ar gyfer mwy o ddewis i ddefnyddwyr, yn ogystal â buddsoddiad, arloesedd a thwf ar draws economi ddigidol y DU.

- **Rheoli uno cwmnïau**, lle rydym yn defnyddio dull cymesur wedi'i dargedu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a sicrhau bod marchnadoedd y DU yn parhau i fod yn ddynamig ac yn gystadleuol, gan sbarduno arloesedd a thwf.

- **Swyddfa'r Farchnad Fewnol**, sy'n rhoi cyngor a dadansoddiad economaidd sy'n cefnogi masnach o fewn y DU, a phrosesau monitro ac adrodd ehangach.

- **Yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau**, sy'n rhoi cyngor clir y gellir gweithredu arno i awdurdodau cyhoeddus er mwyn galluogi cymorthdaliadau sydd wedi'u targedu'n dda mewn amrywiaeth o feysydd sy'n effeithio ar fywydau dinasyddion ac yn galluogi twf, a phrosesau monitro ac adrodd ehangach.

- **Apeliadau rheoleiddio**, lle rydym yn cyflawni rôl benodol mewn perthynas â rheolaethau prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sy'n benodol i sectorau.

### *Archwilwyr*

Mae ein Cyfrifon Adnoddau a Chyfrifon y Datganiad Ymddiriedolaeth wedi cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i Senedd y DU. Datgelir cost dybiannol yr archwiliad yn Nodyn 4 Datganiadau Ariannol y CMA ac mae'n ymwneud â gwaith archwilio statudol yn unig. Ni chyflawnodd yr archwilwyr unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn 2025 i 2026.

Mae Cyfarwyddwyr y CMA, gan gynnwys y Prif Weithredwr, wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y CMA yn ymwybodol o'r wybodaeth honno hefyd. Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gyda chefnogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn ymwybodol ohoni.

### *Swyddog Cyfrifyddu*

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr y CMA, Sarah Cardell, yn gyfrifol – gyda chyngor gan Fwrdd y CMA – am sicrhau bod y CMA yn gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel o uniondeb mewn perthynas â llywodraethiant, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol. Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA yn

cyflawni rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys bod yn gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, gan gynnwys rhoi cyfrif am sut mae adnoddau'n cael eu dosbarthu yn y CMA, fel y nodir ym mhennod 3 'Managing Public Money' a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Y Prif Swyddog Gweithredu, Daniel Lambauer, yw'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol sydd â chyfrifoldeb penodol dros wasanaethau corfforaethol a chymorth.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol

Cipolwg ar y perfformiad ariannol

| | 2025-26 | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | Alldro £000 | Cyllideb £000 | Alldro £000 |
| DEL Adnoddau | 136,062 | 148,411 | 137,523 |
| *Dibrisiant wedi'i glustnodi* | (11,527) | (12,029) | (11,076) |
| *DEL Adnoddau Arian Parod (heb y dibrisiant)* | 124,535 | 136,382 | 126,447 |
| DEL Cyfalaf | 5,640 | 8,920 | 6,501 |
| **Cyfanswm DEL** | **141,702** | **157,331** | **144,024** |
| AME Adnoddau | (8,360) | 22,000 | (15,739) |
| AME Cyfalaf | 822 | 2,000 | 274 |
| **Cyfanswm AME** | **(7,538)** | **24,000** | **(15,465)** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **134,164** | **181,331** | **128,559** |
| Incwm gweithredu a gadwyd | 6,144 | 8,000 | 2,753 |
| Incwm y Datganiad Ymddiriedolaeth (gros) | 199,015 | Ddim yn berthnasol | 134,408 |
| Ildiwyd i'r Gronfa Gyfunol | 309,637 | Ddim yn berthnasol | 23,014 |
| Cyfanswm yr ecwiti ar 31 Mawrth | 20,808 | Ddim yn berthnasol | 12,396 |

### *Sail yr adrodd*

Datganiad y Cyflenwad Seneddol (SoPS) ar dudalen 122 yw'r prif fecanwaith y mae Senedd y DU yn ei ddefnyddio i reoli gwariant cyhoeddus. Felly, mae'r perfformiad yn erbyn y terfynau hyn yn fesur canolog o ddisgyblaeth ariannol.

### *DEL Adnoddau*

Cyflawnodd y CMA gyfanswm alldro DEL Adnoddau o £136.1 miliwn yn erbyn cyllideb o £148.4 miliwn, gan gynhyrchu tanwariant o £12.3 miliwn. Cadwodd y CMA

o fewn ein terfyn DEL Adnoddau, gan sicrhau tanwariant ond gan gyflawni'r blaenoriaethau statudol ar yr un pryd. Mae'r tanwariant yn adlewyrchu rheolaeth ariannol ofalus, gan amsugno costau newid sylweddol yn y gweithlu ac amseriad gwariant. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad y CMA i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd gwariant gweithredol.

Yn 2025 i 2026, cwblhawyd Cynllun Ymadael Gwirfoddol y CMA, a arweiniodd at ostyngiad yn nifer y staff yn ystod y flwyddyn, ac arbedion cysylltiedig mewn gwariant sy'n gysylltiedig â staff. Roedd addasu maint ein gweithlu fel ei fod mor effeithlon â phosibl yn gam allweddol i ni tuag at sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y sefydliad.

Ceir dadansoddiad manylach o linellau gwariant yn Nodyn 4 y Datganiadau Ariannol.

### *Costau staff*

Roedd y costau staff, sef £105.0 miliwn, £1.8 miliwn (1.7%) yn is na'r flwyddyn flaenorol (2024 i 2025: £106.8 miliwn), sy'n adlewyrchu effaith y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a newidiadau ehangach i'r gweithlu. Cafodd yr arbedion eu gwrthbwyso'n rhannol gan ddyfarniadau cyflog a chostau uwch ar gyfer cyflogwyr. Ceir rhagor o fanylion yn y nodyn Costau Staff (wedi'u harchwilio) yn yr Adroddiad Taliadau.

### *Gwariant nad yw'n wariant staff*

Cynyddodd y costau nad ydynt yn gostau staff oherwydd gweithgarwch apeliadau rheoleiddio a chostau ystad, a chafodd y cynnydd ei wrthbwyso'n rhannol gan arbedion o ran teithio a recriwtio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 4 y Datganiadau Ariannol.

### *Incwm*

Cadwodd y CMA £6.1 miliwn o incwm yn erbyn £8.0 miliwn a awdurdodwyd. Mae'r diffyg yn adlewyrchu amseriad adennill costau. Mae manylion yr incwm fesul categori ar gael yn Nodyn 5 y Datganiadau Ariannol.

### *DEL Cyfalaf*

Roedd y gwariant cyfalaf yn £5.6 miliwn yn erbyn cyllideb o £8.9 miliwn, gyda'r £3.3 miliwn o danwariant yn cael ei sbarduno'n bennaf gan faterion oedd y tu hwnt i reolaeth y CMA. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu lesoedd ar gyfer swyddfeydd a gynlluniwyd ar gyfer 2025 i 2026 (y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS16) na ddaethant i ben oherwydd amserlenni contractau trydydd partïon. Cafodd rhywfaint o

waith paratoi eiddo ar gyfer ei ddefnyddio yn y Cabot ei ohirio i gyd-fynd ag amserlenni is-denantiaid. Mae'r holl raglenni gohiriedig wedi eu hymrwymo a'u hariannu yn 2026 i 2027. Fe wnaeth y CMA hefyd gydnabod incwm cyfalaf o £0.1 miliwn, sydd wedi'i gynnwys yn yr alldro, ar gyfer gwaredu asedau oedd â gwerth net ar y llyfrau adeg eu gwaredu.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Roedd yr AME Adnoddau yn -£8.4 miliwn, gan adlewyrchu symudiadau darpariaeth gan gynnwys cwblhau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol a rhai darpariaethau ymgyfreitha newydd ar gyfer achosion sy'n dal i fynd rhagddynt. Mae'r AME Adnoddau yn ei hanfod yn amrywiol ac yn cael ei yrru'n bennaf gan ganlyniadau cyfreithiol yn hytrach na gweithgarwch gweithredol.

Roedd yr AME Cyfalaf yn £0.8 miliwn yn dilyn ailasesiad o ddarpariaethau eiddo gan gontractwr allanol annibynnol. Mae hyn yn cynnwys asesiadau ar draws holl ystadau eiddo'r CMA ac mae'n adlewyrchu diwygiadau i'r asedau dadfeiliad wedi'u cyfalafu a datgydnabod asedau blaenorol. Mae manylion llawn y darpariaethau dadfeiliad ar draws ein hystad i'w gweld yn Nodyn 14 y Datganiadau Ariannol.

### *Crynodeb o'r Datganiad Ymddiriedolaeth*

Mae'r CMA yn gweinyddu Datganiad Ymddiriedolaeth sy'n cyfrif am incwm a gesglir fel asiant i Drysorlys EF. Rydym yn atebol i Senedd y DU am ei gasglu a'i stiwardio'n briodol.

| Datganiad Ymddiriedolaeth | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 | Symudiad £000 |
|---|---:|---:|---:|
| Dirwyon a chosbau CA98 | 170,532 | 126,700 | +43,832 |
| Dirwyon a chosbau EA02 | 25 | 1,525 | (1,500) |
| Llog ar gosbau sy'n ddyledus | 18,488 | 2,503 | +15,985 |
| Ffioedd uno cwmnïau | 3,160 | 3,680 | (520) |
| *Ardoll SMS (blwyddyn gyntaf)* | 6,810 | - | +6,859 |
| **Cyfanswm incwm** | **199,015** | **134,408** | **+64,607** |
| *Llai: gwariant net* | (1,796) | (10,688) | +8,892 |
| **Incwm net** | **197,219** | **123,720** | **+73,499** |

Mae'r cynnydd mewn incwm llog o £2.5 miliwn i £18.5 miliwn yn sylweddol. Mae'n adlewyrchu'r nifer fawr o gosbau CA98 a gronnwyd fel symiau derbyniadwy ar 31 Mawrth 2025 a'r amserlenni setlo ar gyfer achosion mawr. Mae llog yn cronni i Drysorlys EF ac mae graddfa'r llinell hon yn dangos yr achosion lle ymestynnodd y casglu y tu hwnt i'r amserlenni arferol.

Yr ardoll SMS o £6.8 miliwn yw'r incwm gweithredol cyntaf o'r drefn marchnadoedd digidol newydd yn ei blwyddyn daladwy gyntaf yn 2025 i 2026. Mae'r taliadau hyn yn cynrychioli costau gweithredu'r drefn ar gyfer y misoedd pan oedd cwmnïau wedi eu dynodi â SMS yn y flwyddyn daladwy hon (Hydref 2025 –Mawrth 2026).

Yn ystod 2025 i 2026, ildiodd y CMA £309.6 miliwn i Gronfa Gyfunol Trysorlys EF (2024 i 2025: £23.0 miliwn). Mae'r manylion llawn ar gael yn y Datganiad Ymddiriedolaeth o dudalen 174 ymlaen.

### *Y sefyllfa ariannol a'r fantolen*

*Ecwiti trethdalwyr*

| Ecwiti | 31 Maw 2026 | 31 Maw 2025 | 31 Maw 2024 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Y Gronfa Gyffredinol | 19,624 | 12,396 | (6,572) |
| Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn – cydnabyddiaeth gyntaf | 1,184 | - | - |
| **Cyfanswm Ecwiti trethdalwyr** | **20,808** | **12,396** | **(6,572)** |

Cynyddodd cyfanswm yr ecwiti i £20.8 miliwn, gan adlewyrchu sefyllfa ariannol well, dod i benderfyniad ar hen ddarpariaethau a'r gydnabyddiaeth gyntaf o Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn o £1.2 miliwn, sy'n deillio o ofynion diwygiedig y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) ar gyfer prisio eiddo, offer a chyfarpar a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Mae'r manylion llawn yn Nodyn 6.

*Busnes hyfyw*

Mae'r CMA yn parhau i weithredu ar sail busnes hyfyw. Mae Senedd y DU wedi cymeradwyo'r Prif Amcangyfrif Cyflenwad ar gyfer 2026 i 2027 ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cadarnhau nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol yn effeithio ar yr asesiad hwn.

*Edrych ymlaen at 2026 i 2027*

Bydd y CMA yn gweithredu o fewn y setliad a gafodd yn Adolygiad Gwariant 2025 (SR25) yn 2026 i 2027. Mae ein cynlluniau ariannol yn adlewyrchu'r ffactorau canlynol:

- Mae ein cyllideb adnoddau wedi'i gosod ar sail arian parod gwastad sy'n golygu gostyngiad mewn termau real, a fydd yn golygu bod angen ymrwymiad parhaus i effeithlonrwydd yng ngweithrediadau'r CMA;

- Bydd gwariant cyfalaf o tua £1.6 miliwn a ohiriwyd o flwyddyn 2025 i 2026 – gan gynnwys adnewyddu lesoedd swyddfeydd ym Manceinion a Darlington, ac addasu maint Cabot fel ei fod mor effeithlon â phosibl – yn cael ei ysgwyddo yn 2026 i 2027 a darperir ar ei gyfer yn ein blaengynllun cyfalaf;

- O 2026 i 2027, bydd taliadau dibrisiant ac amhariad nad ydynt yn arian parod yn trosglwyddo o'r DEL Adnoddau i'r AME Adnoddau o dan newidiadau i fframwaith cyllidebu Trysorlys EF. Newid o ran dull cyflwyno yn unig yw hwn, ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar gyfanswm y gwariant a reolir;

- Bydd yr incwm a gedwir yn dibynnu ar nifer yr apeliadau rheoleiddio a'r achosion adennill costau ymgyfreitha – sy'n amrywio yn eu hanfod – a beth fydd y penderfyniadau arnynt;

- Bydd incwm y Datganiad Ymddiriedolaeth yn parhau i ddibynnu ar ganlyniadau gorfodi, amserlenni casglu cosbau a chyflymder dynodiadau SMS o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr.

***Tablau Craidd***

Mae'r Tablau Craidd yn ofyniad newydd o 2025 i 2026 ymlaen yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Drysorlys EF. Maent yn crynhoi gwariant adnoddau a chyfalaf net hanesyddol (Alldro) y CMA ar gyfer y blynyddoedd 2021 i 2022 a 2025 i 2026 a'r gwariant adnoddau a chyfalaf net sydd i ddod (Cynllun) ar gyfer y blynyddoedd 2026 i 2027 a 2028 i 2029. Mae'r Tablau Craidd ar gael yn yr Atodiad ar dudalen 194.

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, Gyfrifon Adnoddau sy'n nodi'r adnoddau a gafodd eu caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyfrifon Adnoddau yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llif arian yr adran ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r Cyfrifon Adnoddau, mae gofyn i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw amrywiadau perthnasol yn y Cyfrifon Adnoddau
- paratoi'r Cyfrifon Adnoddau ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Brif Swyddog Cyfrifyddu'r adran. Yn ogystal, penodir Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i fod yn atebol am y rhannau hynny o gyfrifon yr adran sy'n ymwneud â cheisiadau penodol am adnoddau a'r asedau, yr atebolrwydd a'r llifoedd arian cysylltiedig. Nid yw'r penodiad hwn yn amharu ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon yr adran.

Mae dyraniad cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn yr adran fel a ganlyn:

- Swyddog Cyfrifyddu: Sarah Cardell, Prif Weithredwr
- Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol: Daniel Lambauer, Prif Swyddog Gweithredu adrannau A a B yr Amcangyfrif.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir ac amddiffyn asedau'r CMA, wedi'u nodi yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'i gymryd er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i,

nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y CMA

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
03 Gorffennaf 2026

# Datganiad Llywodraethiant

Yn unol â Chanllawiau Trysorlys EF, mae ein Datganiad Llywodraethiant yn nodi trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CMA.

## Bwrdd y CMA

*Bwrdd y CMA yw prif gorff gwneud penderfyniadau'r CMA. Mae'n pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y CMA ac yn sicrhau bod dyletswyddau a swyddogaethau statudol y CMA yn cael eu cyflawni.*

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol (y mae dau ohonynt hefyd yn aelodau o Banel Cystadleuaeth y CMA, ac un ohonynt yn Gadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol), y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Mae'r Bwrdd yn pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y CMA o fewn y fframwaith polisi a bennwyd o dan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (y Ddeddf) a chan ystyried Cyfeiriad Strategol y Llywodraeth i'r CMA. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y CMA yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol, yn cynnal ein hannibyniaeth fel adran anweinidogol o'r llywodraeth ac yn cadw at egwyddorion llywodraethiant corfforaethol da. Mae'r Bwrdd yn ystyried unrhyw farn ac adroddiadau gan Brif Swyddog Cyfrifyddu a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y CMA ac yn sicrhau bod y CMA yn defnyddio arian cyhoeddus yn briodol.


Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am nifer o faterion gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl, fel y nodir yn y Ddeddf a Rheolau Gweithdrefnau'r CMA a gyhoeddwyd ar wefan y CMA, ac sy'n nodi pwerau a swyddogaethau'r Bwrdd, ac maent hefyd yn cynnwys Awdurdodiadau'r Bwrdd a'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cael gwybodaeth berthnasol, amserol ac o ansawdd da o bob rhan o'r CMA, gan gynnwys gwybodaeth am waith achos, perfformiad a'r defnydd o adnoddau, i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a goruchwylio'n effeithiol. Mae'r wybodaeth hon yn amodol ar reolaethau a sicrwydd mewnol priodol, gan gynnwys drwy'r Prif Swyddog Gweithredu, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn unol â pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA, mae cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd, cynghorwyr y Bwrdd ac aelodau agos o'u teuluoedd yn cael ei chynnal a'i chyhoeddi ar wefan y CMA. Mae unrhyw wrthdaro buddiannau a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd, a gwrthdaro buddiannau posibl, yn cael ei reoli yn unol â'r polisi Gwrthdaro Buddiannau ac mae unrhyw ymesgusodiadau y gallai fod eu hangen wedyn yn cael eu nodi yn y cofnodion a gyhoeddwyd.

Cafodd y Rheolau Gweithdrefnau eu diweddaru 4 gwaith yn 2025 i 2026, gan gynnwys diwygiadau i gylch gorchwyl pwyllgorau'r Bwrdd i adlewyrchu newidiadau i'w haelodaeth a'r Pwyllgor Enwebiadau yn cael ei ddiddymu gan y Bwrdd ym mis Hydref 2025.

## *Pwyllgorau Bwrdd y CMA*




*Mae'r trefniadau pwyllgorau yn y graffigyn hwn yn gywir ar 31 Mawrth 2026; mae rôl pob pwyllgor yn cael ei hegluro ymhellach isod.*

Mae gan y CMA nifer o bwyllgorau Bwrdd, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Taliadau, Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd i oruchwylio gwaith a gwneud penderfyniadau penodol o fewn y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol, a Phwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (pwyllgor statudol sy'n ymdrin â'r swyddogaeth hon).

Mae gan y CMA hefyd 2 Bwyllgor Bwrdd sy'n rheoli ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni swyddogaethau ac amcanion y CMA a'r perfformiad o ran gwneud hynny (y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi), sy'n cael eu cefnogi ymhellach gan is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol (y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell a'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau).

Mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithio gydag is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol i roi amrywiaeth o safbwyntiau i lywio, cefnogi a herio penderfyniadau uwch y CMA mewn ffordd adeiladol.

## *Aelodau'r Bwrdd*

Mae'r rhestr isod yn amlinellu aelodaeth y Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, gan gynnwys newidiadau diweddar mewn aelodaeth.

*Doug Gurr (Cadeirydd)*
Penodwyd Doug Gurr yn Gadeirydd dros dro Bwrdd y CMA ym mis Ionawr 2025 ac yn Gadeirydd parhaol ym mis Mawrth 2026. Mae Doug yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau ac yn Gadeirydd Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Justin Basini (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Justin Basini yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024. Fe'i penodwyd yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Gorffennaf 2025.

*Martin Coleman (Cadeirydd Panel Cystadleuaeth, Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Martin Coleman yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA ym mis Hydref 2017 ac yn Gadeirydd Panel Cystadleuaeth ym mis Medi 2018. Mae Martin yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac yn aelod o Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Frank Dangeard (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Rhoddodd Frank Dangeard y gorau i fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA a rhoi'r gorau i fod yn aelod o Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd ym mis Ebrill 2025.

Roedd y Bwrdd yn drist iawn o glywed am farwolaeth sydyn Frank ym mis Awst 2025, yn fuan ar ôl iddo ymddiswyddo o'r Bwrdd. Bu Frank yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar y CMA yn ystod cyfnod o newid sylweddol i'r sefydliad. Roedd y Bwrdd yn gwerthfawrogi ei gyngor doeth a'i brofiad helaeth yn fawr, a gwnaeth gyfraniad pwysig at waith y CMA, yn enwedig wrth i'r CMA fwrw ymlaen â'r gwaith o drawsnewid yr Awdurdod a sefydlu trefn marchnadoedd digidol newydd y DU. Mae'r Bwrdd yn cofnodi ei ddiolch am wasanaeth Frank ac yn estyn ei gydymdeimladau i'w deulu.

*Cynthia Dubin (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Rhoddodd Cynthia Dubin y gorau i fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA ac yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA a'r Pwyllgor Enwebiadau ym mis Gorffennaf 2025 ar ôl naw mlynedd o wasanaeth, ar ddiwedd ei thymor olaf.

*Y Fonesig Patricia Hodgson (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024 ac mae'n aelod o Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Murdoch MacLennan (Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Murdoch MacLennan yn Gadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA ym mis Ebrill 2022. Mae Murdoch yn aelod o Bwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Cyrus Mehta (Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth)*
Penodwyd Cyrus Mehta yn Aelod o Banel y CMA ym mis Ebrill 2020 ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024. Mae Cyrus yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd a Phwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Dharmash Mistry (Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Rhoddodd Dharmash Mistry y gorau i fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar y CMA ym mis Awst 2025 yn sgil ymrwymiadau eraill. Roedd yn aelod o Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Sarah Cardell (Prif Weithredwr)*
Penodwyd Sarah Cardell yn Brif Weithredwr y CMA ym mis Rhagfyr 2022. Sarah yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA, mae'n arwain yr Uwch Dîm Gweithredol, ac mae'n cadeirio nifer o bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Gweithredol, a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi. Mae Sarah hefyd yn aelod o Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Joel Bamford (Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Uno Cwmnïau, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol)*
Penodwyd Joel Bamford yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Uno Cwmnïau ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar y Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Mae Joel yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi, ac mae'n Gadeirydd Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Juliette Enser (Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gorfodi Cystadleuaeth a Marchnadoedd)*

Penodwyd Juliette yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gorfodi Cystadleuaeth ym mis Chwefror 2025 ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Marchnadoedd ym mis Rhagfyr 2025. Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol ar y Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Mae Juliette yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Achosion a Pholisi, Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd a Phwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Will Hayter (Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Marchnadoedd Digidol)*
Penodwyd Will Hayter yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Marchnadoedd Digidol ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar y Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Mae Will yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Achosion a Pholisi a Phwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Dr Daniel Lambauer (Prif Swyddog Gweithredu)*
Penodwyd Daniel Lambauer yn Brif Swyddog Gweithredu ym mis Gorffennaf 2024 ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar y Bwrdd ym mis Hydref 2024. Mae Daniel yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol a'r Pwyllgor Gweithredol ac mae'n cadeirio'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau. Daniel yw Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y CMA.

### *Cynghorwyr y Bwrdd*

*Chris Prevett (Cwnsler Cyffredinol)*
Penodwyd Chris Prevett yn gynghorydd i Fwrdd y CMA ym mis Gorffennaf 2022, ac yn Gwnsler Cyffredinol ym mis Ionawr 2024. Mae Chris yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Achosion a Pholisi, Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Phwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Dr Mike Walker (Prif Gynghorydd Economaidd)*

Rhoddodd Mike Walker y gorau i fod yn Brif Gynghorydd Economaidd a chynghorydd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2025. Roedd Mike yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Achosion a Pholisi a Phwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Dr Jenny Haydock (Prif Gynghorydd Economaidd Dros Dro)*
Penodwyd Jenny Haydock yn Ddirprwy Brif Gynghorydd Economaidd ym mis Hydref 2021. Mae Jenny yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Achosion a Pholisi, Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Phwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Dr Karen Croxson (Prif Swyddog Data, Technoleg a Dealltwriaeth)*
Penodwyd Karen yn Brif Swyddog Data, Technoleg a Dealltwriaeth ym mis Medi 2023 ac yn gynghorydd i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Mae Karen yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Achosion a Pholisi a Phwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd.

*Jessica Lennard (Prif Swyddog Strategaeth a Materion Allanol)*

Penodwyd Jessica Lennard yn Brif Swyddog Strategaeth a Materion Allanol ac yn gynghorydd i'r Bwrdd ym mis Awst 2023. Mae Jessica hefyd yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi.

*George Lusty (Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Diogelu Defnyddwyr a Marchnadoedd)*
Rhoddodd George y gorau i fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol dros dro ar gyfer Diogelu Defnyddwyr a Marchnadoedd ac yn gynghorydd i'r Bwrdd ym mis Mai 2025. Roedd George yn aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi.

***Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd 2025 i 2026***

Cyfarfu Bwrdd y CMA 11 gwaith yn 2025 i 2026. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd bob mis ac eithrio ym mis Awst a mis Medi, a chynhaliwyd cyfarfod eithriadol ym mis Tachwedd 2025 i ddelio â materion cyfoes mewn ffordd fwy amserol a hyblyg. Mae cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y CMA yn cael eu cyhoeddi ar wefan y CMA.

| Aelod o'r Bwrdd | Rôl | Nifer y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt |
|---|---|---|
| **Doug Gurr** | Cadeirydd y CMA | 11/11 |
| **Justin Basini** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 11/11 |
| **Martin Coleman** | Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 9/11 |
| **Frank Dangeard** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 0/0 |
| **Cynthia Dubin** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 3/4 |
| **Y Fonesig Patricia Hodgson** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 11/11 |

| | | |
|---|---|---|
| **Murdoch MacLennan** | Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol | 9/11 |
| **Cyrus Mehta** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 11/11 |
| **Dharmash Mistry** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 2/4 |
| **Sarah Cardell** | Prif Weithredwr | 11/11 |
| **Joel Bamford** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Uno Cwmnïau, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol | 10/11 |
| **Juliette Enser** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi Cystadleuaeth a Marchnadoedd | 11/11 |
| **Will Hayter** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd Digidol | 11/11 |
| **Daniel Lambauer** | Prif Swyddog Gweithredu | 11/11 |

***Gwerthuso'r Bwrdd***

Rydym yn adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd yn flynyddol; bob trydedd flwyddyn mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal gan adolygydd annibynnol. Yn 2025, fe wnaethom gynnal Adolygiad mewnol o Effeithiolrwydd y Bwrdd, gan ddefnyddio dull ysgafn yn fwriadol i gydnabod penodi Cadeirydd Dros Dro ar ddechrau'r flwyddyn a'r newidiadau sylweddol oedd yn ddisgwyliedig o ran Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gynnar yn 2026.

Fel rhan o'n hadolygiad mewnol, fe wnaethom gynnal cyfres o drafodaethau penodol yn ystod gwanwyn 2025 gydag aelodau gweithredol, uwch staff ac aelodau anweithredol o'r Bwrdd, wedi'u hategu gan ragor o fyfyrdodau a gasglwyd fel rhan o'r broses diwedd blwyddyn yn hydref 2025. Ni chodwyd unrhyw faterion brys na sylweddol am weithrediad y Bwrdd. O ystyried cyd-destun yr adolygiad, a'r newidiadau sydd ar y gweill o ran cyfansoddiad y Bwrdd, canolbwyntiodd yr adolygiad ar bennu themâu y byddai'n ddefnyddiol eu harchwilio pan fyddai aelodau newydd y Bwrdd wedi cychwyn ar eu gwaith. Nododd yr adolygiad feysydd lle mae'r Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau eglurder y rôl, gwella ffyrdd o weithio, a chefnogi'r garfan newydd o Gyfarwyddwyr Anweithredol.

Yn gryno, tynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i'r Bwrdd llawn – ar ôl proses sefydlu'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd, y disgwylid iddi ddigwydd ddiwedd gwanwyn 2026 – dreulio amser gyda'i gilydd i fyfyrio ar y rôl yn gyffredinol, y diben a'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu ffafrio. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu drwy gyfrwng Gweithdy pwrpasol ar gyfer y Bwrdd yn 2026. Roedd yr adolygiad hefyd yn nodi cyfleoedd i wella papurau'r Bwrdd, cyflymder y cyfarfodydd, a defnydd ehangach o arbenigedd Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Mae rhai camau gweithredu eisoes wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys gwella ansawdd y papurau, a chryfhau'r adborth i'r Adran Fusnes a Masnach ar y sgiliau a'r cyfuniad o aelodau sydd eu hangen ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhellion eraill – fel adolygu aelodaeth pwyllgorau ar ôl penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd ac egluro rôl y Bwrdd yng ngoleuni ymgynghoriad polisi'r Adran Fusnes a Masnach – yn ystod 2026.

O ystyried penodiad parhaol Cadeirydd y CMA a 4 Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn ystod hanner cyntaf 2026, rydym yn rhagweld y byddwn yn defnyddio'r cyfnod pontio hwn i fyfyrio ar agweddau ar ddiben, strwythur a threfniadau gweithio'r Bwrdd a'u diwygio. Mae adolygiad allanol â chwmpas tyn wedi'i gynllunio ar gyfer 2026 i 2027, ar ôl sefydlu'r Bwrdd newydd.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cefnogi swyddogaethau gwneud penderfyniadau'r CMA.

### *Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*

Cynthia Dubin oedd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg tan fis Gorffennaf 2025. Yna cafodd Justin Basini ei benodi'n Gadeirydd. Yr aelodau eraill yw Kirstin Baker a Frances McLeman, sydd ill dau'n Aelodau Panel ac a fu'n gwasanaethu drwy gydol y flwyddyn, a Cyrus Mehta a ymunodd ym mis Gorffennaf 2025.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys pob agwedd ar lywodraethiant corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y CMA. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd y CMA ar briodoldeb y datganiadau ariannol, a ydynt yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a digonolrwydd y trefniadau archwilio (mewnol ac allanol). Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried amrywiaeth o sicrwydd a ddarperir mewn perthynas â risg, gweithdrefnau a rheolaethau mewnol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pharhad busnes a thechnoleg gwybodaeth, gyda'r bwriad o alluogi'r Bwrdd i sicrhau ei hun am effeithiolrwydd system rheoli risg y CMA, a gweithdrefnau a rheolaethau mewnol gan gynnwys parhad busnes a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar risg drwy gydol pob cyfarfod, ac yn aml mae'n rhoi ystyriaeth fanylach i faterion a allai godi risgiau penodol i'r CMA. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cwrdd bob chwarter ond mae hefyd yn cynnal cyfarfodydd eithriadol yn ogystal â'i gyfarfodydd rheolaidd i ddelio â materion cyfoes mewn ffordd fwy amserol a hyblyg. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 4 gwaith yn 2025 i 2026.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2025 i 2026*

| Aelod o'r Pwyllgor | Rôl | Nifer y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt |
|---|---|---|
| **Justin Basini** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 4/4 |

| | | |
|---|---|---|
| **Kirstin Baker** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth | 4/4 |
| **Cynthia Dubin** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 1/1 |
| **Frances McLeman** | Aelod o'r Panel Cystadleuaeth | 3/4 |
| **Cyrus Mehta** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 3/3 |

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a/neu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (sef y Prif Weithredwr a/neu'r Prif Swyddog Gweithredu, yn y drefn honno), Cadeirydd y CMA, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cynrychiolir y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) yn y cyfarfodydd hyn.

***Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd***

Doug Gurr yw cadeirydd Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd (DMBC). Dyma'r aelodau eraill: Sarah Cardell, Martin Coleman, Margot Daly, y Fonesig Patricia Hodgson, Cyrus Mehta, Robin Foster, Colleen Keck, Joel Bamford, Juliette Enser, ac Will Hayter.

Mae Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd yn cyflawni gwaith goruchwylio ac yn gwneud rhai penderfyniadau dirprwyedig o dan Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024, gan gynnwys penderfynu a ddylid dynodi statws marchnad strategol (SMS) i gwmnïau ac, o bosibl, gosod gofynion ymddygiad a chyflwyno ymyriadau o blaid cystadleuaeth. Mae Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter o leiaf, a chyfarfu 5 gwaith yn 2025 i 2026.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd 2025 i 2026*

| Aelod o'r Pwyllgor | Rôl | Nifer y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt |
|---|---|---|
| **Doug Gurr** | Cadeirydd y CMA | 5/5 |
| **Sarah Cardell** | Prif Weithredwr | 5/5 |
| **Joel Bamford** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Uno Cwmnïau, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol | 4/5 |
| **Martin Coleman** | Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 5/5 |
| **Margot Daly** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth | 5/5 |

| | | |
|---|---|---|
| **Juliette Enser** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi Cystadleuaeth a Marchnadoedd | 4/5 |
| **Y Fonesig Patricia Hodgson** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 5/5 |
| **Will Hayter** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd Digidol | 5/5 |
| **Cyrus Mehta** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 5/5 |
| **Dharmash Mistry** | Cyfarwyddwr Anweithredol | 1/1 |
| **Robin Foster** | Aelod o'r Panel Cystadleuaeth | 5/5 |
| **Colleen Keck** | Aelod o'r Panel Cystadleuaeth | 4/5 |

Mae'r Prif Gynghorydd Economaidd neu'r Dirprwy Brif Gynghorydd Economaidd a'r Cwnsler Cyffredinol yn mynd i'r cyfarfodydd fel ymgynghorwyr. Mae'r Prif Swyddog Data, Technoleg a Dealltwriaeth yn bresennol hefyd.

Yn 2025 i 2026, roedd gan Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd ddau is-bwyllgor, sef is-bwyllgor Chwilio ac is-bwyllgor Symudol, sy'n gyrff gwneud penderfyniadau y mae'r Pwyllgor yn dirprwyo pwerau iddynt i gyflawni swyddogaethau marchnadoedd digidol nad ydynt wedi'u cadw'n ôl, gan gynnwys penderfyniadau allweddol mewn ymchwiliadau Statws Marchnad Strategol (SMS). Maent yn ystyried ac yn penderfynu ar faterion fel dynodi SMS, gofynion ymddygiad, ac ymyriadau cysylltiedig yn eu sectorau perthnasol. Mae'r ddau is-bwyllgor yn dal yn atebol i Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd, gan adrodd ar eu gweithgareddau a gweithredu o fewn Cylch Gorchwyl diffiniedig.

### *Y Pwyllgor Enwebiadau*

Cynthia Dubin oedd cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau (NomCo). Roedd yr aelodau eraill yn cynnwys Doug Gurr a Sarah Cardell. Roedd y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Pobl, a Chyfarwyddwr y Swyddfa Weithredol, Diogelwch a Thrawsnewid Eiddo hefyd yn cael mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau.

Ni chyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau yn 2025 i 2026 a chafodd ei ddiddymu gan Fwrdd y CMA ym mis Hydref 2025.

### *Y Pwyllgor Taliadau*

Martin Coleman sy'n cadeirio'r Pwyllgor Taliadau (RemCo). Dyma'r aelodau eraill: Doug Gurr, Murdoch MacLennan a Cyrus Mehta.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn rhoi arweiniad strategol ar gydnabyddiaeth ariannol yng nghyd-destun holl weithwyr y CMA ac mae'n gwneud penderfyniadau neu argymhellion ar bob agwedd ar daliadau i uwch weision sifil yn y CMA, yn unol â'r ffiniau a bennir gan Swyddfa'r Cabinet a/neu Drysorlys EF. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn a chyfarfu 4 gwaith yn 2025 i 2026.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau 2025 i 2026*

| Aelod o'r Pwyllgor | Rôl | Nifer y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt |
|---|---|---|
| **Martin Coleman** | Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 4/4 |
| **Doug Gurr** | Cadeirydd y CMA | 3/4 |
| **Murdoch MacLennan** | Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol | 4/4 |
| **Cyrus Mehta** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 4/4 |

Gall Prif Weithredwr, Prif Swyddog Gweithredu, Prif Swyddog Pobl a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol y CMA sy'n gyfrifol am Gyflogau a Thaliadau hefyd fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau.

***Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau***

Mae Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn cael ei gadeirio gan Joel Bamford. Dyma'r aelodau: Kirstin Baker, Murdoch MacLennan, Cyrus Mehta, Chris Prevett, Jenny Haydock, Juliette Enser, Anthony Wright ac Adam Land.

Mae Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn ystyried materion strategol fel y maent yn berthnasol i swyddogaethau rheoli cymorthdaliadau'r Uned. Mae'r rhain yn cynnwys strategaeth ac amcanion cyffredinol yr Uned (gan gynnwys rheoli rhanddeiliaid); cyflawni a pherfformiad; yr Adroddiad Monitro; cynllunio ar gyfer y biblinell o atgyfeiriadau sydd i ddod (e.e. cynllunio adnoddau); materion yn ymwneud â'r drefn ac enw da; a pholisïau a gweithdrefnau. Mae Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn cyfarfod tua unwaith bob deufis a chyfarfu 6 gwaith yn 2025 i 2026.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau 2025 i 2026*

| Aelod o'r Pwyllgor | Rôl | Nifer y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt |
|---|---|---|
| **Joel Bamford** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Uno Cwmnïau, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | 6/6 |

| | | |
|---|---|---|
| **Kirstin Baker** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth | 5/6 |
| **Juliette Enser** | Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gorfodi Cystadleuaeth a Marchnadoedd | 4/6 |
| **Adam Land** | Cyfarwyddwr Gweithredol, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol | 6/6 |
| **Murdoch MacLennan** | Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol | 6/6 |
| **Cyrus Mehta** | Cadeirydd Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol | 5/6 |
| **Chris Prevett** | Cwnsler Cyffredinol | 5/6 |
| **Mike Walker** | Prif Gynghorydd Economaidd | 3/3 |
| **Jenny Haydock** | Prif Gynghorydd Economaidd Dros Dro | 3/3 |
| **Anthony Wright** | Uwch Gyfarwyddwr, Cyfathrebu | 6/6 |

### *Y Pwyllgor Gweithredol*

Sarah Cardell sy'n cadeirio'r Pwyllgor Gweithredol (XCo) ac mae'r aelodau'n rhan o'r Uwch Dîm Gweithredol.

Y Pwyllgor Gweithredol yw'r corff cyffredinol sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer perfformiad a chyflawni. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn goruchwylio ac yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â strategaeth, cyflawni a pherfformiad, portffolio a phiblinell, cyllid a risg, staffio, trawsnewid sefydliadol, a materion yn ymwneud â'r drefn ac enw da. Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn goruchwylio ac yn cynghori ar gyflawni rhaglen archwilio mewnol, ac yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â'r Bwrdd, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'u hadolygu. Mae'n rhoi ystyriaeth bellach i argymhellion ei is-bwyllgorau – y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau (POC) a'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell (RPPC) – ac yn eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cwrdd bob wythnos.

### *Y Pwyllgor Achosion a Pholisi*

Sarah Cardell sy'n cadeirio'r Pwyllgor Achosion a Pholisi (CPC). Mae'r aelodau'n cynnwys y rhan fwyaf o'r Uwch Dîm Gweithredol, yr Uwch Gyfarwyddwyr a dau Gadeirydd Ymchwiliad y Panel Cystadleuaeth.

Y Pwyllgor Achosion a Pholisi sy'n arwain y gwaith o ddatblygu polisi'r CMA ar draws yr holl ddulliau cyflawni, ac mae'n goruchwylio achosion a phrosiectau, gan sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a chynnig cyngor ar faterion cyfreithiol, economaidd neu bolisi lefel uchel wrth iddynt godi. Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi yn cyfarfod bob pythefnos fel arfer.

***Is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol***

*Y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau*

Daniel Lambauer sy'n cadeirio'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau. Mae'r aelodau'n cynnwys Uwch Gyfarwyddwyr o bob rhan o'r CMA a chyfarwyddwyr o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau yn adolygu polisïau, prosesau a strwythurau arfaethedig sy'n gosod safonau ymddygiad, yn gyrru cydymffurfiaeth, ac yn sicrhau diogelwch staff ac asedau. Mae'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau yn cyfarfod bob mis fel arfer.

*Y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell*

Sarah Cardell sy'n cadeirio'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell, ac mae'r aelodau'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Gyfarwyddwyr o bob rhan o'r CMA. Mae'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell yn rhoi cyfeiriad strategol mewn perthynas â defnydd y CMA o adnoddau yn y biblinell waith barhaus a gwaith arfaethedig. Mae'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell yn cyfarfod bob mis fel arfer.

***Y Pwyllgor Cynghori***

Lansiwyd y Pwyllgor Cynghori (AdCo) ym mis Medi 2021 fel rhan o'n gwaith ehangach ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynllun Gweithredu ar Hil y CMA. Mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithio i wella amrywiaeth meddwl ar lefelau uwch y CMA, gan roi gwybodaeth a chyngor i lywio, cefnogi a herio penderfyniadau uwch mewn ffordd adeiladol. Cynghori yw swyddogaeth y Pwyllgor Cynghori, ac nid oes ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau. Mae'r pwyllgorau'n ystyried cyngor ac argymhellion y Pwyllgor Cynghori fel rhan o'u penderfyniadau. Mae hefyd yn rhoi cyngor i bwyllgorau gan gynnwys y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell a'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau a chyngor i dimau a grwpiau eraill pan ofynnir am gyngor.

Daw aelodau'r Pwyllgor Cynghori o wahanol feysydd a phroffesiynau ar draws y CMA, ac o gefndiroedd a grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar lefelau uwch. Ar hyn o bryd mae'r CMA yn adolygu sut mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithredu i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni'n effeithiol yn erbyn ein hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'n hymrwymiadau sefydliadol ehangach.

## Panel Cystadleuaeth y CMA

Fel y nodir yn y Ddeddf, mae'r penderfyniadau ar ymchwiliadau uno cwmnïau cam 2, ymchwiliadau i'r farchnad ac apeliadau rheoleiddio yn cael eu gwneud gan grwpiau annibynnol o blith aelodau Panel Cystadleuaeth y CMA. Mae gan bob grŵp o leiaf dri aelod ac fe'i harweinir gan Gadeirydd Ymchwiliad. Gellir penodi aelodau'r Panel Cystadleuaeth i grwpiau penderfynu ar achosion atal ymddygiad gwrth-gystadleuol (Deddf Cystadleuaeth 1998) hefyd.

Mae'r grwpiau'n gwneud eu penderfyniadau'n annibynnol ar Fwrdd y CMA. Nid yw'r gofyniad i'r grŵp weithredu'n annibynnol yn atal Bwrdd y CMA rhag rhoi gwybodaeth briodol sydd yn ei feddiant i Grŵp ac fel arall. Mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau, effeithlonrwydd, sut mae polisi'r CMA yn cael ei gymhwyso a'r prosesau staff sy'n cefnogi gwaith y Panel Cystadleuaeth. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod o leiaf un aelod o'r Panel Cystadleuaeth yn aelod o Fwrdd y CMA. Mae 2 ar hyn o bryd: Cadeirydd y Panel, Martin Coleman, a Cyrus Mehta, Cadeirydd Ymchwiliad a Chyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA.

Mae rhagor o wybodaeth am bob aelod o'r Panel Cystadleuaeth ar gael ar ein gwefan, ac mae eu buddiannau yn cael eu datgelu fel rhan o'r broses benodi. Cynhelir gwiriad gwrthdaro, fesul achos, pan fydd aelodau'r Panel Cystadleuaeth yn cael eu neilltuo i ymchwiliadau ac, os oes angen, bydd unrhyw fuddiannau a ddatgelir yn cael eu cyhoeddi ar dudalen yr achos perthnasol.

***Cadeiryddion Ymchwiliad Panel Cystadleuaeth***

*Martin Coleman (Cadeirydd y Panel a Chyfarwyddwr Anweithredol)*
Mae bywgraffiad Martin i'w weld ar dudalen 82.

*Kirstin Baker CBE (Cadeirydd Ymchwiliad)*
Penodwyd Kirstin yn Gadeirydd Ymchwiliad Panel ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ac Aelod o Banel y CMA ym mis Medi 2018, a rhoddodd y gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024. Mae hi hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

*Margot Daly (Cadeirydd Ymchwiliad)*
Penodwyd Margot yn Gadeirydd Ymchwiliad y CMA ym mis Medi 2021, a hithau wedi bod yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Mai 2020.

***Richard Feasey*** *(Cadeirydd Ymchwiliad)*
Penodwyd Richard yn Gadeirydd Ymchwiliad ym mis Ebrill 2021, ac yntau wedi bod yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

***Stuart McIntosh*** *(Cadeirydd Ymchwiliad)*
Penodwyd Stuart yn Gadeirydd Ymchwiliad ym mis Ebrill 2018, ac yntau wedi bod yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Hydref 2017. Rhoddodd y gorau i fod yn aelod o Banel y CMA ym mis Mai 2025.

***Kip Meek*** *(Cadeirydd Ymchwiliad)*
Penodwyd Kip yn Gadeirydd Ymchwiliad ac yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2018. Rhoddodd y gorau i fod yn aelod o Banel y CMA ym mis Ionawr 2026.

*Cyrus Mehta (Cadeirydd Ymchwiliad a Chyfarwyddwr Anweithredol)*
Mae bywgraffiad Cyrus i'w weld ar dudalen 82.

Penodwyd Cyrus yn Gadeirydd Ymchwiliad ym mis Hydref 2025, ac yntau wedi bod yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Ebrill 2020. Mae hefyd yn aelod o baneli systemau talu a newyddion a chyfryngau arbenigol y CMA.

***Aelodau'r Panel Cystadleuaeth***

| | | |
|---|---|---|
| Jo Armstrong | Ulrike Hotopp[8] | Syr Kenneth Parker |
| Humphrey Battcock | Paul Hughes | Keith Richards |
| Robin Cohen | Colleen Keck | Stephen Rose |
| Maria Da Cunha | Juliet Lazarus | Karthik Subramanya |
| Anne Fletcher | Sheila McClelland[9] | John Thanassoulis[10] |
| Robin Foster | Frances McLeman | Mark Thatcher |
| Roland Green | Cyrus Mehta | David Thomas[11] |
| Ashleye Gunn | Paul Muysert | Claire Whyley[12] |
| Susan Hankey | Jeremy Newman[13] | Crispin Wright |

## Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Mae Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cynorthwyo Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) i gyflawni ei swyddogaethau, fel y nodir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU.

Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhan o'r CMA. Mae Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol, Murdoch MacLennan, hefyd yn aelod o Fwrdd y CMA.

Mae Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cymorth a chyngor cyffredinol i'r Swyddfa yn ei swyddogaethau o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, ac mewn perthynas â'i phortffolio cyffredinol (drwy "Dasglu Sefydlog" sy'n cynnwys holl aelodau Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol) ac, mewn rhai achosion, ar ddarnau penodol o waith (drwy "Dasgluoedd ar gyfer prosiectau penodol" a allai gynnwys niferoedd llai o aelodau'r Panel). Ar ben hynny, gall y CMA awdurdodi Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol i gyflawni swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ar ran y CMA. Mewn achosion o'r fath, bydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn gweithredu'n annibynnol ar Fwrdd y CMA.

Mae rhagor o wybodaeth am bob aelod o'r Panel ar gael ar ein gwefan, ac mae buddiannau'r aelodau yn cael eu datgelu yn rhan o'r broses benodi. Cynhelir gwiriad

[8] Daeth tymor y penodiad i'r panel i ben ar 1 Rhagfyr 2025.
[9] Daeth tymor penodiad yr aelod i'r panel i ben ar 5 Hydref 2025.
[10] Daeth tymor penodiad yr aelod i'r panel i ben ar 5 Hydref 2025.
[11] Daeth penodiad yr aelod i'r panel i ben ar 10 Mawrth 2026.
[12] Daeth tymor penodiad yr aelod i'r panel i ben ar 5 Hydref 2025.
[13] Daeth tymor penodiad yr aelod i'r panel i ben ar 5 Hydref 2025.

gwrthdaro cyn pob cyfarfod o'r Panel ac, os oes angen, cyhoeddir y datgeliad buddiannau ar we-dudalen yr aelod perthnasol o'r Panel. Mae'r Panel yn cyfarfod bob 2 fis fel arfer.

***Aelodau Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol***

| | | |
|---|---|---|
| Murdoch MacLennan | Yr Athro Suzanne Rab | Shane Lynch |
| Angharad Butler | Yr Athro Andrew Stephan | Tim Render |
| Michael Neilson | Stephen Gifford | |

## Rheoli risg

Mae rheolaeth gref ar risgiau yn helpu'r CMA i wneud penderfyniadau gwell. Mae dull rheoli risg y CMA yn cefnogi ein gallu i gyflawni blaenoriaethau ein Strategaeth a'n Cynllun Blynyddol.

Yn 2025 i 2026, fe wnaethom barhau i adeiladu ar ein fframwaith rheoli risg presennol i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag arferion da yn y Llyfr Oren ac ISO31000, gan fod hyn yn rhan annatod o lywodraethiant y CMA. Mae'r fframwaith rheoli risg yn sicrhau bod risgiau'n cael eu hasesu a'u trin yn briodol, yn ogystal â sicrhau cysondeb o ran nodi, rheoli ac adrodd ar risgiau. Mae'r fframwaith hefyd yn helpu'r CMA i ymateb i ansicrwydd a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Yn y CMA, mae risgiau'n cael eu trafod mewn ffordd agored a thryloyw sy'n ein galluogi i nodi a thrin risgiau'n gyflym ac sy'n creu diwylliant o berchnogaeth ar faterion risg ar bob lefel yn y sefydliad.

Mae'r fframwaith rheoli risg yn gofyn am asesiad o broffil cyfredol unrhyw risg benodol ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r risg weddilliol gael ei nodi'n glir. Mae'r risg weddilliol yn asesiad o'r risg ar ôl i'r holl gamau gweithredu disgwyliedig gael eu rhoi ar waith i leihau'r amlygiad i risg ar hyn o bryd. Mae'r gofyniad hwn yn golygu y rhoddir ystyriaeth weithredol i gamau lliniaru a beth fydd eu heffaith ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith. Asesir lefelau'r risg weddilliol yn erbyn Parodrwydd y Bwrdd i Dderbyn Risg. Yn ystod 2025 i 2026, adolygodd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd fformat y datganiad o barodrwydd i dderbyn risg a mabwysiadu fformat newydd. Mae'r fformat newydd yn cyd-fynd â'r canllawiau yn y Llyfr Oren.

Mae cofrestr risg gorfforaethol y CMA yn rhoi asesiad strwythuredig o effaith, tebygrwydd a chyflymder, ac mae'r Arweinydd Risg a Chydymffurfiaeth yn gweithio gyda'r Cyfarwyddiaethau i reoli cofrestri risg lleol, sy'n cael eu bwydo i'r gofrestr risg gorfforaethol ganolog yn fisol. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol wedi'i rhannu'n ddwy haen o risgiau corfforaethol a strategol. Mae'r gofrestr risg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd.

Mae'r swyddogaeth risg yn cael ei harwain gan y Cyfarwyddwr Cyllid, Risg a Busnes (trosglwyddwyd y cyfrifoldeb oddi wrth y Cyfarwyddwr Cyfreithiol ar gyfer

Llywodraethiant, Cydymffurfio a Risg ym mis Ionawr 2026), a'r Arweinydd Cydymffurfio â Risg, gyda goruchwyliaeth gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae gan bob risg Haen 1 a Haen 2 berchennog risg Gweithredol, sy'n gyfrifol am ddiweddaru ei risgiau'n fisol i gyd-fynd â chyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol. Hwylusir y diweddariad hwn gan yr Arweinydd Risg a Chydymffurfiaeth, sy'n diweddaru'r gofrestr gorfforaethol i'r Pwyllgor Gweithredol ei hadolygu bob mis. Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn adolygu gweithrediad y fframwaith risg ac yn goruchwylio'r newidiadau a wneir i'r fframwaith.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal adolygiad o'r gofrestr risg ac effeithiolrwydd y fframwaith risg ac yn rhoi adborth ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys cael sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol a bod camau lliniaru'n effeithiol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.

Mae'r Bwrdd yn adolygu risgiau Haen 1 yn fisol, gan roi ystyriaeth arbennig i'r risgiau sydd wedi cael eu huwchgyfeirio. Mae'n monitro'r portffolio risgiau cyffredinol gan gynnwys y camau lliniaru ac yn herio lle bo hynny'n briodol. Mae rheoli risg yn rhan allweddol o'r diweddariad a roddir gan y Prif Weithredwr ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, pan fydd y risgiau pwysicaf sy'n wynebu'r sefydliad yn cael eu trafod gyda'r Bwrdd.

Rydym yn bwriadu cyflwyno newidiadau graddol i'r broses o adrodd ar risg yn 2026 i 2027 gyda mwy o gysondeb ag adroddiadau busnes eraill. Bydd y newidiadau'n ein helpu i gyflawni rhagor o welliannau i effeithiolrwydd adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd, i gefnogi eu rolau rheoli a goruchwylio yn ystod y flwyddyn hon.

Mae'r agwedd tuag at risg yn cael ei hyrwyddo ymhlith staff ar draws y sefydliad, gan gynnwys drwy dudalennau mewnrwyd y CMA a thrwy hyfforddiant, gwybodaeth a chanllawiau ad hoc. Mae ein gwaith manwl ar risg wedi arwain at well prosesau rheoli ac adrodd ar risg ar draws y CMA. Rydym wedi nodi rhagor o wybodaeth am risgiau yn yr Adroddiad Perfformiad uchod (gweler tudalen 35).

## Rhoi Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar Waith

Mae Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth (GFS) yn creu dull cydlynol, effeithiol a safonol o ymgymryd â busnes o fewn y llywodraeth ac i roi sail sefydlog ar gyfer meithrin gallu a gwelliant parhaus.

Mae'r Safonau'n gyfres gyhoeddedig o safonau rheoli a ddatblygwyd gan Swyddfa'r Cabinet, a chafwyd mandad i'w defnyddio ar draws y llywodraeth ganolog ers mis Medi 2021, gan gynnwys ar gyfer swyddogaethau fel cyflawni prosiectau, masnach a chyllid.

Mae ein fframwaith sicrwydd yn darparu rolau ac atebolrwydd clir i'r rheini sy'n ymwneud â darpariaeth rheng flaen a'r oruchwyliaeth gorfforaethol gysylltiedig, ac mae'r defnydd o bob Safon berthnasol wedi'i wreiddio yn y sefydliad. Bellach, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cael adroddiad am y safonau swyddogaethol i sicrhau goruchwyliaeth gan yr Uwch Dîm Gweithredol.

Cytunwyd ar adroddiad adolygiad archwilio Safonau Swyddogaethol Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ddiwedd mis Mawrth 2025. Cytunwyd ar gynllun gweithredu i wneud rhagor o welliannau i sicrhau trefniadau cydymffurfio, adrodd a llywodraethiant effeithiol a chymesur ar gyfer y Safonau. Rydym yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu argymhellion rheoli'r archwiliad.

## Cydymffurfio

Mae diwylliant cydymffurfio cryf yn hanfodol i sicrhau bod y CMA yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac mae fframwaith cydymffurfio cadarn wedi'i wreiddio ym mhrosesau rheoli ac adrodd y CMA.

### *Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol*

Mae'r CMA wedi cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Cod Ymarfer Da Llywodraethiant Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog, i'r graddau sy'n briodol ac yn unol â'i ddyletswyddau statudol.

### *Gwrthdaro rhwng buddiannau*

Mae Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau y CMA yn nodi'r broses ar gyfer datgan buddiannau allanol a rheoli unrhyw wrthdaro posibl a allai godi i aelodau'r Bwrdd, y Panel a'r staff o ganlyniad i fuddiannau allanol. Yn unol â'r polisi hwn, mae holl aelodau'r Bwrdd, y Panel a'r staff yn datgan buddiannau allanol a allai arwain at risgiau gwrthdaro naill ai i'w rheolwyr a/neu'r Swyddog Cydymffurfio at ddibenion asesu a oes risg o wrthdaro yn codi o ganlyniad i fuddiannau allanol ac, os felly, sut dylid ei rheoli. Mae'r polisi hwn yn gadarn ac yn glynu wrth ofynion perthnasol Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Fis Ebrill 2026, cynhaliwyd ymarfer sicrwydd i wneud yn siŵr nad yw unrhyw gyflogaeth allanol â thâl a ddelir gan Uwch Weision Sifil yn y CMA yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau. Canfu'r ymarfer hwn, y craffwyd ar ei ganlyniadau gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA, nad oedd unrhyw Uwch Weision Sifil y CMA yn dal swyddi â thâl na buddiannau ehangach a allai wrthdaro â'u rhwymedigaethau o dan bolisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau'r CMA na Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Ddatgan a rheoli buddiannau allanol yn y Gwasanaeth Sifil, rydym wedi cyhoeddi ar-lein fanylion cyflogaeth allanol â thâl 4 o Uwch Weision Sifil y CMA, y cytunwyd arnynt yn unol â pholisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau'r Awdurdod.

### *Penodiadau Busnes*

Mae Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau y CMA yn nodi'n glir, pan fydd staff yn gadael y sefydliad, bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Rheolau Penodiadau Busnes cyn derbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Mae gan y CMA hefyd bolisi Rheolau Penodiadau Busnes penodol sy'n nodi'n fanylach y broses sydd ar waith ar gyfer delio â cheisiadau a wneir ar wahanol raddau o dan y Rheolau hyn. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod

cyhoeddusrwydd da yn cael ei roi i'r ddau bolisi yn y sefydliad, drwy gyfathrebu mewnol, cyflwyniadau i dimau a'r broses ardystio flynyddol a nodir yn y polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau.

Mae adran Adnoddau Dynol y CMA yn dilyn proses sydd wedi'i diffinio'n glir i sicrhau bod staff yn cwblhau ceisiadau dan y Rheolau Penodiadau Busnes cyn iddynt adael y Gwasanaeth Sifil a bod pob cais gan uwch staff yn cael ei ystyried gan y Swyddog Cydymffurfio. Cyflwynir data ar geisiadau Rheolau Penodiadau Busnes bob chwarter i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA.

Mae'r CMA yn dilyn canllawiau ehangach y gwasanaeth sifil, ond mae'n cydnabod bod natur ein gwaith yn gallu arwain at wahanol wrthdaro posibl, ac felly mae wedi mabwysiadu'r dull gweithredu gwell hwn:

- Rhaid i bob Arbenigwr Cystadleuaeth Gradd 7, Arbenigwr Cystadleuaeth Gradd 6 ac Uwch Weision Sifil sy'n mynd at gyflogwr newydd lenwi ffurflen Rheolau Penodiadau Busnes. Dim ond ar sail y rôl a'r cyflogwr y maent yn ymuno â hwy y gellir asesu'r risgiau, felly os nad ydynt yn ymuno â chyflogwr yn syth ar ôl gadael, bydd angen iddynt roi gwybod i'r CMA (yn unol â'r Rheolau Penodiadau Busnes) pan fyddant yn derbyn rôl newydd.
- Bod unrhyw un sy'n ymuno â chwmni sydd â Statws Marchnad Strategol (SMS) (neu gwmni sy'n debygol o gael ei ddynodi felly) yn debygol iawn o fod angen llenwi ffurflen Rheolau Penodiadau Busnes (dylai'r gweithwyr hyn ofyn am gyngor gan eu rheolwr llinell, y Swyddog Cydymffurfio a/neu Bartner Busnes Adnoddau Dynol os ydynt yn credu na ddylent wneud hynny).

Cyflwynir data ar geisiadau Rheolau Penodiadau Busnes bob chwarter i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA.

*Ceisiadau Rheolau Penodiadau Busnes 2025 i 2026*

Yn 2025 i 2026, rhoddodd y CMA y Rheolau Penodiadau Busnes ar waith ar gyfer staff sy'n gadael y Gwasanaeth Sifil, ac rydym wedi bod yn dryloyw yn y penderfyniadau a wnaed mewn ceisiadau unigol gan uwch staff, yn unol â gofynion adrodd ar dryloywder y Rheolau Penodiadau Busnes, ac mae'r manylion ar gael ar ein gwefan.

Yn ogystal â'r ceisiadau Rheolau Penodiadau Busnes a ddaeth i law yn 2025 i 2026, ac a amlinellir isod, cafwyd 35 o geisiadau Gwiriad Gwrthdaro ar gyfer trosglwyddiadau i Adrannau Eraill y Llywodraeth. Ni chafwyd unrhyw geisiadau yr oedd yn anaddas i'r ymgeisydd ymgymryd â hwy, ac ni thorrwyd y Rheolau.

| Gradd | Cyfanswm | Nifer lle gosodwyd amodau |
|---|---|---|
| SCS2 | 5 | 5 |
| SCS1 | 9 | 8 |
| Gradd 6 | 20 | 6 |

| | | |
|---|---|---|
| Gradd 7 | 38 | 10 |
| Uwch-Swyddog Gweithredol | 5 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 6 | 0 |
| Swyddog Gweithredol | 1 | 0 |
| Swyddog Gweinyddol | 6 | 0 |

Ystyrir ymadawiadau o Fand Cyflog 3 Uwch Weision Sifil gan Swyddog Cydymffurfio'r CMA, sydd wedyn yn anfon y cais ac unrhyw sylwadau at Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil i gael cyngor ynghylch a all yr unigolyn dderbyn penodiad ac, os felly, a ddylai unrhyw amodau fod yn berthnasol i'r gwaith y gall ei wneud. Y Prif Weinidog sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid derbyn cyngor y Comisiwn.

Pan fydd penodiad yn cael ei gymeradwyo, bydd y canlyniad hwnnw'n cael ei gyhoeddi ar wefan Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae derbyn swydd newydd yn amodol ar gymeradwyaeth Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'r cais ac ni chaniateir unrhyw gyhoeddiadau gan yr unigolyn, y CMA na darpar gyflogwr yr unigolyn cyn y rhoddir cymeradwyaeth.

***Cwynion ac ymholiadau***

*Chwythu'r chwiban mewnol*

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol y CMA, sef 'Codi Llais' ('Speaking Out'), yn amlinellu'r broses i'w dilyn os yw aelod o staff yn ymwybodol o gamwedd ymddangosiadol yn y CMA, gan gynnwys rhywbeth y mae'n credu sy'n mynd yn groes i'r gwerthoedd craidd yng Nghod y Gwasanaeth Sifil (sef uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd). Mae'r polisi ar gael i'r holl staff ar y fewnrwyd a thynnir sylw staff newydd ato yn ystod eu rhaglen gynefino. Mae rhaglen gyfathrebu yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys blogiau a chymryd rhan yn wythnos Codi Llais ar draws y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhwydwaith o staff sydd wedi'u hyfforddi fel Cynghorwyr Codi Llais ar gael i staff sydd eisiau mynegi pryder ond nad ydynt yn siŵr sut i wneud hynny. Mae'r polisi'n rhan o fframwaith rheolaeth fewnol y CMA ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Ni chafodd y CMA unrhyw gwynion chwythu'r chwiban rhwng 2025 a 2026.

*Chwythu'r chwiban allanol*

Mae gan y CMA rôl benodol o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ar gyfer materion sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau neu gyflenwi gwasanaethau, sy'n cael effaith niweidiol ar fuddiannau defnyddwyr; neu ar gystadleuaeth sy'n effeithio ar farchnadoedd yn y DU. O dan y ddeddfwriaeth hon, gall aelodau o'r cyhoedd wneud 'datgeliad gwarchodedig' i'r CMA, os yw er budd y cyhoedd ac yn ymwneud â drwgweithredu posibl gan eu cyflogwr neu gyn-gyflogwr.

Mae Llinell Chwythu'r Chwiban y CMA wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2021 ac mae'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddatgelu i ni dros y ffôn, drwy e-bost neu ar y we. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd y prosesau a'r gweithdrefnau gweithredol ar gyfer y llinell gymorth eu harchwilio gan y GIAA. Cadarnhaodd yr archwiliad fod y rheolaethau a'r systemau sydd ar waith ar gyfer proses chwythu'r chwiban y CMA yn briodol a'u bod yn gweithredu'n effeithlon. Nododd adroddiad GIAA rai meysydd i'w gwella a chytunodd y CMA ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Uned Gwybodaeth Arbenigol ar y trywydd cywir i gwblhau'r holl gamau gweithredu erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

Yn 2025 i 2026, cawsom 41 datgeliad cymwys, gydag 11 ohonynt yn arwain at ymchwiliad pellach a 30 yn cael eu cofnodi ar gyfer gwybodaeth. Rydym yn cyhoeddi ein hystadegau'n flynyddol a hefyd yn cyflwyno adroddiad i'r Adran Fusnes a Masnach.

*Cwynion corfforaethol*

Mae'r CMA yn ystyried cwynion a godir yn ein herbyn o ddifrif. Mae ein trefn gwyno yn caniatáu i gwynion gael eu datrys yn anffurfiol ac yn gyflym, er enghraifft drwy alwad ffôn, os yw hynny'n foddhaol i'r achwynydd, neu drwy eu cyfeirio at uwch aelod annibynnol o staff os yw hynny'n briodol. Mae'r CMA wedi ymrwymo i ymchwilio'n drylwyr i unrhyw gwynion sy'n codi materion difrifol am ei ymddygiad.

Rhwng 2025 a 2026, derbyniodd y CMA 1 ymholiad a oedd yn codi materion am ei ymddygiad, ac a gafodd ei drin fel cwyn gorfforaethol. Ni chafodd y gŵyn ei chadarnhau ac ni chysylltwyd ymhellach â'r achwynydd.

Ni wnaed unrhyw gwynion am y CMA i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd rhwng 2025 a 2026 (2024 i 2025: dim).

*Gohebiaeth gyffredinol*

Yn 2025 i 2026, deliodd y CMA â 7,636 eitem o ohebiaeth ysgrifenedig gan y cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau gan ddefnyddwyr a busnesau ar ymddygiad gwrth-gystadleuol posibl neu faterion yn ymwneud â'r farchnad. Trafodir llawer o'r ymholiadau hyn mewn cyfarfodydd wythnosol i lywio gwaith yn y dyfodol. Mae hyn yn 33% o gynnydd o'i gymharu â'r ymholiadau a gafwyd rhwng 2024 a 2025. Mae gan y CMA darged mewnol i ymateb i ohebiaeth o fewn 10 diwrnod gwaith. Ymatebwyd i 77% o ohebiaeth o fewn y targed hwn, ac ymatebwyd i 100% o fewn 20 diwrnod gwaith. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025, fe wnaethom ymateb i 100% o ohebiaeth a ddaeth i law o fewn 10 diwrnod gwaith.

*Llythyrau ASau*

Yn 2025 i 2026, cawsom 188 eitem o ohebiaeth Aelodau Seneddol (88% o gynnydd o'i gymharu â 2024 i 2025). O'r rhain, ymatebwyd i 62% o fewn ein targed mewnol o 15 diwrnod gwaith ac 80% o fewn y targed o 20 diwrnod gwaith. Yr amser prosesu cyfartalog oedd 15 diwrnod gwaith. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad a Chyfrifon

Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025, derbyniodd y CMA 100 eitem o ohebiaeth gan Aelodau Seneddol, ymatebwyd i 59% o fewn ein targed o 15 diwrnod gwaith ac 80% o fewn 20 diwrnod gwaith. Yr amser prosesu cyfartalog oedd 14 diwrnod gwaith.

Mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw, rydym yn symleiddio camau allweddol ac yn cryfhau'r gefnogaeth a'r oruchwyliaeth, gan gynnwys drwy atebion digidol

***Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth***

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae gan unigolyn sy'n gwneud cais hawl i gael gwybod a yw'r CMA yn dal gwybodaeth sydd o fewn cwmpas ei gais, ac os felly, hawl i gael yr wybodaeth honno wedi'i chyfleu iddo. Mae'r hawliau hyn yn amodol ar eithriadau (gan gynnwys terfyn cost o £600 a gwaharddiad ar geisiadau blinderus) ac esemptiadau fel y nodir o dan y ddeddfwriaeth. O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i'r CMA ymateb i geisiadau'n brydlon neu o fewn 20 diwrnod gwaith. Gellir ymestyn hyn mewn materion lle mae angen rhagor o amser i gynnal prawf cydbwyso budd y cyhoedd i roi esemptiad ar waith. Yn 2025 i 2026, fe wnaethom ymateb i 97% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y cyfnod statudol o 20 diwrnod gwaith (2024 i 2025: 95%).

Cawsom 252 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 (2024 i 2025: 167 cais). Mae manylion am sut gwnaethom ymateb wedi'u nodi isod:

| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | |
|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn llawn | 65 |
| Nifer y ceisiadau lle nad oedd gan y CMA yr wybodaeth y gofynnwyd amdani | 20 |
| Nifer y ceisiadau a gafodd eu heithrio oherwydd eu bod yn fwy na'r terfyn cost | 22 |
| Nifer y ceisiadau a gafodd eu heithrio oherwydd bod y cais yn flinderus | 0 |
| Nifer y ceisiadau lle darparodd y CMA rywfaint o'r wybodaeth o fewn y cwmpas ond gan roi esemptiad ar rannau eraill | 64 |
| Nifer y ceisiadau lle'r oedd y CMA wedi rhoi esemptiad ar bob rhan o gais | 106 |

Ar ôl i'r CMA gyhoeddi ymateb, mae gan y ceisydd hawl i ofyn i ni adolygu ein penderfyniad yn fewnol. Wrth ddelio ag adolygiad mewnol, rydym yn ystyried ein penderfyniad o'r newydd. Yn 2025 i 2026, cawsom 34 o geisiadau am adolygiadau mewnol. Mewn 28 o'r rhain cadarnhawyd ein penderfyniad gwreiddiol, mewn 3 adolygiad cafodd ei gadarnhau'n rhannol, ac yn yr adolygiadau hyn rhyddhawyd rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i geiswyr yn y 2 arall. Ar hyn o bryd mae 3 o'r adolygiadau hyn heb eu cwblhau.

Yn dilyn adolygiad mewnol, gall ceisydd ofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ystyried y ffordd y mae'r CMA wedi ymdrin â chais. Yn 2025 i 2026, gofynnodd 9 o geiswyr i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wneud hyn. Mewn 3 o'r achosion hyn, cadarnhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfyniad y CMA, ac nid oedd

angen cymryd unrhyw gamau pellach. Yn y 6 achos arall, rydym yn aros i glywed gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch a oes angen i ni roi ymateb manwl neu a fyddant yn cau'r achos heb fewnbwn ychwanegol gan y CMA.

### *Ceisiadau a ddaeth i law o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data*

O dan ddeddfwriaeth diogelu data (GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018) mae gan unigolyn hawl i gael gafael ar wybodaeth am sut mae'r CMA wedi prosesu ei ddata ac i gael copi o ddata o'r fath. Gall unigolyn hefyd ofyn i'r CMA beidio â phrosesu ei ddata personol mewn ffordd benodol, neu o gwbl, na dileu ei ddata, na chywiro ei ddata personol. Rhaid ymateb i geisiadau o fewn mis iddynt ddod i law.

Yn 2025 i 2026, cafodd y CMA 20 cais o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data (2024 i 2025: 5): 18 cais am fynediad at ddata gan y testun (2024 i 2025: 3), un cais dileu (2024 i 2025: 1) ac un cais arall a oedd yn gais wedi'i gyfuno i gael mynediad at ddata a dileu data (2024 i 2025: 1). O'r ceisiadau hyn, cafodd 18 eu hateb o fewn y cyfnod statudol o fis (2024 i 2025: 5).

### *Digwyddiadau'n ymwneud â Data Personol*

Mae tor-ddiogelwch data personol yn golygu torri diogelwch sy'n arwain at ddatgelu data personol heb awdurdod, ei ddinistrio, ei golli, ei newid neu gael mynediad ato yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon. Rhaid i'r CMA roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr achosion mwyaf difrifol o dor-diogelwch rydym yn eu canfod.

Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, ni roddodd y CMA wybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achosion o dorri diogelwch data (2024 i 2025: 2).

### *Archwilio Mewnol*

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn cyflwyno adroddiad blynyddol a barn ar y systemau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth sy'n gweithredu yn y CMA, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwybodaeth am yr amgylchedd busnes, a defnyddio'r Fframwaith Rheoli Risg.

Yn 2025 i 2026, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn **Gymedrol** gyffredinol ar y fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn y CMA ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Mae'r farn **Gymedrol** hon yn adlewyrchu gwelliant o'r farn **Gyfyngedig** a adroddwyd yn 2024 i 2025. Mae'r gwelliant yn cael ei sbarduno'n bennaf gan fod y CMA wedi mynd i'r afael â'r gwendid sylweddol a nodwyd yn flaenorol yn y modelau rhagolygon ariannol a chyllidebol yn ystod y flwyddyn.

Mae’r gwaith sicrwydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cadarnhau bod fframweithiau llywodraethiant, rheoli risg a rheoli craidd y CMA yn gweithredu’n effeithiol yn gyffredinol, er bod angen rhagor o welliannau a nodir isod.

Roedd y gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys 8 adolygiad, ac roedd pob un ohonynt wedi arwain at farn sicrwydd gymedrol. Codwyd cyfanswm o 38 o argymhellion, ac nid oedd unrhyw argymhellion newydd nac argymhellion blaenoriaeth uchel heb eu cyflawni. Mae’r rheolwyr wedi dangos cynnydd da o ran rhoi’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.

Asesir bod y fframweithiau llywodraethiant a rheoli yn gryf, gydag atebolrwydd clir, goruchwyliaeth effeithiol ac arferion rheoli risg sefydledig wedi’u gwreiddio ar draws y sefydliad. Nododd gwaith archwilio fod angen ffurfioli rhai o’r strwythurau llywodraethiant a nodwyd, gan gynnwys dogfennau llywodraethiant, fframweithiau moesegol a rheolaethau sy’n seiliedig ar systemau. Bydd hyn yn mynd i’r afael ag unrhyw fylchau sicrwydd ac yn cryfhau’r atebolrwydd. Bydd sefydlu Swyddfa Rheoli Prosiectau ar gyfer rheoli newid, cyfuno dogfennau llywodraethiant, a systemeiddio prosesau yn gwella tryloywder a rheoli risg yn y CMA.
Yn gyffredinol, mae rolau ac atebolrwydd ar draws y sefydliad wedi’u cofnodi, eu deall a’u cefnogi’n dda ar lefel swyddogaethol, weithredol ac ymysg uwch reolwyr. Mae angen gwneud rhagor o waith i ffurfioli llywodraethiant ar lefel portffolio, cryfhau dogfennau rheoli newid, a chyflwyno hyfforddiant mwy cynhwysfawr sy’n seiliedig ar rolau er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni newid sefydliadol.

Mae’r CMA yn dangos gallu cryf o ran strategaeth, cynllunio ac adrodd ar lefel prosiect, wedi’i gefnogi gan fframweithiau llywodraethiant sefydledig, prosesau rheoli risg ac offer monitro effeithiol. Mae angen gwelliannau i roi mwy o fanylder ac integreiddio adroddiadau, cryfhau cysylltiadau â chanlyniadau a gwireddu buddion, a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol mwy cyson i gefnogi monitro parhaus.

Mae’r gydymffurfiaeth â safonau, polisïau a gweithdrefnau yn gryf ar y cyfan, gan lynu wrth ofynion y sector cyhoeddus, rhwymedigaethau statudol a safonau swyddogaethol. Mae canfyddiadau’r archwiliad yn tynnu sylw at yr angen i fynd i’r afael â pholisïau tameidiog (yn enwedig ym maes deallusrwydd artiffisial a’r gyflogres), gwella dogfennau a rheoli fersiynau, lleihau dibyniaeth ar brosesau â llaw, yn ogystal â chryfhau cynllunio adfer ar ôl trychineb a gwydnwch gweithredol.

Mae’r rheolwyr wedi ymgysylltu’n gadarnhaol â’r swyddogaeth archwilio mewnol drwy gydol y flwyddyn ac wedi dangos ymrwymiad parhaus i weithredu argymhellion a chryfhau trefniadau rheoli, llywodraethiant a rheoli risg.

## Adrodd ar reoleiddio gwell

*Nod rheoleiddio gwell yw lleihau'r baich ar fusnesau a defnyddwyr*

Mae rhan 4 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yn mynnu bod y CMA yn adrodd ar ein cydymffurfiaeth â'n dyletswydd o dan y Ddeddf i osgoi gosod neu gynnal beichiau diangen ar fusnesau wrth gyflawni swyddogaethau rheoleiddio. Pan fydd ein gwaith yn arwain at swyddogaethau rheoleiddio, rydym yn gwneud hynny o dan gyfraith cystadleuaeth neu uno, sydd wedi'u heithrio'n benodol rhag rheolaethau adrodd rheoleiddio gwell. Nid oes gennym bŵer i wneud rheolau na gosod beichiau fel arall sy'n effeithio ar fusnesau'n gyffredinol. Mae ein hymyriadau'n digwydd ynghylch busnesau neu farchnadoedd penodol, a dim ond ar sail tystiolaeth glir o fethiant yn y farchnad a/neu achosion o dorri'r gyfraith sy'n bygwth gweithrediad priodol marchnadoedd y byddwn yn ymyrryd.

# Adroddiad Taliadau a Staff

## Adroddiad Taliadau

Mae'r CMA wedi ymrwymo i ddarparu pecyn taliadau a buddion:

- sy'n seiliedig ar egwyddorion deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth ac yn cydymffurfio â hwy;
- yn dryloyw, yn deg ac yn gyson, ac yn cydnabod yr angen i lynu wrth reolaethau perthnasol y Gwasanaeth Sifil;
- yn helpu i ddenu a chadw gweithwyr talentog ac amrywiol o'r Gwasanaeth Sifil a'r farchnad lafur allanol;
- yn cydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau gweithwyr; a hefyd
- yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Mae tâl yr holl weithwyr wedi'i nodi yn eu contractau ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol yn unol â'r canllawiau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r Adroddiad Tâl a Staff yn nodi polisi tâl y CMA i Uwch Weision Sifil, yn adrodd ar sut mae'r polisi hwnnw wedi cael ei roi ar waith ac yn nodi'r symiau a ddyfarnwyd i uwch reolwyr a, lle bo hynny'n berthnasol, y cysylltiad rhwng perfformiad a thâl. Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn rhoi manylion am daliadau a staff y mae Senedd y DU a defnyddwyr eraill yn eu hystyried yn allweddol i atebolrwydd.

### *Polisi Tâl*

Mae tâl Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu gan Swyddfa'r Cabinet yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB) yn flynyddol.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff hwnnw'n ystyried y pethau canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol
- amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau'r llywodraeth o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflawni gwasanaethau adrannol
- yr arian sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y llywodraeth
- targed chwyddiant y llywodraeth.

Mae cyngor y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn cael ei ystyried yn ofalus gan y llywodraeth gyda'r canllawiau blynyddol i ymarferwyr cyflog Uwch Weision Sifil a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n nodi'r paramedrau cyflog sydd ar gael i adrannau'r llywodraeth o ran sut mae trin cyflog a bonysau Uwch Weision Sifil a defnyddio'r dyfarniad cyflog blynyddol.

***Cyflog a bonysau***

Mae'r cyflog yn cynnwys symiau pensiynadwy a rhai nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys ond nid o reidrwydd wedi'i gyfyngu i: gyflogau gros; goramser; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat; lwfansau eraill, i'r graddau y maent yn ddarostyngedig i drethiant y DU; ac unrhyw daliadau ex-gratia. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y CMA.

Cynhwysir hefyd mewn cyflog daliadau heb eu cyfuno (sef symiau nad ydynt yn bensiynadwy) sy'n deillio o gymhwyso'r dyfarniad cyflog blynyddol. Gwneir y taliadau hyn yn lle eu hychwanegu at gyflog sylfaenol er mwyn osgoi codi lefel tâl yr unigolyn yn uwch nag uchafswm y band cyflog ar gyfer eu gradd neu gyflog y cytunwyd arno gyda Thrysorlys EF drwy achos eithriad cyflog. Pan fydd taliadau o'r fath wedi cael eu gwneud, cyfeirir at y rhain yn y troednodiadau.

Gwneir taliadau bonws hefyd fel taliadau heb eu cyfuno, ond fe'u cofnodir ar wahân i'r cyflog, yn y flwyddyn y dônt yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2025 i 2026 yn ymwneud â pherfformiad yn 2024 i 2025 ac mae'r bonysau cymharol a gofnodwyd ar gyfer 2024 i 2025 yn ymwneud â pherfformiad yn 2023 i 2024. Gwneir taliadau bonws fel rhan o broses rheoli perfformiad Uwch Weision Sifil ac maent yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd.

Yn 2025 i 2026, roedd yn ofynnol i'r CMA dalu taliad diwedd blwyddyn ar sail perfformiad heb ei gyfuno (sef bonws) i'r rheini a oedd yn 'Rhagori ar eu perfformiad' fel rhan o'u prosesau rheoli perfformiad. Ar ben hynny, cynghorwyd adrannau'n gryf i ystyried sut i gydnabod y rhai sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n Perfformio'n Dda gyda rhyw lefel o daliad diwedd blwyddyn ar sail perfformiad heb ei gyfuno. O ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor Taliadau daliadau perfformiad heb eu cyfuno i weithwyr a gafodd sgôr perfformiad o 'Rhagori ar eu perfformiad' a 'Perfformio'n Dda' Uwch Weision Sifil ar gyfer blwyddyn perfformiad 2024 i 2025.

## Uwch reolwyr - un cyfanswm tâl (wedi'i archwilio)

| | Cyflog | | Lwfansau | | Bonysau | | Pensiynau (1) | | Taliadau wrth adael (2) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Uwch Reolwyr** | **2025/26** | **2024/25** | **2025/26** | **2024/25** | **2025/26 (3)** | **2024/25** | **2025/26** | **2024/25** | **2025/26** | **2024/25** | **2025/26** | **2024/25** |
| Chris Prevett (4) | 185-190 | 185-190 | - | - | 15-20 | 10-15 | 69 | 69 | - | - | **270-275** | **265-270** |
| Christina Duncan (5) | 0-5 | 135-140 | - | - | 10-15 | - | 2 | 53 | - | - | **15-20** | **190-195** |
| Daniel Lambauer (6) | 150-155 | 75-80 | - | - | 5-10 | - | 60 | 30 | - | - | **220-225** | **105-110** |
| Emma Cochrane (7) | 55-60 | - | | - | - | - | 23 | - | - | - | **80-85** | **-** |
| George Lusty (8) | 20-25 | 160-165 | - | - | - | 10-15 | 9 | 63 | - | - | **30-35** | **240-245** |
| Jenny Haydock (9) | 35-40 | - | - | - | 15-20 | - | 14 | - | - | - | **65-70** | **-** |
| Jessica Lennard | 160-165 | 155-160 | - | - | 10-15 | - | 62 | 61 | - | - | **235-240** | **215-220** |
| Joel Bamford (10) | 185-190 | 185-190 | - | - | 15-20 | - | 43 | 185 | - | - | **245-250** | **370-375** |
| Juliette Enser (11) | 170-175 | 160-165 | - | - | - | 15-20 | 63 | 68 | - | - | **235-240** | **245-250** |
| Karen Croxson (12) | 170-175 | 165-170 | - | - | - | 5-10 | 62 | 62 | - | - | **230-235** | **235-240** |
| Mike Walker (13) | 140-145 | 190-195 | - | - | - | - | 52 | 70 | - | - | **190-195** | **260-265** |
| Ruth Banks (14) | 100-105 | - | - | - | - | - | 42 | - | - | - | **140-145** | **-** |
| Sarah Cardell (15) | 220-225 | 215-220 | - | - | 15-20 | 15-20 | 31 | 32 | - | - | **265-270** | **265-270** |
| Will Hayter (16) | 170-175 | 165-170 | - | - | 10-15 | 15-20 | 62 | 62 | - | - | **245-250** | **245-250** |

## Nodiadau am y tabl

1. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi â 20) llai (cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Gall y ffigurau pensiwn a ddangosir fod yn wahanol i ddatganiadau pensiwn unigol oherwydd amseru a dulliau cyfrifo.
2. Mae'r taliad wrth adael yn cynnwys gwyliau blynyddol heb eu cymryd y mae gan yr unigolyn hawl iddynt hyd at ddyddiad diwethaf y gyflogaeth, taliad yn lle rhybudd ac unrhyw daliadau pecyn ymadael.
3. Mae'r ffigurau a ddarperir yng ngholofn bonws 2025 i 2026 yn ymwneud â blwyddyn perfformiad 2024 i 2025. Mae'r ffigurau a ddarperir yng ngholofn bonws 2024 i 2025 yn ymwneud â blwyddyn perfformiad 2023 i 2024.
4. Cyflog sylfaen Chris Prevett ar gyfer 2025 i 2026 oedd £175k i £180k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £5k i £10k.
5. Gadawodd Dharmash Mistry y CMA ar 13 Ebrill 2025. Y cyflog sylfaenol blynyddol ar gyfer y flwyddyn lawn rhwng 2025 a 2026 oedd £145k i £150k. Mae'r ffigur pensiwn 2024 i 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Derbyniwyd y ffigur diwygiedig gan MyCSP ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi, felly mae wedi cael ei ailddatgan yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026. Mae'r cyfanswm ar gyfer 2024 i 2025 hefyd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ffigur pensiwn diwygiedig.
6. Mae ffigur pensiwn Daniel Lambauer rhwng 2024 a 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Derbyniwyd y ffigur diwygiedig gan MyCSP ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi, felly mae wedi cael ei ailddatgan yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026. Mae'r golofn cyfanswm ar gyfer 2024 i 2025 hefyd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r ffigur pensiwn diwygiedig.
7. Ymunodd Emma Cochrane â'r Pwyllgor Gweithredol ar 11 Tachwedd 2025 yn ei rôl dros dro fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Diogelu Defnyddwyr. Fe'i penodwyd i'r rôl yn barhaol, gan ddod i rym ar 23 Mawrth 2026. Mae'r cyflog a nodir ar gyfer 2025 i 2026 am y cyfnod rhwng 11 Tachwedd 2025 a 31 Mawrth 2026 i gyd-fynd â'r dyddiad yr ymunodd Emma â'r Pwyllgor Gweithredol. Y cyflog sylfaenol blynyddol ar gyfer y flwyddyn lawn rhwng 2025 a 2026 oedd £150k i £155k.
8. Gadawodd George Lusty y CMA ar 23 Mai 2025. Y cyflog sylfaenol blynyddol ar gyfer y flwyddyn lawn rhwng 2025 a 2026 oedd £160k i £165k. Mae'r ffigur pensiwn 2024 i 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Derbyniwyd y ffigur diwygiedig gan MyCSP ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi, felly mae wedi cael ei ailddatgan yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026. Mae'r golofn cyfanswm ar gyfer 2024 i 2025 hefyd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r ffigur pensiwn diwygiedig.
9. Ymunodd Jenny Haydock â'r Pwyllgor Gweithredol ar 30 Rhagfyr 2025 fel Prif Gynghorydd Economaidd Dros Dro. Fe'i penodwyd yn barhaol fel Prif Gynghorydd Economaidd ar 17 Ebrill 2026. Mae'r cyflog a nodir ar gyfer 2025 i 2026 am y cyfnod rhwng 30 Rhagfyr 2025 a 31 Mawrth 2026 i gyd-fynd â'r dyddiad yr ymunodd Jenny â'r Pwyllgor Gweithredol. Y cyflog sylfaenol blynyddol ar gyfer y flwyddyn lawn rhwng 2025 a 2026 oedd £145k i £150k.
10. Cyflog sylfaenol Joel Bamford ar gyfer 2025 i 2026 oedd £180k i £185k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £5k i £10k. Mae'r ffigur pensiwn 2024 i 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Derbyniwyd y ffigur diwygiedig gan MyCSP ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi, felly mae wedi cael ei ailddatgan yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026. Mae'r golofn cyfanswm ar gyfer 2024 i 2025 hefyd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r ffigur pensiwn diwygiedig.
11. Cyflog sylfaenol Juliette Enser ar gyfer 2025 i 2026 oedd £160k i £165k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £10k i £15k. Mae'r ffigur pensiwn 2024 i 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Derbyniwyd y ffigur diwygiedig gan MyCSP ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi, felly mae wedi cael ei ailddatgan yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026. Mae'r golofn cyfanswm ar gyfer 2024 i 2025 hefyd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r ffigur pensiwn diwygiedig.
12. Cyflog sylfaenol Karen Croxson ar gyfer 2025 i 2026 oedd £160k i £165k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £10k i £15k.
13. Gadawodd Mike Walker y CMA ar 29 Rhagfyr 2025. Y cyflog sylfaenol blynyddol llawn yn 2025 i 2026 oedd £180k i £185k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £5k i £10k.

14. Ymunodd Ruth Banks â'r CMA ar 1 Mehefin 2025. Y cyflog sylfaenol blynyddol ar gyfer y flwyddyn lawn rhwng 2025 a 2026 oedd £130k i £135k.
15. Cyflog sylfaenol Sarah Cardell ar gyfer 2025 i 2026 oedd £205k i £210k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £10k i £15k.
16. Cyflog sylfaenol Will Hayter ar gyfer 2025 i 2026 oedd £160k i £165k. Mae colofn gyflog 2025 i 2026 yn cynnwys swm heb ei gyfuno o £10k i £15k.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

### *Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod*

Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir y buddion pensiwn.

### *Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV*

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o drefniant neu gynllun pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Uwch reolwyr - buddion pensiwn (wedi'u harchwilio)[14]

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2026 £000 | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn £000 | CETV ar 31 Mawrth 2026 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 £000 | Cynnydd gwirioneddol / (gostyngiad) mewn CETV £000 | Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Chris Prevett | 40-45 | 2.5-5 | 537 | 470 | 38 | - |
| Christina Duncan[15] | 35-40 | 0-2.5 | 597 | 575 | 1 | - |
| Daniel Lambauer | 45-50 | 2.5-5 | 665 | 601 | 32 | - |
| Emma Cochrane | 0-5 | 0-2.5 | 53 | 37 | 11 | - |
| George Lusty[16] | 50-55 | 0-2.5 | 726 | 710 | 5 | - |
| Jenny Haydock | 30-35 | 0-2.5 | 419 | 408 | 7 | - |
| Jessica Lennard | 10-15 | 2.5-5 | 125 | 77 | 33 | - |
| Joel Bamford[17] | 40-45 | 2.5-5 | 722 | 660 | 14 | - |
| Juliette Enser | 45-50 | 2.5-5 | 788 | 705 | 45 | - |
| Karen Croxson | 5-10 | 2.5-5 | 138 | 82 | 41 | - |
| Mike Walker | 60-65 | 2.5-5 | 977 | 932 | 38 | - |
| Ruth Banks | 30-35 | 2.5-5 | 390 | 345 | 20 | - |
| Sarah Cardell | - | - | - | - | - | 31 |
| Will Hayter | 50-55 | 2.5-5 | 669 | 601 | 35 | - |

Mae'r buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod yr aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol

[14] Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Gall y ffigurau pensiwn a ddangosir fod yn wahanol i ddatganiadau pensiwn unigol oherwydd amseru a dulliau cyfrifo.
[15] Mae'r ffigur CETV ar 31 Mawrth 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Darparwyd y ffigur diwygiedig gan Capita yn y datganiad Cyfrifon Adnoddau a dderbyniwyd ar 21 Mai 2026.
[16] Mae'r ffigur CETV ar 31 Mawrth 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Darparwyd y ffigur diwygiedig gan Capita yn y datganiad Cyfrifon Adnoddau a dderbyniwyd ar 21 Mai 2026.
[17] Mae'r ffigur CETV ar 31 Mawrth 2025 wedi cael ei ddiwygio o adroddiad blynyddol 2024 i 2025. Darparwyd y ffigur diwygiedig gan Capita yn y datganiad Cyfrifon Adnoddau a dderbyniwyd ar 15 Mehefin 2026.

ar gyfer cyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai fod yr aelod yn arfer ei hawl ar ôl ymddeol i benderfynu, yn hytrach, derbyn buddion a gyfrifir o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

### *Contractau gwasanaeth*

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall. Oni nodir yn wahanol, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau penagored. Byddai terfynu contract yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Yn 2025 i 2026 gwnaed 73 o daliadau fel rhan o'r cynllun ymadael gwirfoddol (2024 i 2025: Dim).

## Datgeliadau cyflog teg (wedi'u harchwilio)

### *Cwmpas*

Mae cwmpas y Datgeliad Cyflog Teg yn cynnwys yr holl staff ar gyflogres y CMA ar 31 Mawrth 2026 sy'n perthyn i'r categorïau canlynol: Parhaol, Tymor Penodol, Penodiad Tymor Byr, Benthyciadau i Mewn, Benthyciadau Allan, Staff ar Secondiad i Mewn, Staff ar Secondiad Allan. Mae hefyd yn cynnwys staff Asiantaeth a Staff wedi'u Secondio i Mewn nad ydynt ar gyflogres y CMA ond a oedd yn gweithio i'r CMA ar 31 Mawrth 2026.

### *Newid canrannol mewn cyflog*

Ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf, bu cynnydd o 2.3% wrth gymharu pwynt canol y band 2025 i 2026 ar gyfer cyfanswm cyflog a lwfansau (£220k i £225k) â ffigur 2024 i 2025 (£215k i £220k). Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i daliad mwy heb ei gyfuno yn cael ei wneud fel rhan o ddyfarniad cyflog 2025 i 2026. Ni fu unrhyw newid i bwynt canol y band ar gyfer 2025 i 2026 ar gyfer taliadau perfformiad a thaliadau bonws (£15k i £20k) o'i gymharu â 2024 i 2025. Wrth ystyried cyfanswm cyflog, lwfansau a bonysau, bu 2.2% o gynnydd yn gyffredinol wrth gymharu pwynt canol y band ar gyfer 2025 i 2026 (£235k i £240k) â phwynt canol y band ar gyfer 2024 i 2025 (£230k i £235k).

Ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf, mae cyflog a lwfansau cyfartalog yr holl staff wedi codi 4.7% yn 2024 a 2025. Ar yr un pryd, bu 18.2% o gynnydd mewn bonysau cyfartalog dros yr un cyfnod. Er bod yr un ganran o'r bil cyflogau'n cael ei defnyddio o un flwyddyn i'r llall i bennu'r gronfa fonws, roedd gwerth gwirioneddol

dyfarniadau bonws unigol Uwch Weision Sifil a gwerth dyfarniad y sefydliad o lefel Swyddog Gweinyddol (AO) i Radd 6 yn uwch yn 2025 i 2026 o'i gymharu â 2024 i 2025, a dyna a arweiniodd at y cynnydd hwn, ynghyd â nifer llai o bobl ar 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â 31 Mawrth 2025.

### *Cymarebau cyflog*

Mae'r cymarebau cyflog yn dangos y berthynas rhwng cyfanswm cyflog a buddion y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chyfanswm cyflog a buddion gweddill gweithlu'r CMA. Mae cyfanswm tâl a buddion yn cynnwys cyflog, lwfansau, bonysau, taliadau heb eu cyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) pensiynau.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026, roedd y tâl cyfwerth ag amser llawn wedi'i fandio ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn y CMA yn amrywio o £235k i £240k, o'i gymharu â £230k i £235k yn 2024 i 2025. Yn 2025 i 2026, ni chafodd unrhyw aelod o staff dâl mwy na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf, a oedd hefyd yn wir yn 2024 i 2025 (2024 i 2025: dim). Roedd cyflogau sylfaenol staff, ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf, yn amrywio o £28.9k i £203.2k (2024 i 2025: £26.7k i £199.5k). Mae'r tabl isod yn dangos y cymarebau rhwng y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a'i dâl a chyflog a buddion y gweithiwr ar y 25ain canradd, y canolrif a'r 75ain canradd.

### *Tablau cymhareb cyflog (wedi'u harchwilio)*

*Cymarebau Cyflog 2025 i 2026*

| | Cyfanswm tâl a buddion (£) | Cyflog (£) | Cymhareb cyflog |
|---|---|---|---|
| 25ain canradd | 48,217 | 44,099 | 4.93:1 |
| Canolrif | 67,191 | 65,259 | 3.53:1 |
| 75ain canradd | 89,037 | 86,462 | 2.67:1 |

*Cymarebau Cyflog 2024 i 2025*

| | Cyfanswm tâl a buddion (£) | Cyflog (£) | Cymhareb cyflog |
|---|---|---|---|
| 25ain canradd | 42,196 | 41,214 | 5.51:1 |
| Canolrif | 64,609 | 63,627 | 3.60:1 |
| 75ain canradd | 85,819 | 84,837 | 2.71:1 |

## Taliadau i aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (wedi'u harchwilio)

Roedd holl aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu cyflogi 30 diwrnod y flwyddyn ac eithrio Doug Gurr sy'n cael ei gyflogi i ymrwymo o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos. Nid yw'r Cadeirydd na'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac nid oes ganddynt unrhyw hawliau pensiwn eraill gyda'r CMA (2025 i 2026: dim).

| 2025 i 2026 | Cyflog £000 | Buddion o fath arall (i'r £100 agosaf) |
|---|---|---|
| Cynthia Dubin[18] | 5-10 | - |
| Cyrus Mehta[19] | 25-30 | - |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 25-30 | - |
| Dharmash Mistry[20] | 10-15 | - |
| Doug Gurr | 105-110 | - |
| Frank Dangeard[21] | 0-5 | - |
| Justin Basini | 25-30 | - |
| Martin Coleman[22] | 25-30 | - |
| Murdoch MacLennan | 25-30 | - |

| 2024 i 2025 | Cyflog £000 | Buddion o fath arall (i'r £100 agosaf) |
|---|---|---|
| Cynthia Dubin | 25-30 | - |
| Cyrus Mehta | 25-30 | - |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 25-30 | - |
| Dharmash Mistry | 25-30 | - |
| Doug Gurr | 20-25 | - |
| Frank Dangeard | 25-30 | - |

[18] Gadawodd Cynthia Dubin y CMA ar 18 Gorffennaf 2025. Ei thâl blynyddol yn rôl Cyfarwyddwr Anweithredol oedd £25k i £30k.
[19] Mae cyflog Cyrus Mehta yn ymwneud â'i rôl Cyfarwyddwr Anweithredol yn unig. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd Ymchwiliad a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2025. Ei dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn cyfun ar gyfer y ddwy swydd yw £165k i £170k.
[20] Gadawodd Dharmash Mistry y CMA ar 29 Awst 2025. Ei dâl blynyddol fel Cyfarwyddwr Anweithredol oedd £25k i £30k.
[21] Gadawodd Frank Dangeard (ymadawedig) y CMA ar 2 Ebrill 2025. Ei dâl blynyddol fel Cyfarwyddwr Anweithredol oedd £25k i £30k.
[22] Mae cyflog Martin Coleman yn ymwneud â'i rôl Cyfarwyddwr Anweithredol yn unig. Yn 2025 i 2026, roedd Martin hefyd yn cael ei gyflogi fel Cadeirydd Panel y CMA a rhwng 2025 a 2026 enillodd gyfanswm tâl o £135k i £140k am waith ar Fwrdd a Phanel y CMA.

| | | |
|---|---|---|
| Justin Basini | 25-30 | - |
| Marcus Bokkerink | 85-90 | - |
| Martin Coleman | 25-30 | - |
| Murdoch MacLennan | 25-30 | - |

## Adroddiad Staff

### *Cyd-destun Pobl*

Mae'r CMA yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau'r gwerth gorau posibl gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni. Mae ein Strategaeth newydd, sy'n ein helpu i gynyddu ein cyflymder i gael effaith ac i flaenoriaethu ymyriadau amserol sydd wedi'u cwmpasu'n dda, yn chwarae rhan bwysig yma. Felly hefyd sicrhau gweithlu sydd wedi'i ail-lunio ac sy'n 'briodol o ran maint' – sydd wedi bod yn ffocws craidd yn ystod 2025 i 2026 wrth i ni symud allan o gyfnod o dwf sefydliadol.

Mae'r newidiadau hyn i faint a siâp y CMA wedi digwydd ochr yn ochr â chyfnod o addasu sefydliadol ehangach (er enghraifft, gwreiddio ein rhaglen 4P ar draws ein swyddogaethau), sydd, yn ddealladwy, wedi cael effaith ar ymgysylltiad a llesiant cydweithwyr. Rydym ni'n defnyddio adborth gan ein pobl i lywio ein hymateb, gan ganolbwyntio'n barhaus ar allu arwain, rheolaeth llinell effeithiol a rhoi'r cymorth cywir i gydweithwyr berfformio ar eu gorau.

### *Strwythur y Sefydliad*

*Proffil y Gweithlu ac Adnoddau*

Yn 2025 i 2026, gostyngodd y CMA faint ein gweithlu fel rhan o'r gwaith ail-lunio arfaethedig. Cyfanswm y staff (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth 2026 oedd 1,001, o'i gymharu â 1,130 ar 31 Mawrth 2025. Sbardunwyd y gostyngiad yn bennaf gan newidiadau mewn staffio parhaol drwy Gynllun Ymadael Gwirfoddol.

Roedd dull diwygiedig o gynllunio'r gweithlu yn sail i'r newid hwn, gyda phenderfyniadau recriwtio ac adnoddau'n cael eu llywodraethu drwy brosesau clir i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad, fforddiadwyedd a gwerth am arian. Cafodd opsiynau adnoddau mewnol eu blaenoriaethu lle bynnag y bo modd, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu gallu a pharhad sefydliadol. Rydym yn defnyddio dull mwy bwriadol o gael gafael ar arbenigedd allanol, gan gyflwyno gallu arbenigol lle mae'n ychwanegu gwerth clir at gyflawni a meithrin gallu. Mae recriwtio allanol yn cael ei ddefnyddio i gryfhau ein dyfnder mewn meysydd blaenoriaeth, ac yn unol ag Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil. Rydym yn gwneud defnydd wedi'i dargedu o adnoddau dros dro, gan gynnwys benthyciadau o'r tu allan, i gael gafael ar sgiliau arbenigol, cyflymu'r ddarpariaeth a phrofi gofynion sy'n dod i'r amlwg.

Er bod y mewnbynnau allanol hyn yn cael eu defnyddio'n fwy bwriadol i ategu ein gweithlu craidd, maent yn dal i gael eu rheoli'n dynn a chyfran gymharol fach o'r capasiti cyffredinol ydynt. Mae'r rhan fwyaf o rolau'n dal i gael eu llenwi ar sail barhaol,

gan sicrhau sefydlogrwydd sefydliadol a rhoi'r hyblygrwydd i ni ymateb i ofynion sy'n newid a meithrin sgiliau critigol yn gyflym.

Ar ddiwedd y flwyddyn (2025 i 2026), roedd y capasiti sefydliadol yn dal i fod ar Raddau 6 a 7 a lefel Uwch-Swyddog Gweithredol a Swyddog Gweithredol Uwch yn bennaf, a oedd gyda'i gilydd yn ffurfio'r gweithlu craidd sy'n sail i gyflawni ar draws swyddogaethau dadansoddol, cyfreithiol, economaidd, cyflawni a chorfforaethol. Yn gyffredinol, mae cyfrannau ein gweithlu yn dal yn sefydlog i raddau helaeth, er eu bod yn llai.

*Nifer y staff (wedi'i archwilio)*

Amlinellir nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth 2026 a nifer cyfartalog y staff (cyfwerth ag amser llawn) yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

*Nifer y staff - cyfwerth ag amser llawn (FTE)*

| | 2025-26 | | 2024-25 | |
|---|---|---|---|---|
| | FTE ar ddiwedd y flwyddyn | FTE Cyfartalog | FTE ar ddiwedd y flwyddyn | FTE Cyfartalog |
| **Staff Parhaol** | 918.7 | 965.2 | 1025.9 | 994.2 |
| Eraill | 82.1 | 85.1 | 104.2 | 131.3 |
| **CYFANSWM Staff** | **1000.7** | **1050.3** | **1130.2** | **1125.5** |

Mae ffigur diwedd blwyddyn 2025 i 2026 129.5 FTE yn is na'r ffigur diwedd blwyddyn ar gyfer 2024 i 2025.

*Cyfansoddiad staff*[23]

Cyfansoddiad y staff, yn ôl gradd, a oedd wedi'u cyflogi ar gontract cyflogaeth ar 31 Mawrth 2026

| | 2025-26 | | 2024-25 | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | **Gwryw FTE** | **Menyw FTE** | **Gwryw FTE** | **Menyw FTE** |
| SCS3 (Cyfarwyddwr) | 0 | 1 | 0 | 1 |
| SCS2 (Cyfarwyddwr) | 16.7 | 16.5 | 16.7 | 16.4 |
| SCS1 | 40.9 | 49.7 | 51.5 | 52.1 |

[23] Mae'r fethodoleg ar gyfer y tabl cyfansoddiad staff wedi cael ei diwygio i gyd-fynd â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y tabl niferoedd staff. O ganlyniad, efallai na fydd modd cymharu'r ffigurau'n uniongyrchol â'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau blaenorol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gradd 6 | 117.6 | 112.3 | 134 | 123.2 |
| Gradd 7 | 138.6 | 150.3 | 154.8 | 154.7 |
| Uwch-Swyddog Gweithredol | 49.6 | 47.7 | 63.4 | 47.6 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 89.5 | 92.3 | 99 | 107.4 |
| Swyddog Gweithredol | 32.7 | 38.4 | 34 | 43.5 |
| Swyddog Gweinyddol | 2 | 5 | 14 | 17 |
| **CYFANSWM** | ***487.5*** | ***513.2*** | ***567.3*** | ***562.9*** |
| **CYFANSWM Staff** | **1000.7** | | **1130.2** | |

*Benthyciadau staff 2025 i 2026*

| | **Allanol Llai na 6 mis** | **Allanol Mwy na 6 mis** | **Mewnol Llai na 6 mis** | **Mewnol Mwy na 6 mis** |
|---|---|---|---|---|
| SCS3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SCS2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SCS1 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| Gradd 6 | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Gradd 7 | 1 | 1 | 12 | 17 |
| Uwch-Swyddog Gweithredol | 1 | 2 | 0 | 2 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 1 | 1 | 2 | 4 |
| Swyddog Gweithredol | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddog Gweinyddol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **9** | **8** | **15** | **26** |

*Trosiant*

Cyfradd trosiant staff blynyddol y CMA ar gyfer staff parhaol yn 2025 i 2026 oedd 16.8%. Ac eithrio'r rheini a adawodd drwy'r cynllun ymadael gwirfoddol, cyfradd trosiant staff blynyddol y CMA ar gyfer staff parhaol yn 2025 i 2026 oedd 9.6%, sef 1.3% o gynnydd (2024 i 2025: 8.3%).

***Gallu Sefydliadol***

*Dysgu a gyrfaoedd*

Mae Academi'r CMA yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a datblygu gyda'r nod o gryfhau'r gallu sefydliadol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r CMA, gan sicrhau gwerth am arian a chydymffurfio â chanllawiau caffael a rheolaethau gwariant y llywodraeth ganolog.

Yn ystod 2025 i 2026, fe wnaethom ganolbwyntio ar feithrin sgiliau sy'n hanfodol i ddarpariaeth y CMA, gan gynnwys economeg, gallu cyfreithiol, digidol a data, arweinyddiaeth a safonau proffesiynol. Bu Academi'r CMA yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid Proffesiynau i gysoni'r ddarpariaeth â'r galw busnes, gan flaenoriaethu anghenion gallu, symleiddio'r cynnig, a lleihau dyblygu ar yr un pryd â chynnal ansawdd. Roedd hyn yn cynnwys y pethau canlynol:

- roedd meithrin gallu beirniadol oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r CMA yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer cymwysterau proffesiynol, aelodaeth ac achrediad, mwy o ddefnydd o brentisiaethau i adeiladu piblinellau mewnol, a datblygiad ymarferol drwy fentora a hyfforddi:
    - ymgysylltodd 1,168 o bobl â rhaglenni dysgu craidd
    - 83 o gydweithwyr wedi'u cefnogi drwy ariannu aelodaeth o gyrff proffesiynol
    - 26 o raddedigion yn cymryd rhan yn ein cynllun cylchdro 3 blynedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth rheng flaen i raddedigion
    - 23 o brentisiaid mewn swydd ar 31 Mawrth 2026

- cefnogi datblygiad gyrfa drwy lwybrau cliriach a llwybrau dilyniant, gan gynnwys cynnull fforwm chwarterol Penaethiaid Proffesiynau, darparu cynnwys fel rhan o'n rhaglen sgiliau digidol, ein rhaglen arwain a rheoli, cynnal ein rhaglen hyfforddi gyrfaoedd 'Advance', a'n rhaglen datblygu talent 'Aspire' i gefnogi unigolion i gymryd y cam nesaf yn eu gyrfa; a hefyd

- gwella hygyrchedd, a gwerthuso dysgu ar draws y sefydliad, a gweithio gyda Phenaethiaid Proffesiynau i ddatblygu aeddfedrwydd yn y proffesiwn a chael gwybodaeth am sbarduno newid a gallu

*Datblygu Perfformiad*

Rydym wedi canolbwyntio ar wreiddio ein dull Perfformiad a Datblygu diwygiedig, a lansiwyd ym mis Ebrill 2025. Mae'r fframwaith rheoli perfformiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer cydweithwyr sydd ar lefel Swyddog Gweinyddol (AO) i Radd 6, yn cynnwys adnodd technoleg newydd i gefnogi'r broses ar draws y cylch adolygu perfformiad. Fe wnaethom hefyd gyflwyno Fframwaith Llwyddiant y CMA, sy'n nodi disgwyliadau clir ar gyfer sgiliau, arbenigedd ac ymddygiad ym mhob rôl a gradd ar draws y sefydliad.

Mae hyn wedi cryfhau cysondeb ac ansawdd sgyrsiau perfformiad ac wedi rhoi gwell adnoddau i reolwyr gefnogi datblygiad ac atgyfnerthu ymrwymiad y CMA i reoli perfformiad yn dryloyw ac yn deg. Dros y flwyddyn, mae cydweithwyr a rheolwyr wedi

cael eu cefnogi i osod amcanion clir, rhoi adborth rheolaidd a defnyddio asesiadau perfformiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cyd-fynd â Fframwaith Llwyddiant y CMA. Mae gwreiddio'r dull hwn yn ganolog i greu cysondeb clir rhwng disgwyliadau o berfformiad unigol, a chysondeb â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol, ac i sicrhau ein bod wedi'n harfogi i gyflawni mewn amgylchedd sy'n fwy cyfyngedig o ran adnoddau.

***Creu gweithle gwych***

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cynhwysol lle mae pob cydweithiwr yn cael ei gefnogi i berfformio ar ei orau, i gyfrannu at lwyddiant sefydliadol ac i helpu i wneud y CMA yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym yn cydnabod bod gweithlu sydd â safbwyntiau, sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau amrywiol yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a chyflawni. Mae'r CMA wedi ymrwymo i roi cyfleoedd teg i gydweithwyr ddatblygu a bwrw ymlaen â'u gyrfaoedd.

*Ein Gwerthoedd*

Mae ein gwerthoedd yn rhoi cyd-ddealltwriaeth o'r ymddygiad disgwyliedig ac yn sail i sut rydym yn sicrhau canlyniadau i bobl, busnesau ac economi'r DU. Rydym yn uchelgeisiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym yn anelu at ragoriaeth. Rydym yn trin cydweithwyr a rhanddeiliaid â pharch, yn cydweithio ac yn gynhwysol. Mae gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil, sef gonestrwydd, uniondeb, gwrthrychedd a didueddrwydd, yn sail i'n gwerthoedd.

*Ymgysylltu â Chydweithwyr*

Mae'r CMA yn cymryd rhan yn flynyddol yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Roedd canlyniadau arolwg 2025, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025, yn dangos cyfradd ymateb gref o 64% (sy'n uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil o 59%). Roedd y sgôr ymgysylltu cyffredinol, sef 57%, yn ostyngiad o'i gymharu â 2024 (64%) ac roedd yn is na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil o 65%.

Roedd y cryfderau'n dangos bod gan 89% ddiddordeb yn eu gwaith, roedd dros 90% yn teimlo bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol, ac yn gyffredinol roedd 63% o gydweithwyr yn dal yn falch o weithio yn y CMA.

Wrth i ni barhau â'r gwaith o wreiddio'r fframwaith 4P, a'n trawsnewidiad sefydliadol ehangach, byddwn yn parhau i gryfhau sut rydym yn gweithredu. Mae'r canlyniadau o ran yr hyder i herio uwch arweinwyr (47% yn gadarnhaol) a rheoli newid (40% yn gadarnhaol) yn dweud wrthym fod gennym fwy i'w wneud i ddod â'n pobl gyda ni ar y daith newid. Roedd hyn yn siomedig ond nid oedd yn syndod o ystyried maint a chyflymder y newid dros y 12 mis diwethaf.

Bydd y canlyniadau'n llywio blaenoriaethau yn ein Strategaeth Pobl a'n rhaglen trawsnewid sefydliadol, a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Arolwg Pobl i fesur effaith y newid ar ein pobl dros y cyfnod i ddod. Ar lefel leol, disgwylir i dimau ystyried canlyniadau yn eu hardal, deall yr ysgogwyr, a rhoi cynlluniau gweithredu lleol wedi'u targedu ar waith, a fydd yn cael eu cyflawni ochr yn ochr â'r newid sefydliadol ehangach.

*Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*

Rydym yn cydnabod bod gweithlu amrywiol yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r cyhoedd a'r defnyddwyr rydym yn eu gwasanaethu. Yn ystod hydref 2024, fe wnaethom ddechrau datblygu cam nesaf ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd rhwng 2020 a 2024. Cafodd y gwaith hwn ei lywio gan dystiolaeth feintiol ac ansoddol ac adolygiad o'n hamcanion cydraddoldeb.

Fe wnaethom ailddatgan ein hamcanion craidd ar gyfer 2025 i 2026: adeiladu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn deall y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu, sicrhau bod pob cydweithiwr yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu cyfrannu'n llawn, a galluogi cydweithwyr i ffynnu a pherfformio ar eu gorau.

Roedd ein darpariaeth yn ystod 2025 i 2026 yn canolbwyntio ar fodloni gofynion statudol a deddfwriaethol, gan gydnabod nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd dros y 4 blynedd blaenorol drwy wreiddio mentrau a chynnal momentwm, a chysoni gweithgarwch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant â strategaeth hirdymor y CMA a'r rhaglen drawsnewid ehangach.

Gwnaethom gynnydd o ran cryfhau cynhwysiant recriwtio, gan gyflawni camau blaenoriaeth o adolygiad diagnostig 2024. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebion swyddi cliriach a mwy cynhwysol, gwell gwybodaeth am ymgeiswyr, a gwell deunyddiau cyfweld a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr sy'n penodi. Ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom adnewyddu ein hachrediad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 2 a sefydlu canolfan addasiadau gweithle ganolog i gefnogi'r gwaith o ddarparu addasiadau rhesymol yn gyson ac yn effeithiol, gan gynnwys cymorth wedi'i deilwra ar gyfer cydweithwyr niwroamrywiol. Gwnaethom hefyd gryfhau trefniadau llywodraethiant rhwydweithiau staff drwy gyflwyno model nawdd uwch cliriach ac ymgysylltu â rhwydweithiau ar bolisi rhwydwaith staff y Gwasanaeth Sifil.

Mae proffil ein gweithlu yn dangos cynnydd cymedrol. Cynyddodd cynrychiolaeth menywod i 52%, gyda gwelliannau ar draws y rhan fwyaf o raddau, cododd cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig i 25%, ond mae'n dal yn sylweddol is ar lefelau uwch, gydag oddeutu 8% o gynrychiolaeth ymhlith yr Uwch Weision Sifil. Roedd cynrychiolaeth anabledd wedi cynyddu ychydig i 8% yn gyffredinol, gyda 6% ar lefel yr Uwch Weision Sifil. Arhosodd cynrychiolaeth LHDT+ yn sefydlog ar 9%.

*Bylchau Cyflog*

Roedd adroddiadau bwlch cyflog 2024 i 2025 (a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mawrth 2026) yn dangos gwelliannau o un flwyddyn i'r llall ar draws mesurau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd.

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (cymedr a chanolrif) wedi gostwng i'w lefelau isaf ers dechrau adrodd, gan adlewyrchu cynrychiolaeth uwch o fenywod ar lefel yr Uwch Weision Sifil a chynrychiolaeth fwy cytbwys ar draws pob gradd.

Roedd y bylchau cyflog ethnigrwydd yn adlewyrchu methodoleg adrodd gyffredin newydd a roddwyd ar waith ar draws holl adrannau'r Gwasanaeth Sifil, gan ddangos llawer mwy o fanylder yn y mesurau. Ar draws y rhan fwyaf o fesurau, cafwyd gwelliannau ond yn gyffredinol, mae'r bylchau cyflog ethnigrwydd yn dal yn rhy uchel, gyda thangynrychiolaeth cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar lefel Uwch Weision Sifil yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu.

*Bwlio, Aflonyddu a Gwahaniaethu*

Mae amgylchedd gwaith diogel, lle nad yw bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn cael eu goddef, yn hanfodol i gefnogi llesiant cydweithwyr. Nid oedd unrhyw newid ers y flwyddyn adrodd flaenorol, gydag 8% o gydweithwyr yn dweud eu bod wedi profi bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu. Mae hyn yn unol â meincnod y Gwasanaeth Sifil o 8%.

***Iechyd a Llesiant***

*Iechyd Galwedigaethol*

Mae darparwr iechyd galwedigaethol y CMA, sef Medigold, yn cynnig gwasanaethau gan gynnwys sgrinio meddygol cyn cyflogi, atgyfeiriadau rheoli, asesiadau yn y gweithle a chyngor arbenigol.

Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, a ddarperir gan Health Assured o dan gontract Medigold, yn rhoi cymorth cyfrinachol drwy linell gymorth ac adnoddau ar-lein sy'n ymdrin ag iechyd meddwl, profedigaeth, teulu, materion sy'n ymwneud â gwaith, a materion cyfreithiol ac iechyd.

*Cryfhau ein Cefnogaeth*

Yn ystod 2025 i 2026, fe wnaethom gryfhau cymorth llesiant drwy adnewyddu ein dull o ymdrin ag addasiadau i'r gweithle, gwella'r cyfathrebu ag ymgeiswyr ynghylch addasiadau rhesymol, cyflwyno un polisi amser hyblyg, ac atgyfnerthu rôl cyfarfodydd un-i-un rheolaidd o ran monitro llwyth gwaith a llesiant. Fe wnaethom hefyd gyflwyno

canllaw sgyrsiau llesiant i reolwyr a chanllawiau wedi'u diweddaru ar y fewnrwyd i ddod â pholisïau, adnoddau a llwybrau cymorth allweddol at ei gilydd.

*Cymorth i gydweithwyr ag anableddau, cyflyrau neu salwch*

Yn Arolwg Pobl 2025, roedd 68% o gydweithwyr yn cytuno bod eu rheolwr yn eu cefnogi i gael yr addasiadau sydd eu hangen arnynt, i lawr un pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol ac yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil o 74%. Fodd bynnag, roedd cynnydd cadarnhaol yng nghyfran y cydweithwyr a ddywedodd fod ganddynt Basbort Addasiadau yn y Gweithle, gan godi o 0% i 15% yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn cefnogi darpariaeth fwy cyson ac effeithiol o addasiadau i'r gweithle sy'n cyd-fynd ag ailhyfforddi lle gallai hyn fod yn ofynnol.

*Absenoldeb Gweithwyr*

Y diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd yn 2025 i 2026 oherwydd absenoldeb fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn oedd 5.7 diwrnod (2024 i 2025: 5.3 diwrnod). Mae hyn 2.5 diwrnod yn is na ffigur y Gwasanaeth Sifil a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar, sef 8.2 diwrnod gwaith cyfartalog a gollwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

***Costau adnoddau***

Mae ein gwariant mwyaf ar ein pobl, gyda chyflogau'n amodol ar ganllawiau a rheolaethau Swyddfa'r Cabinet a phrif gynllun pensiwn cystadleuol sydd bellach yn cael ei weinyddu gan Capita (daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2025).

*Costau staff (wedi'u harchwilio)*

| Costau staff | Staff Parhaol | Arall | Cyfanswm | Cyfanswm y Flwyddyn Flaenorol (2024 i 2025) |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau | 72,771 | 1,891 | **74,662** | **77,102** |
| Costau nawdd cymdeithasol | 10,416 | - | **10,416** | **9,138** |
| Costau Pensiwn | 19,624 | - | **19,624** | **20,228** |
| Is-gyfanswm | ***102,811*** | ***1,891*** | ***104,702*** | ***106,468*** |
| Costau staff eraill | 367 | - | **367** | **326** |
| Adennill incwm o ran secondiadau i'r tu allan | (108) | - | (108) | (14) |
| **CYFANSWM** | **103,070** | **1,891** | **104,961** | **106,780** |

Mae cyfanswm y cyflogau ar gyfer 2025 i 2026 wedi gostwng o’i gymharu â 2024 i 2025. Mae hyn yn adlewyrchu ein sefyllfa ddisgwyliedig gyda llai o staff yn dilyn y Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

Er nad yw’r taliadau ymadael gwirfoddol yn cael eu hadlewyrchu yn y tabl uchod, dangosir y costau nawdd cymdeithasol cysylltiedig ar gyfer y taliadau hyn, sy’n golygu cynnydd rhwng 2024 a 2025 yn y categori hwn.

*Swyddi oddi ar y gyflogres*

Cost gyffredinol contractwyr a gweithwyr asiantaeth yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £2,973,447.94, sy’n adlewyrchu’r defnydd mwy penodol o adnoddau dros dro, yn enwedig cael gafael ar sgiliau arbenigol, a allai arwain at gostau uwch yn y tymor byr ond nad yw’n creu pwysau costau parhaus.

Gweithwyr oddi ar y gyflogres, yn ennill £245 y diwrnod neu fwy, ar 31 Mawrth 2026.

*Nifer y gweithwyr presennol oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2026*

| | |
|---|---|
| O’r rhain, y nifer a oedd yn bodoli ar gyfer: | 37 |
| Llai na blwyddyn | 23 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 12 |
| Rhwng 2 a 3 blynedd | 1 |
| Rhwng 3 a 4 blynedd | 1 |
| 4 blynedd neu fwy | - |

Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, a oedd yn ennill £245 y diwrnod neu fwy.

*Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026*

| | |
|---|---|
| O’r rhain: | 56 |
| Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | 45 |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu yn rhan o gwmpas IR35 | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu y tu allan i gwmpas IR35 | 11 |
| Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| O’r rhain: Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad | - |

Unrhyw drefniadau oddi ar y gyflogres ag aelodau'r bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

*Nifer yr aelodau bwrdd ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026*

| Math o drefniant cyflogi | Nifer |
| --- | --- |
| Nifer aelodau'r bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, a gyflogwyd oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol | 0 |
| CYFANSWM yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyrir eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigwr hwn gynnwys trefniadau cyflogi ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres | **3** |

Fel arfer, mae gweithwyr oddi ar y gyflogres yn cael eu cyflogi naill ai drwy gontractau masnachol i gyflawni gwasanaethau arbenigol neu fel gweithwyr asiantaeth dros dro i lenwi rolau y mae'n anodd recriwtio iddynt, i lenwi swyddi allweddol dros dro neu i gyflawni prosiectau brys sydd ag amserlen hanfodol.

*Pecynnau gadael (wedi'u harchwilio)*

Telir pecynnau gadael, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â thelerau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Rhoddir cyfrif llawn am gostau ymadael pan fydd y CMA wedi ymrwymo i hynny ac fe'u telir yn y flwyddyn ymadael.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y CMA wedi cydnabod darpariaeth o £5.39 miliwn (cyn disgowntio) i hwyluso ymadawiadau gwirfoddol i weithwyr cymwys. Sefydlwyd y ddarpariaeth ar y sail y byddai unigolion a gafodd gynnig a derbyn ymadawiad gwirfoddol yn gadael y sefydliad erbyn 31 Mawrth 2026. Roedd y ddarpariaeth yn bodloni'r meini prawf cydnabod a nodir yn IAS 37: Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol.

Erbyn 31 Mawrth 2026, roedd 73 o staff wedi gadael y sefydliad o dan y cynllun ac wedi cael taliadau ymadael gwerth cyfanswm o £4.23 miliwn; gan nodi nad yw hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer 3 ymadawiad (a ddigwyddodd ar 31 Mawrth 2026), a broseswyd ym mis Ebrill 2026.

Dyma'r pecynnau gadael yn 2025 i 2026:

| Band cost pecyn gadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
| --- | --- | --- | --- |
| <£10k | 0 | 1 | 1 |
| £10k i £25k | 0 | 10 | 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| £25k i £50k | 0 | 18 | 18 |
| £50k i £100k | 0 | 44 | 44 |
| £100k i £150k | 0 | 0 | 0 |
| £150k i £200k | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **0** | **73** | **73** |

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2025 i 2026.

***Undeb Llafur***

Daeth Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 i rym ar 1 Ebrill 2017. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod gofyniad deddfwriaethol ar gyflogwyr perthnasol yn y sector cyhoeddus i gasglu a chyhoeddi, yn flynyddol, amrywiaeth o ddata ar swm a chost amser cyfleuster yn eu sefydliad. Rydym yn ceisio gweithio ar y cyd â'n Hundebau Llafur cydnabyddedig, FDA a PCS, ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar ein staff, gan negodi'n ffurfiol ar dâl o lefel Swyddog Gweinyddol (AO) i Radd 6 ac ymgynghori ar amrywiaeth o bolisïau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r un polisi amser hyblyg a gyflwynwyd yn 2025.

*Amser Cyfleuster Undebau Llafur*

Darparu amser o'r gwaith, â thâl neu heb dâl, o ddyletswyddau arferol gweithiwr i ymgymryd â gweithgareddau undeb llafur fel cynrychiolydd undeb achrededig yw ystyr amser cyfleuster.

*Swyddogion Undeb Perthnasol*

Yn ystod 2025 i 2026, cafodd 28 aelod o staff (21.46 FTE) eu cydnabod fel swyddogion undeb perthnasol (2024 i 2025: 22.26 FTE). O'r rhain:

- treuliodd 11 o swyddogion undeb 0% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn ystod y flwyddyn (2024 i 2025: 8); a
- treuliodd 17 o swyddogion undeb hyd at 50% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster (2024 i 2025: 20).

*Amser Cyfleuster â Thâl*

Cyfran yr amser cyfleuster â thâl a dreuliwyd ar weithgareddau undebau llafur, wedi’i fynegi fel canran o gyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl, oedd 14.39% yn 2025 i 2026 (2024 i 2025: 9.93%).

Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster ar gyfer swyddogion undeb perthnasol oedd 0.074% yn ystod 2025 i 2026 (2024 i 2025: 0.071%).

# Adroddiad Archwilio ac Atebolrwydd Seneddol

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â’r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn mynnu bod y CMA yn paratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol.

Mae’r Datganiad hwn a’r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ’r Cyffredin.

Mae’r Datganiad hwn yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy’n dangos yn fanwl sut mae’r CMA wedi gwario yn erbyn ein Hamcangyfrif Cyflenwad. Y cyflenwad yw’r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o’r Gronfa Gyfunol) y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae’r Amcangyfrif yn nodi’r cyflenwad a bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno ar ddechrau’r flwyddyn ariannol.

Os bydd y CMA yn mynd y tu hwnt i’r terfynau a bennwyd yn ei Amcangyfrif Cyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn cael barn amodol.

Mae fformat y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn adlewyrchu Amcangyfrifon y Cyflenwad, er mwyn gallu cymharu’r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo â’r alldro terfynol.

Mae’r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cynnwys tabl cryno, sy’n rhoi manylion perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae’r Senedd wedi pleidleisio arnynt, yr arian a wariwyd (mae cyllidebau’n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro’n cyfateb yn union i’r arian a wariwyd) yn ogystal â gweinyddu.

Mae’r nodiadau ategol yn rhoi manylion y pethau canlynol: Alldro yn ôl llinell Amcangyfrif, gan ddarparu dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni’r alldro â’r gwariant gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, i gysylltu’r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol â’r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni’r alldro â’r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a dadansoddiad o’r incwm sy’n daladwy i’r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae’r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol a’r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy’n debyg i IFRS ond yn wahanol iddo. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwario Cyhoeddus a’r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS ar gael ym mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol sydd ar gael ar gov.uk.

Mae’r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan Senedd y DU. Mae adroddiad y Cyfarwyddwr: adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol, yn rhoi trafodaeth gryno o’r alldro yn erbyn yr amcangyfrif a’r swyddogaethau fel cyflwyniad i ddatgeliadau’r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol.

***Tablau cryno – yn adlewyrchu rhan 1 yr amcangyfrifon***

Mae'r ffigurau yn y meysydd a amlinellir mewn llinellau trwchus yn cynnwys y terfynau rheoli y pleidleisiodd Senedd y DU arnynt. Cyfeiriwch at y Llawlyfr Canllawiau: Amcangyfrifon Cyflenwad i gael manylion am y terfynau rheoli y pleidleisiodd Senedd y DU arnynt.

*Tabl crynodeb 2025-26*

| | | | | | | | | | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif, arbediad/(gwariant dros ben) | | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | | Wedi pleidleisio | Heb bleidleisio | Cyfanswm | Wedi pleidleisio | Heb bleidleisio | Cyfanswm | Wedi pleidleisio | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Math o wariant** | **Nodyn SOPS** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| Adnodd | **1.1** | 136,062 | - | **136,062** | 148,411 | - | **148,411** | 12,349 | **12,349** | **137,523** |
| Cyfalaf | **1.2** | 5,640 | - | **5,640** | 8,920 | - | **8,920** | 3,280 | **3,280** | **6,501** |
| **Cyfanswm** | | **141,702** | **-** | **141,702** | **157,331** | **-** | **157,331** | **15,629** | **15,629** | **144,024** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | |
| Adnodd | **1.1** | (8,360) | - | **(8,360)** | 22,000 | - | **22,000** | 30,360 | **30,360** | **(15,739)** |
| Cyfalaf | **1.2** | 822 | - | **822** | 2,000 | - | **2,000** | 1,178 | **1,178** | **274** |
| **Cyfanswm** | | **(7,538)** | **-** | **(7,538)** | **24,000** | **-** | **24,000** | **31,538** | **31,538** | **(15,465)** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| Adnodd | **1.1** | 127,702 | - | **127,702** | 170,411 | - | **170,411** | 42,709 | **42,709** | **121,784** |
| Cyfalaf | **1.2** | 6,462 | - | **6,462** | 10,920 | - | **10,920** | 4,458 | **4,458** | **6,775** |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyllideb** | | **134,164** | **-** | **134,164** | **181,331** | **-** | **181,331** | **47,167** | **47,167** | **128,559** |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gyllideb a Chyfanswm Anghyllidebol** | | **134,164** | **-** | **134,164** | **181,331** | **-** | **181,331** | **47,167** | **47,167** | **128,559** |

**Gofyniad arian parod net 2025-26**

| Eitem | | 2025-26 | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbedion/(gwariant dros ben) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gofynion Arian Parod Net | 3 | 135,482 | 149,599 | **14,117** | 141,148 |

**Costau gweinyddu 2025-26**

| Math o wariant | | 2025-26 | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbedion/(gwariant dros ben) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau Gweinyddu | 1.1 | 26,255 | 36,091 | **9,836** | 26,373 |

Er nad yw'n derfyn ar wahân y pleidleisir arno, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais at wariant dros ben.

## Nodiadau ar y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2025-26

### *SOPS 1 Manylion Alldro, fesul Llinell Amcangyfrif*

### *SOPS 1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau fesul Llinell Amcangyfrif*

| Math o wariant (Adnodd) | 2025-26 | | | | | | | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro adnoddau | | | | | | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif, arbediad/ (gwariant dros ben) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | Alldro | Amcangyfrif[24] | | Cyfanswm |
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm | Cyfanswm | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| Wedi pleidleisio: Hyrwyddo Cystadleuaeth A | 26,548 | (293) | 26,255 | 115,658 | (5,851) | 109,807 | 136,062 | 148,411 | 12,349 | 137,523 |
| **Cyfanswm DEL a bleidleisiwyd** | **26,548** | **(293)** | **26,255** | **115,658** | **(5,851)** | **109,807** | **136,062** | **148,411** | **12,349** | **137,523** |
| **Gwario'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | |

[24] Ni chafwyd trosglwyddiadau yn 2025-26

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi pleidleisio: Hyrwyddo Cystadleuaeth B | - | - | - | (8,360) | - | (8,360) | (8,360) | 22,000 | 30,360 | (15,739) |
| **Cyfanswm AME a bleidleisiwyd** | **-** | **-** | **-** | **(8,360)** | **-** | **(8,360)** | **(8,360)** | **22,000** | **30,360** | **(15,739)** |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **26,548** | **(293)** | **26,255** | **107,298** | **(5,851)** | **101,447** | **127,702** | **170,411** | **42,709** | **121,784** |

**SOPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf fesul Llinell Amcangyfrif**

| Math o wariant (Cyfalaf) | 2025-26 | | | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif, arbediad/ (gwariant dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gros £000 | Incwm £000 | Cyfanswm Net £000 | Cyfanswm[25] £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | |
| Wedi pleidleisio: A | 5,770 | (130) | 5,640 | 8,920 | 3,280 | 6,501 |
| **Cyfanswm y gwariant o fewn DEL** | **5,770** | **(130)** | **5,640** | **8,920** | **3,280** | **6,501** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | |
| Wedi pleidleisio: B | 822 | - | 822 | 2,000 | 1,178 | 274 |
| **Cyfanswm y gwariant o fewn AME** | **822** | **-** | **822** | **2,000** | **1,178** | **274** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **6,592** | **(130)** | **6,462** | **10,920** | **4,458** | **6,775** |

[25] Ni chafwyd trosglwyddiadau yn 2025-26.

## SOPS 2 Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Alldro 2025-26 | Alldro 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | **SOPS 1.1** | **127,702** | **121,784** |
| Ychwanegu: Ymchwil wedi'i chynnwys yn alldro'r gyllideb cyfalaf | | 65 | 524 |
| **Cyfanswm** | | **65** | **524** |
| Ychwanegu: Diystyru darpariaethau dadfeiliad wedi'u cyfalafu ar gyfer IFRS16 | | 647 | (16) |
| **Cyfanswm** | | **647** | **(16)** |
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE)** | **SoCNE** | **128,414** | **122,292** |

Mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau â gwariant gweithredu net, gan gysylltu'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol â'r datganiadau ariannol. Mae gwariant ymchwil, o fewn cwmpas y system Ewropeaidd o gyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol 2010 (ESA 10), sgoriau yn y gyllideb gyfalaf (yn yr elfen Terfyn Gwariant Adrannol) a chyfalafu darpariaethau dadfeiliadau, ar gyfer lesoedd sydd o fewn cwmpas IFRS 16, hefyd yn sgorio yn y gyllideb gyfalaf (yn yr elfen Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Fodd bynnag, mae'r ddau yn cael eu hystyried yn wariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Roedd gwariant ar ymchwil a datblygu a ddosbarthwyd fel ESA10 yn 2025 i 2026 wedi gostwng £0.46 miliwn o'i gymharu â 2024 i 2025, gan adlewyrchu ailddosbarthu £0.70 miliwn i DEL Adnoddau lle na chafodd meini prawf cydnabod eu bodloni, a pheidio â chyflawni rhai gweithgareddau ymchwil a datblygu arfaethedig.

## SOPS 3 Cysoni'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| Eitem | Nodyn | 2025-26 Cyfanswm Alldro | 2025-26 Amcangyfrif | 2025-26 Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif, arbedion/ (gwariant dros ben) | 2024-25 Alldro cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | **SOPS 1.1** | **127,702** | **170,411** | **42,709** | **121,784** |
| **Cyfanswm alldro Cyfalaf** | **SOPS 1.2** | **6,462** | **10,920** | **4,458** | **6,775** |
| **Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | | | | |
| Dibrisiant | 4 | (11,527) | (12,029) | (502) | (11,076) |
| Addasiadau a darpariaethau newydd i ddarpariaethau blaenorol | 4 | 3,194 | (26,300) | (29,494) | 15,756 |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | 4.5 | (46) | - | 46 | (605) |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** | | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | 10 | 1,572 | - | (1,572) | 3,017 |
| Cynnydd/ (gostyngiad) mewn symiau taladwy | 12 | 376 | 6,597 | 6,221 | 3,545 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn rhwymedigaethau lesoedd | 13 | 3,713 | - | (3,713) | 3,489 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | 11 | (35) | - | 35 | (36) |
| Cynnydd/(gostyngiadau) i'w hildio i'r Gronfa Gyfunol | | (532) | - | 532 | (1,591) |
| Defnyddio darpariaethau | 14 | 4,603 | - | (4,603) | 90 |
| **Cyfanswm** | | **9,697** | **6,597** | **(3,100)** | **8,514** |
| **Gofynion arian parod net** | | **135,482** | **149,599** | **14,117** | **141,148** |

Mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro cyfalaf ac adnoddau â'r gofyniad arian parod net.

Mae'r tabl isod yn cysoni'r gofyniad arian parod net o £135.48 miliwn yn SOPS 3 â'r Datganiad Llif Arian Parod (SoCF) ar dudalen 142.

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredol | | 125,486 | 131,446 |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | | 4,435 | 4,215 |
| Talu rhwymedigaethau lesoedd | | 5,599 | 5,525 |
| Derbyn rhwymedigaethau lesoedd | | (38) | (38) |
| **Gofyniad arian parod net** | **SoCF** | **135,482** | **141,148** |
| **Gofyniad arian parod net** | **SOPS 3** | **135,482** | **141,148** |

### SOPS 4 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

#### SOPS 4.1 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ystod 2025 i 2026 roedd £0.29 miliwn o incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (2024 i 2025: dim). Mae hyn yn ymwneud â Chyllid Arloesi Data Economaidd heb ei wario, a fydd yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyfunol yn 2026 i 2027.

### SOPS 4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Adroddir ar fanylion llawn yr incwm a gesglir fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar gyfer 2025 i 2026 ar y datganiadau ariannol hyn o dudalen 174.

## Datgeliadau atebolrwydd seneddol

***Colledion a thaliadau arbennig (archwiliwyd)***

Yn 2025 i 2026, cyfanswm colledion y CMA oedd £0.48 miliwn (2024 i 2025: dim). Roedd un golled adroddadwy o £0.45 miliwn (2024 i 2025: dim) yn ymwneud â dyled Deddf Cystadleuaeth 1998 yr aseswyd nad oedd modd ei hadennill. Yn dilyn cymeradwyaeth gan Drysorlys EF, cafodd y ddyled ei dileu a'i chydnabod yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA. Roedd y ddyled yn ymwneud ag Elite Sports Group Limited, a aeth i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2022 ac a gafodd ei ddiddymu yn 2023. Dywedodd y diddymwyr nad oes disgwyl i ddigon o arian fod ar gael i dalu difidend i gredydwyr ansicredig, gan gynnwys y CMA.

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig adroddadwy yn 2025 i 2026 (2024 i 2025: dim).

***Rhwymedigaethau digwyddiadol nad oes angen eu datgelu dan IAS 37 (archwiliwyd)***

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn y datganiadau ariannol yn Nodyn 17, mae'n ofynnol hefyd i'r CMA ddatgelu rhwymedigaethau y mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn rhy bell ar eu cyfer i fodloni'r diffiniad o rwymedigaeth ddigwyddiadol neu rwymedigaeth ddigwyddiadol sydd fel arall y tu allan i gwmpas IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol), fel gwarantau ariannol.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol o bell yn 2025 i 2026 (2024 i 2025: dim).

***Cysoni rhwymedigaethau digwyddiadol sydd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif o'r cyflenwad â'r cyfrifon***

Mae FReM 6.7.1 (g) yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau gynnwys cysoniad o rwymedigaethau digwyddiadol a adroddwyd yn yr Amcangyfrif Cyflenwad a'r rhai a adroddwyd yn y cyfrifon

*Rhwymedigaethau Digwyddiadol Mesuradwy (CL)*

| Disgrifiad o Rwymedigaethau Digwyddiadol Mesuradwy | Amcangyfrif Cyflenwad £000 | Swm a ddatgelwyd yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol £000 | Amrywiant (Amcangyfrif - Swm a ddatgelwyd yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol) £000 |
|---|---|---|---|
| Ar hyn o bryd mae'r CMA yn ymgymryd â gweithgarwch ymgyfreitha nad yw'n cael ei ddatgelu ar y sail y gallai fod yn niweidiol i fraint gyfreithiol a chanlyniad yr ymgyfreitha. | Hyd at 26,120 | Hyd at . 25,159 | 961 |

Priodolir yr amrywiant o £0.96 miliwn i amcangyfrifon cost anffafriol wedi'u diweddaru mewn achosion parhaus a dyfodiad achosion newydd sydd wedi cyflwyno rhwymedigaethau ariannol posibl a allai godi yn dibynnu ar ganlyniadau'r achos cyfreithiol. Ceir mwy o wybodaeth yn Nodyn 17.

*Rheoleidd-dra gwariant (archwiliwyd)*

Defnyddiwyd gwariant y CMA at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU.

*Taliadau diswyddo arbennig (archwiliwyd)*

Yn 2025 i 2026 nid oedd unrhyw daliadau diswyddo arbennig (2024 i 2025: dim).

*Rhoddion (archwiliwyd)*

Yn 2025 i 2026, nid oedd unrhyw roddion adroddadwy (2024 i 2025: dim).

*Ffioedd a thaliadau (archwiliwyd)*

Yn 2025 i 2026 nid oedd unrhyw ffioedd a thaliadau adroddadwy (2024 i 2025: dim).

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y CMA

Sarah Cardell

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2026

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol yr Adran ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- a'r nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2026 ac o'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan hynny.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, ac mae'n dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd y DU, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10, *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024).* Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach ar fy nhystysgrif o dan yr adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol*.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024* y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y CMA yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y CMA o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r CMA i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer y CMA yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

# Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm datganiad a'm tystysgrif i fel archwiliwr arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o ran yr wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn

# Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

# Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y CMA a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y CMA, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol a'r Adroddiad Taliadau a Staff sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi'u gwneud, neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

# Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y pethau canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at y rhai hynny o fewn y CMA y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- paratoi adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys Adroddiad Taliadau a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaethpwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu'r CMA i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y CMA yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol, [**OR**] naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

# Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd,

byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau perthnasol ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu y CMA
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y CMA a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r CMA ar:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau,
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll, a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau'r CMA sy'n ymwneud â'u cydymffurfiaeth â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y CMA a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a oeddent:
    - yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau,
    - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig,
- wedi trafod gyda'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr eiddo mewnol ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y CMA ar gyfer twyll, a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cofnodion dyddlyfr anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y CMA a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r CMA yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r CMA. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Dyraniadau (Prif Amcangyfrifon) 2025, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth treth, Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024.

### Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a'r Bwrdd, ac adroddiadau archwilio mewnol;
- rwyf yn rhoi sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, trwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; ac

fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr eiddo mewnol ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd arnynt, ac nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd arnynt yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Anghyllidebol (Adnoddau) a Gofynion Arian Net.

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth archwilio briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **6 Gorffennaf 2026**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP

## Cyfrifon

Designed front page

# Datganiadau Ariannol

***Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026***

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu | 5 | (6,144) | (2,753) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(6,144)** | **(2,753)** |
| Costau staff | 3 | 104,961 | 106,780 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 4 | 29,597 | 18,265 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **134,558** | **125,045** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **128,414** | **122,292** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r gwariant gweithredu net: | | | |
| Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 6 | (1,184) | - |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 14 | (8) | 26 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **127,222** | **122,318** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 144 i 173 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

*Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026*

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 6 | 25,310 | 26,736 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 7 | 35,661 | 39,446 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 5,045 | 4,169 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 2 | - |
| Symiau derbyniadwy lesoedd | 11 | 186 | 221 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **66,204** | **70,572** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 10,109 | 8,539 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd | 11 | 35 | 35 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 9 | 716 | 1,248 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **10,860** | **9,822** |
| **Cyfanswm asedau** | | **77,064** | **80,394** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 12 | (13,839) | (14,215) |
| Rhwymedigaethau les | 13 | (5,282) | (5,016) |
| Darpariaethau | 14 | (2,561) | (5,776) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(21,682)** | **(25,007)** |
| **Cyfanswm asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **55,382** | **55,387** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau les | 13 | (30,315) | (34,294) |
| Darpariaethau | 14 | (4,259) | (8,697) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(34,574)** | **(42,991)** |
| **Cyfanswm asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **20,808** | **12,396** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill:** | | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | | 19,624 | 12,396 |
| Cronfa Ailbrisio | | 1,184 | - |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **20,808** | **12,396** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 144 i 173 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Sarah Cardell

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2026

***Datganiad Llif Arian (SoCF) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026***

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SoCNE | (128,414) | (122,292) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 4.5 | 8,480 | (4,545) |
| Addasiadau ar gyfer llog nad yw'n arian parod ar rwymedigaethau lesoedd | 4 | 467 | 452 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 10 | (1,572) | (3,017) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 12 | (376) | (3,545) |
| Symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 532 | 1,591 |
| Defnyddio darpariaethau | 14 | (4,603) | (90) |
| ***Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol*** | | **(125,486)** | **(131,446)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 6 | (2,704) | (2,092) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | (1,841) | (2,139) |
| Enillion o waredu asedau nad ydynt yn ariannol | | 110 | 16 |
| ***Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi*** | | **(4,435)** | **(4,215)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | | 134,950 | 139,557 |
| Talu rhwymedigaethau lesoedd | 13 | (5,599) | (5,525) |
| Derbyniadau o symiau derbyniadwy lesoedd | 11 | 38 | 38 |
| ***Cyllido net*** | | **129,389** | **134,070** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn, cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(532)** | **(1,591)** |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | - | - |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(532)** | **(1,591)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | **9** | **1,248** | **2,839** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar derfyn y flwyddyn** | **9** | **716** | **1,248** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 144 i 173 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn

***Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026***

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | Ecwiti Trethdalwyr |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | (6,572) | - | (6,572) |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| Cyflenwad wedi'i dynnu i lawr | | 139,557 | - | 139,557 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (122,292) | - | (122,292) |
| Cyflenwad tybiedig | | 2,839 | - | 2,839 |
| Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (1,248) | - | (1,248) |
| Taliadau'r Archwilwyr | 4 | 138 | - | 138 |
| (Colled)/enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 14 | (26) | - | (26) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **12,396** | - | **12,396** |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| Cyflenwad wedi'i dynnu i lawr | | 134,950 | - | 134,950 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | (128,414) | - | (128,414) |
| Cyflenwad tybiedig | | 1,248 | - | 1,248 |
| Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (716) | - | (716) |
| Taliadau'r Archwilwyr | 4 | 152 | - | 152 |
| (Colled)/enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 14 | 8 | - | 8 |
| **Enillion ailbrisio** | | **-** | **1,184** | **1,184** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | | **19,624** | **1,184** | **20,808** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 144 i 173 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Enillion ailbrisio

Fe wnaeth y CMA gydnabod cronfa ailbrisio wrth gefn o £1.18 miliwn am y tro cyntaf yn y cyfrifon hyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r broses o weithredu gofynion diwygiedig y

Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FreM), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025, sy'n golygu bod yn rhaid ailbrisio asedau diriaethol o fewn y cwmpas. Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg a defnyddio'r ymarfer ailbrisio hwn ar gael yn Nodyn 1.7 ac yn Nodyn 6.

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Datganiad o gyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2025-26, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, a Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y Llawlyfr hwn yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd y Llawlyfr hwn yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, mae'r CMA yn dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol er mwyn rhoi darlun cywir a theg.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn mynnu bod y CMA yn paratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol sy'n dadansoddi'r alldro adnoddau net a'r alldro cyfalaf yn erbyn cyfansymiau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan Senedd y DU drwy'r Amcangyfrif. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn adran Atebolrwydd Seneddol y ddogfen hon.

Yn yr un modd ag adrannau eraill y llywodraeth, bydd rhwymedigaethau a darpariaeth gwasanaeth y CMA yn y dyfodol yn cael eu hariannu drwy grantiau Cyflenwi yn y dyfodol gan y Gronfa Gyfunol a defnyddio incwm yn y dyfodol, a gymeradwyir yn flynyddol gan Senedd y DU. Mae Senedd y DU wedi awdurdodi gwariant ar gyfer 2026 i 2027 ym Mhrif Amcangyfrif Cyflenwad y llywodraeth ganolog ac nid oes rheswm dros gredu na fydd cymeradwyaethau'n cael eu gwneud yn y dyfodol. Ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio eiddo, offer a chyfarpar, sy'n cael eu cario ar werth cyfredol mewn defnydd presennol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF, ac offerynnau ariannol, sy'n cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi cael eu rhoi ar waith yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

### *1.2 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol*

Mae'r CMA yn cydnabod darpariaethau yn unol ag IAS 37 *Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol*. Mae cydnabod a phrisio darpariaethau yn dibynnu ar gymhwyso barn broffesiynol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Cyfrifir darpariaethau gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael, ond gall canlyniadau gwirioneddol yr eitemau y darperir ar eu cyfer fod yn wahanol i'r disgwyliadau.

Lle mae gwerth amser yr arian yn sylweddol, mae'r ddarpariaeth yn cael ei disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt safonol Trysorlys EF (cyfradd nominal o 5.60% ar hyn o bryd ar gyfer rhwymedigaethau buddion ôl-gyflogaeth a chyfradd nominal o 3.64% ar gyfer darpariaethau cyffredinol tymor byr). Bob blwyddyn, mae'r costau cyllido yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn

cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau cyfredol.

Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ond maent yn cael eu datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Mae'r CMA hefyd yn datgelu (os yw'n berthnasol) yn ei adroddiad atebolrwydd, at ddibenion adrodd ac atebolrwydd Seneddol, rai rhwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol y tu allan i gwmpas IAS 37 sydd wedi cael eu hadrodd i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

### *1.3 Safonau wedi'u cyhoeddi ond heb fod yn weithredol eto*

Cyhoeddwyd IFRS 18 *Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol* ym mis Ebrill 2024 ac mae'n disodli IAS 1 *Cyflwyno Datganiadau Ariannol.* Mae IFRS 18 yn cyflwyno newidiadau i sut mae sefydliadau'n cyflwyno perfformiad yn y datganiad elw neu golled, gan gynnwys isgyfansymiau gofynnol newydd, datgelu mesurau perfformiad a ddiffinnir gan reolwyr, ac egwyddorion wedi'u diweddaru ar gyfer grwpio a gwahanu eitemau. Nid yw IFRS 18 yn weithredol yn y sector cyhoeddus eto ac nid oes dyddiad gweithredu wedi'i bennu.

Mae IFRS 19 *Is-gwmnïau heb Atebolrwydd Cyhoeddus: Datgeliadau* yn caniatáu i is-gwmnïau cymwys gymhwyso Safonau Cyfrifyddu IFRS gyda gofynion datgelu is ac mae'n weithredol ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu ar ôl hynny yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 19 ar y sector cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar ddyddiad gweithredu.

Nid oes safonau IFRS na dehongliadau IFRIC eraill nad ydynt yn weithredol eto y disgwylir iddynt gael effaith sylweddol ar y CMA.

### *1.4 Incwm*

Mae IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid* yn berthnasol i incwm a dderbynnir gan y CMA. Mae'r incwm a gydnabyddir yn cynnwys y pethau canlynol yn bennaf:

- Apeliadau Rheoleiddio; a hefyd
- Ad-dalu costau apelio (sy'n ymwneud â chostau cyfreithiol a adenillwyd).

*Apeliadau rheoleiddio*

Egwyddor graidd IFRS 15 yw y bydd endid yn cydnabod refeniw i ddangos trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau a addawyd i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl y bydd ganddo hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny.

Cyflwynir yr egwyddor graidd hon mewn fframwaith model 5 cam: [IFRS 15:IN7]

Mae'r model 5 cam wedi cael ei egluro i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol fathau o gyfeiriadau a wnaed at y CMA a'r rheoleiddwyr dan sylw.

- Cam 1 - **Nodi'r contract gyda chwsmer** - Mae'r amod hwn yn cael ei fodloni pan fydd trydydd parti yn herio penderfyniad rheoleiddio gan reoleiddiwr sector a bod y mater yn cael ei gyfeirio at y CMA, neu os bydd trydydd parti yn apelio'n uniongyrchol i'r CMA (yn dibynnu ar y sector a statud perthnasol). Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract o dan addasiad Llawlyfr Adroddiadau Ariannol o IFRS 15.

- Cam 2 - **Nodi'r rhwymedigaethau perfformiad yn y contract** - sef bod y CMA yn gweithredu fel tribiwnlys arbenigol ac yn penderfynu ar yr achos sylfaenol. Bydd modd adennill costau naill ai: fesul blwyddyn ariannol (ar gyfer ailbenderfyniadau Ofwat); neu ar adeg benodol (ar gyfer pob apêl/cyfeiriad arall) yn unol â rhwymedigaethau cytundebol yr ymrwymwyd iddynt gan bartïon yng ngham 1.

- Cam 3 - **Pennu pris y trafodiad** - sef y gost a ysgwyddir gan y CMA wrth weithredu fel tribiwnlys arbenigol, fel y'i mesurir naill ai: fesul blwyddyn ariannol (yn ôl pris perfformiad y CMA fesul blwyddyn ariannol, a bennir ac y cytunir arno gan Ofwat); neu ar adeg benodol (ar gyfer pob apêl/cyfeiriad arall) yn ôl pris cronnus perfformiad y CMA, y pennir arno ac yr ymgynghorir arno gan bob parti, fel y'i meintiolir yn y gorchymyn costau terfynol.

- Cam 4 - **Dyrannu pris y trafodiad i'r rhwymedigaethau perfformiad** yn y contract ar ôl i gamau 2 a 3 gael eu rhoi ar waith.

- Cam 5 - **Refeniw yn cael ei gydnabod** - pan fydd y CMA o'r farn ei bod yn debygol y bydd yn casglu'r costau y mae ganddo hawl iddynt naill ai: fesul blwyddyn ariannol (ar gyfer anfonebau interim am ailbenderfyniadau dŵr) yn unol â chynnydd y CMA tuag at fodloni ei rwymedigaethau perfformiad yn llwyr; neu ar adeg benodol - pan fydd yr amserlen ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad y CMA wedi mynd heibio neu pan fydd y broses apelio wedi dod i ben.

*Ad-dalu costau apeliadau*

Bydd incwm o gostau apelio a ad-delir yn cael ei adennill gan bartïon sydd yn apelio'n aflwyddiannus yn erbyn penderfyniad cyfreithiol a wnaed gan y CMA. Mae'r CMA yn gyfrifol am incwm sy'n ymwneud ag adennill elfen fewnol y costau hyn ac unrhyw gostau allanol (alldaliadau) na chawsant eu gwrthbwyso'n flaenorol gan incwm dirwyon Deddf Cystadleuaeth 1998 ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA.

Y pwynt cydnabod incwm ar gyfer ad-dalu costau cyfreithiol yw pan fydd dyfarniad Llys neu Dribiwnlys yn cael ei roi yn datgan bod yr apêl wedi cael ei gwrthod, bod penderfyniad y CMA yn cael ei gadarnhau, a bod y Llys neu'r Tribiwnlys yn cytuno neu'n gorchymyn y dylai'r apelydd dalu holl gostau'r CMA neu gyfran o'u costau yn yr achos apêl.

### 1.5 ***Pensiynau***

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil fel y nodir yn yr Adroddiad Taliadau.

Mae'r CMA yn cydnabod y costau pensiwn disgwyliedig ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaeth gweithwyr drwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei phriodoli i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae'r CMA yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

Mae gan y CMA gynllun ar wahân ar gyfer cyn-Gadeiryddion a Chyfarwyddwyr Cyffredinol y Swyddfa Masnachu Teg, sy'n cyfateb i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae darpariaeth pensiwn gwaddol wedi'i chofnodi ar gyfer costau buddion yn y dyfodol o dan y cynllun hwn.

### *1.6 Lesoedd*

*Y CMA fel lesddeiliad*

Mae lesoedd materol y CMA yn ymwneud â rhentu eiddo ar gyfer swyddfeydd. Yn unol ag IFRS 16 *Lesoedd*, mae'r CMA yn defnyddio un model cyfrifyddu ar gyfer lesddeiliaid, gan gydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les gyfatebol ar gyfer lesoedd gofod swyddfa dan reolaeth, oni bai fod cyfnod y les yn 12 mis neu lai neu fod yr ased sylfaenol yn cyfrif fel un isel ei werth.

Mae trefniadau o ran lesoedd yn cael eu hasesu ar y dechrau i benderfynu a ydynt yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased dynodedig yn unol ag IFRS 16. Nid yw trefniadau sy'n ymwneud â mannau a rennir neu fannau nad ydynt yn cael eu rheoli fel arfer yn cyfleu rheolaeth o'r fath ac felly maent yn cael eu trin fel gwariant gweithredu, gyda thaliadau'n cael eu cydnabod ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Pan fydd trefniadau'n cynnwys gofod sy'n cael ei reoli a gofod sy'n cael ei rannu, mae'r CMA yn asesu, gan gyfeirio at IFRS 16 (gan gynnwys paragraffau B32–B33), a yw'r rhain yn cynrychioli un gydran o'r les neu gydrannau ar wahân, gan ystyried a yw'r asedau sylfaenol yn wahanol neu'n ffurfio hawl defnyddio integredig. Pan nodir un elfen o les, caiff ei chydnabod fel rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd; fel arall, mae elfennau nad ydynt yn ymwneud â les yn cael eu gosod fel treuliau ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Wrth bennu cyfnod y les ar gyfer lesoedd cydnabyddedig, mae'r CMA yn asesu'r tebygolrwydd o arfer cymalau terfynu ac opsiynau ymestyn lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r dyfarniad hwn yn effeithio ar fesur rhwymedigaeth y les a phrisiad yr ased hawl i ddefnyddio sy'n gysylltiedig.

Mae'r CMA yn diffinio asedau isel eu gwerth fel rhai sydd â gwerth unigol o £5,000 neu lai, sy'n cyd-fynd â'i drothwy cyfalafu. Mae taliadau les ar gyfer lesoedd tymor byr (12 mis neu lai) a lesoedd asedau gwerth isel yn cael eu gosod ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol, mae rhwymedigaethau lesoedd ac asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur ar sail gwerth presennol taliadau les yn y dyfodol dros gyfnod y les a aseswyd. Mae'r CMA yn defnyddio cyfradd ddisgownt benodol Trysorlys EF fel procsi ar gyfer ei gyfradd fenthyca gynyddrannol (5.32% i lesoedd a gydnabuwyd yn 2025 i 2026).

Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, mae'r CMA o'r farn bod sail mesur IFRS 16 ar gyfer asedau hawl i ddefnyddio yn brocsi rhesymol ar gyfer gwerth cyfredol at ddibenion mesur dilynol. Ceir rhagor o wybodaeth am ymarfer ailbrisio asedau Trysorlys EF yn Nodyn 1.7.

Ar ôl y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig y les. Mae rhwymedigaethau'r les yn cynyddu pan fydd llog yn cael ei gydnabod ac yn gostwng pan fydd taliadau les arian parod yn cael eu gwneud.

Mae'r CMA yn ailasesu telerau'r les pan fydd digwyddiad neu newid sylweddol mewn amgylchiadau. Pan fydd ailasesiad o'r fath yn arwain at newid tymor disgwyliedig y

les, mae rhwymedigaeth y les yn cael ei hailfesur i adlewyrchu taliadau les gostyngol diwygiedig, gydag addasiad cyfatebol i'r ased hawl i ddefnyddio. Pan fydd cyfnod les yn cael ei leihau, bydd dibrisiant yr ased hawl i ddefnyddio yn cael ei addasu'n rhagolygol i adlewyrchu cyfnod diwygiedig y les.

Nid oes gan y CMA lesoedd hedyn pupur.

*Y CMA fel lesydd*

Y CMA yw'r lesydd mewn trefniant sy'n isosod rhan o'i swyddfa yn y Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser (GCA). Mae'r trefniant hwn yn cael ei ddosbarthu fel is-les cyllid o dan IFRS 16, gan fod yr is-les yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â'r ased hawl i ddefnyddio i raddau helaeth i'r GCA. Yn unol â hynny, mae'r trefniant o fewn cwmpas IFRS 16.

Y CMA yw'r lesydd mewn trefniant sy'n isosod rhan o'i swyddfa yn One New Bailey i'r Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol (IFR). Mae'r trefniant hwn yn cael ei ddosbarthu fel les weithredol hyd at 31 Mawrth 2026 ac mae y tu allan i gwmpas IFRS 16, sy'n rhoi cyfrif am lesoedd cyllid, gan fod y CMA yn cadw'r risgiau a'r gwobrau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r ased hawl i ddefnyddio sylfaenol.

### *1.7 Eiddo, offer a chyfarpar*

O 1 Ebrill 2025 ymlaen, mae'r CMA wedi defnyddio dull diwygiedig Trysorlys EF o brisio asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau sy'n cael eu dal ar gyfer eu capasiti gweithredol. O dan y dull hwn, mae eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu prisio gan ddefnyddio methodolegau sy'n adlewyrchu potensial gwasanaeth yr ased yn hytrach na'i werth marchnadol, gan sicrhau cysondeb â phwyslais Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ar ddefnyddio asedau'n weithredol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r CMA yn mabwysiadu rhaglen dreigl o fynegeio, wedi'i hategu gan brisiad proffesiynol llawn bob pum mlynedd o leiaf, i sicrhau nad yw gwerthoedd cario deunyddiau PPE yn wahanol iawn i'r gwerth presennol ar y dyddiad adrodd. Defnyddir mynegeio yn y blynyddoedd rhyngddynt gan ddefnyddio mynegeion priodol sy'n benodol i asedau, gyda rhagdybiaethau'n cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn parhau i fod yn briodol. Ystyrir bod y dull hwn yn ddigon i adlewyrchu newidiadau mewn gwerth ar yr un pryd â chynnal cymesuredd a gwerth am arian.

Nid yw caledwedd TG yn rhan o raglen ailbrisio'r CMA. Mae'r asedau hyn yn fyrhoedlog ac yn isel eu gwerth. Maent yn darfod yn gyflym ac mae eu potensial o ran gwasanaeth gweddilliol yn gyfyngedig. Felly, cedwir caledwedd TG ar gost hanesyddol ddibrisiedig, sydd ym marn y CMA yn brocsi rhesymol ar gyfer y gwerth presennol.

Mae bywydau asedau o fewn yr ystod canlynol:

| | |
|---|---|
| Costau gwella lesddaliad (gan gynnwys asedau dadfeiliad) | Dros weddill cyfnod y les |

| | |
|---|---|
| Technoleg gwybodaeth | 2 i 6 mlynedd |
| Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau | 5 i 10 mlynedd |

Mae'r CMA yn cyfalafu gwariant o £5,000 (gan gynnwys TAW) neu fwy ar gyfer asedau unigol a grŵp lle mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig dros 12 mis, ac mae'r CMA yn rheoli'r ased. Pan fydd pryniant sylweddol o asedau unigol, sydd ar wahân o dan y trothwy cyfalafu, yn codi mewn cysylltiad ag un prosiect, cânt eu trin fel ased wedi'i grwpio.

Mae gwerthoedd yr asedau hyn yn cael eu hadolygu ar gyfer amhariadau ar gyfer digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau sy'n dangos efallai na fydd modd adfer y gwerth cario ymlaen ac maent yn cael eu hysgrifennu ar unwaith i'w swm adferadwy.

Mae ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif o oes ddefnyddiol asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddaru os yw'r disgwyliadau'n wahanol i amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul ffisegol, darfodiad technegol neu fasnachol, neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar eu defnyddio.

### *1.8 Asedau anniriaethol*

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys datblygu llwyfannau Technoleg Gwybodaeth (TG) i'w defnyddio ar draws y CMA, trwyddedau meddalwedd a meddalwedd eraill, sy'n cael eu cyfalafu ar gost ac sy'n cael eu dal ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio.

Nid yw gofynion diwygiedig y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol am brisio eiddo, offer a chyfarpar yn ymestyn i asedau anniriaethol, y mae cyfrif amdanynt o hyd yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol, fel y'u haddaswyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

Mae bywydau asedau o fewn yr ystod canlynol:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd | 2 i 5 mlynedd |
| Trwyddedau meddalwedd | 2 i 5 mlynedd (cyfnod y drwydded) |

Mae meini prawf cyfalafu'r CMA ac adolygiadau amhariad ar gyfer asedau anniriaethol yn cyfateb i'r polisi ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi meddalwedd yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 Asedau Anniriaethol (fel y'u haddaswyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol). Mae gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf yn cael ei osod fel gwariant a ysgwyddir.

### *1.9 Dadfeiliadau*

Mae’r CMA yn cydnabod ased dadfeiliadau mewn perthynas ag eiddo lesddaliad o fewn cwmpas IFRS 16 lle mae ganddo rwymedigaeth i adfer safleoedd i’w cyflwr gwreiddiol ar ddiwedd cyfnod y les. Mae’r asedau hyn yn cael eu cofnodi yn nodyn datgelu 6 y PPE, ar gyfer y Cabot, a Nodyn 7 datgelu asedau hawl i ddefnyddio, ar gyfer pob eiddo arall o fewn y cwmpas.

Mae’r CMA yn cael prisiad proffesiynol llawn o’i asedau dadfeiliad o leiaf unwaith bob pum mlynedd, a gynhelir gan brisiwr allanol sydd â chymwysterau priodol. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, mae’r ased yn cael ei ddiweddaru gan ddefnyddio mynegeion priodol i adlewyrchu newidiadau mewn costau adfer ac adeiladu. Mae tybiaethau allweddol, gan gynnwys amcangyfrifon o gostau ac amseru’r gwaith, yn cael eu hadolygu’n flynyddol i sicrhau nad yw’r gwerth cario ymlaen yn wahanol iawn i’r gwerth presennol ar y dyddiad adrodd.

Mae’r dull hwn yn sicrhau bod yr asedau dadfeiliad yn cael eu mesur ar sail sy’n gyson â defnydd ehangach y CMA o fframwaith ailbrisio’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ar gyfer asedau gweithredol.

### *1.10 Asedau sy’n cael eu Hadeiladu*

Mae asedau sy’n cael eu hadeiladu yn cynrychioli’r costau a wynebwyd wrth ddatblygu asedau diriaethol ac anniriaethol. Ar ôl cwblhau’r rhain a phan fydd yr asedau ar gael i’w defnyddio, bydd gwerth perthnasol yr asedau hyn yn cael ei ailddosbarthu i’r dosbarth asedau priodol a’i ddibrisio (neu ei amorteiddio) yn unol â’r polisi cyfrifyddu perthnasol. Mae gwariant nad yw’n bodloni’r meini prawf ar gyfer cyfalafu yn cael ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y mae’n codi.

### *1.11 Dibrisiant ac amorteiddio*

Mae’r CMA yn dibrisio asedau hawl i ddefnyddio ac asedau dadfeiliad o dan IFRS 16 ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol yr ased.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol eu dibrisio a’u hamorteiddio (yn y drefn honno) ar gyfraddau a gyfrifir i nodi eu gwerth, llai unrhyw amcangyfrif o’r gwerth gweddilliol, ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Pan bennir newid i oes ased, caiff yr ased ei ddibrisio neu ei amorteiddio dros weddill ei oes asesedig ar sail llinell syth gan ddefnyddio dibrisiad cyflym.

Caiff dibrisiant ac amorteiddiad eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr o’r mis yn dilyn y mis pan fo’r ased ar gael i’w ddefnyddio.

### *1.12 Offerynnau ariannol*

Nid oes gan y CMA unrhyw offerynnau ariannol cymhleth o fewn cwmpas IFRS 9 Offerynnau Ariannol ac mae’r rheini sy’n cael eu dal yn cynnwys symiau masnach derbyniadwy a symiau taladwy. Mae symiau derbyniadwy yn cael eu mesur ar sail cost wedi’i hamorteiddio.

Nid yw model Colled Credyd Disgwyliedig (ECL) IFRS 9 ar gyfer asesu amhariad ar asedau ariannol yn effeithio'n sylweddol ar y cyfrifon hyn. Mae gan y CMA symiau masnach derbyniadwy sy'n cael eu dal yn bennaf ar gyfer casglu arian parod wrth gynnal busnes arferol ac felly mae'n defnyddio'r dull 'symleiddio' a ganiateir gan IFRS 9 sy'n dileu'r angen i gyfrifo colledion credyd disgwyliedig 12 mis. Os bydd y risg credyd sy'n gysylltiedig â symiau masnach derbyniadwy yn cynyddu'n sylweddol ac nad yw'n cael ei hystyried yn isel, cydnabyddir colledion credyd disgwyliedig oes lawn.

#### ***1.13*** **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynrychioli'r balans sy'n cael ei ddal gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Nid yw'r CMA yn dal symiau cyfwerth ag arian parod fel y'u diffinnir ym mharagraff 6 o *Ddatganiad Llifoedd Arian* IAS 7.

#### ***1.14*** **Treth ar Werth**

Mae llawer o weithgareddau'r CMA y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allbwn yn berthnasol ac nid oes modd adennill treth fewnbwn ar bryniannau. Priodolir TAW anadferadwy i'r categori gwariant adnoddau perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau anghyfredol. Pan godir treth allbwn, neu pan fydd modd adennill treth fewnbwn, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

## 2. Datganiad costau gweithredu yn ôl segmentau gweithredu

### *2.1 Dadansoddiad yn ôl segment gweithredu*

Roedd y CMA yn cydnabod deg segment adroddadwy yn ein cyfrifon rheoli gyda'r dadansoddiad canlynol o gyfanswm y gwariant gros:

| | Cyfanswm gwariant gros 2025-26 | Cyfanswm gwariant gros 2024-25 |
|---|---:|---:|
| | £000 | £000 |
| Gwasanaethau Corfforaethol** | 22,513 | 24,480 |
| Yr Uned Marchnadoedd Digidol | 6,390 | 6,614 |
| Swyddfa'r Farchnad Fewnol - Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | 3,853 | 4,661 |
| Gorfodi Cystadleuaeth | 12,104 | 12,520 |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 21,747 | 31,436 |
| Diogelu Defnyddwyr a Marchnadoedd | 14,086 | 11,614 |
| Uno cwmnïau | 7,241 | 7,242 |
| Data, Technoleg a Dealltwriaeth | 19,898 | 18,257 |
| Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd | 15,696 | 16,066 |

| | | |
|---|---|---|
| Strategaeth, Cyfathrebu a Chynghori | 8,922 | 7,903 |
| **Cyfanswm gwariant gros** | **132,450** | **140,793** |

Mae gwariant yn ôl segment gweithredu yn adlewyrchu strwythur adrodd rheoli mewnol y CMA. Dylanwadir ar symudiadau o un flwyddyn i'r llall gan amseriad a chymhlethdod gwaith achos, newidiadau mewn lefelau staffio, a phrosiectau untro.

Gostyngodd y gwariant o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol o'i gymharu â 2024 i 2025, gan adlewyrchu'r taliadau a wnaed yn dilyn canlyniad gwrandawiadau ymgyfreitha. Mae costau ymgyfreitha'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar amseriad, graddfa, cymhlethdod a chanlyniad achosion. Yn 2024 i 2025 gwelwyd gwerth uwch o wariant achos nag yn 2025 i 2026. Mae gan y CMA gymeradwyaeth i wrthbwyso costau ymgyfreitha cymwys gan ddefnyddio incwm cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 a gesglir yn y Datganiad Ymddiriedolaeth.

Gostyngodd y gwariant o fewn Gwasanaethau Corfforaethol yn bennaf oherwydd costau staff is yn dilyn y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a llai o ddefnydd o lafur wrth gefn, ochr yn ochr â chostau gwasanaeth proffesiynol nad ydynt yn rheolaidd sy'n gysylltiedig ag ystadau a gafwyd yn 2024 i 2025 sy'n gysylltiedig â dechrau gweithredu swyddfeydd newydd.

Cynyddodd y gwariant o fewn Diogelu Defnyddwyr a Marchnadoedd, gan adlewyrchu costau staffio uwch a chostau adnoddau arbenigol i gefnogi gweithgarwch apeliadau rheoleiddio, lle gallai fod modd adennill costau yn unol â pholisi cyfrifyddu.

Cynyddodd y gwariant o fewn Data, Technoleg a Dealltwriaeth, yn bennaf oherwydd costau staffio uwch wrth i'r gyfarwyddiaeth ehangu yn ystod y flwyddyn, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn rhaglen trawsnewid digidol y CMA.

Cynyddodd y gwariant o fewn Strategaeth, Cyfathrebu a Chynghori, gan adlewyrchu'n bennaf weithgarwch untro yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r CMA yn cynnal cynhadledd yr ICN a chostau uwch ar gyfer yr ymgyrch Prisio Clir.

Roedd y rheolaethau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn wedi helpu'r CMA i reoli ein gwariant teithio a chynhaliaeth, gan sicrhau arbedion a gostyngiadau o'u cymharu â 2024 i 2025 ar draws holl swyddogaethau'r adran.

**Mae cyfanswm gwariant gros y Gwasanaethau Corfforaethol o £22.51 miliwn yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| | Cyfanswm gwariant gros 2025-26 | Cyfanswm gwariant gros 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Eiddo | 7,788 | 7,635 |

| | | |
|---|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth | 38 | 55 |
| Costau staff a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff | 14,687 | 16,790 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **22,513** | **24,480** |

Gostyngodd y gwariant Gwasanaethau Corfforaethol o un flwyddyn i'r llall, gan adlewyrchu costau staff is yn dilyn y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn bennaf. Roedd niferoedd cyfwerth ag amser llawn y gyflogres wedi gostwng o 115 i 94 erbyn 31 Mawrth 2026 (tua 18%), gyda gostyngiadau cyfatebol mewn costau recriwtio a chostau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â staff.

Mae'r gostyngiadau hyn yn gwrthbwyso pwysau chwyddiant ar gyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau ac yn mynd ymhellach na hynny. Ar ben hynny, roedd 2024 i 2025 yn cynnwys costau gwasanaeth proffesiynol untro sy'n gysylltiedig ag ystadau er mwyn sefydlu swyddfeydd newydd ym Manceinion, Belfast a Darlington, na welwyd yn 2025 i 2026.

Mae gwariant y Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn cynnwys costau gweithredu nad ydynt yn gysylltiedig ag achosion Bwrdd y CMA a'r Panel Cystadleuaeth. Mae'r costau hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar aelodaeth a lefelau gweithgarwch.

### *2.2 Cysoni rhwng segmentau gweithredol a Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr*

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Cyfanswm y gwariant gros a adroddwyd ar gyfer segmentau gweithredol** | **132,450** | **140,793** |
| Cysoni eitemau: | | |
| Incwm | (6,144) | (2,753) |
| Gwrthbwyso cyfreitha | (2,324) | (11,779) |
| Dibrisiant ac eitemau nad ydynt yn arian parod | 4,432 | (3,969) |
| **Cyfanswm gwariant net yn ôl y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **128,414** | **122,292** |

Mae'r adroddiadau ar ddefnyddio darpariaeth y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn amrywio rhwng y cyfrifon rheoli a'r cyfrifon adnoddau. Mae'r driniaeth yn y gyllideb ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth yn dod o dan y taliad arian parod DEL Adnoddau a wnaed yn ystod y flwyddyn, ond yn y cyfrifon adnoddau mae'r defnydd yn cael ei gyfateb yn erbyn y taliadau arian parod. Mae hyn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm nad yw'n arian parod yn y tabl hwn a'r Nodyn Gwariant (Nodyn 4).

## 3. Costau staff

Cyfanswm y costau staff ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £104.96 miliwn (2024-25: £106.78 miliwn), yn cynnwys: £74.66 miliwn o gyflogau; £10.42 miliwn o nawdd cymdeithasol; £19.62 miliwn o gostau pensiwn staff; a £0.37 miliwn ar gyfer costau staff eraill. Mae hyn wedi cael ei wrthbwyso gan adenilliadau o weithwyr ar secondiad allanol, £0.11 miliwn. Gweler y nodyn costau staff yn yr Adroddiad Staff.

## 4. Gwariant

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhent (lesoedd gweithredol) | 133 | 314 |
| Cyfraddau | 1,954 | 1,839 |
| Cyfleustodau | 744 | 1,172 |
| Cynnal a Chadw | (1) | 110 |
| Costau eiddo eraill | 266 | 271 |
| Tâl gwasanaeth | 2,735 | 1,847 |
| **Costau eiddo net** | **5,831** | **5,553** |
| **Gwariant ymchwil** | **65** | **617** |
| Costau ymgyfreitha | - | - |
| Gwasanaethau proffesiynol | 3,428 | 4,352 |
| Hyfforddiant | 1,635 | 1,582 |
| Cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd | 186 | 39 |
| Teithio a chynhaliaeth | 665 | 767 |
| Recriwtio | 332 | 777 |
| Telegyfathrebu | 151 | 169 |
| TG (gan gynnwys cynnal a chadw) | 5,819 | 5,590 |
| Argraffu, copïo a phostio | 75 | 125 |
| Rheoli cyfleusterau | 2,053 | 2,109 |
| Gwariant arall | 317 | 555 |
| **Cyfanswm Nwyddau a Gwasanaethau** | **14,661** | **16,065** |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar | 5,167 | 5,760 |
| Dibrisiad asedau hawl i ddefnyddio | 5,063 | 4,573 |
| Dibrisiant asedau anniriaethol | 965 | 801 |
| Colled/(elw) wrth waredu asedau diriaethol ac anniriaethol | 330 | (58) |
| Ardoll Brentisiaethau - hyfforddiant | 90 | 120 |
| Darpariaethau - symiau y darparwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn | 911 | 5,810 |
| Defnyddio darpariaethau nad ydynt yn arian parod | - | (8,813) |
| Taliadau a threuliau archwilwyr | 152 | 138 |
| Darpariaethau - symiau nad oedd eu hangen wedi'u hadfer | (4,848) | (12,995) |
| Darpariaethau - newidiadau i'r disgowntio | 39 | (79) |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgowntiau) | 704 | 321 |
| Buddiant ychwanegol ar asedau hawl i ddefnyddio | 467 | 452 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | **9,040** | **(3,970)** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau** | **29,597** | **18,265** |

Cynyddodd costau eiddo net £0.28 miliwn o'i gymharu â 2024 i 2025. Roedd hyn yn bennaf oherwydd taliadau gwasanaeth uwch (£0.89 miliwn) wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan gyfleustodau is (£0.43 miliwn) a rhent is (£0.18 miliwn), wrth i daliadau rhent ar gyfer y llety tymor byr blaenorol ym Manceinion ddod i ben ar ôl symud i One New Bailey. Mae'r llinell cynnal a chadw ychydig yn negyddol yn 2025 i 2026 oherwydd ei bod yn cynnwys gwrthdroi croniad bach yn y flwyddyn flaenorol ac yn dilyn newid yn strwythur cod ein cyfrif yn ystod y flwyddyn, mae gwariant cynnal a chadw bellach yn cael ei gofnodi yn erbyn 'Rheoli Cyfleusterau'.

Dangosir y costau ymgyfreitha yn net o wrthbwysiad cymeradwy. Mae gan y CMA gymeradwyaeth Trysorlys EF i wrthbwyso 100% o'r costau ymgyfreitha cymwys gan ddefnyddio incwm cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 a gesglir yn y Datganiad Ymddiriedolaeth. Yn 2025 i 2026, casglwyd digon o incwm cosbau i wrthbwyso'r costau ymgyfreitha net o £2.04 miliwn yn llawn, felly ni ddangosir tâl ymgyfreitha net yn y nodyn hwn.

Gostyngodd y gwariant ymchwil, yn bennaf ymchwil a datblygu ESA10, £0.55 miliwn o'i gymharu â 2024 i 2025. Mae hyn yn adlewyrchu llai o weithgarwch yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwaith wedi'i gynllunio nad aeth rhagddo, ac ailddosbarthu rhywfaint o wariant ymchwil a datblygu arfaethedig ESA10 i DEL Adnoddau lle na chafodd y meini prawf cydnabod eu bodloni. Adlewyrchir hyn hefyd yn SOPS 2 (Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net).

Gostyngodd y costau eiddo net £0.92 miliwn o'i gymharu â 2024 i 2025. Mae hyn yn adlewyrchu prosiectau untro yn bennaf yn 2024 i 2025 na wnaethant ailymddangos yn 2025 i 2026, gan gynnwys gwaith i ddatblygu fframwaith perfformiad gweithwyr newydd a gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag ystadau o ran dechrau gweithredu swyddfeydd newydd. Cafodd rhai costau eu hailddosbarthu hefyd rhwng gwasanaethau proffesiynol a chostau adeiladau yn 2025 i 2026.

Gostyngodd y wariant arall £0.24 miliwn, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ad-daliadau i adrannau eraill y llywodraeth ar gyfer defnyddio cyfleusterau'r CMA, sy'n cael eu gwrthbwyso yn erbyn y gwariant.

Cynyddodd TG (gan gynnwys cynnal a chadw) £0.23 miliwn, yn bennaf oherwydd costau storio a lletya uwch, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan gostau is ar gyfer trwyddedau Microsoft.

Roedd llai o staff yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at lai o gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflog staff, yn enwedig recriwtio (£0.45 miliwn o ostyngiad) a theithio a chynhaliaeth (i lawr £0.10 miliwn).

Mae eitemau nad ydynt yn arian parod yn cynnwys dibrisiant, sef y tâl cyfrifyddu am ddefnyddio asedau dros eu hoes ddefnyddiol yn hytrach nag arian parod a wariwyd yn ystod y flwyddyn. Mae eitemau nad ydynt yn arian parod hefyd yn cynnwys symudiadau mewn darpariaethau. Yn 2025 i 2026, roedd y credyd o ddarpariaethau a gafodd eu hadfer yn £4.85 miliwn (2024 i 2025: £13.00 miliwn). Mae'r credyd llai o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu'n bennaf absenoldeb y cyfnewidiadau

achos cyfreithiol mawr a gydnabuwyd yn 2024 i 2025. Ar ben hynny, gostyngodd y ddarpariaeth dadfeiliadau ar ôl ailasesiad gan brisiwr annibynnol, a chafodd darpariaeth y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ei haddasu i adlewyrchu'r defnydd gwirioneddol a'r alldro. Ceir rhagor o wybodaeth am y darpariaethau yn Nodyn 14.

Cyfanswm taliadau a threuliau'r Archwilwyr oedd £0.15 miliwn (2024 i 2025: £0.14 miliwn), sy'n cynnwys £0.13 miliwn ar gyfer archwilio'r cyfrifon hyn a £0.02 miliwn ar gyfer archwilio'r Datganiad Ymddiriedolaeth.

## 5. Incwm

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Adennill costau llety | 138 | 71 |
| Ad-dalu costau apeliadau | 92 | 1,571 |
| Apeliadau rheoleiddio | 5,587 | 823 |
| Incwm arall | 234 | 165 |
| **Cyfanswm incwm (eitemau arian parod)** | **6,051** | **2,630** |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | |
| Ardoll Prentisiaethau - grant tybiannol | 90 | 120 |
| Llog a dderbyniwyd: Ased hawl i ddefnyddio heb ei gydnabod | 3 | 3 |
| **Cyfanswm incwm** | **6,144** | **2,753** |

Cynyddodd cyfanswm yr incwm i £6.14 miliwn (2024 i 2025: £2.75 miliwn), sy'n adlewyrchu'n bennaf incwm uwch o adennill costau apeliadau rheoleiddio.

Cynyddodd yr adennill costau llety i £0.14 miliwn (2024 i 2025: £0.07 miliwn) oherwydd trefniant i isosod rhan o ofod swyddfa'r CMA yn One New Bailey i'r Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol.

£0.09 miliwn oedd y costau apelio a ad-dalwyd ar draws pedwar achos (2024 i 2025: £1.57 miliwn ar draws pum achos), sy'n cynnwys £0.05 miliwn o gostau cyfreithiol mewnol a £0.04 miliwn o gostau cyfreithiol allanol nad oeddent wedi cael eu gosod yn erbyn incwm cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 o'r blaen. Mae'r gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu nifer a gwerth is yr achosion a ad-dalwyd a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm i £5.59 miliwn (2024 i 2025: £0.82 miliwn) ar draws tri achos. Roedd hyn yn cynnwys £0.38 miliwn yn ymwneud ag apêl gwydnwch ariannol a £5.21 miliwn yn ymwneud â phenderfyniad pris Ofwat ac addasiad cod dŵr. Gall symudiadau yn y llinell hon fod yn sylweddol o un flwyddyn i'r llall, gan adlewyrchu amseriad a graddfa apeliadau unigol a gorchmynion cost. Mae rhagor o fanylion am ddull cydnabod refeniw'r CMA ar gael yn nodyn 1.4.

Mae’r CMA yn cael grant ardoll prentisiaethau tybiannol sy’n cael ei gyfateb gan wariant hyfforddi ac nid yw’n cael effaith net ar y datganiadau ariannol. Yr incwm tybiannol a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £0.09 miliwn (2024 i 2025: £0.12 miliwn). Erbyn 31 Mawrth 2026, roedd cyfanswm cronnus o 142 prentis wedi dechrau yn y CMA (31 Mawrth 2025: 125), gan gynnwys 17 o weithwyr newydd yn y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion am y gwariant cysylltiedig yn nodyn 4.

## 6. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliadol | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a ffitiadau | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2025** | **32,464** | **13,274** | **4,841** | **-** | **50,579** |
| Ychwanegiadau | 3 | 843 | 15 | 1,843 | 2,704 |
| Gwarediadau | - | (537) | (69) | - | (606) |
| Amhariadau | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 1,411 | - | - | (1,411) | - |
| Ailbrisiadau | 1,476 | - | 96 | - | 1,572 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **35,354** | **13,580** | **4,883** | **432** | **54,249** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2025** | **11,223** | **10,224** | **2,396** | **-** | **23,843** |
| Talwyd yn ystod y flwyddyn | 2,898 | 1,829 | 440 | - | 5,167 |
| Gwarediadau | - | (464) | (12) | - | (476) |
| Amhariadau | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 8 | - | - | - | 8 |
| Ailbrisiadau | 340 | - | 57 | - | 397 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **14,469** | **11,589** | **2,881** | - | **28,939** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **21,241** | **3,050** | **2,445** | **-** | **26,736** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2026** | **20,885** | **1,991** | **2,002** | **432** | **25,310** |

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys gwelliannau lesddaliadol, caledwedd TG, dodrefn a ffitiadau, ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (prosiectau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto). Gostyngodd y gwerth cario ymlaen i £25.31 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £26.74 miliwn). Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu dibrisiant sy'n fwy nag ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan enillion ailbrisio a buddsoddiad mewn asedau sy'n cael eu hadeiladu.

Yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF, mae'r CMA yn defnyddio rhaglen brisio dreigl a ategir gan fynegeio blynyddol i sicrhau nad yw gwerthoedd asedau'n wahanol iawn i'r gwerth presennol. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, ailbrisiodd y CMA y dosbarthiadau perthnasol o eiddo, offer a chyfarpar ar 31 Mawrth 2026. Mae'r mynegeion a ddefnyddir yn seiliedig ar gyfres Mynegai Prisiau perthnasol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chânt eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i sylfaen asedau'r CMA.

Arweiniodd y broses fynegeio yn 2025 i 2026 at enillion ailbrisio net o £0.48 miliwn ar draws gwelliannau lesddaliadol a dodrefn a ffitiadau, gyda'r enillion yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio wrth gefn. Ar ben hynny, cydnabuwyd cynnydd ailbrisio o £0.70 miliwn ynglŷn â'r ased dadfeiliadau Cabot, gan gysoni gwerth cario ymlaen yr ased â phrisiad y rhwymedigaeth dadfeiliad cysylltiedig a aseswyd yn annibynnol. Addasiad nad yw'n arian parod yw hwn ac mae wedi'i eithrio o ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar a nodir yn y Datganiad Llifoedd Arian.

Cyfanswm yr ychwanegiadau yn y flwyddyn oedd £2.70 miliwn (2024 i 2025: £2.29 miliwn). Roedd hyn yn cynnwys £1.84 miliwn o asedau oedd wrthi'n cael eu hadeiladu, yn ymwneud yn bennaf â phrosiect addasu maint Cabot fel ei fod yn briodol. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys ad-drefnu gofod swyddfa presennol ac mae'n cefnogi trefniant isosod arfaethedig, y disgwylir iddo leihau costau llety yn y dyfodol.

Buddsoddodd y CMA £0.84 miliwn mewn asedau technoleg gwybodaeth, gan gynnwys cyfarpar rhwydweithio, gweinyddion a gliniaduron, i gefnogi gweithio effeithiol a hyblyg ar draws y sefydliad.

Cyfanswm y gwarediadau oedd £0.61 miliwn (2024 i 2025: £1.11 miliwn). Roedd hyn yn cynnwys £0.11 miliwn o asedau TG a dodrefn a ffitiadau a werthwyd i'r Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol am eu gwerth cario ymlaen, a £0.42 miliwn o asedau TG a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol ac a ddibrisiwyd yn llawn.

Cyfanswm ailddosbarthu asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn oedd £1.41 miliwn (2024/25: £4.55 miliwn). Mae'r rhain yn ymwneud â gwaith oedd yn mynd rhagddo yn y Cabot sydd wedi cael eu cyfalafu fel gwelliannau lesddaliadol. Cafodd y gwaith ei gynnal i ad-drefnu gofod swyddfa i hwyluso'r broses o isosod y 9fed llawr ac i wneud y gorau o gapasiti mannau gwaith staff y CMA ar draws y 7fed a'r 8fed llawr. Disgwylir i'r gwaith ad-drefnu arwain at arbedion parhaus o ran rhent a chostau eiddo cysylltiedig, gan gyfrannu at well effeithlonrwydd gweithredol.

Y dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn oedd £5.17 miliwn (2024 i 2025: £5.76 miliwn). Tâl cyfrifyddu nad yw'n arian parod yw dibrisiant, sy'n lledaenu cost asedau dros y cyfnod y cânt eu defnyddio.

## Eiddo, Offer a Chyfarpar (y flwyddyn flaenorol: 2024–25)

| | Gwelliannau Iesddaliadol | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a ffitiadau | Taliad ar Gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **28,867** | **13,114** | **4,316** | **3,088** | **49,385** |
| Ychwanegiadau | 410 | 401 | 18 | 1,463 | 2,292 |
| Gwarediadau | (142) | (968) | - | - | (1,110) |
| Amhariadau | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 3,329 | 727 | 507 | (4,551) | 12 |
| Ailbrisiadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **32,464** | **13,274** | **4,841** | **-** | **50,579** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 01 Ebrill 2024** | **8,457** | **8,784** | **1,870** | **-** | **19,111** |
| Talwyd yn ystod y flwyddyn | 2,878 | 2,356 | 526 | - | 5,760 |
| Gwarediadau | (112) | (916) | - | - | (1,028) |
| Amhariadau | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **11,223** | **10,224** | **2,396** | - | **23,843** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **20,410** | **4,330** | **2,446** | **3,088** | **30,274** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **21,241** | **3,050** | **2,445** | **-** | **26,736** |

## 7. Asedau hawl i ddefnyddio

| | Adeiladau | Cyfanswm 2025-26 | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill** | **52,944** | **52,944** | **51,186** |
| Ychwanegiadau - Iesoedd newydd | 1,335 | 1,335 | 1,836 |
| Gwarediadau | (73) | (73) | (78) |
| Ailfesur - Iesoedd presennol | 8 | 8 | - |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **54,214** | **54,214** | **52,944** |
| **Dibrisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill** | **13,498** | **13,498** | **8,968** |
| Dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn | 5,063 | 5,063 | 4,573 |
| Gwarediadau | - | - | (43) |
| Ailddosbarthiadau | (8) | (8) | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **18,553** | **18,553** | **13,498** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth** | **35,661** | **35,661** | **39,446** |

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cynrychioli hawl y CMA i ddefnyddio adeiladau ar les drwy gydol cyfnod y les. Gostyngodd gwerth cario ymlaen asedau hawl i ddefnyddio i £35.66 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £39.45 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu gwarediadau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan ailfesuriadau ac ychwanegiadau.

Cyfanswm yr ychwanegiadau yn y flwyddyn oedd £1.34 miliwn (2024 i 2025: £1.84 miliwn). Mae hyn yn cynnwys £1.16 miliwn sy'n ymwneud â chynnydd mewn costau rhentu yn dilyn adolygiad o drefniadau Iesoedd ar gyfer Tŷ'r Frenhines Elizabeth a Thŷ William Morgan, a £0.18 miliwn sy'n ymwneud â chynnydd mewn asedau dadfeiliadau wedi'u cyfalafu yn dilyn asesiadau prisio allanol annibynnol (gweler nodyn 14).

Cyfanswm y gwarediadau oedd £0.07 miliwn (2024 i 2025: £0.08 miliwn) ac mae'n ymwneud â gostyngiadau mewn asedau dadfeiliadau wedi'u cyfalafu yn dilyn prisiadau wedi'u diweddaru.

Y dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn oedd £5.06 miliwn (2024 i 2025: £4.57 miliwn). Tâl cyfrifyddu nad yw'n arian parod yw dibrisiant, sy'n lledaenu cost yr hawl i ddefnyddio adeiladau ar les dros gyfnod y les.

## 8. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd a Thrwyddedau Meddalwedd | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm 2025-26 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2025** | **6,029** | **1,915** | **7,944** |
| Ychwanegiadau | 98 | 1,743 | **1,841** |
| Gwarediadau | (825) | - | **(825)** |
| Amhariadau | - | - | **-** |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 1,912 | (1,912) | **-** |
| Ailbrisiadau | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **7,214** | **1,746** | **8,960** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2025** | **3,775** | **-** | **3,775** |
| Amorteiddio a godwyd yn ystod y flwyddyn | 965 | - | **965** |
| Gwarediadau | (825) | - | **(825)** |
| Ailddosbarthu | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **3,915** | **-** | **3,915** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **2,254** | **1,915** | **4,169** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2026** | **3,299** | **1,746** | **5,045** |

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd, trwyddedau meddalwedd a systemau sy'n cael eu datblygu (asedau sy'n cael eu hadeiladu). Cynyddodd y gwerth cario ymlaen i £5.05 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £4.17 miliwn), sy'n adlewyrchu buddsoddiad parhaus mewn systemau digidol a chwblhau prosiectau yn ystod y flwyddyn.

Yn 2025 i 2026, ailddosbarthodd y CMA £1.91 miliwn o wariant o asedau sy'n cael eu hadeiladu i feddalwedd, gan gynrychioli prosiectau a ddaeth yn weithredol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys yn bennaf:

- £1.07 miliwn ar gyfer y System Rheoli Achosion Digidol i Ddefnyddwyr;
- £0.42 miliwn ar gyfer y System Rheoli Achosion Ymgyfreitha; a
- £0.23 miliwn ar gyfer y System Rheoli Data Uno Cwmnïau a'r System Cais Electronig am Wybodaeth.

Cyfanswm yr ychwanegiadau yn y flwyddyn oedd £1.84 miliwn (2024 i 2025: £2.23 miliwn), yn ymwneud yn bennaf â buddsoddiad parhaus mewn systemau sy’n cael eu datblygu.

Cyfanswm y gwarediadau oedd £0.83 miliwn (2024 i 2025: £0.27 miliwn). Roedd yr asedau hyn wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol, wedi’u hamorteiddio’n llawn, ac nid oeddent yn cael eu defnyddio mwyach.

£0.97 miliwn oedd yr amorteiddiad a godwyd yn ystod y flwyddyn (2024 i 2025: £0.80 miliwn). Tâl cyfrifyddu nad yw’n arian parod yw amorteiddiad, sy’n lledaenu cost meddalwedd dros y cyfnod y caff ei defnyddio.

**Asedau anniriaethol (y flwyddyn flaenorol: 2024–25)**

| | Meddalwedd a Thrwyddedau Meddalwedd | Asedau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **5,193** | **802** | **5,995** |
| Ychwanegiadau | - | 2,234 | **2,234** |
| Gwarediadau | (270) | - | **(270)** |
| Amhariadau | - | - | **-** |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 1,106 | (1,121) | **(15)** |
| Ailbrisiadau | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **6,029** | **1,915** | **7,944** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **3,150** | **-** | **3,150** |
| Amorteiddio a godwyd yn ystod y flwyddyn | 801 | - | **801** |
| Gwarediadau | (176) | - | **(176)** |
| Ailddosbarthu | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **3,775** | **-** | **3,775** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **2,043** | **802** | **2,845** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | **2,254** | **1,915** | **4,169** |

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---:|---:|
| | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,248** | **2,839** |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | (532) | (1,591) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **716** | **1,248** |
| **Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn y canlynol:** | | |
| Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth | 716 | 1,248 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **716** | **1,248** |

## 10. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

*Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---:|---:|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 160 | 76 |
| Adneuon a blaendaliadau | 32 | 22 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 123 | 411 |
| Rhagdaliadau ac Incwm Cronedig | 9,650 | 7,797 |
| TAW - mewnbwn | 144 | 233 |
| **Cyfanswm** | **10,109** | **8,539** |

Cynyddodd y symiau a oedd yn ddyledus o fewn blwyddyn i £10.11 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £8.54 miliwn), sy'n adlewyrchu rhagdaliadau uwch ac incwm cronedig yn bennaf.

Gostyngodd y symiau derbyniadwy eraill i £0.12 miliwn (2024 i 2025: £0.41 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu'r setliad ym mis Mawrth 2026 o symiau a oedd yn ddyledus yn flaenorol o gyfrif ymddiriedolaeth y CMA ynglŷn â chostau ymgyfreitha cymwys, a gafodd eu gwrthbwyso gan ddefnyddio incwm cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998.

Cynyddodd y rhagdaliadau ac incwm cronedig i £9.65 miliwn (2024 i 2025: £7.80 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf £0.98 miliwn o ragdaliadau ar gyfer trwyddedau meddalwedd sy'n dechrau ym mis Mawrth 2026, a £0.87 miliwn o incwm cronedig sy'n ymwneud ag adennill costau cyfreithiol ac incwm apeliadau rheoleiddiol y disgwylir iddynt ddod i law yn 2026 i 2027. Mae'r rhagdaliadau'n

cynrychioli symiau a dalwyd ymlaen llaw er mwyn i wasanaethau gael eu derbyn mewn cyfnodau yn y dyfodol, ac mae'r incwm cronedig yn cynrychioli incwm a enillwyd ond nad yw wedi dod i law eto.
Roedd symiau masnach derbyniadwy, adneuon a blaendaliadau, a balansau TAW wedi aros yn weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall.

*Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn*

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn:** | | |
| Adneuon a blaendaliadau | 2 | - |
| **Cyfanswm** | **2** | **-** |

## 11. Symiau Derbyniadwy Lesoedd

Mae symiau derbyniadwy lesoedd yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i'r CMA o dan drefniadau is-les ar gyfer gofod swyddfa. Mae symiau derbyniadwy lesoedd (presennol ac anghyfredol) yn ymwneud â rhan o swyddfa Cabot sy'n cael ei hisosod i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o symiau derbyniadwy lesoedd o fewn cwmpas IFRS 16, yn seiliedig ar lif arian cytundebol heb ei ddisgowntio, yn y tabl isod.

| | Cyfanswm 2025-26 | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Dadansoddiad Aeddfedrwydd - llifoedd arian cytundebol: heb eu disgowntio** | | |
| Llai na blwyddyn | 38 | 38 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 125 | 125 |
| Mwy na phum mlynedd | 74 | 104 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: heb eu disgowntio** | **237** | **267** |

***Symiau a gydnabyddir yn y SoFP***

| | Cyfanswm 2025-26 | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: symiau derbyniadwy cyfredol | 35 | 35 |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: symiau derbyniadwy anghyfredol | 186 | 221 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi eu disgowntio** | **221** | **256** |

Gostyngodd cyfanswm cario ymlaen symiau derbyniadwy lesoedd i £0.22 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £0.26 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu derbyn incwm o les yn unol â threfniadau cytundebol dros weddill cyfnod y les.

## 12. Symiau masnach taladwy, rhwymedigaethau ariannol a rhwymedigaethau eraill

*Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| TAW y Cynnyrch | 220 | 25 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 2,303 | 2,364 |
| Symiau taladwy drwy fasnach | 547 | 12 |
| Symiau taladwy eraill | 2,202 | 3,170 |
| Croniadau | 7,838 | 7,032 |
| Incwm gohiriedig | 13 | 364 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol i'w cyflenwi ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | 716 | 1,248 |
| **Cyfanswm** | **13,839** | **14,215** |

Gostyngodd y symiau a oedd yn ddyledus o fewn blwyddyn i £13.84 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £14.22 miliwn), a hynny'n bennaf yn adlewyrchu symiau taladwy eraill is, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan groniadau uwch a symiau taladwy drwy fasnach.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm i £0.55 miliwn (2024 i 2025: £0.01 miliwn). Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â symiau sy'n ddyledus i Drysorlys EF ar gyfer Cyllid Arloesi Data Economaidd sydd heb ei wario, a fydd yn cael ei ddychwelyd yn 2026-27. Roedd y swm taladwy hwn yn cael ei gydnabod yn flaenorol o fewn incwm gohiriedig.

Gostyngodd y symiau taladwy eraill i £2.20 miliwn (2024 i 2025: £3.17 miliwn). Mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu trosglwyddo £0.91 miliwn i gyfrif ymddiriedolaeth y CMA ynglŷn â chostau cyfreithiol a adenillwyd gan drydydd partïon. Mae hyn yn sicrhau bod incwm yn cael ei ddychwelyd i'r cyfrif banc ymddiriedolaeth ac yn osgoi adennill incwm ddwywaith pan gaiff ei wrthbwyso yn erbyn costau ymgyfreitha.

Cynyddodd y croniadau i £7.84 miliwn (2024 i 2025: £7.03 miliwn). Yn bennaf, mae hyn yn adlewyrchu croniadau cyfalaf uwch ar gyfer asedau sy’n cael eu hadeiladu, gan gynnwys costau cyfreithiol, proffesiynol ac adnewyddu sy’n gysylltiedig â phrosiect addasu maint Cabot i fod yn briodol, yn ogystal â chostau contractwyr ar gyfer systemau TG sy’n cael eu datblygu. Mae’r croniadau’n cynrychioli costau a gafwyd ond nad ydynt wedi’u talu eto ar ddiwedd y flwyddyn.

Gostyngodd yr incwm gohiriedig i £0.01 miliwn (2024 i 2025: £0.36 miliwn), sy’n adlewyrchu’n bennaf symiau a gydnabyddir fel incwm yn ystod y flwyddyn neu a ailddosbarthwyd i symiau taladwy lle maent i fod i gael eu dychwelyd.

Roedd y symiau a roddwyd o’r Gronfa Gyfunol i’w cyflenwi ond heb eu gwario ar 31 Mawrth yn £0.72 miliwn (2024 i 2025: £1.25 miliwn). Mae hyn yn cynrychioli cyllid a dynnwyd i lawr ond nad yw wedi cael ei ddefnyddio eto ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ymarferol, nid yw’r balans hwn yn ad-daladwy i’r Gronfa Gyfunol; yn hytrach, mae’n cael ei dynnu o ofyniad arian parod net y CMA ar gyfer 2026 i 2027 a’i drin fel ‘cyflenwad tybiedig’.

Roedd y trethi eraill a nawdd cymdeithasol a balansau TAW yn dal yn weddol gyson â’r flwyddyn flaenorol.

## 13. Rhwymedigaethau Lesoedd

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o rwymedigaethau lesoedd o fewn cwmpas IFRS 16, yn seiliedig ar lif arian parod gros heb ei ddisgowntio, yn y tabl isod. Risg hylifedd yw’r posibilrwydd na fydd y CMA yn gallu cyflawni ein rhwymedigaethau i atebolrwyddau lesoedd gael eu setlo gydag arian parod. Gan fod y CMA yn cael tynnu arian parod o’r Gronfa Gyfunol ac, os oes angen, gwneud cais ymlaen llaw i Drysorlys EF am arian parod ychwanegol o’r Gronfa Wrth Gefn[26], mae ein risg hylifedd yn isel.

| | Cyfanswm 2025-26 | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Adeiladau** | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 5,672 | 5,597 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 17,188 | 16,090 |
| Ar ôl 5 mlynedd | 14,450 | 19,546 |
| **Gwerth Presennol y rhwymedigaethau** | **37,310** | **41,233** |

[26] Mae blaenswm Cronfa Wrth Gefn yn ofynnol i fodloni ymrwymiadau nes bydd yr Amcangyfrif Atodol yn cael Cydsyniad Brenhinol, ac ar yr adeg honno bydd y CMA yn gallu cael yr arian parod o’r Gronfa Gyfunol yn y ffordd arferol, i ad-dalu blaenswm y Gronfa Wrth Gefn.

*Symiau a gydnabyddir yn y SoFP*

| | 2025-26 Cyfanswm | 2024-25 Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhwymedigaethau Lesoedd: cyfredol | 5,282 | 5,016 |
| Rhwymedigaethau Lesoedd: anghyfredol | 30,315 | 34,294 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi'u disgowntio** | **35,597** | **39,310** |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 5.32% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2026 (2025: 4.81%), a gyhoeddwyd ym mhapurau System Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EF.

*Symudiad mewn rhwymedigaethau lesoedd*

| | 2025-26 Cyfanswm | 2024-25 Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau wedi'u disgowntio ar 1 Ebrill** | **39,310** | **42,799** |
| Ychwanegiadau wedi'u disgowntio yn ystod y flwyddyn | - | 625 |
| Adolygiadau rhent a newidiadau yn nhelerau lesoedd | 1,419 | 982 |
| Llog yn ystod y flwyddyn | 467 | 452 |
| Gwarediadau yn ystod y flwyddyn | - | (23) |
| Ad-daliadau yn ystod y flwyddyn | (5,599) | (5,525) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau wedi'u disgowntio ar 31 Mawrth** | **35,597** | **39,310** |

## 14. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Pensiynau Gwaddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Staff sydd wedi gadael | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **877** | **6,479** | **1,801** | **5,316** | **14,473** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 43 | 209 | 833 | - | **1,085** |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen sydd wedi'u hadfer | - | (3,779) | (219) | (872) | **(4,870)** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (84) | - | - | (4,519) | **(4,603)** |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgownt | - | 19 | 20 | - | **39** |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgowntiau) | - | 627 | 2 | 75 | **704** |
| Colledion / (enillion) actiwaraidd | (8) | - | - | - | **(8)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **828** | **3,555** | **2,437** | **-** | **6,820** |

| | Pensiynau Gwaddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Staff sydd wedi gadael | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **891** | **6,218** | **22,894** | **-** | **30,003** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 43 | 290 | 376 | 5,391 | **6,100** |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen sydd wedi'u hadfer | - | (26) | (12,969) | - | **(12,995)** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (83) | (7) | (8,813) | - | **(8,903)** |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgownt | - | 2 | (6) | (75) | **(79)** |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgowntiau) | - | 2 | 319 | - | **321** |
| Colled actiwaraidd | 26 | - | - | - | **26** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **877** | **6,479** | **1,801** | **5,316** | **14,473** |

Mae darpariaethau'n cynrychioli symiau sydd wedi'u rhoi o'r neilltu lle mae gan y CMA rwymedigaeth gyfredol a lle mae'n disgwyl wynebu costau yn y dyfodol, ond lle mae'r union amseriad neu'r swm yn ansicr.

Gostyngodd cyfanswm y darpariaethau'n sylweddol i £6.82 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £14.47 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf ostyngiad yn y ddarpariaeth dadfeiliadau yn dilyn prisiad diwygiedig, a defnyddio a rhyddhau darpariaeth y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a gydnabuwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r ddarpariaeth pensiynau gwaddol yn cael ei chyfrifo gan Adran Actiwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r tybiaethau a nodir yn nodyn 14.2. Mae'r dadfeiliadau a'r darpariaethau cyfreithiol yn cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfraddau Trysorlys EF lle mae amseriad llifoedd arian parod yn y dyfodol yn arwyddocaol.

Mae'r cyfraddau chwyddiant a disgownt Trysorlys EF a ddefnyddir wedi'u nodi isod.

| **Cyfraddau Trysorlys EF** | **2025-26** | **2024-25** |
|---|---|---|
| **Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)** | | |
| Blwyddyn 1 | 2.50 % | 2.60% |
| Blwyddyn 2 | 2.00% | 1.80% |
| Hyd byth | 2.00% | 2.00% |
| **Cyfradd Ddisgownt Nominal (NDR)** | | |
| Tymor byr (Blwyddyn 1- 5) | 3.64% | 4.03% |
| Tymor canolig (Blwyddyn 6 - 10) | 4.22% | 4.07% |
| Tymor hir (Blwyddyn 11 - 40) | 5.32% | 4.81% |
| Tymor hir iawn (Blwyddyn 41 - 100) | 5.07% | 4.55% |

Arweiniodd newidiadau mewn cyfraddau disgownt yn ystod y flwyddyn at gynnydd o £0.02 miliwn yn y ddarpariaeth dadfeiliadau a chynnydd o £0.02 miliwn yn y ddarpariaeth gyfreithiol (2024 i 2025: dim effaith).

### *14.1 Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifoedd arian parod wedi'u disgowntio*

| | **Pensiynau Gwaddol** | **Dadfeiliadau** | **Cyfreithiol** | **Staff sydd wedi gadael** | **Cyfanswm 2025-26** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 84 | 40 | 2,437 | - | **2,561** |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 336 | 677 | - | - | **1,013** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar ôl 5 mlynedd | 408 | 2,838 | - | - | **3,246** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **828** | **3,555** | **2,437** | **-** | **6,820** |

| | **Pensiynau Gwaddol** | **Dadfeiliadau** | **Cyfreithiol** | **Staff sydd wedi gadael** | **Cyfanswm 2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 83 | 6 | 371 | 5,316 | **5,776** |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 332 | 503 | 1,430 | - | **2,265** |
| Ar ôl 5 mlynedd | 462 | 5,970 | - | - | **6,432** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **877** | **6,479** | **1,801** | **5,316** | **14,473** |

### *14.2 Pensiynau gwaddol*

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn ar gyfer cyn-Gadeiryddion a Chyfarwyddwyr Cyffredinol y Swyddfa Masnachu Teg, un o gyrff blaenorol y CMA.

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyfrifo ar sail prisiad actiwaraidd a gyflawnwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2026.

Dyma'r tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd yn y prisiad:

- Cyfradd ddisgownt o 5.60% y flwyddyn (2024 i 2025: 5.15%)
- Codiadau pensiwn o 2.55% y flwyddyn (2024 i 2025: 2.65%)

Gostyngodd y ddarpariaeth £0.05 miliwn yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu'n bennaf y buddion a dalwyd, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan gostau llog ac addasiadau actiwaraidd.

Dyma symiau eraill a ddatgelir i esbonio'r newid yn y ddarpariaeth:

| | **2025-26** | **2024-25** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Cost llog | 43 | 43 |
| Colledion / (enillion) actiwaraidd | (8) | 26 |
| Cyfanswm | **35** | **69** |
| Buddion a dalwyd | (84) | (83) |
| **Gostyngiad mewn darpariaeth** | **(49)** | **(14)** |

### *14.3 Dadfeiliadau*

Mae'r ddarpariaeth dadfeiliadau yn cynrychioli amcangyfrif o'r costau y bydd eu hangen yn y dyfodol i adfer swyddfeydd y CMA i'w cyflwr gwreiddiol ar ddiwedd telerau ei les.

Ym mis Ionawr 2026, cynhaliodd y CMA ailasesiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth hon gan ddefnyddio prisiad allanol annibynnol a gynhaliwyd gan gwmni newydd o syrfëwyr. O ganlyniad, gostyngodd y ddarpariaeth £3.57 miliwn (cyn disgowntio). Mae hyn yn adlewyrchu tybiaethau wedi'u diweddaru, yn enwedig ar gyfer eiddo Cabot, lle aseswyd bod yr amcangyfrifon cost blaenorol wedi'u gorddatgan.

Mae'r symudiad cyffredinol yn cynnwys:

- £3.64 miliwn o ostyngiad yn ymwneud ag eiddo Cabot;
- £0.14 miliwn o ostyngiad yn ymwneud â Thŷ'r Frenhines Elizabeth a'r Vantage; a
- chynnydd o £0.21 miliwn yn ymwneud ag One New Bailey, Tŷ Coniscliffe, Tŷ Thanet, a Thŷ William Morgan.

Lle bo'n berthnasol, mae'r ased dadfeiliadau cysylltiedig wedi'i alinio â'r prisiad wedi'i ddiweddaru, gydag unrhyw gynnydd yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio wrth gefn.

### *14.4 Cyfreithiol*

Gall penderfyniadau rheoleiddiol a wneir gan y CMA fod yn destun achos cyfreithiol, a all arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol.

Mae'r CMA wedi cydnabod darpariaethau lle mae'n credu, fel y mae pethau ar hyn o bryd, ei bod yn fwy tebygol na pheidio y bydd y costau'n codi. Mae'r rhain yn ymwneud ag achosion lle mae rhwymedigaeth gyfredol yn deillio o achosion cyfreithiol sy'n mynd rhagddynt neu sydd wedi dod i ben.

Mae achosion cyfreithiol eraill yn parhau i fod yn destun ansicrwydd o ran canlyniad, amseru a chostau posibl. Datgelir y rhain fel rhwymedigaethau amodol yn nodyn 17 lle nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth o dan IAS 37.

### *14.5 Darpariaeth ar gyfer Cynllun Ymadael Gwirfoddol – Gostyngiad yn y Gweithlu*

Mae darpariaeth y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a gydnabuwyd yn 2024 i 2025 wedi cael ei defnyddio neu ei rhyddhau'n llawn yn 2025 i 2026, gan arwain at ostyngiad o £5.32 miliwn.

Roedd y ddarpariaeth yn adlewyrchu ymrwymiad y CMA i leihau'r gweithlu o dan y cynllun. Gan fod staff wedi gadael yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd y ddarpariaeth i dalu'r costau hynny, ac nid oedd angen adfer unrhyw falans a oedd yn weddill.

## 15. Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

### *15.1 Ymrwymiadau cyfalaf*

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y CMA ymrwymiadau cyfalaf o £1.60 miliwn (2024 i 2025: £0.29 miliwn), yn ymwneud yn bennaf â'r prosiect i addasu maint Cabot.

*Ymrwymiadau dan lesoedd gweithredol*

Mae'r CMA yn parhau i feddiannu un eiddo y tu allan i gwmpas IFRS 16 (Tŷ Thanet, Llundain). Mae taliadau'r les yn y dyfodol o dan y trefniant hwn wedi'u nodi yn y tabl isod.

| | Cyfanswm 2025-26 | Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Rhoddir cyfanswm taliadau sylfaenol lesoedd yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredol yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:** | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | **44** | 44 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | **-** | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **44** | 44 |

## 16. Trafodion Partïon Perthynol

Mae'r CMA yn cynnal trafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff y llywodraeth ganolog. Roedd ei brif drafodion yn ystod y flwyddyn gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr, y Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol, yr Adran Fusnes a Masnach, a'r Swyddfa Gyfathrebu.

Ac eithrio taliadau a ddatgelir yn yr Adroddiad Taliadau, nid oes unrhyw aelod o'r Bwrdd, rheolwr allweddol na pharti cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys gyda'r CMA yn ystod y flwyddyn. Ceir gwybodaeth am fuddiannau aelodau'r Bwrdd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mae'r CMA yn isosod rhan o'i swyddfa yn y Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser, a noddir gan yr Adran Fusnes a Masnach, ac yn One New Bailey i'r Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol, a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r CMA hefyd yn defnyddio swyddfeydd yng nghanolfannau'r Llywodraeth sy'n cael eu rhoi ar les gan adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys Cyllid a Thollau EF, gan gefnogi ei bresenoldeb ledled y DU.

## 17. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi lle gallai'r CMA wynebu costau yn y dyfodol, ond mae'r canlyniad yn ansicr ac nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cydnabod darpariaeth ar hyn o bryd.

Mae’r CMA yn ymwneud â nifer o achosion ymgyfreitha parhaus lle mae’n bosibl y bydd costau’n daladwy i drydydd partïon. Mae canlyniad yr achosion hyn yn dibynnu ar ddyfarniadau’r llys ac mae’n dal yn ansicr ar y dyddiad adrodd.

Amcangyfrifir bod y CMA yn agored i gostau anffafriol mewn achosion ymgyfreitha parhaus o £25.16 miliwn, ar sail disgownt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y datgeliadau o atebolrwydd Seneddol ar dudalen [X].

## 18. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol ag IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, ystyrir digwyddiadau hyd at y dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol, sef y dyddiad y cânt eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Ni nodwyd unrhyw ddigwyddiadau y mae angen eu datgelu na’u haddasu ar ôl y cyfnod adrodd.

# Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA

Mae Datganiad Ymddiriedolaeth ar wahân yn cael ei gynnal ar gyfer ffioedd a gesglir o dan Ddeddf Menter 2002 (diwygiwyd 2013), dirwyon a gesglir o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, incwm ardoll SMS a dirwyon defnyddwyr a gesglir o dan Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr (DMCCA) 2024. Mae'r refeniw yma'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa cyfrif Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA, ein refeniw a'n gwariant, a'n llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae Trysorlys EF wedi penodi Prif Weithredwr y CMA yn Brif Swyddog Cyfrifyddu gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth a'i drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion FReM ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn FReM, a datgelu ac esbonio unrhyw amrywiadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- Pharatoi Datganiad Ymddiriedolaeth ar sail busnes hyfyw.

Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn, ac i sicrhau bod fy archwilwyr yn cael eu hysbysu. Nid oes gwybodaeth berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, hyd y gwn i.

Rwy'n cadarnhau bod y Datganiad Ymddiriedolaeth yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol dros y Datganiad Ymddiriedolaeth a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y CMA

Sarah Cardell

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2026

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y dogfennau canlynol ar gyfer Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad Refeniw, Datganiad Incwm a Gwariant Arall, a Datganiad Llifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar 31 Mawrth 2026 ac o'i refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan hynny.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd y DU, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10, *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024).* Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach ar fy nhystysgrif o dan yr adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol*.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024* y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

# Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm datganiad a'm tystysgrif i fel archwiliwr arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol, neu â'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a ydyw'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o ran yr wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

# Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

# Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a'r amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw’r datganiadau ariannol a’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sy’n destun archwiliad yn cyd-fynd â’r cofnodion cyfrifyddu neu’r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o’r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi’u gwneud, neu nad yw rhannau o’r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i’w harchwilio yn cyd-fynd â’r cofnodion cyfrifyddu a’r ffurflenni; neu
- nad yw’r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

# Cyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu, mae’r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y pethau canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae’r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy’n berthnasol ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi’r wybodaeth a’r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at y rhai hynny yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA y mae’r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy’n rhoi darlun cywir a theg, ac sy’n cyd-fynd â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, a Deddf Adran y Trysorlys a’r Adran Archwilio 1921;
- paratoi adroddiad blynyddol, sy’n cynnwys Adroddiad Taliadau a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaethpwyd o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a’r Adran Archwilio 1921; ac
- asesu gallu Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo’n berthnasol, faterion sy’n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol

# Cyfrifoldebau’r Archwilydd dros archwilio’r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a’r Adran Archwilio 1921.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif/adroddiad sy’n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw’n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny’n bodoli. Mae camddatganiadau’n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu

gyda'i gilydd, byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau perthnasol am beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau,
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll, a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a oeddent:
    - yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau,
    - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig,
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar gyfer twyll, a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cofnodion dyddlyfr anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Dyraniadau (Prif Amcangyfrifon) 2025, Deddf Menter a Deddf Cystadleuaeth 1998 a Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024.

### Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a'r Bwrdd, ac adroddiadau archwilio mewnol;
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, drwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol

Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth archwilio briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **6 Gorffennaf 2026**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP

## Datganiad o Refeniw, Incwm Arall a Gwariant (SoROIE) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| Refeniw | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Dirwyon a chosbau** | | | |
| Cosbau a roddwyd o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 | | 170,532 | 126,700 |
| Cosbau a roddwyd o dan Ddeddf Menter 2002 | | 25 | 1,525 |
| Llog a enillwyd ar gosbau a roddwyd o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 | | 18,488 | 2,503 |
| **Cyfanswm dirwyon a chosbau** | | **189,045** | **130,728** |
| **Incwm arall** | | | |
| Ffioedd a gafwyd o dan Ddeddf Menter 2002 | | 3,160 | 3,680 |
| Incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol | 3 | 6,810 | - |
| **Cyfanswm incwm arall** | | **9,970** | **3,680** |
| **Cyfanswm refeniw ac incwm arall** | | **199,015** | **134,408** |
| **Gwariant** | | | |
| Defnyddio cosbau dan CA98 i wrthbwyso costau ymgyfreitha | 2 | (2,037) | (10,741) |
| Dyledion a gafodd eu dileu neu oedd ag amhariad arnynt fel arall | 5.2 | 241 | 53 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **(1,796)** | **(10,688)** |
| **Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | **8** | **197,219** | **123,720** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 185 i 193 yn rhan o’r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| **Symiau derbyniadwy a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 5.1 | **3,602** | **9,437** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy | 5.2 | 13,379 | 92,041 |
| Ffioedd cronedig a threthi derbyniadwy | | - | - |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 6 | - | 28,191 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | **13,379** | **120,232** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Taliadau Dyledus | 7 | (22) | (292) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(22)** | **(292)** |
| **Asedau cyfredol net** | | **13,357** | **119,940** |
| **Cyfanswm asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **16,959** | **129,377** |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **16,959** | **129,377** |
| **Cynrychiolir hyn gan:** | | | |
| Balans ar Gyfrif y Gronfa Gyfunol | 8 | **16,959** | **129,377** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 185 i 193 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
03 Gorffennaf 2026

## Datganiad Llif Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredol | A | 281,446 | 31,735 |
| Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | 8 | (309,637) | (23,014) |
| **Cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(28,191)** | **8,721** |

# Nodiadau ar y Datganiad Llifoedd Arian Parod

| A: Cysoni'r llif arian parod net â symudiadau mewn cronfeydd net | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | SoROIE | 197,219 | 123,720 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod | 5.1, 5.2 | 84,497 | (92,213) |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn rhwymedigaethau | 7 | (270) | 228 |
| | | | |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredol | | **281,446** | **31,735** |

| B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | 6 | (28,191) | 8,721 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill (Arian Parod Net yn y Banc) | | 28,191 | 19,470 |
| Cronfeydd Net ar 31 Mawrth (Balans Terfynol) | | **-** | **28,191** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 185 i 193 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

# Nodiadau ar y Datganiad Ymddiriedolaeth

## 1. Polisïau Datganiad o gyfrifon

Mae'r CMA yn gweithredu fel asiant i gasglu ffioedd uno, cosbau o dan CA98, incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol a dirwyon defnyddwyr o dan Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024. Mae'r symiau hyn yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol ac nid ydynt yn cael eu cadw gan y CMA.

Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn yn adrodd ar gasglu'r refeniw hwn, lle mae'r CMA yn casglu'r incwm ar ran y Gronfa Gyfunol yn hytrach nag at ei ddefnydd ei hun. Mae'r gofyniad i ddileu derbyniadau o'r fath wedi'i nodi yn Neddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, oni bai fod Trysorlys EF yn cymeradwyo triniaeth amgen.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FReM 2025-26 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae FReM yn defnyddio'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus.

Ystyrir bod y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn briodol ar gyfer rhoi darlun cywir a theg ac fe'u defnyddiwyd yn gyson gyda phob eitem berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth wedi cael ei baratoi ar sail croniadau, dan y confensiwn cost hanesyddol.

### *1.2 Amcangyfrifon a dyfarniadau arwyddocaol*

Mae angen defnyddio crebwyll wrth amcangyfrif yr incwm a enillir ond nad yw wedi dod i law eto (incwm cronedig), yn enwedig ar gyfer cosbau, gweithgarwch gorfodi ac apeliadau rheoleiddio. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar statws achosion sylfaenol ac asesiad y CMA o'r gallu i adennill.

Mae'r CMA hefyd yn defnyddio'r model colledion credyd disgwyliedig o dan IFRS 9 i asesu'r risg na fydd symiau sy'n ddyledus yn cael eu casglu. Mae hyn yn cynnwys barn am amodau economaidd yn y dyfodol a'u heffaith ar y gallu i adfer. Ar sail yr asesiadau hyn, mae'r CMA o'r farn bod y risg credyd yn isel ac mae'n defnyddio'r dull symlach, gan gydnabod colledion credyd disgwyliedig am oes.

Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 1.4.

### *1.3 Cydnabod refeniw*

Mae ffioedd, cosbau ac incwm o'r ardoll yn cael eu cydnabod yn unol ag IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid*, fel y'u haddaswyd gan FReM.

- Caiff **ffioedd uno** eu cydnabod ar ôl i'r CMA gwblhau ei ymchwiliad a chyhoeddi penderfyniad, pan ystyrir ei bod yn debygol y bydd y ffi'n cael ei derbyn.
- Cydnabyddir **dirwyon a chosbau** pan fydd gan y CMA hawl orfodadwy i gael taliad. Fel arfer, mae hyn ar ôl i'r cyfnod apelio statudol o ddau fis calendr ddod i ben neu pan fydd setliad wedi'i gyrraedd a bod y risg o apêl yn cael ei hystyried yn un fach.
- Cydnabyddir **incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol** pan fydd gan y CMA hawl orfodadwy i adennill ei gostau. Mae hyn yn codi pan fydd endid wedi'i ddynodi â statws SMS a bod unrhyw gyfnod apelio perthnasol wedi dod i ben. Mae'r swm a gydnabyddir yn adlewyrchu costau cymwys adferadwy sydd wedi'u hysgwyddo wrth gyflawni swyddogaethau marchnadoedd digidol.

Mesurir refeniw yn ôl gwerth teg y swm derbyniadwy, net o unrhyw ad-daliadau disgwyliedig.

### *1.4 Symiau derbyniadwy*

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus gan endidau mewn perthynas â ffioedd, cosbau ac incwm ardoll SMS.

Yn unol ag IFRS 9, mae symiau derbyniadwy yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'n cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio.

Mae'r CMA yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar symiau derbyniadwy gan ddefnyddio'r dull symlach, sy'n ystyried colledion disgwyliedig oes o'r adeg y cydnabyddir y swm derbyniadwy.

Amcangyfrifir lwfans colledion ar sail profiad casglu yn y gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer gwybodaeth gyfredol am amodau economaidd a gwybodaeth wrth edrych ymlaen i'r dyfodol.

Mae'r symiau derbyniadwy yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i weld a oes modd eu hadfer. Os yw'r adferiad yn ansicr ac nad oes cynnydd wedi'i wneud, efallai y bydd amhariad llawn ar y balansau. Mae hyn yn lleihau balans y symiau derbyniadwy a'r swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol. Cydnabyddir symudiadau mewn lwfansau amhariad yn y Datganiad Refeniw, Incwm a Gwariant Arall.

Pan fydd cosbau'n daladwy mewn rhandaliadau a phan fydd parti i gontract yn methu, bydd camau adennill yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, mae hyn fel arfer yn golygu y bydd amhariad llawn ar y balansau sy'n weddill nes bydd yr adferiad wedi'i gadarnhau. Bryd hynny, bydd unrhyw lwfans sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei ryddhau.

### *1.5 Treth Ar Werth (TAW)*

Mae ffioedd uno, cosbau o dan CA98, dirwyon defnyddwyr ac incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol y tu allan i gwmpas TAW.

## 2. Defnyddio cosbau CA98 i wrthbwyso costau ymgyfreitha

Mae gan y CMA gymeradwyaeth Trysorlys EF i wrthbwyso ei gostau ymgyfreitha ei hun gan ddefnyddio incwm o gosbau a gesglir o dan CA98.

£2.04 miliwn oedd y gost ymgyfreitha wedi'i gwrthbwyso yn 2025 i 2026 (2024 i 2025: £10.74 miliwn). Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu gostyngiad mewn atebolrwydd costau anffafriol yn ystod y cyfnod.

## 3. Ffrwd incwm newydd: Incwm ardoll Statws Marchnad Strategol (SMS) yr Uned Marchnadoedd Digidol

Yn 2025 i 2026, cyflwynodd y CMA ffrwd incwm newydd o dan Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024. Mae Adran 110 o'r Ddeddf yn darparu'r sail statudol ar gyfer ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol, sy'n galluogi'r CMA i adennill costau ei swyddogaethau marchnadoedd digidol.

Cyfrifir ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol ar sail costau cymwys y CMA, sy'n cynnwys:

- costau staff, yn seiliedig ar yr amser a dreulir gan staff y CMA ar waith marchnadoedd digidol;
- costau nad ydynt yn ymwneud â staff, megis teithio, tanysgrifiadau a gwasanaethau proffesiynol; a
- gorbenion, sy'n cynrychioli cyfran briodol o gostau sefydlog y CMA, gan gynnwys llety.

Mae'r costau hyn yn cael eu dyrannu ar draws y flwyddyn a dim ond am gyfnodau pan fydd gan endid ddynodiad SMS y codir tâl arnynt.

Rhwng 2025 a 2026, dynodwyd dau endid gydag SMS, gyda'r ddau ddynodiad yn digwydd ym mis Hydref 2025. O ganlyniad, codir un tâl ardoll am y flwyddyn, a disgwylir cylch bilio ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol.

Cyfanswm incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol a gydnabuwyd yn 2025 i 2026 oedd £6.81 miliwn.

Cydnabyddir refeniw o ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol pan fydd gan y CMA hawl orfodadwy i adennill ei gostau. Bydd hyn yn digwydd pan fydd endid wedi'i ddynodi â statws SMS a bod unrhyw gyfnod apelio perthnasol wedi dod i ben.

Mae holl incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol ac nid yw'n cael ei gadw gan y CMA.

## 4. Nodiadau ar y datganiadau llifoedd arian parod

Cynyddodd y llif arian parod net o weithgareddau gweithredol i £281.45 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 (2024 i 2025: £31.74 miliwn). Cafodd hyn ei sbarduno'n bennaf gan refeniw net uwch ar gyfer y Gronfa Gyfunol a chasglu symiau sy'n cael eu cydnabod fel incwm cronedig yn y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd y refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol i £197.22 miliwn (2024 i 2025: £123.72 miliwn), gan adlewyrchu cosbau uwch o dan y Ddeddf Cystadleuaeth 1998 (CA98), mwy o log ar gosbau, a chyflwyno incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol. Cafodd y cynnydd hwn ei wrthbwyso'n rhannol drwy lefel is o wrthbwyso cosbau CA98 ar gyfer costau ymgyfreitha.

Mae'r symudiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng incwm a gydnabuwyd ac arian a dderbyniwyd. Yn 2025 i 2026, bu gostyngiad o £84.50 miliwn mewn asedau nad ydynt yn arian parod (2024 i 2025: cynnydd o £92.21 miliwn), yn bennaf ar ôl casglu £85.30 miliwn o incwm cronedig cosbau CA98 a oedd wedi cael eu cydnabod yn 2024 i 2025.

Ar ben hynny, cydnabuwyd swm derbyniadwy newydd o £6.81 miliwn mewn perthynas ag incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol, sy'n cynrychioli symiau a enillir yn 2025 i 2026 a fydd yn cael eu casglu mewn cyfnodau yn y dyfodol.

## 5. Symiau derbyniadwy

### *5.1 Symiau derbyniadwy anghyfredol*

| Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Deddf Cystadleuaeth 1998 – symiau derbyniadwy cosbau | 3,602 | 9,437 |
| **Cyfanswm** | **3,602** | **9,437** |

### 5.2 Symiau derbyniadwy cyfredol

| Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Deddf Cystadleuaeth 1998 – symiau derbyniadwy cosbau | 5,566 | 5,693 |
| Deddf Cystadleuaeth 1998 incwm cronedig cosbau | 95 | 85,300 |
| Llai lwfans amhariad | (114) | (757) |
| Deddf Cystadleuaeth 1998 – cosbau net | **5,547** | **90,236** |
| Symiau derbyniadwy ffioedd uno | 800 | 610 |
| Incwm cronedig ffioedd uno | - | 280 |
| Llai lwfans amhariad | (42) | (91) |
| Ffioedd Uno Net | **758** | **799** |
| Incwm ardoll cronedig SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol | 6,810 | - |
| Llai lwfans amhariad | **-** | **-** |
| Incwm cronedig ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol net | **6,810** | **-** |
| Swm sy'n ddyledus o Brif Gyfrif y CMA | 264 | 1,006 |
| **Cyfanswm** | **13,379** | **92,041** |

Gostyngodd cyfanswm y symiau derbyniadwy cyfredol yn sylweddol i £13.38 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (2024 i 2025: £92.04 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf y casgliad yn 2025 i 2026 o £85.30 miliwn o incwm cosbau cronedig a gydnabuwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Cosbau CA98 yw prif elfen y symiau derbyniadwy o hyd. Roedd cosbau net CA98 yn £5.55 miliwn (2024 i 2025: £90.24 miliwn), gyda'r gostyngiad yn adlewyrchu lefelau is o gosbau newydd a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 2024 i 2025.

Roedd swm derbyniadwy ffioedd uno yn £0.76 miliwn (2024 i 2025: £0.80 miliwn), gan aros yn weddol gyson o un flwyddyn i'r llall.

Mae swm derbyniadwy newydd o £6.81 miliwn wedi cael ei gydnabod mewn perthynas ag incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol. Mae hyn yn cynrychioli costau cymwys a gafodd eu hysgwyddo yn 2025 i 2026 a fydd yn cael eu hadennill yn 2026 i 2027. Mae rhagor o wybodaeth am y ffrwd incwm hon ar gael yn y SoROIE a'r polisïau cyfrifyddu.

Gostyngodd y swm sy'n ddyledus o Brif Gyfrif y CMA i £0.26 miliwn (2024 i 2025: £1.01 miliwn), sy'n adlewyrchu'r balansau is sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r CMA yn asesu'r gallu i adennill symiau derbyniadwy yn unol ag IFRS 9 ac yn defnyddio lwfans colli credyd disgwyliedig lle bo hynny'n briodol. Gostyngodd y ddarpariaeth amhariad gyffredinol £0.24 miliwn o'i gymharu â 2024 i 2025, gan adlewyrchu setliad symiau derbyniadwy a gydnabuwyd yn flaenorol a'r lefel isel barhaus o ran risg diffygdalu. Pan fydd ansicrwydd o ran a oes modd adfer symiau derbyniadwy, er enghraifft pan fydd endid yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, bydd hyn yn golygu amhariad llwyr ar falansau nes bydd yr adennill wedi'i gadarnhau.

## 6. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Balans a ddaliwyd yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill** | **28,191** | **19,470** |
| Newid net mewn balansau arian parod | (28,191) | 8,721 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **-** | **28,191** |

Roedd y balansau arian parod a oedd yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth wedi gostwng i £dim ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £28.19 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu'r taliad incwm a gasglwyd yn ystod y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Trysorlys EF.

Yn 2025 i 2026, ildiodd y CMA £309.64 miliwn i'r Gronfa Gyfunol a throsglwyddo £1.67 miliwn i brif gyfrif y CMA i wrthbwyso costau ymgyfreitha cymwys. O ganlyniad, nid oedd balans arian parod ar ôl yn y Datganiad Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r symudiad mewn balansau arian parod yn adlewyrchu amseriad derbyniadau arian parod a thaliadau, yn hytrach na lefel yr incwm a gydnabyddir yn y Datganiad Refeniw, Incwm a Gwariant Arall (SoROIE).

Bydd £6.81 miliwn o incwm ardoll SMS yr Uned Marchnadoedd Digidol a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gasglu yn 2026 i 2027, gan adlewyrchu amseriad bilio o dan y drefn ardoll newydd.

## 7. Symiau Taladwy

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---:|---:|
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **£000** | **£000** |
| Defnyddio cosbau CA98 Cosbau i wrthbwyso costau ymgyfreitha | **22** | 292 |
| **Cyfanswm** | **22** | **292** |

Gostyngodd y symiau taladwy i £0.02 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (2024 i 2025: £0.29 miliwn). Mae'r balansau hyn yn ymwneud â symiau sy'n ddyledus mewn perthynas ag incwm cosbau CA98 a ddefnyddir i wrthbwyso costau ymgyfreitha cymwys.

Mae'r gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu'r lefel is o falansau sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn setliad yn ystod 2025 i 2026.

## 8. Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---:|---:|
| | **£000** | **£000** |
| **Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill** | **129,377** | 28,671 |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | **197,219** | 123,720 |
| Llai'r swm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | **(309,637)** | (23,014) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **16,959** | **129,377** |

Mae'r balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol yn cynrychioli symiau a gasglwyd gan y CMA ac sydd i fod i gael eu talu i Drysorlys EF.

Gostyngodd y balans i £16.96 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £129.38 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf lefel uchel y taliadau arian parod a wnaed i'r Gronfa Gyfunol yn ystod y flwyddyn.

Yn 2025 i 2026, cynhyrchodd y CMA refeniw net o £197.22 miliwn ar gyfer y Gronfa Gyfunol a thalodd £309.64 miliwn i Drysorlys EF. Mae'r taliadau a wnaed yn cynnwys symiau a gasglwyd yn y blynyddoedd presennol a blaenorol, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn y balans terfynol.

## 9. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol ag IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, ystyrir digwyddiadau hyd at y dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Ymddiriedolaeth, sef y dyddiad y bydd yn cael ei ardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Digwyddiadau nad ydynt yn addasu**

Ar 15 Ebrill 2026, rhoddodd y CMA hysbysiad torri amodau terfynol i Automobile Association Developments Limited o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn Neddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024. Rhoddodd hyn gosb ariannol o £4.20 miliwn, yn daladwy erbyn 15 Mehefin 2026.

Nid oes angen addasu'r Datganiad Ymddiriedolaeth ar gyfer y digwyddiad hwn, gan fod yr hawl orfodadwy i'r incwm wedi codi ar ôl y dyddiad adrodd.

# Atodiad: Tablau Craidd

### Tablau Craidd (ddim yn destun archwiliad)

Mae'r Tablau Craidd yn ofyniad newydd o 2025 i 2026 ymlaen yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Drysorlys EF. Maent yn crynhoi gwariant adnoddau a chyfalaf net hanesyddol (Alldro) y CMA ar gyfer y blynyddoedd 2021 i 2022 i 2025 i 2026 a'r gwariant adnoddau a chyfalaf net sydd i ddod (Cynllun) ar gyfer y blynyddoedd 2026 i 2027 i 2028 i 2029. Gall data'r Cynllun newid gan ei fod yn seiliedig ar ragolygon gwariant yn y dyfodol.

Mae'r data hanesyddol yn cyd-fynd â'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyhoeddedig ac mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd â setliad Adolygiad o Wariant 2025 y CMA, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw gyhoeddiadau gwariant cyhoeddus a wneir mewn digwyddiadau cyllidol eraill. Mae'r data yn y Tablau Craidd hyn hefyd yn cyd-fynd â System Ar-lein Trysorlys EF ar gyfer Cyfrifyddu ac Adrodd Canolog (OSCAR).

Mae Tabl 1 yn nodi sut mae cyfanswm yr adnoddau a'r gwariant cyfalaf wedi'i rannu rhwng y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Mae Tabl 2 yn nodi perfformiad ariannol y CMA o ran rhedeg yr adran, drwy ein swyddogaethau corfforaethol a chymorth, yn erbyn y cyfanswm rheoli gweinyddol a bennwyd gan Drysorlys EF, yn bennaf mewn Adolygiadau o Wariant.

### Tabl 1 – Gwariant Cyhoeddus

| | Alldro | Alldro | Alldro | Alldro | Alldro | (Cynllun) | (Cynllun) | (Cynllun) | (Cynllun) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| DEL Adnoddau | 97,937 | 115,349 | 123,059 | 137,523 | 136,062 | 130,362 | 130,362 | 129,710 | I'w gadarnhau |
| DEL Cyfalaf | 2,675 | 6,528 | 6,330 | 6,501 | 5,640 | 8,500 | 5,800 | 6,552 | 5,890 |
| Adnodd (AME) | 7,875 | (8,979) | 18,157 | (15,739) | (8,360) | 35,624 | 15,477 | 15,077 | Ddim ar gael |
| Cyfalaf (AME)[27] | - | (173) | (345) | 274 | 822 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Cyfanswm Gwariant Net | 108,487 | 112,725 | 147,201 | 128,559 | 134,164 | 174,486 | 151,639 | 151,339 | 5,890 |

[27] Mae'r cyllidebau AME (Adnoddau a Chyfalaf) yn cael eu harwain gan y galw a'u hadolygu'n flynyddol yn y broses Amcangyfrif Cyflenwad. Mae'r cynlluniau ar gyfer AME Adnoddau yn cynrychioli taliadau dibrisiant a fydd, o 2026 i 2027, yn cael eu categoreiddio fel gwariant AME yn unol â rheolau Trysorlys EF.

**Tabl 2 - Cyllidebau Gweinyddol**

| | Alldro | Alldro | Alldro | Alldro | Alldro | (Cynllun) | (Cynllun) | (Cynllun) | (Cynllun) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Y Gyllideb Weinyddol** | 26,640 | 26,640 | 31,395 | 32,721 | 36,091 | 31,907 | 31,117 | 31,124 | I'w gadarnhau |
| **Alldro** | 19,070 | 19,777 | 24,349 | 26,373 | 26,255 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| **Amrywiant** | 7,570 | 6,863 | 7,046 | 6,348 | 9,836 | - | - | - | - |

E03595059
978-1-5286-6468-4

**Bilingual graphic uneditable text**

Text for graphic on page 10

| | |
|---|---|
| Defnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac yn ddibynadwy | Safe, trusted adoption of AI |
| Meddwl am gystadleuaeth i gefnogi'r broses o lunio polisïau: ehangu'n gymesur, caffael cyhoeddus, rheoleiddio, Rhaglen Twf yr Uned Micro-economeg | Competition thinking to support policy-making: scaleups, public procurement, regulation, MU Growth Programme |
| Rhaglen pedair elfen y 4P i roi hwb i hyder busnesau a buddsoddwyr yn nhirwedd rheoleiddio'r DU | 4Ps programme to boost business and investor confidence in UK regulatory landscape |
| Astudiaeth o'r farchnad peirianneg sifil | Civil engineering market study |
| Ymchwiliadau SMS cyntaf o dan y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol (DCMR): Chwilio ac Ecosystemau Symudol, meddalwedd busnes Microsoft | First SMS investigations under DMCR: Search and Mobile Ecosystems, Microsoft business software |
| Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gystadleuol wrth adeiladu tai | Tackling anti-competitive behaviour in housebuilding |
| Ymateb ystwyth i'r sefyllfa yn y Dwyrain Canol: monitro tanwydd ffyrdd, olew gwresogi | Agile Middle East response: road fuel monitoring, heating oil |
| Portffolio diogelu defnyddwyr: ymchwiliadau cyntaf dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, Ticketmaster, adolygiadau ffug, prisio ar-lein, canllawiau busnes ac allgymorth | Consumer protection portfolio: first DMCCA investigations, Ticketmaster, fake reviews, online pricing, business guidance and outreach |
| Gwaith ar farchnadoedd i ddefnyddwyr: gwasanaethau milfeddygon, deintyddiaeth breifat | Consumer-facing markets work: vets services, private dentistry |
| Arbedion i drethdalwyr drwy orfodi cystadleuaeth: rigio cynigion a chyffuriau'r GIG | Taxpayer savings through competition enforcement: bid rigging and NHS drugs |
| Sbarduno Twf | Driving Growth |
| Gwella Ffyniant Aelwydydd | Improving Household Prosperity |

Text for graphic on page 92

| | |
|---|---|
| **Bwrdd y CMA** | **CMA Board** |
| **Mae Bwrdd y CMA yn rhoi cyfeiriad strategol ac yn sicrhau bod dyletswyddau a swyddogaethau statudol yn cael eu cyflawni. Mae'r Bwrdd yn penderfynu a ddylid lansio astudiaethau marchnad a dechrau ymchwiliadau i'r farchnad.** | **The CMA Board provides strategic direction and ensures that statutory duties and functions are fulfilled. The Board decides whether to launch market studies and initiate market investigations.** |
| | |
| **Pwyllgorau'r Bwrdd** | **Board Committees** |
| **Mae'r Pwyllgorau hyn yn cael eu sefydlu gan y Bwrdd, sy'n llywodraethu eu Cylch Gorchwyl** | **These Committees are established by the Board which governs their Terms of Reference** |
| **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)** | **Audit and Risk Assurance Committee (ARAC)** |
| Cynghori'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar brosesau rheolaeth fewnol, archwilio a sicrwydd risg | Advises the Board and Chief Executive on internal control, audit and risk assurance processes |
| **Y Pwyllgor Taliadau (RemCo)** | **Remuneration Committee (RemCo)** |
| Adolygu perfformiad Uwch Weision Sifil a dyfarnu tâl a thaliadau bonws. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar faterion taliadau staff nad ydynt yn Uwch Weision Sifil | Reviews SCS performance and awards pay and bonuses. Also advises the Board on non-SCS staff remuneration issues |
| **Yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (SAU)** | **Subsidy Advice Unit (SAU)** |
| Ystyried materion strategol sy'n ymwneud â swyddogaethau rheoli cymorthdaliadau'r Uned | Considers strategic matters related to the SAU's subsidy control functions |
| **Pwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd (DMBC)** | **Digital Markets Board Committee (DMBC)** |
| Goruchwylio a gwneud penderfyniadau dirprwyedig ar swyddogaethau marchnadoedd digidol nad ydynt wedi'u cadw'n ôl, a goruchwylio penderfyniadau'r Weithrediaeth yng nghyd-destun pwerau'r drefn cystadleuaeth ddigidol | Oversees and takes delegated decisions on the non-reserved digital markets functions, and oversees decisions taken by the Executive in the context of the digital competition regime powers |
| **Y Pwyllgor Gweithredol (XCo)** | **Executive Committee (XCo)** |
| Canolbwyntio ar faterion strategol, perfformiad, newid sefydliadol, cyllid, risgiau a chyflawni | Focuses on strategic issues, performance, organisational change, finances, risks and delivery |
| **Y Pwyllgor Achosion a Pholisi (CPC)** | **Case and Policy Committee (CPC)** |
| Goruchwylio achosion a phrosiectau, gan sicrhau dull gweithredu cyson | Oversees cases and projects, ensuring consistency of approach |

| | |
|---|---|
| | |
| **Is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol** | **XCo sub-committees** |
| **Y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell (RPPC)** | **Resourcing, Portfolio and Pipeline Committee (RPPC)** |
| Ystyried cynigion ar gyfer cychwyn ymchwiliadau ac adnoddau ar gyfer achosion | Considers proposals for initiating investigations and case resourcing |
| **Y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau (POC)** | **People and Operations Committee (POC)** |
| Goruchwylio polisïau corfforaethol, yn enwedig mewn perthynas â phobl | Oversees corporate policies, particularly in relation to people |
| **Pwyllgorau Eraill** | **Other Committees** |
| Pwyllgorau ar feysydd penodol fel Iechyd a Diogelwch, diogeledd, cynaliadwyedd a goruchwyliaeth fasnachol | Committees on specific areas such as Health & Safety, security, sustainability and commercial oversight |
| **Y Pwyllgor Cynghori (AdCo)** | **Advisory Committee (AdCo)** |
| Corff cynghori o blith y staff sy'n cynghori'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phiblinell a'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau ar faterion strategol a gweithredol allweddol i sicrhau bod amrywiaeth eang o leisiau'n cyfrannu at y materion hyn | A staff advisory body that advises XCo, RPPC and POC on key strategic and operational matters to ensure diverse range of voices are inputting into these issues |
| | |
| **Fforymau gwneud penderfyniadau annibynnol** | **Independent decision-making forums** |
| **Panel y CMA (Cystadleuaeth)** | **CMA Panel (Competition)** |
| Panel gwneud penderfyniadau annibynnol sy'n cynnal ymchwiliadau cam dau yng nghyswllt uno cwmnïau neu'r farchnad ac apeliadau rheoleiddio. Mae aelodau'r panel yn aelodau o Bwyllgor Marchnadoedd Digidol y Bwrdd, a gallant hefyd wasanaethu ar Grwpiau Penderfynu ar Achosion ar gyfer achosion CA98 a Phaneli Rheoli Achosion ar gyfer achosion troseddol | Independent decision-makers who conduct phase two merger or market investigations and regulatory appeals. Panel members are members of the DMBC, and may also serve on Case Decision Groups for CA98 cases and Case Management Panels for criminal cases |
| **Swyddfa'r Farchnad Fewnol (Panel OIM)** | **Office for the Internal Market (OIM Panel)** |
| Mae Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cynorthwyo'r Swyddfa i gyflawni ei swyddogaethau, fel y nodir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU. | The OIM Panel assists the OIM in carrying out its functions, as set out in the UK Internal Market Act. |